Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 69/2025

Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2025

# Gwerthusiad o’r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-095-9

Gwerthusiad o’r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth

Awduron: Gareth Curless, Sophie Findlay, a Benjamin Lewis.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Gareth Curless, Sophie Findlay, a Benjamin Lewis. (2025). Gwerthusiad o’r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 69/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-grant-ymgysylltu-democratiaeth

Barn yr ymchwilwyr yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Rhaglen Ymchwil Fewnol

Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: rhyf.irp@llyw.cymru

**Tabl o’r cynnwys**

Tabl o’r cynnwys ..... 1

Rhestr o dablau ..... 2

Rhestr o ffigurau ..... 3

Rhestr termau ..... 4

1. Cyflwyniad a Chefndir ..... 5

2. Methodoleg ..... 18

3. Model rhesymeg y GYD ..... 27

4. Canfyddiadau – nod 1: Dylunio a chyflawni’r cynllun cyllid grant cyfredol. ..... 44

5. Canfyddiadau – nod 2: Effaith ganfyddedig y cynllun cyllid grant. ..... 74

6. Canfyddiadau – nod 3: Gwella monitro a gwerthuso. ..... 112

7. Casgliadau ..... 131

8. Argymhellion ..... 153

Adran gyfeirio ..... 161

Atodiad A. Cwestiynau canllaw pwnc i dderbynyddion y grant. ..... 166

Atodiad B. Cwestiynau canllaw pwnc ar gyfer awdurdodau lleol (ALl) a rhanddeiliaid allanol ehangach. ..... 172

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Nifer y ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus am gyllid rhwng mis Ionawr a mis Medi 2023 [Nodyn 1] ........ 44

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Model rhesymeg y GYD....................................................................................28

## Rhestr termau

**GYD**

Grant Ymgysylltu â Democratiaeth

**PYD**

Partneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth. Hwn yw'r cyfarfod rheolaidd y mae'n ofynnol i dderbynyddion y grant ei fynychu fel rhan o gael y grant.

**SCCE**

Swyddog Cymorth Cofrestru Etholiadol

# 1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Comisiynodd y tîm polisi Etholiadau (Llywodraeth Cymru) y Rhaglen Ymchwil Fewnol (RhYF, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) i gynnal adolygiad o'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth (GYD).

1.2 Cyflwynwyd y GYD ym mis Ionawr 2023. Fe'i hanelir at sefydliadau nid-er-elw yn y trydydd sector, ac awdurdodau lleol sy'n gallu dangos bod angen cyllid i sicrhau dull arloesol o ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, grwpiau sydd newydd gael eu hetholfreinio a phobl anabl mewn democratiaeth.

### Cefndir ymgysylltu â democratiaeth

1.3 Fel y nodwyd mewn adroddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2023), yng Nghymru (a'r DU) mae problemau ynghylch diffyg cofrestru etholiadol a chanran isel yn pleidleisio a diffyg dealltwriaeth wleidyddol gyffredinol ymhlith dinasyddion. Adolygodd adroddiad gan y Comisiwn Etholiadol (2023) gofrestri etholiadol mis Rhagfyr 2022 yn y DU, y mae atodiad penodol i Gymru iddo (Comisiwn Etholiadol, 2023). Dangosodd hyn fod lefelau cofrestru cyffredinol (cyflawnrwydd cofrestr) wedi gwella ers 2018. Fodd bynnag, roedd lefel gofrestru is ymhlith rhai grwpiau, gan gynnwys pobl ifanc rhwng 18 a 34 oed[1]. Ategwyd hyn hefyd gan adroddiad y Comisiwn Etholiadol (2021) ac adroddiad y Comisiwn Etholiadol (2022) a nododd lefelau isel o bleidleiswyr cyffredinol yn etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru (46.8% yn 2021, 38% yn 2022). Adroddwyd bod y nifer a bleidleisiodd hefyd yn is ar gyfer grwpiau oedran dan 55 (2021) a than 35 (2022).

1.4 Mae pobl ifanc, gwladolion tramor cymwys, oedolion sydd wedi ymddieithrio a phobl anabl yn wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu â democratiaeth, a all fod yn wahanol ar draws y grwpiau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu nifer o brosiectau ymchwil er mwyn deall yn well y rhwystrau rhag ymgysylltu â democratiaeth i'r grwpiau penodol hyn.

---

[1] Mae'r adroddiad yn awgrymu bod cyflawnrwydd cofrestr yn 2022 yng Nghymru yn 79% ar gyfer pobl ifanc 18 i 34 oed. Cynyddodd y ganran ar gyfer cyflawnrwydd cofrestr gyda'r band oedran ac roedd yn 97% ar gyfer y rhai 65 oed a hŷn.

1.5 Mae papur ymchwil Llywodraeth Cymru ‘Adnewyddu democrataidd: tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol‘ (2019) yn cyfosod y dystiolaeth bresennol ynghylch dulliau o gynnwys dinasyddion mewn prosesau democrataidd, gan gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor. Nododd y canfyddiadau fod lefel ymgysylltu yn amrywio ar draws grwpiau, ac y dylid teilwra dulliau ymgysylltu ar gyfer anghenion gwahanol grwpiau sydd wedi ymddieithrio. Nodwyd pwysigrwydd addysg ac ymwybyddiaeth a’r dylanwad canfyddedig ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth hefyd.

1.6 Gan adeiladu ar hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru y papur ymchwil ‘Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: ymchwil archwiliol‘ (2020) a gasglodd ddata sylfaenol, gan siarad â phobl ifanc, gwladolion tramor ac oedolion wedi ymddieithrio. Cyfeiriwyd at wahanol rwystrau rhag ymgysylltu gan gynnwys diffyg gwybodaeth, y pwnc yn cael ei ystyried yn anneniadol neu’n ddiflas, nad yw cymryd rhan yn gwneud unrhyw wahaniaeth, a theimlo wedi’u datgysylltu oddi wrth ddemocratiaeth. Awgrymodd yr awduron ddulliau i oresgyn y rhwystrau hyn.

1.7 Gan ganolbwyntio’n benodol ar hygyrchedd etholiadau i bobl anabl, comisiynodd Llywodraeth Cymru bapur ymchwil ‘Hygyrchedd ymgysylltiad democrataidd yng Nghymru: adolygiad tystiolaeth‘ (2024) sy’n cyfosod y dystiolaeth bresennol. Mae’r rhwystrau’n cynnwys diffyg mynediad at wybodaeth (gan gynnwys cofrestru pleidleiswyr a’r broses o bleidleisio, llenyddiaeth etholiadol, y cyfryngau, ac addysg ehangach); heriau logistaidd sy’n ymwneud â lleoliad yr orsaf bleidleisio a’i hagosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau parcio hygyrch; problemau o fewn yr orsaf bleidleisio ei hun; ac anawsterau gyda’r profiad o bleidleisio.

**Cefndir polisi: diwygio etholiadol a mentrau blaenorol Llywodraeth Cymru o ran ymgysylltu â democratiaeth**

1.8 Datganolwyd cyfrifoldeb am etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol drwy Ddeddf Cymru 2017. Mae Rhaglen Lywodraethu (2021 i 2026) Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol er mwyn lleihau'r diffyg democrataidd. Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau datganoledig i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru (gwladolion tramor cymwys). Mae'r rhain yn grwpiau 'newydd eu hetholfreinio'. Yr etholiadau cyntaf y gallai'r grwpiau hyn bleidleisio ynddynt oedd etholiadau Senedd 2021 ac etholiadau llywodraeth leol 2022.

1.9 Wrth agosáu at etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, bu swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol, megis Comisiwn y Senedd a'r Comisiwn Etholiadol, i ddatblygu ymgyrch gyfathrebu genedlaethol a deunyddiau addysgol i gynyddu ymwybyddiaeth a chofrestru mewn grwpiau newydd eu hetholfreinio.

1.10 Mewn adroddiad am etholiadau'r Senedd 2021 (y Comisiwn Etholiadol, 2021), roedd y nifer a bleidleisiodd yn 46.8% ac yn debyg i 2016 yn fras. Roedd y nifer rhwng 16 a 17 oed a bleidleisiodd yn debyg i grwpiau oedran iau eraill, a oedd dipyn is na'r nifer a bleidleisiodd dros 55 oed.

1.11 Mewn dau ddatganiad ysgrifenedig ar ddiwygio etholiadol (Gorffennaf 2021), amlygodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd fod angen tegwch cyfranogiad mewn democratiaeth. Nodwyd bod democratiaeth iach yn golygu grymuso dinasyddion i gymryd rhan mewn llawer o ffyrdd, gan gynnwys estyn y tu hwnt i'r weithred o bleidleisio. Mae chwalu rhwystrau rhag cyfranogiad yn bwysig ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth. Roedd y 'Datganiad Ysgrifenedig: Fframwaith ar gyfer diwygio etholiadol' cyntaf yn nodi chwe egwyddor i lywio diwygio etholiadol a chefnogi ymgysylltu a chyfranogiad democrataidd:

- Tegwch: Rhaid i bawb sydd am gymryd rhan mewn democratiaeth gael ei alluogi i wneud hynny, a hynny mewn amgylchedd diogel a pharchus, fel bod ein sefydliadau yn amrywiol ac yn cynrychioli'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.
- Hygyrchedd: Dylai newidiadau i systemau etholiadol a chyfraith etholiadol fod yn seiliedig ar yr egwyddor o wneud pleidleisio a chyfranogiad mewn democratiaeth mor hygyrch a chyfleus â phosibl, gan feithrin gallu i ganiatáu i hynny ddigwydd ac annog creadigrwydd ar bob lefel o ddemocratiaeth.
- Cyfranogiad: Rydym am i gynifer o bobl â phosibl arfer eu hawl ddemocrataidd i bleidleisio. Rôl pawb sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau yw sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn pleidleisio mewn etholiadau.
- Gwella profiad dinasyddion: Dylai dinasyddion gael yr offer i lunio eu cymunedau a'u gwlad trwy ymgysylltu, cynrychioli a chyfranogi.
- Symlrwydd: Rhaid moderneiddio'r system etholiadol weinyddol a'r gyfraith etholiadol yng Nghymru er mwyn ei gwneud yn haws i ddinasyddion gofrestru i bleidleisio, pleidleisio a chymryd rhan.
- Uniondeb: Rhaid i uniondeb a thryloywder fod yn sail i bob diwygio etholiadol yng Nghymru. Rhaid i ni gael system y mae dinasyddion yn ymddiried ynddi a rhaid rhannu gwybodaeth o ffynonellau cyfreithlon.

1.12 Roedd yr ail 'Ddatganiad Ysgrifenedig: Diwygio Etholiadol' yn nodi pedair ffrwd waith cyn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022, a oedd yn cynnwys cynyddu cofrestriadau, a chynyddu ymgysylltiad democrataidd cyffredinol (yn enwedig i bobl ifanc a'u dealltwriaeth o effaith llywodraeth ar eu bywydau).

1.13 Yn unol â'r ffrydiau gwaith hyn a'r egwyddorion yn y fframwaith diwygio etholiadol (yn enwedig tegwch, hygyrchedd, cyfranogiad a gwella profiad dinasyddion), lansiodd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru nifer o fentrau yn y cyfnod cyn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022. Y nod oedd cynyddu cofrestru ac ymgysylltu, yn enwedig ar gyfer grwpiau newydd eu hetholfreinio. Y bwriad hefyd oedd adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r gweithgareddau a ddatblygwyd ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021. Y mentrau oedd:

- Ymgyrch gyfathrebu ledled Cymru ('Oherwydd fy mod i'n Gallu')
- Gohebiaeth yn y post wedi'i thargedu
- Darparu adnoddau a chynnal digwyddiadau ymgysylltu i ysgolion, mewn partneriaeth â sefydliad allanol
- Ychwanegu at offeryn ar-lein ar gyfer darparu gwybodaeth am bleidleiswyr, mewn partneriaeth â sefydliad allanol
- Cyflwyno cynlluniau grant

1.14 O ran yr ohebiaeth yn y post wedi'i thargedu, gwnaeth 17 o'r 22 awdurdod lleol gais am gyllid ychwanegol a oedd ar gael i anfon dau Lythyr Hysbysu Aelwyd (LlHA). Mewn chwe awdurdod lleol, cyfeiriwyd LlHA yn uniongyrchol at bobl ifanc, trwy ddefnyddio data addysg.

1.15 Roedd un cynllun grant ar gyfer timau gwasanaethau etholiadol mewn awdurdodau lleol i ariannu Swyddog Cymorth Cofrestru Etholiadol (SCCE) pwrpasol rhwng mis Medi 2021 a mis Mawrth 2022, er mwyn cynyddu'r capasiti i ymgysylltu â grwpiau newydd eu hetholfreinio a'u cofrestru. Cafodd ugain o'r 22 awdurdod lleol y grant. Fel rhan o'r grant, ymunodd SCCE â rhwydwaith lle roeddent yn rhannu diweddariadau am y gwaith yr oeddent yn ei wneud i gynyddu cofrestriadau.

1.16 Un arall oedd y 'Grant Cymorth Cofrestru Pleidleiswyr', a oedd yn gynllun grant cystadleuol i sefydliadau'r trydydd sector. Roedd hwn yn werth £100,000 ac fe'i dyfarnwyd ar draws chwe sefydliad i gyflawni prosiectau pwrpasol i gyrraedd ac ymgysylltu â grwpiau newydd eu hetholfreinio a chynyddu cofrestriadau. Lluniodd pob sefydliad adroddiad gwerthuso ar ddiwedd ei brosiect.

1.17 Ni chynhaliwyd gwerthusiad annibynnol, cyhoeddedig o'r mentrau a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru cyn etholiadau llywodraeth leol 2022. Felly, nid yw cwmpas yr adroddiad hwn yn cynnwys sylwadau ar ganlyniadau'r mentrau hyn, gan gynnwys cynyddu cofrestriadau ac ymgysylltu. Mewn adroddiad o etholiadau llywodraeth leol 2022 yng Nghymru (y Comisiwn Etholiadol, 2022), roedd y nifer a bleidleisiodd yn is nag yn 2017 o bedwar pwynt canran sef 38%. Roedd y nifer a bleidleisiodd ar ei isaf i'r rhai dan 35 oed. Nododd yr adroddiad adborth cadarnhaol ynglŷn â chynllun SCCE:

*'... Croesawyd yr adnodd ychwanegol hwn gan awdurdodau lleol ac roedd yn hanfodol wrth gyflwyno meysydd gwaith allweddol i grwpiau targed lleol, yn enwedig pobl ifanc. Barn gryf yr awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw oedd y dylai'r adnodd hwn barhau i fod ar gael i sicrhau yr adeiledir ar y sylfeini a osodwyd eisoes ac y gall y gwaith pwysig hwn barhau.'*

1.18 Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022, cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol (mis Hydref 2022). Roedd hwn yn ymgynghoriad a oedd yn nodi cynigion am weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio etholiadol ar gyfer etholiadau datganoledig 2026 a 2027. Yn y 'Datganiad Ysgrifenedig: Papur Gwyn Diwygio Etholiadol' (mis Mawrth 2023), amlygodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd y diwygiadau y bwriadwyd eu datblygu o ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

1.19 Dilynodd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), gan nodi'r mesurau deddfwriaethol. Yn y 'Datganiad Ysgrifenedig: Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)' (mis Hydref 2023), amlinellodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ar y pryd elfennau wedi'u cynnwys yn y bil. Nodwyd bod y bil, ochr yn ochr â'r pecyn diwygio ehangach, yn ceisio helpu i gynyddu cyfranogiad yn etholiadau Cymru. Hwn bellach yw 'Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024' (mis Medi 2024). Mae rhai o'r diwygiadau'n cynnwys y canlynol, ac mae rhagor o fanylion ar gael yn 'Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – Crynodeb o'r Bil' (Ymchwil y Senedd, 2023):

- Dylunio a threialu cofrestru awtomatig etholwyr cymwys.
- Gwella hygyrchedd etholiadau i bobl anabl trwy osod dyletswyddau i ddarparu offer ar gyfer helpu pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol.
- Sefydlu platfform gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein gyda gwybodaeth am y Senedd ac etholiadau lleol, er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth am etholiadau yng Nghymru.
- Cynyddu cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sefyll am swydd etholedig, i gefnogi a chynrychioli eu cymunedau. Mae hyn yn ceisio adeiladu ar y cynllun peilot o gymorth ariannol i helpu ymgeiswyr anabl yn etholiadau Cymru i chwalu rhwystrau rhag eu cyfranogiad.

**Cefndir: mentrau ehangach**

1.20 Mae yna fentrau eraill sy'n ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth y tu allan i ddiwygio etholiadol.

1.21 Fel y nodwyd yn y 'Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol' (2022), lansiwyd y Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. O fewn maes dysgu a phrofiad y dyniaethau anogir dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithgar a gwybodus, gan ddeall sut i arfer eu hawliau democrataidd. Felly, mae yna hefyd gyfleoedd mewn lleoliadau addysg i gefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth.

1.22 Mae'r Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Senedd hefyd yn gwneud gwaith allgymorth ac ymgysylltu rheolaidd. Mae gan y Comisiwn Etholiadol ymgyrch 'Croeso i Dy Bleidlais' ac mae hefyd wedi cynhyrchu adnoddau ar gyfer addysg democratiaeth fel rhan o faes dysgu dyniaethau'r Cwricwlwm i Gymru ar lefel addysg gynradd ac uwchradd. Mae Comisiwn y Senedd hefyd yn cynnig addysg ac ymgysylltu ag ieuenctid, megis sesiynau, adnoddau ac ymweliadau â'r Senedd, gan gynnwys sut i sefyll a phleidleisio yn Senedd Ieuenctid Cymru.

*Cynlluniau grant eraill*

1.23 Fel rhan o'u hymchwiliad, aeth y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ati i ymgysylltu â phobl Cymru am y ffordd y mae eu gwlad yn cael ei llywodraethu a'r dewisiadau ar gyfer y dyfodol (Adroddiad terfynol, 2024). Fel rhan o hyn, sefydlwyd cynllun grant 'Cronfa Ymgysylltu â'r Gymuned' er mwyn i sefydliadau'r trydydd sector neu grwpiau cymunedol gynnwys eu cymunedau yn y sgwrs genedlaethol, yn enwedig y rhai nad ydynt efallai'n teimlo bod eu llais yn cael ei glywed. Roedd gwerth £5,000 o grant fesul sefydliad ar gael ac roedd y gweithgaredd yn fyrdymor. Lansiwyd prosiectau ym mis Medi 2022 ac roeddent yn cyfrannu at adroddiad interim y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2022), a oedd yn cynnwys gwaith hyd at fis Tachwedd 2022.

1.24 Mae gan Joseph Rowntree Reform Trust 'Gronfa Democratiaeth y DU'. Er bod y gronfa hon yn cefnogi rhywfaint o weithgarwch yng Nghymru, nid yw'n benodol i Gymru ac etholiadau Cymru. Sefydlwyd y gronfa yn 2019 ac mae'n amhleidiol. Mae'n ceisio ymdrin â chyfranogiad anghyfartal mewn democratiaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gofrestru, pleidleisio ac etholiadau. Mae'n gronfa

gymharol fawr, lle mae ceisiadau am hyd at £10,000 o grantiau ar agor ar unrhyw adeg, ac mae cylchoedd cyllido chwarterol am geisiadau am fwy na £10,000.

**Cefndir: datblygu'r GYD**

1.25 Fel rhan o'r mentrau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022, cafodd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru adborth gan dderbynyddion 'Grant Cymorth Cofrestru Pleidleiswyr y Trydydd Sector'. Roedd yr adborth yn amlygu bod angen dull hirdymor o drafod y broses ddemocrataidd gyda'r grwpiau newydd eu hetholfreinio i oresgyn rhwystrau ac i ymgorffori gwybodaeth. Nid oedd mentrau i ymgysylltu grwpiau â democratiaeth ar adeg etholiadau yn unig yn cael eu hystyried yn ddigonol.

1.26 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y GYD gyda'r bwriad o adeiladu ar fentrau etholiadau llywodraeth leol 2022 drwy ddarparu cyllid i gefnogi prosiectau i ymgysylltu â'r boblogaeth dros gyfnod hirach (y tu allan i gylchoedd etholiadol).

1.27 Cafodd y grant ei gymeradwyo am gyfnod cychwynnol o dair blynedd, sef 2022/23 i 2024/25 (blynyddoedd ariannol, o fis Ebrill i fis Mawrth). Roedd cyfanswm o £900,000 ar gael drwy gydol y cyfnod hwn. Gan fod y GYD wedi'i gyflwyno ym mis Ionawr 2023, y flwyddyn ariannol lawn gyntaf oedd 2023/24 (mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024). Cafodd un sefydliad gyllid yn 2022/23 (mis Ionawr i fis Mawrth 2023), a chafodd pymtheg sefydliad gyllid yn 2023/24 (mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024).

1.28 Mae'r grant ar gyfer sefydliadau nid-er-elw yn y trydydd sector ac awdurdodau lleol sy'n gallu dangos bod angen cyllid i sicrhau dull arloesol o ymgysylltu'r grwpiau canlynol â democratiaeth.

- Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Grwpiau newydd eu hetholfreinio, gan gynnwys pobl ifanc 16 i 17 oed a gwladolion tramor cymwys.
- Pobl anabl.

1.29 Amcanion yr arian grant yw:

- Galluogi nifer o sefydliadau i annog a chefnogi pobl yn eu cymunedau rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn democratiaeth.
- Helpu sefydliadau a ariennir i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael eu cynnwys, eu cymell a'u grymuso i ymgysylltu â democratiaeth, gan roi'r offer iddynt sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac effeithio'n gadarnhaol ar y Gymru o'u cwmpas.
- Cefnogi prosiectau i ymgysylltu â'r boblogaeth dros gyfnod parhaus.

1.30 Hefyd, yn rhan o'r GYD, roedd disgwyl i sefydliadau a gafodd y grant gymryd rhan ym Mhartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth (PYD) Cymru. Cyfarfod yw hwn sy'n dod â derbynyddion y grant a sefydliadau sydd â diddordeb yn y broses ddemocrataidd ynghyd. Nod hyn yw:

- Caniatáu i unrhyw gyfleoedd cydweithio gael eu harchwilio.
- Galluogi prosiectau i elwa ar ystod eang o fewnwelediad ac arbenigedd.

1.31 Mae nodiadau canllaw ffurflen gais y GYD (Llywodraeth Cymru, 2024) yn amlinellu mai bwriad swyddogion polisi Llywodraeth Cymru oedd i'r cyllid fod o fudd i gynifer â phosibl o bobl y grwpiau targed ac i ariannu prosiectau o bob cwr o Gymru. Nodwyd diddordeb arbennig mewn ariannu prosiectau sydd ag elfen ddigidol, neu sy'n annog cydweithio â sefydliadau y tu allan i Gymru sy'n arweinwyr yn y maes hwn ac sy'n gallu dangos arferion gorau.

1.32 Roedd dau fath o brosiect y ceisiodd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru eu hariannu. Anogwyd ceisiadau am brosiectau mwy sy'n adeiladu ar waith sydd eisoes wedi dangos gweithgarwch ac effaith. Anogwyd ceisiadau hefyd am brosiectau peilot llai, gan gynnwys dulliau arloesol o oresgyn y rhwystrau rhag ymgysylltu â democratiaeth a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys rhwystrau a nodwyd yn 'Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: ymchwil archwiliol' (2020). Roedd ffurflenni cais ar wahân ar gyfer sefydliadau a oedd yn gwneud cais am £1,000 neu lai, a thros £1,000.

*Y cyd-destun ehangach*

1.33 Mae'r GYD yn rhan o ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu (2021 i 2026) Llywodraeth Cymru i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol er mwyn lleihau'r diffyg democrataidd. Fel y nodwyd yn yr egwyddorion i ategu dull Llywodraeth Cymru o gefnogi ymgysylltu a chyfranogiad democrataidd, mae'r GYD yn cydredeg â:

- Tegwch a Hygyrchedd: Drwy anelu at gyrraedd grwpiau ledled Cymru, gan gynnwys ffocws ar ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cymryd rhan mewn democratiaeth.
- Cyfranogiad a Gwella profiad dinasyddion: Trwy anelu at helpu sefydliadau a ariennir i gefnogi grwpiau i ymgysylltu a chymryd rhan mewn democratiaeth, a rhoi'r offer iddynt leisio eu barn.

1.34 Dylai dulliau o wella cyfranogiad democrataidd hefyd gydredeg yn rhesymol â'r nodau lles o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn benodol, 'Cymru sy'n fwy cyfartal', drwy helpu sefydliadau a ariennir i gefnogi grwpiau i ymgysylltu a chymryd rhan mewn democratiaeth, yn enwedig y rhai sy'n wynebu rhwystrau. Ar ben hynny, mae'n cyd-fynd â'r modd 'cydweithio' trwy ddarparu cyllid i sefydliadau sy'n wybodus am eu cymunedau neu grwpiau targed ac sydd â chysylltiadau â hwy. Yn ogystal, trwy'r PYD sy'n ceisio sicrhau bod sefydliadau'n rhannu eu dulliau, eu hadnoddau ac unrhyw heriau sy'n eu hwynebu. Mae'r GYD hefyd yn cydredeg â'r ffordd 'hirdymor' o weithio trwy gynnig cyllid dros gyfnod aml-flwyddyn gyda'r nod i sefydliadau ymgysylltu â'r boblogaeth dros gyfnod parhaus.

1.35 Yn ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2024), amlygodd un o'r argymhellion fod angen arloesedd democrataidd cryfach ac ymgysylltu cymunedol cynhwysol yng Nghymru, yn ogystal â strategaethau newydd ar gyfer addysg ddinesig. Nodwyd bod y GYD (ochr yn ochr â mentrau eraill) yn rhan o wella ymgysylltu arloesol yn unol â'r argymhelliad.

1.36 Yn ystod datblygu'r GYD, ystyriwyd gorgyffwrdd â chynlluniau grant eraill (fel y trafodwyd yn adran 'Cefndir: mentrau ehangach' yr adroddiad). Roedd y Gronfa Ymgysylltu â'r Gymuned eisoes wedi dyrannu cyllid pan lansiwyd y GYD, roedd y

prosiectau a ariannwyd yn fyrdymor ac ar gyfer pwrpas penodol iawn, sef cynnwys dinasyddion mewn sgwrs genedlaethol. Mae Cronfa Democratiaeth y DU yn ceisio ariannu prosiectau sy'n gweithredu ar raddfa, felly bydd yn cefnogi prosiectau mwy o faint na'r GYD ac nid oes ganddi gylch gwaith penodol i Gymru.

**Nodau a chylch gorchwyl y gwerthusiad**

1.37 Bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio'n bennaf ar flwyddyn lawn gyntaf y cynllun, pan oedd 16 o sefydliadau yn cyflawni prosiectau. Mae pedwar prosiect a gafodd ddyfarniad grant aml-flwyddyn: gwnaeth tri gais am gyllid aml-flwyddyn o'r cychwyn cyntaf, a gwnaeth un gais am flwyddyn ychwanegol o gyllid ar ôl ei flwyddyn gyntaf. Bydd y pedwar prosiect hyn yn parhau eu gweithgarwch i mewn i flwyddyn ariannol 2024/25 (mis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025) ac felly maent ar y gweill ar adeg ysgrifennu. Bydd y gwerthusiad yn cwmpasu elfen dylunio a chyflawni'r dyfarniad aml-flwyddyn, a'r effeithiau canfyddedig ar adeg y gwaith maes ymchwil.

1.38 Datblygwyd tri nod ymchwil, gyda chwestiynau ymchwil penodol ar gyfer pob nod.

1.39 **Nod 1: Adolygu dyluniad a chyflawniad y cynllun cyllid grant cyfredol, gan gynnwys elfen y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth.**

Y cwestiynau ymchwil oedd:

- Pa sefydliadau a gafodd gyllid y GYD, sut y cafodd ei ddefnyddio; ac a gyrhaeddodd y grwpiau targed?
- Sut cafodd y GYD, gan gynnwys y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth, ei gyflwyno a beth yw profiadau derbynyddion y grant?
- Ar y cyfan, pa agweddau ar y dyluniad a'r cyflwyniad oedd yn gweithio'n dda ac yn llai da?

1.40 **Nod 2: Deall effaith ganfyddedig y cynllun cyllid grant. Gan gynnwys elfen y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth a'r cyd-destun ehangach.**

Y cwestiynau ymchwil oedd:

- Beth yw'r canfyddiadau ynghylch yr effaith y mae'r GYD wedi'i chael, a pha fwlch y mae'r GYD yn ei lenwi, yng nghyd-destun ehangach ymgysylltu â democratiaeth?
- Beth yw canlyniadau ac effeithiau canfyddedig cyllid y GYD ar lefel prosiect i dderbynyddion y grant a buddiolwyr y grant?
- Ym marn derbynyddion y grant, beth yw canlyniadau cymryd rhan yn y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth?
- Beth, os o gwbl, oedd canlyniadau anfwriadol y cynllun grant?

1.41 **Nod 3: Deall sut y gellir gwella prosesau monitro a gwerthuso.**

Y cwestiynau ymchwil oedd:

- Sut mae'r GYD yn cael ei fonitro ar hyn o bryd?
- Lle nad yw monitro a gwerthuso wedi digwydd, beth oedd y rhesymau am hyn?
- Sut y gellir monitro a gwerthuso'r GYD yn well ac o bosibl ei symleiddio ar draws prosiectau yn y dyfodol?

## 2. Methodoleg

2.1 Mabwysiadwyd y dulliau canlynol i fynd i'r afael â nodau cyffredinol yr ymchwil, a disgrifir pob un yn fanylach yn yr adran hon:

- Ymchwil desg a dadansoddiad eilaidd o ddogfennaeth bolisi
- Creu model rhesymeg ôl-weithredol
- Cynnal cyfweliadau â derbynyddion y grant, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach yn y maes democratiaeth

**Ymchwil desg a dadansoddiad eilaidd o ddogfennaeth bolisi – mis Mehefin i fis Hydref 2024**

2.2 Y gweithgaredd craidd oedd adolygu'r deunyddiau sydd ar gael yn ymwneud â'r GYD a'i gyd-destun polisi.

2.3 Roedd deunyddiau sy'n ymwneud â'r maes a chyd-destun polisi yn cynnwys:

- Dogfennau strategaeth ynghylch datblygu'r grant
- Ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag ymgysylltu â democratiaeth

2.4 Roedd y deunyddiau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd grant penodol yn cynnwys:

- Ffurflenni cais y grant (wedi'u llenwi gan ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus)
- Llythyrau dyfarnu grant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i ymgeiswyr llwyddiannus a llythyrau canlyniad a gyhoeddwyd i ymgeiswyr aflwyddiannus
- Ffurflenni cynnydd a hawlio grant chwarterol wedi'u llenwi gan dderbynyddion y grant
- Nodiadau cyfarfod y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth
- Adroddiadau gwerthuso diwedd prosiect wedi'u cwblhau gan dderbynyddion y grant

2.5 Crynhowyd yr wybodaeth sy'n ymwneud â maes a chyd-destun polisi'r grant. Roedd hyn hefyd yn llywio elfen 'rhesymeg' y Model Rhesymeg a ddatblygwyd yng ngham canlynol yr ymchwil hon.

2.6 Gan fod yr holl brosiectau a ariannwyd gan y grant yn unigryw, cafodd yr wybodaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgareddau a ariannwyd a derbynyddion y grant ei chasglu mewn fframwaith. Roedd y fframwaith hwn yn cynnwys:

- Gwybodaeth gyd-destunol am y grant a'r derbynyddion – gwerth, hyd, math o sefydliad
- Gwybodaeth gyd-destunol am y prosiect – buddiolwyr targed, cyrhaeddiad daearyddol, p'un a yw'n brosiect peilot neu'n barhad o brosiect blaenorol
- Gweithgareddau prosiect wedi'u cynllunio
- Canlyniadau arfaethedig a'r hyn yr oedd y prosiect yn anelu at ei gyflawni
- Sut roedd derbynyddion y grant yn bwriadu mesur canlyniadau
- Adroddiadau am gynnydd prosiectau

2.7 Crynhowyd cynnwys y fframwaith gan ddadansoddwr ac fe'i hadolygwyd gan ddadansoddwr arall. Yn ogystal, aeth dau ddadansoddwr ati ar wahân i godio'r gweithgareddau prosiect arfaethedig, y canlyniadau arfaethedig a chynnydd a grybwyllwyd, cyn mireinio eu codau a chytuno arnynt i ffurfio themâu.

2.8 Cafodd gwybodaeth am ymgeiswyr aflwyddiannus ei chasglu mewn fframwaith ar wahân, gan gwmpasu'r un cynnwys a nodwyd ym mhwynt 2.6 (ac eithrio cynnydd), ochr yn ochr ag adborth cais gan y tîm polisi. Crynhowyd cynnwys y fframwaith gan ddadansoddwr, a fu'n grwpio'r mathau o weithgareddau a gynigiwyd a'r rhesymau pam roedd yr ymgeiswyr yn aflwyddiannus. Adolygwyd hyn gan ddadansoddwr arall.

2.9 Cynhaliwyd asesiad o ansawdd a chynnwys yr adroddiadau gwerthuso hefyd – wedi'i gynhyrchu a'i fireinio gan ddau ddadansoddwr ar wahân. Roedd hyn yn ystyried gweithgareddau a chanlyniadau prosiect arfaethedig a sut roedd derbynyddion y grant yn bwriadu mesur canlyniadau o'u cais, y targedau y cytunwyd arnynt a'r dystiolaeth ofynnol yn unol â'u llythyr dyfarnu grant, a chynnwys yr adroddiadau gwerthuso.

*Ystyriaethau data ar gyfer yr ymchwil desg a'r dadansoddiad eilaidd o ddogfennaeth bolisi*

2.10 Ar adeg ysgrifennu, roedd 11 o'r 16 adroddiad gwerthuso diwedd grant ar gael. Roedd pedwar derbynnydd grant yn gweithio ar draws nifer o flynyddoedd felly ni fyddai adroddiad yn ddisgwyliedig. Roedd gan un derbynnydd brosiect un flwyddyn ond nid oedd wedi darparu ei adroddiad eto.

**Datblygu Model Rhesymeg y GYD – mis Gorffennaf i fis Hydref 2024**

2.11 Datblygwyd model rhesymeg ôl-weithredol, sy'n cyflwyno gwybodaeth am fewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau'r rhaglen, ond nid oedd yn cynnwys cysylltiadau achosol na rhagdybiaethau a risgiau (canllawiau Adran Dadansoddi'r Llywodraeth, cyrchwyd 2024). Cynrychiolir pob un o'r categorïau hyn yn y model gweledol, ac oddi tanynt mae elfennau cyfansoddol yn eistedd ac yn gallu rhyngweithio.

2.12 Defnyddiwyd gwybodaeth a gasglwyd yn y cam ymchwil desg i ddatblygu model rhesymeg cychwynnol. Daeth y themâu ynghylch gweithgareddau a chanlyniadau prosiect a ddatblygwyd o'r fframwaith (pwyntiau 2.6 a 2.7) yn wrthrychau yn y model o fewn y penawdau allbynnau a chanlyniadau.

2.13 Rhannwyd mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau yn y model yn ddwy lefel, sef lefel cronfa a lefel prosiect, i helpu i ddeall gwahanol rannau o'r cynllun.

2.14 Ar ôl datblygu fersiwn cychwynnol y model, cynhaliwyd gweithdy gyda phedwar o swyddogion Llywodraeth Cymru (roedd tri chyfranogwr o fewn y tîm polisi Etholiadau, ac roedd un cyfranogwr o faes polisi ar wahân a oedd yn eistedd ar y panel sicrwydd grantiau). Pwrpas y gweithdy oedd trafod pob cam o'r model rhesymeg i wirio dealltwriaeth am theori'r rhaglen ac i fireinio'r model cychwynnol a'i ddatblygu ymhellach. Roedd hyn hefyd yn cynnwys trafodaeth o ragdybiaethau a risgiau, i'w cynnwys yn y naratif model rhesymeg cysylltiedig.

2.15 Datblygwyd canllaw pwnc cyn y gweithdy. Hwylusodd y tîm ymchwil y sesiwn, a gafodd ei recordio a'i thrawsgrifio'n awtomatig yn Microsoft Teams. Aeth dau ddadansoddwr ati ar wahân i adolygu'r adborth o'r gweithdy a thrafod a chytuno sut

i'w ymgorffori yn y model rhesymeg. Cylchredwyd y model diwygiedig ar gyfer adborth pellach gan gyfranogwyr y gweithdy.

*Ystyriaethau methodolegol ar gyfer y model rhesymeg*

2.16 Er ei bod yn bwysig cynnwys ystod eang o randdeiliaid wrth ddatblygu model rhesymeg (canllawiau Adran Dadansoddi'r Llywodraeth, cyrchwyd 2024), oherwydd cyfyngiadau amser ymchwil dim ond un gweithdy y gellid ei gynnal, ac ni chynhwyswyd rhanddeiliaid allanol a derbynyddion y grant yn y gweithdy model rhesymeg. Roedd meysydd cwestiynu yn y canllaw pwnc ar gyfer y cam ymchwil 'Cynnal cyfweliadau â derbynyddion y grant, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid allanol ehangach ym maes democratiaeth' yn cydredeg â'r nodau a'r cwestiynau ymchwil, ac, fel y cyfryw, roeddent yn cwmpasu prosesau cyflawni'r GYD a'r effeithiau canfyddedig (Atodiadau A a B). Roedd hyn yn golygu bod y meysydd cwestiynu mewn cyfweliadau â chyfranogwyr yn fras gwmpasu gwahanol gamau'r model rhesymeg. Adolygwyd elfennau'r model rhesymeg ynghylch derbynyddion y grant a'r sector ehangach, o fewnbynnau i ganlyniadau, yn erbyn y themâu a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweliadau ansoddol. Sicrhaodd hyn fod y model rhesymeg yn crisialu elfennau o fewnbynnau i ganlyniadau sy'n ymwneud â derbynyddion y grant, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid allanol nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru efallai wedi eu dirnad.

**Cynnal cyfweliadau â derbynyddion y grant, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach ym maes democratiaeth – mis Gorffennaf i fis Hydref 2024**

2.17 Cynhaliwyd 17 o gyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig. Roedd dau grŵp eang o gyfranogwyr, gyda chanllaw pwnc ar wahân wedi'i ddatblygu ar gyfer pob un. Roedd y rhain yn dderbynyddion y grant, ac awdurdodau lleol a sefydliadau rhanddeiliaid allanol ehangach.

2.18 Cafodd y tîm polisi fanylion cyswllt cyfranogwyr er mwyn eu gwahodd i gyfweliad. Roedd pawb a wahoddwyd i gyfweliad wedi cytuno i'r tîm polisi rannu ei fanylion cyswllt gyda'r RhYF at ddibenion yr ymchwil hon. Anfonwyd holl ohebiaeth y cyfweliadau trwy e-bost.

2.19 Cynigiwyd cyfweliadau yn Gymraeg neu Saesneg a gofynnwyd am ofynion a dewisiadau hygyrchedd ar adeg cysylltu trwy'r e-bost cychwynnol. Cynhaliwyd y cyfweliadau dros Microsoft Teams. Defnyddiwyd swyddogaethau recordio a

thrawsgrifio awtomatig Microsoft Teams i grisialu manylion y cyfweliadau ar gyfer y cam dadansoddi, lle cytunodd y cyfranogwyr i'r recordio a'r trawsgrifio ddigwydd.

2.20 Mae pob dyfyniad o'r cyfweliadau yn yr adroddiad Cymraeg hwn yn gyfieithiadau o'r dyfyniadau gwreiddiol. Gellir dod o hyd i'r dyfyniadau gwreiddiol yn fersiwn Saesneg yr adroddiad.

*Derbynyddion y grant*

2.21 Cysylltodd y tîm polisi â phob un o'r 16 derbynnydd grant a ariannwyd ym mlwyddyn ariannol 2023/24 (mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024) i holi a oeddent yn cytuno i'w manylion cyswllt gael eu rhannu gyda'r tîm ymchwil. Yn ystod y broses hon, adolygwyd manylion prosiect y rhai a gytunodd y gellid cysylltu â nhw gan ymchwilwyr i sicrhau bod y sampl yn cynrychioli ystod o werthoedd grant, p'un a oedd y prosiect yn aml-flwyddyn, blwyddyn neu dymor byr, y math o weithgareddau a gyflwynwyd, ac a oedd gan y sefydliadau bresenoldeb yng Nghymru ac yng ngwledydd eraill y DU.

2.22 Cytunodd 11 o'r 16 derbynnydd grant y gellid cysylltu â nhw ac anfonwyd gwahoddiad iddynt. Anfonwyd nodyn atgoffa at y derbynyddion hefyd os na chafwyd ymateb i'r gwahoddiad.

2.23 Cynhaliwyd deg cyfweliad. Ar gyfartaledd, parhaodd y cyfweliadau tua awr. Yn gyffredinol, roedd y canllaw pwnc (Atodiad A) yn cwmpasu'r meysydd cwestiynu eang canlynol:

- Prosesau a chyflawni'r grant, gan gynnwys monitro a gwerthuso
- Effaith ganfyddedig y grant, ar gyfer eu grwpiau targed/buddiolwyr terfynol, eu sefydliad, a'r sector ehangach
- Myfyrdodau ar anghenion ariannu

2.24 Yn seiliedig ar ymchwiliadau rhagarweiniol yn ystod y cyfweliad, roedd gan gyfranogwyr o'r sefydliadau a gafodd y grant rolau amrywiol o fewn eu sefydliadau. Mewn rhai achosion, cyfranogwyr yr ymchwil oedd sylfaenydd neu bennaeth y sefydliad cyfan. Mewn achosion eraill, roedd cyfranogwyr yr ymchwil yn gyfrifol am gyflawni prosiectau neu raglenni. Roedd hyn naill ai ar gyfer y prosiect a ariannwyd gan y GYD, neu ar gyfer portffolio o wahanol brosiectau. Roedd yna hefyd achosion lle roedd cyfranogwyr wedi'u cyflogi'n benodol i rôl i gyflawni'r gweithgareddau ar gyfer prosiect eu sefydliad a

ariannwyd gan y GYD. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r gweithgaredd a ariannwyd gan y GYD. Roedd rhai cyfranogwyr mewn gwirionedd yn rhedeg digwyddiadau neu weithgareddau yn uniongyrchol i'r grwpiau targed. Roedd gan gyfranogwyr eraill fwy o rôl gydlynu, lle roedd ganddynt oruchwyliaeth o'r prosiect a'r hyn oedd yn cael ei gyflawni, ac roeddent yn ymwneud mwy felly ar yr ochr gweinyddu grant (ymgeisio, hawliadau grant, mynychu cyfarfodydd, adrodd). Roedd yna hefyd rai mewn rôl gydlynu a oedd hefyd yn ymwneud â chynnal digwyddiadau neu weithgareddau yn uniongyrchol i grwpiau targed, neu'n gyfrifol am hynny. Roedd un achos lle roedd gan gyfranogwr rôl ehangach, gyda mwy o oruchwyliaeth lefel uchel o wahanol weithgareddau yn ei sefydliad a chydlynu ledled Cymru.

*Staff awdurdodau lleol*

2.25 Gweithiodd y RhYF gyda'r tîm polisi Etholiadau i gytuno ar ddull samplu priodol. Ystyriwyd bod cysylltu â'r holl awdurdodau lleol yn anaddas gan na fyddai pob un yn ymwybodol o'r GYD. Felly, y dewis arall y cytunwyd arno oedd samplu o'r awdurdodau lleol a wnaeth gais am y GYD. Roedd 10 awdurdod lleol, ac o'r rheiny cafodd pedwar gyllid grant a bu chwech yn aflwyddiannus wrth ymgeisio. I ddechrau, samplodd yr ymchwilwyr saith awdurdod lleol. Tynnwyd y sampl hon yn bwrpasol i gynnwys rhaniad o awdurdodau lleol llwyddiannus ac aflwyddiannus ac o bob un o bedwar rhanbarth daearyddol Cymru (y Gogledd, y Canolbarth, y De-ddwyrain a'r De-orllewin). Roedd y rhanbarthau hyn a'r awdurdodau lleol cyfansoddol hyn yn seiliedig ar y rhai yn natganiad ystadegol Llywodraeth Cymru 'Ystadegau cryno fesul rhanbarth Cymru: 2020'.

2.26 Cytunodd cynrychiolwyr o chwech o'r awdurdodau lleol a samplwyd i'r tîm ymchwil gysylltu â nhw a chawsant eu gwahodd i gyfweliad. Anfonwyd nodiadau atgoffa lle nad oedd ateb i'r gwahoddiad. Ni chafwyd fawr o ymateb gan yr awdurdodau lleol, gyda dau gyfweliad wedi'u cynnal. Felly, cysylltodd y tîm polisi hefyd â'r tri awdurdod lleol arall o'r sampl wreiddiol. Cytunodd dau i'r RhYF gysylltu â nhw ac anfonwyd gwahoddiad iddynt, a chynhaliwyd un cyfweliad o hynny.

2.27 Gyda'i gilydd, cynhaliwyd cyfweliadau â thri awdurdod lleol. Cafodd un ohonynt gyllid grant ac roedd dau yn aflwyddiannus wrth ymgeisio. Roedd y cyfweliadau ar gyfartaledd tua 59 munud o hyd. Yn gyffredinol, roedd y canllaw pwnc (Atodiad B) yn cwmpasu'r meysydd cwestiynu eang canlynol:

- Y cyd-destun ymgysylltu â democratiaeth a'r cymorth neu'r cyllid ehangach sydd ar gael
- Barn am gyllid y GYD o ystyried cyd-destun y sector
- (Ar gyfer awdurdodau lleol llwyddiannus) Effeithiau canfyddedig y GYD ar eu sefydliad
- Effeithiau canfyddedig y GYD o fewn y sector
- (Ar gyfer awdurdodau lleol aflwyddiannus) Y broses ymgeisio

2.28 Yn seiliedig ar ymchwiliadau rhagarweiniol yn ystod y cyfweliad, roedd rhai cyfranogwyr o'r awdurdodau lleol yn gweithio'n uniongyrchol mewn gwasanaethau democrataidd, gyda chylch gwaith o gyflawni dyletswyddau statudol eu priod awdurdodau lleol. Roedd un arall yn gweithio mewn adran gorfforaethol ganolog a oedd yn gyfrifol am bolisi ac arferion gorau o ran ymgysylltu. Lle'r oeddent yn aflwyddiannus, roedd y cyfranogwyr yn rhan o ddatblygu a chydlynu'r cais i'r grant. Lle'r oeddent yn llwyddiannus, roedd y cyfranogwyr yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r gweithgaredd a ariannwyd gan y GYD a chydlynu'r gweithgaredd hwnnw.

*Rhanddeiliaid allanol ehangach*

2.29 Nododd cydweithwyr polisi fod pedwar sefydliad rhanddeiliaid allanol ehangach yn bwysig i'w cynnwys yn y cam hwn yn yr ymchwil, i ddarparu mewnwelediadau arbenigol o'r sector democratiaeth ac etholiadau ehangach. Roedd y sampl hon yn cynnwys dau sefydliad sy'n gweithredu yng Nghymru, sefydliad sy'n gweithredu yn yr Alban, a sefydliad sy'n gweithredu'n bennaf yn Lloegr ond sy'n weithgar ledled y DU. Roedd y sefydliadau naill ai'n gorff llywodraeth, yn gorff rheoleiddio, neu'n gwmni.

2.30 Cytunodd pob un o’r pedwar sefydliad i’r tîm ymchwil gysylltu â nhw a chafodd y pedwar gyfweliad. Roedd y cyfweliadau ar gyfartaledd tua 43 munud o hyd. Roedd y canllaw pwnc (Atodiad B) yn amrywio ychydig gan ddibynnu ar wlad y sefydliad ond yn gyffredinol roedd yn cwmpasu’r meysydd cwestiynu eang canlynol:

- Y cyd-destun ymgysylltu â democratiaeth a’r cymorth neu’r cyllid ehangach sydd ar gael
- Barn am gyllid y GYD o ystyried cyd-destun y sector
- Effeithiau canfyddedig y GYD ar eu sefydliad, ac a ydynt wedi gweithio gydag unrhyw un o’r derbynyddion
- Effeithiau canfyddedig y GYD o fewn y sector

2.31 Yn seiliedig ar ymchwiliadau rhagarweiniol yn ystod y cyfweliad, roedd gan gyfranogwyr o’r sefydliadau rhanddeiliaid allanol ehangach rolau amrywiol o fewn eu sefydliadau. Mewn rhai achosion, cyfranogwyr yr ymchwil oedd pennaeth y sefydliad cyfan. Mewn achosion eraill, roedd y cyfranogwyr yn gyfrifol am faes penodol, megis cyfathrebu, neu etholiadau (gan gynnwys hygyrchedd).

2.32 Dywedodd y cyfranogwyr eu bod naill ai’n weddol ymwybodol neu’n ymwybodol iawn o’r GYD. Priodolwyd yr ymwybyddiaeth hon i’r sefydliad yn gweithio yn y ‘maes ymgysylltu â democratiaeth’ ac oherwydd bod ganddo berthynas waith agos â’r tîm polisi Etholiadau yn Llywodraeth Cymru. Nododd rhai cyfranogwyr ddealltwriaeth o rywfaint o’r gweithgarwch prosiect oedd yn digwydd gyda’r cyllid. Roedd gan eraill ymwybyddiaeth ehangach o bolisi a strategaeth y GYD.

*Dadansoddiad o ddata’r cyfweliadau*

2.33 Cafodd trawsgrifiadau’r cyfweliadau eu hanonymeiddio a’u gwirio a’u diwygio yn erbyn recordiadau’r cyfweliadau er cywirdeb. Mewn un achos, nid oedd cyfranogwr yn cytuno i’r cyfweliad gael ei recordio na’i drawsgrifio. Yn yr achos hwn, lluniodd y cyfwelydd nodiadau cyfweliad heb fod air-am-air. Mewnforiwyd data’r cyfweliadau (trawsgrifiadau, neu mewn un achos, nodiadau) i Microsoft Excel ar gyfer dadansoddiad thematig ansoddol. At ddibenion dadansoddi, trefnwyd data yn ôl ymchwiliadau canllaw pwnc cyn ei ddadansoddi ar gyfer themâu a ddaeth i’r amlwg. Adolygwyd y dadansoddiad hwn gan ddadansoddwr arall cyn mireinio a chytuno ar themâu.

*Ystyriaethau data ar gyfer y cyfweliadau ansoddol*

2.34 Mae rhai ystyriaethau a chyfyngiadau pwysig i'r ymchwil i'w cadw mewn cof wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynwyd:

- Ni chyfwelwyd â phob derbynnydd grant ac felly ni ellir dweud bod y safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli barn pawb a gafodd gyllid grant.
- Mae'r safbwyntiau a fynegwyd gan staff awdurdodau lleol yn perthyn i nifer fach o unigolion sy'n cael eu cyflogi gan nifer fach o'r awdurdodau lleol. Felly, nid yw'r safbwyntiau a'r farn yn cynrychioli'r holl staff o fewn yr awdurdodau lleol a gynhwyswyd, ac nid ydynt yn cynrychioli'r holl awdurdodau lleol.
- Argymhellwyd cynnwys y sefydliadau allanol ehangach y cyfwelwyd â hwy gan dîm polisi Etholiadau Llywodraeth Cymru. Felly, ni ellir ystyried eu bod yn cynrychioli barn y maes etholiadau ac ymgysylltu â democratiaeth ehangach.
- Cyhoeddwyd Etholiad Cyffredinol y DU 2024 yn ystod y cyfnod ymchwil, a chynhaliwyd cyfweliadau yn fuan ar ôl i Etholiad Cyffredinol y DU 2024 gael ei gynnal. Felly, gan fod y darn ymchwil hwn yn ymwneud â democratiaeth, efallai y bydd y digwyddiad hwn wedi effeithio ar farn cyfranogwyr y cyfweliadau.

# 3. Model rhesymeg y GYD

3.1 Mae'r adran hon yn cynnwys diagram Model Rhesymeg y GYD (Ffigur 1). Mae hefyd yn cynnwys disgrifiad estynedig o gydrannau penodol o'r diagram o fewn testun yr adroddiad, prif ragdybiaethau, a chysylltiadau rhwng rhai o'r cydrannau yng ngwahanol gamau'r model rhesymeg.

3.2 Arweiniwyd diffiniadau o bob cam o'r model rhesymeg gan ganllawiau Adran Dadansoddi'r Llywodraeth (cyrchwyd 2024). Y rhain yw:

- Mewnbynnau: Pa adnoddau sydd eu hangen?
- Gweithgareddau: Pa gamau y mae angen eu cymryd? Beth sydd angen ei wneud gyda'r adnoddau i achosi newid?
- Allbynnau: Beth sydd angen ei gyflawni neu ei gynhyrchu?
- Canlyniadau: Beth yw'r newidiadau sy'n dilyn yr allbynnau? Gallai'r rhain fod yn effeithiau mwy uniongyrchol y rhaglen neu'r prosiectau
- Effeithiau: Beth mae'r GYD yn anelu at ei gyflawni yn gyffredinol? Gall y rhain fod yn y tymor hwy

## Ffigur 1: Model rhesymeg y GYD

**Sail resymegol: Pam mae'r GYD wedi'i ddatblygu?**

- Mae cyfranogiad mewn etholiadau, ac ymgysylltu â democratiaeth yn gyffredinol, yn dirywio yng Nghymru.
- Nid yw heriau gyda chyfranogiad ac ymgysylltu â democratiaeth yn gyfartal ar draws cymdeithas. Mae yna grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar y gofrestr etholiadol ac yn y nifer sy'n pleidleisio, ac sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol neu unigryw rhag ymgysylltu â democratiaeth a chymryd rhan ynddi.
- Roedd cynlluniau blaenorol Llywodraeth Cymru lle'r oedd sefydliadau'n cael eu hariannu i weithio'n uniongyrchol gyda grwpiau targed yn fwy adweithiol tua adeg etholiadau. Mae angen cyllid cynaliadwy, tymor hwy ar sefydliadau yn y sector. Mae hyn er mwyn rhoi rhagweladwyedd a galluogi sefydliadau i gyflawni gweithgarwch parhaus.

### Cronfa

#### Mewnbynnau

**Llywodraeth Cymru**

**In1:** Cymeradwyaeth y Gweinidogion a £900,000 o gyllid ar gael dros 3 blynedd.
**In2:** Adnodd staff polisi.
**In3:** Adnodd panel asesu grantiau.
**In4:** Rhwydweithiau a fforymau cyswllt, yng Nghymru a ledled y DU.
**In5:** Canllawiau ar gyfer arferion dylunio grantiau sy'n ystyried: gwerth y grant; math o sefydliad neu sector.
**In6:** Gwybodaeth a gafwyd o brofiad blaenorol: Maes a chyd-destun polisi; Dyluniad grant; Sefydliadau o fewn y sector; Costau cyflawni nodweddiadol.

#### Gweithgareddau

**Llywodraeth Cymru**

**Datblygu Cychwynnol**

**A1:** Cynllunio strwythur y grant a dylunio'r grant, gan gynnwys gofynion monitro a gwerthuso.
**A2:** Cynhyrchu dogfennaeth y cynllun, gan gynnwys ffurflenni cais, dogfennau cyfarwyddyd.
**A3:** Creu meini prawf gwerthuso ceisiadau.

**Hyrwyddo**

**A4:** Lansio'r grant a'i hyrwyddo ar draws rhwydweithiau.

**Ymgeisio**

**A5:** Adolygu ceisiadau.
**A6:** Grantiau a ddyfarnwyd.

**Ariannol a gwerthuso**

**A7:** Rheoli ariannol a monitro'r gyllideb gyffredinol.
**A8:** Adolygu a chymeradwyo hawliadau grant a ffurflenni diweddaru cynnydd.
**A9:** Adolygu adroddiadau gwerthuso grantiau.
**A10:** Dosbarthu arian i'r sefydliadau sy'n derbyn.

**Ymgysylltu a chyfathrebu**

**A11:** Trefnu'r Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth (PYD).
**A12:** Ymgysylltu'n rheolaidd â rhwydweithiau democratiaeth, yng Nghymru a thu hwnt.
**A13**: Cadw mewn cysylltiad â meysydd polisi cysylltiedig eraill ar draws Llywodraeth Cymru.
**A14:** Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau derbyn: ymgysylltu parhaus a rheoli perthnasoedd.

#### Allbynnau

**Llywodraeth Cymru**

**Ymgysylltu a Chyfathrebu**

**OP1:** Darperir cymorth neu gyngor i sefydliadau derbyn yn ôl yr angen, gan gynnwys ar gyfer cyflawni prosiectau.
**OP2:** Darperir gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei ddarparu drwy'r grant i feysydd polisi cysylltiedig eraill yn Llywodraeth Cymru.
**OP3:** Darperir gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei ddarparu drwy'r grant i rwydweithiau yng Nghymru a thu hwnt.

**Dysgu**

**OP4:** Mae canfyddiadau'r prosiectau sy'n derbyn grant yn cael eu coladu.

**Derbynyddion y grant a Llywodraeth Cymru**

**OP5:** Cynhelir cyfarfodydd y PYD bob deufis ac maent yn fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a diweddariadau prosiectau.

#### Canlyniadau

**Llywodraeth Cymru**

**OC1:** Cefnogir meysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru i gyflawni eu hamcanion sy'n gysylltiedig â democratiaeth.
**OC2:** Gwell perthynas â meysydd polisi cysylltiedig eraill ar draws Llywodraeth Cymru.
**OC3:** Gwell cysylltiadau a pherthynas â sefydliadau o fewn y sector democratiaeth.
**OC4:** Gwell dealltwriaeth o anghenion sefydliadau o fewn y sector democratiaeth.

**Y sector ehangach**

**OC5:** Codi proffil yr hyn sy'n digwydd yn y maes ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru gyda gweddill y DU.
**OC6:** Mae capasiti'r sector ar gyfer y gwaith hwn yn cynyddu rhwng cylchoedd etholiadol.
**OC7:** Mae mwy o adnoddau ar gael, y gellir eu defnyddio hefyd gan sefydliadau heb eu hariannu a'r boblogaeth ehangach.
**OC8:** Dod â sefydliadau i'r maes ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru nad oeddent yn weithgar, neu a oedd yn llai gweithgar, yn y maes hwn o'r blaen.

**Llywodraeth Cymru a'r sector ehangach**

**OC9:** Gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau targed a gyrhaeddwyd, beth sy'n gweithio, ac arferion da (drwy rannu gwersi a ddysgwyd gan dderbynyddion y grant)

**Derbynyddion y grant**

**OC10:** Trwy fynychu'r PYD mae mwy o rannu gwybodaeth ac adnoddau dwyffordd ar draws sefydliadau.
**OC11:** Trwy fynychu'r PYD mae perthnasoedd a rhwydweithiau'n cael eu hadeiladu ar draws sefydliadau (gan gynnwys derbynyddion eraill ac ehangach).
**OC12:** Trwy fynychu'r PYD mae cyfleoedd i gydweithio'n cael eu harchwilio ac felly mae mwy o waith partneriaeth ar draws y sefydliadau.

#### Effeithiau

**I1:** Mae pobl (yn enwedig yn y grwpiau targed) yn cael eu cynnwys, eu cymell a'u grymuso i gymryd rhan mewn democratiaeth, gyda'r offer i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac effeithio'n gadarnhaol ar y Gymru o'u cwmpas.

**I2:** Mae sefydliadau'n gallu mabwysiadu dull hirdymor o annog a chefnogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth.

### Prosiect

#### Mewnbynnau

**Derbynyddion y grant**

**In7:** Adnoddau a chapasiti staff cyflawni.
**In8**: Rhwydweithiau cyswllt a phartneriaethau â sefydliadau eraill.
**In9:** Cyrhaeddiad a mynediad at fuddiolwyr targed.
**In10:** Profiad o anghenion buddiolwyr targed, a ffyrdd o weithio gyda nhw, a/neu wybodaeth amdanynt.
**In11:** Profiad o ddulliau ymgysylltu a/neu wybodaeth amdanynt.
**In12:** Gwerthoedd neu strategaeth sefydliadol glir sy'n ymrwymo i fynd i'r afael ag anghenion buddiolwyr targed.

#### Gweithgareddau

**Derbynyddion y grant**

**A15:** Mae'r derbynyddion yn cadw mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflawni'r prosiect.

**Datblygu a chymhwyso**

**A16:** Nodi anghenion ac ymhle fyddai cyllid grant yn berthnasol.
**A17:** Cynllunio'r prosiect i'w gyflawni, gan gynnwys monitro a gwerthuso.
**A18:** Cydweithio â sefydliadau eraill a'u rhwydwaith i gydlynu partneriaethau.
**A19:** Cynhyrchu a chyflwyno'r cais am grant.

**Cyflawni prosiectau**

**A20:** Caffael neu recriwtio lle bo angen er mwyn ehangu capasiti i alluogi cyflawni prosiectau.
**A21:** Ymgysylltu'n rheolaidd â sefydliadau partner a rhwydweithiau ehangach. Cydlynu gwaith yn ôl yr angen.
**A22:** Hyrwyddo'r prosiect(au) a chyrraedd buddiolwyr: Ymgysylltu â rhwydweithiau, a/neu hysbysebu trwy gyfryngau ffisegol a digidol.
**A23:** Cynnal goruchwyliaeth lefel uchel ar gynnydd y gweithgaredd arfaethedig a ariannwyd, gan fonitro'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn erbyn yr hyn a gynlluniwyd.
**A24:** Casglu gwybodaeth i ddeall canlyniadau ac effaith eu prosiect.
**A25:** Rheoli costau'r prosiect.
**A26:** Cwblhau a chyflwyno ffurflenni hawlio grant a diweddaru cynnydd.

**Buddiolwyr terfynol**

**A27:** Penderfynu ymgysylltu â'r prosiect sy'n cael ei gynnig gan y sefydliad.

#### Allbynnau

**Derbynyddion y grant a buddiolwyr terfynol**

**Uniongyrchol i fuddiolwyr terfynol**

**OP6:** Addysg am ddemocratiaeth trwy weithdai a digwyddiadau.
**OP7:** Cymorth ymarferol i bleidleisio.
**OP8:** Adnoddau a gwybodaeth.
**OP9:** Cymryd rhan mewn proses ddemocrataidd.

**Anuniongyrchol**

**OP10:** Cyllid is-grant.
**OP11:** Staff prosiect.
**OP12**: Offer, technoleg ac adnoddau digwyddiadau.
**OP13:** Hyfforddiant.
**OP14:** Rhannu gwybodaeth a magu perthnasoedd.

#### Canlyniadau

**Buddiolwyr terfynol**

**OC13:** Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth neu wybodaeth o agweddau ar ddemocratiaeth wedi gwella.
**OC14:** Cymryd rhan a chyfranogi mewn democratiaeth.
**OC15:** Cofrestru i bleidleisio.
**OC16:** Teimlo bod eu llais yn cael ei glywed.
**OC17:** Datblygu eu hyder.
**OC18:** Datblygu sgiliau ymarferol ehangach.
**OC19:** Cynnydd mewn disgwyliadau neu awydd am weithgareddau i'w darparu yn y dyfodol.

**Derbynyddion y grant**

**OC20:** Gwell dealltwriaeth o'r grŵp neu grwpiau targed.
**OC21:** Gwell dealltwriaeth o ran ble i ganolbwyntio ymdrechion ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol, neu ble i wneud newidiadau.
**OC22:** Ennill profiad gweithredadwy wrth oresgyn y rhwystrau rhag ymgysylltu sy'n wynebu buddiolwyr terfynol.
**OC23:** Magu perthynas â buddiolwyr, a sefydliadau eraill. Proffil y sefydliad derbyn yn uwch ymhlith y grwpiau hyn.
**OC24:** Adeiladu capasiti, adnoddau a sgiliau.

**Sefydliadau neu bobl eraill**

**OC25:** Newidiadau wedi'u gwneud e.e., cynghorwyr yn cyflwyno awgrymiadau a godwyd gan fuddiolwyr.
**OC26:** Mae ymdeimlad o gymuned wedi'i ddatblygu. Mae pobl wedi'u cysylltu â'i gilydd a sefydliadau lleol.

#### Effeithiau

**I3:** Gwell cydweithredu ar draws y rhai sy'n gweithredu yn y sector: mae ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ymgysylltu â democratiaeth.

**I4:** O fewn y sector, mae gwersi a ddysgwyd am y **grwpiau targed ac ymyriadau** yn cael eu cymhwyso i lywio a gwella gwaith ymgysylltu â democratiaeth yn y dyfodol.

### Rhagdybiaethau cyffredinol

3.3 Trwy gydol yr adran hon o'r adroddiad, bydd rhagdybiaethau yn cael eu nodi mewn perthynas â chydrannau penodol y model rhesymeg y maent yn cyfateb iddynt. Mae'r canlynol yn rhagdybiaethau cyffredinol sy'n sail i'r GYD yn ehangach. Mae'r rhain yn ffactorau nad ydynt o reidrwydd yn disgrifio'r rhesymeg sy'n sail i'r ffordd y disgwylir i'r GYD arwain at yr effeithiau arfaethedig ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn niagram y model rhesymeg. Fodd bynnag, maent yn egwyddorion neu feddyliau a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr yn y gweithdy model rhesymeg a oedd yn sail i ddatblygiad y GYD.

3.4 Rhaid cofio'r rhagdybiaethau craidd canlynol wrth ddarllen y model rhesymeg:

- Bod awydd am y math hwn o gyllid gan y sector ac mae'n diwallu anghenion y sector.
- Bod dull y GYD o ariannu yn annog cynaliadwyedd.
- Bod niwtraliaeth wleidyddol weladwy yn hanfodol. Ni ddylid ystyried bod Llywodraeth Cymru yn ceisio arwain democratiaeth, gan gynnwys er enghraifft arwain i gyfeiriad gwleidyddol penodol. Felly, nid yw'r GYD yn rhagnodol am y prosiectau a chanlyniadau penodol o ran ymgysylltu â democratiaeth i'w cyflawni gan dderbynyddion y grant.
- Er mwyn effeithio ar y grwpiau targed neu newid eu hymddygiad, mae angen gwaith cynyddol a chyson yn hytrach na phrosiectau tymor byr neu untro. Hefyd mae'n bwysig ariannu sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol â grwpiau targed, gan alluogi gweithgarwch ar lefel leol a chysylltiad mwy dwys â grwpiau targed.
- Oherwydd bod amrywiol arferion ymgysylltu â democratiaeth ar draws y sector, mae'n bwysig sbarduno cydweithio ar draws sefydliadau yn y sector er mwyn rhannu arferion ac adnoddau. Ceisiodd y GYD ariannu arferion arloesol a chreadigol (a adlewyrchir ym mhwynt cyflwyno 1.2 a'r ddogfennaeth ymgeisio ynghylch nodau'r grant).
- Bod y gwaith a wneir gan y prosiectau yn cael ei adnewyddu neu ei barhau dros amser.

- Bod y GYD wedi'i dargedu at sicrhau ymgysylltiad ag etholiadau datganoledig yn benodol, ond derbynnir y gallai fod rhai effeithiau anfwriadol ar ymgysylltu ag etholiadau'r DU.
- Bod rhaid i sefydliadau sy'n cael y grant allu gwneud cais am y prosiect a'i gyflawni yn unol ag amseriadau blwyddyn ariannol Llywodraeth Cymru.
- Bod y sefydliad yn gallu talu cyllid craidd a chostau gorbenion am gyfnod ei brosiect, oni bai y gofynnwyd yn benodol yn y cais am gostau gorbenion a'u costio.

**Ymhelaethu ar elfennau o'r model rhesymeg**

*Gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â mewnbynnau*

3.5 O ran mewnbwn Llywodraeth Cymru 'In3: Adnodd panel asesu grantiau', roedd panel asesu grant y GYD yn cynnwys aelodau o'r tîm polisi Etholiadau a rhannau eraill o Lywodraeth Cymru. Dywedodd cyfranogwyr y gweithdy mai bwriad cynnwys adnoddau o wahanol feysydd polisi oedd annog cydweithio ynghylch gwaith yn y maes ymgysylltu.

3.6 O ran mewnbwn derbynyddion grant 'In7: Adnoddau a chapasiti staff cyflawni', mae hyn yn eistedd rhwng 'lefel Cronfa' a 'lefel prosiect' gan ei fod yn ofynnol i gyflawni'r prosiectau a fwriadwyd ond hefyd i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ar lefel y gronfa.

*Disgrifio cysylltiadau rhwng mewnbynnau a gweithgareddau*

3.7 Mae mewnbynnau derbynyddion grant 'In10: Profiad o anghenion buddiolwyr targed, a ffyrdd o weithio gyda nhw, a/neu wybodaeth amdanynt', 'In11: Profiad o ddulliau ymgysylltu a/neu wybodaeth amdanynt' ac 'In12: Gwerthoedd neu strategaeth sefydliadol glir sy'n ymwneud â diwallu anghenion buddiolwyr targed', yn sail i weithgareddau derbynyddion grant 'A16: Nodi anghenion ac ymhle fyddai cyllid grant yn berthnasol' ac 'A17: Cynllunio'r prosiect i'w gyflawni, gan gynnwys monitro a gwerthuso'. Nid yw'n ymwneud â'r ffaith bod y sefydliad o reidrwydd wedi gweithio yn y maes hwn o'r blaen, gan fod cyfranogwyr y gweithdy wedi crybwyll mai bwriad y GYD oedd cyrraedd sefydliadau newydd. Mae'n ymwneud â'r ffaith

bod angen clir mewn grŵp y mae'r sefydliad yn gweithio ag ef, sy'n cydredeg â gwerthoedd neu strategaeth y sefydliad ac amcanion y grant.

3.8 Mae mewnbynnau Llywodraeth Cymru 'In5: Canllawiau ar gyfer arferion dylunio grantiau sy'n ystyried: gwerth y grant; math o sefydliad neu sector' ac 'In6: Gwybodaeth a gafwyd o brofiad blaenorol: Maes a chyd-destun polisi; Dyluniad grant; Sefydliadau o fewn y sector; Costau cyflawni nodweddiadol' yn sail i'r gweithgareddau 'Datblygu cychwynnol' (A1 i A3), gan fod y mewnbynnau hyn yn sail i'r hyn sy'n rhesymol i'w ofyn gan y sefydliadau sy'n cael cyllid grant. Er enghraifft, nododd cyfranogwyr y gweithdy fod gofynion ymgeisio yn wahanol ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais am fwy na £1,000, a £1,000 ac is, ac felly roedd gofynion wedi'u teilwra i fod yn gymesur â gwerth y grant ac yn rhesymol iddo. Ar ben hynny, roedd yn ofynnol defnyddio a chynhyrchu gwybodaeth yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Er enghraifft, os oedd y grŵp targed yn wladolion tramor sy'n siarad Saesneg fel ail iaith, yna roedd angen gwybodaeth yn yr ieithoedd cymunedol perthnasol yn unig.

3.9 Yn ogystal, mae mewnbwn Llywodraeth Cymru 'In6: Gwybodaeth a gafwyd o brofiad blaenorol: Sefydliadau o fewn y sector; Costau cyflenwi nodweddiadol' yn sail i weithgareddau 'ymgeisio' Llywodraeth Cymru (A5: Adolygu ceisiadau, A6: Grantiau a ddyfarnwyd) gan fod y mewnbwn hwn yn sail i gynnal diwydrwydd dyladwy ac i asesu a yw'r gwerth grant y gofynnwyd amdano yn adlewyrchu gwerth arian ar sail y gweithgareddau a'r allbynnau arfaethedig.

3.10 Mae'r gweithgaredd derbynyddion grant 'A22: Hyrwyddo'r prosiect(au) a chyrraedd buddiolwyr: Ymgysylltu â rhwydweithiau, a/neu hysbysebu trwy gyfryngau ffisegol a digidol' yn seiliedig ar y mewnbynnau 'In8: Rhwydweithiau cyswllt a phartneriaethau â sefydliadau eraill' ac 'In9: Cyrhaeddiad a mynediad at fuddiolwyr targed', lle mae'n rhaid i'r sefydliadau derbyn allu hyrwyddo'r grant mewn ffordd sy'n cyrraedd y buddiolwyr arfaethedig, er mwyn i'r buddiolwyr ddod ar draws y prosiect i arwain at benderfyniad ynghylch a ydynt yn cymryd rhan ai peidio (Gweithgaredd buddiolwyr 'A27: Penderfynu ymgysylltu â'r prosiect sy'n cael ei gynnig gan y sefydliad').

*Gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â gweithgareddau*

3.11 Mae gweithgaredd Llywodraeth Cymru 'A6: Grantiau a ddyfarnwyd' yn cynnwys anfon llythyrau canlyniadau at bob ymgeisydd sy'n llwyddiannus ac yn aflwyddiannus, a llythyrau dyfarnu grant i ymgeiswyr llwyddiannus yn amlinellu amodau eu grant.

3.12 Mae gweithgareddau 'Hyrwyddo', 'Ymgeisio', 'Ariannol a gwerthuso' ac 'Ymgysylltu a chyfathrebu' Llywodraeth Cymru yn parhau drwy gydol y grant.

*Rhagdybiaethau ynghylch gweithgareddau*

3.13 Un rhagdybiaeth sy'n benodol i weithgaredd Llywodraeth Cymru 'A4: Lansio'r grant a'i hyrwyddo ar draws rhwydweithiau' yw bod hyrwyddo'r grant yn cyrraedd y sefydliadau sy'n gymwys am y grant (y trydydd sector, sefydliadau nid-er-elw, ac awdurdodau lleol). Gan fod cyfranogwyr y gweithdy wedi crybwyll mai'r bwriad oedd i'r grant gyrraedd sefydliadau newydd (a grybwyllir hefyd ym mhwynt 3.7), un rhagdybiaeth arall ar gyfer gweithgaredd 'A4' yw bod gan yr ymgysylltiad i hysbysebu'r grant gyrhaeddiad eang, digon i estyn y tu hwnt i'r casgliad o sefydliadau sydd eisoes yn weithredol yn y maes ymgysylltu â democratiaeth neu sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Mae hyn, yn rhannol, yn seiliedig ar 'In4: Rhwydweithiau a fforymau cyswllt, yng Nghymru a ledled y DU'.

3.14 Un rhagdybiaeth sy'n benodol i weithgaredd Llywodraeth Cymru 'A14: Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau derbyn: ymgysylltu parhaus a rheoli perthnasoedd' yw bod ymddiriedaeth yn cael ei magu gyda'r sefydliad sy'n derbyn. Amlygodd cyfranogwyr y gweithdy ei bod yn bwysig magu'r ymddiriedaeth hon i gefnogi'r sefydliadau sy'n derbyn i gyflawni, ac i sicrhau bod y gwaith yn cael ei ddatblygu fel y bwriadwyd. Hefyd, gan adlewyrchu gweithgaredd derbynyddion 'A15: Derbynyddion yn cadw mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflawni'r prosiect', un rhagdybiaeth yw bod ymddiriedaeth yn cael ei magu gyda Llywodraeth Cymru.

3.15 Un rhagdybiaeth sy'n benodol i weithgareddau 'Datblygu a chymhwyso' derbynyddion y grant (A16 i A19) yw bod y sefydliad sy'n derbyn y grant wedi penderfynu bod manteision gwneud cais am y cyllid yn gorbwyso'r baich sy'n deillio

o weithgareddau a gofynion cydymffurfio â'r grant a'i fod yn fwy deniadol na blaenoriaethau cystadleuol.

3.16 Ar gyfer y gweithgaredd derbynyddion grant 'A24: Casglu gwybodaeth i ddeall canlyniadau ac effaith eu prosiect', un rhagdybiaeth yw bod gan y derbynnydd yr wybodaeth neu'r offer i wneud hynny.

3.17 Ar gyfer gweithgaredd buddiolwyr 'A27: Penderfynu ymgysylltu â'r prosiect sy'n cael ei gynnig gan y sefydliad', un rhagdybiaeth yw bod y prosiect sy'n cael ei hyrwyddo yn cyrraedd y buddiolwyr arfaethedig yn y lle cyntaf (a ddisgrifir ym mhwynt 3.10). Mae yna hefyd set o ragdybiaethau sy'n sail i benderfyniad y buddiolwyr i ymgysylltu, sy'n cynnwys:

- Eu gallu i ymgysylltu, ynglŷn â ffactorau fel amser, teithio, gallu defnyddio technoleg
- Sut maen nhw'n ei flaenoriaethu yn erbyn blaenoriaethau cystadleuol eraill
- Eu parodrwydd cychwynnol i gymryd rhan mewn rhywbeth sy'n gysylltiedig â democratiaeth, y bydd eu canfyddiadau o'r broses ddemocrataidd yn effeithio arno

*Gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â mewnbynnau*

3.18 Ar gyfer yr allbwn ar lefel cronfa ar gyfer Llywodraeth Cymru a derbynyddion y grant 'OP5: Cynhelir cyfarfodydd y PYD bob deufis ac maent yn fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a diweddariadau prosiectau', er nodir yn eu llythyr dyfarnu grant eu bod yn mynychu yn ystod cyfnod eu grant, gall derbynyddion y grant barhau i fynychu'r PYD os dymunant ar ôl cyfnod y grant.

3.19 Mae'r allbynnau ar lefel prosiect o dan 'Uniongyrchol i fuddiolwyr terfynol' yn cynnwys allbynnau sy'n cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r grwpiau targed/buddiolwyr terfynol arfaethedig. 'OP6: Addysg am ddemocratiaeth trwy weithdai a digwyddiadau' yw lle mae gwybodaeth am ddemocratiaeth yn cael ei chyflwyno i grwpiau targed yn uniongyrchol, a'i thrafod gyda hwy. Mae hyn yn cynnwys sesiynau dysgu, ymgysylltu â phobl sy'n gweithio mewn democratiaeth, ymweld â safleoedd democrataidd (fel y Senedd, cyngor lleol). Yn aml (ond nid bob amser), mae sesiynau'n cynnig rhywbeth i annog presenoldeb, fel lluniaeth am

ddim, neu weithgaredd creadigol. Mae ‘OP7: Cymorth ymarferol i bleidleisio’ yn cynnwys lle mae staff y prosiect yn darparu cymorth uniongyrchol i’r grwpiau targed i wneud tasg ymarferol sy’n gysylltiedig â phleidleisio, fel cofrestru i bleidleisio, neu wirio a gwneud cais am rif adnabod pleidleisiwr. Mae ‘OP8: Adnoddau a gwybodaeth’ yn cynnwys creu a/neu rannu adnoddau ffisegol neu ddigidol. Mae hyn ar gyfer a/neu gan y grwpiau targed. ‘OP9: Cymryd rhan mewn proses ddemocrataidd’ yw lle mae grwpiau targed naill ai’n cymryd rhan mewn proses ddemocrataidd go iawn (fel fforwm cymunedol), neu’n cymryd rhan mewn rhywbeth sy’n efelychu proses (fel etholiad ffug, ymgyrchu). Gall hyn gynnwys y rhai sy’n gweithio mewn democratiaeth.

3.20 Yn benllanw’r allbynnau hyn (OP6 i OP9), roedd cyfranogwyr y gweithdy’n sôn bod gan fuddiolwyr terfynol ystod ehangach o sianeli lle maent yn gallu cael mynediad at ddemocratiaeth neu gymryd rhan ynddi. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i ymgysylltu â democratiaeth i fuddiolwyr terfynol nad ydynt efallai wedi gallu gwneud hynny o’r blaen oherwydd diffyg cyfleoedd neu hygyrchedd y cyfleoedd sydd ar gael.

3.21 Mae’r allbynnau o dan ‘Anuniongyrchol’ yn cynnwys allbynnau lle mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflawni rhywbeth sydd yn y pen draw yn cyfrannu at rywbeth sy’n cael ei gyflwyno’n uniongyrchol i fuddiolwyr terfynol. ‘OP10: Cyllid is-grant’ yw lle mae cyllid yn cael ei ailddosbarthu i sefydliadau eraill, a fydd wedyn yn cyflwyno gweithgareddau uniongyrchol i grwpiau targed. Mae hyn mewn partneriaeth neu ar y cyd â’r sefydliad sy’n derbyn y grant. ‘OP11: ‘Staff prosiect’ yw lle mae staff yn cael eu cyflogi i gyflawni’r prosiect a ariannwyd a/neu’n goruchwylio’r prosiect. ‘OP12: Offer, technoleg ac adnoddau digwyddiadau’ yw lle ceir buddsoddiad mewn technoleg neu offer, i’w defnyddio i gynhyrchu ‘OP8: Adnoddau a Gwybodaeth’, neu elfennau sy’n ofynnol i gyflwyno digwyddiad (OP6, OP7, OP9) fel llogi lleoliad, llefarwyr, neu luniaeth. ‘OP13: Hyfforddiant’ yw lle mae gweithwyr proffesiynol (y rhai sy’n gweithio gyda grwpiau targed) neu fuddiolwyr terfynol eu hunain yn cael eu hyfforddi neu eu cefnogi, i fynd ymlaen i gyflwyno gweithgareddau o dan yr allbynnau ‘Uniongyrchol’. Gall hyn hefyd gynnwys datblygu deunyddiau hyfforddi. Mae ‘OP14: Rhannu gwybodaeth a magu perthnasoedd’ yn cynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu neu hyrwyddo prosiect.

*Rhagdybiaethau sy'n ymwneud ag allbynnau*

3.22 Un rhagdybiaeth sy'n sail i'r allbynnau lefel prosiect (derbynyddion grant a buddiolwyr terfynol, OP6 i OP14) yw, ar ôl gweithgaredd buddiolwyr terfynol 'A27: Penderfynu ymgysylltu â'r prosiect sy'n cael ei gynnig gan y sefydliad', bod y buddiolwyr yn cymryd rhan, a bod y penderfyniad neu'r bwriad yn cael ei droi'n ymddygiad gwirioneddol. Mae rhai prosiectau'n cynnwys ymgysylltu â'r un buddiolwyr dros amser. Felly, mae yna hefyd set o ragdybiaethau sy'n sail i ymddygiad parhaus y buddiolwyr, sy'n cynnwys:

- Eu gallu i ymgysylltu, ynglŷn â ffactorau fel amser, teithio, cael at dechnoleg
- Sut maen nhw'n blaenoriaethu hyn yn erbyn blaenoriaethau cystadleuol eraill
- Canfyddiadau a phrofiadau o gymryd rhan i ddechrau

*Gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â chanlyniadau*

3.23 O ran canlyniad lefel cronfa 'Y sector ehangach' 'OC8: Dod â sefydliadau i'r maes ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru nad oeddent yn weithgar, neu a oedd yn llai gweithgar, yn y maes hwn o'r blaen', mae hyn yn cyfeirio at sefydliadau yng Nghymru nad oeddent wedi ymgysylltu â democratiaeth o'r blaen, a'r rhai a oedd wedi gweithredu yn Lloegr yn y maes ymgysylltu â democratiaeth ond nad oedd ganddynt fawr ddim profiad yng Nghymru.

3.24 O ran y canlyniad lefel cronfa ar gyfer 'Llywodraeth Cymru a'r sector ehangach', 'OC9: Gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau targed a gyrhaeddwyd, beth sy'n gweithio, ac arferion da', cododd cyfranogwyr y gweithdy fod hyn yn adeiladu ar wybodaeth Llywodraeth Cymru ers cychwyn y grant (In6). Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth ynghylch dulliau newydd - fel y nodir yn y 'Rhagdybiaethau Cyffredinol' (pwynt 3.4), roedd y GYD yn ceisio ariannu arferion arloesol a chreadigol.

3.25 Mae canlyniad lefel prosiect derbynyddion y grant 'OC20: Gwell dealltwriaeth o'r grŵp neu grwpiau targed' yn cynnwys rhwystrau, lefel addysg ddemocrataidd, pynciau lle mae bylchau gwybodaeth, a dulliau llwyddiannus o ymgysylltu. Mae canlyniad lefel prosiect derbynyddion y grant 'OC24: Adeiladu capasiti, adnoddau a sgiliau' yn cynnwys, er enghraifft: cynhyrchu gwybodaeth hygyrch, cyflogi, hyfforddi ac uwchsgilio staff, a sicrhau bod modd cynnal cynnwys y prosiect ar ôl y grant.

3.26 Mae canlyniad lefel prosiect buddiolwyr terfynol ‘OC13: Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth neu wybodaeth o agweddau ar ddemocratiaeth wedi gwella’, yn cynnwys meysydd sy’n cwmpasu’r system ddemocrataidd gyfan a’r prosesau, sut i gymryd rhan, rolau a chyfrifoldebau gwahanol lefelau o lywodraeth, pleidiau gwleidyddol, etholiadau a phleidleisio, deddfau neu gonfensiynau, a dinasyddiaeth. Mae ‘OC14: Cymryd rhan a chyfranogi mewn democratiaeth’, gan ddibynnu ar allbynnau’r prosiect, naill ai’n cyfeirio at fuddiolwyr yn cymryd rhan yn y prosiect, neu’n cymryd rhan y tu allan i hyn neu ar ôl hyn. Mae’n cynnwys:

- Gweithredu cymdeithasol: ymgyrchoedd, ymgynghoriadau, deisebau, fforymau cymunedol
- Ymgysylltu â’r rhai sy’n gweithio mewn democratiaeth, fel eu cynrychiolwyr (boed yn lleol neu’n ehangach)
- Cysylltu â’r rhai sy’n gweithio mewn democratiaeth (boed yn lleol neu’n ehangach)
- Dod o hyd i syniadau neu wneud awgrymiadau ar sut i wella neu newid rhywbeth yn lleol
- Pleidleisio mewn etholiad

3.27 Mae ‘OC15: Cofrestru i bleidleisio’, yn ymwneud ag ‘OP7: Cymorth ymarferol i bleidleisio’, lle mae’r prosiect yn cynnwys rhoi cymorth ymarferol sy’n gysylltiedig â phleidleisio, a dyma sy’n arwain at gynnydd mewn cofrestriadau. Mae ‘OC16: Teimlo bod eu llais yn cael ei glywed’ yn arbennig yn cynnwys teimlo eu bod yn cael eu clywed ar faterion sy’n bwysig i’r buddiolwyr. Mae ‘OC18: Datblygu sgiliau ymarferol ehangach’ yn cynnwys sgiliau trosglwyddadwy nad ydynt yn benodol i ddemocratiaeth, er enghraifft, sgiliau digidol, neu sgiliau cyflwyno.

*Cysylltiadau rhwng allbynnau a chanlyniadau*

3.28 Mae’r canlyniadau ar lefel prosiect ar gyfer buddiolwyr terfynol (OC13 i OC19) o ganlyniad i’r allbynnau uniongyrchol ac anuniongyrchol a gyflawnir ar lefel y prosiect (OP6 i OP14). Mae pob prosiect a ariennir gan y GYD yn unigryw, ac felly bydd ganddynt wahanol gyfuniadau o’r allbynnau a’r canlyniadau hyn.

3.29 Yn ogystal â chanlyniadau ‘Y sector ehangach’ ar lefel cronfa yn y model rhesymeg (OC5 i OC8), un canlyniad anuniongyrchol neu anfwriadol ychwanegol ar y lefel ehangach hon yw bod aelodau’r Senedd yn dod yn ymwybodol o weithgarwch ariannu ymgysylltu â democratiaeth Llywodraeth Cymru. Mae hyn o ganlyniad i’r allbynnau ar lefel prosiect sy’n cynnwys ymgysylltu â’r rhai sy’n gweithio mewn democratiaeth, lle mae hyn weithiau yn cynnwys aelodau’r Senedd (‘OP6: Addysg am ddemocratiaeth trwy weithdai a digwyddiadau’ ac ‘OP9: Cymryd rhan mewn proses ddemocrataidd’).

3.30 O ran y canlyniadau ar lefel cronfa ar gyfer derbynyddion y grant, un o ganlyniad anuniongyrchol neu anfwriadol ychwanegol y GYD yw gwell cysylltiadau a pherthnasoedd rhwng sefydliadau derbyn a thimau polisi eraill ar draws Llywodraeth Cymru (h.y. y tu allan i’r tîm polisi Etholiadau). Mae hyn yn cael ei ategu’n rhannol gan allbwn lefel cronfa Llywodraeth Cymru ‘OP2: Darperir gwybodaeth am yr hyn sy’n cael ei ddarparu drwy’r grant i feysydd polisi cysylltiedig eraill yn Llywodraeth Cymru’.

3.31 O ran y canlyniad ar lefel cronfa ar gyfer ‘Llywodraeth Cymru a’r sector ehangach’, ‘OC9: Gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau targed a gyrhaeddwyd, beth sy’n gweithio, ac arferion da’, mae hyn yn seiliedig yn rhannol ar ‘OP4: Mae canfyddiadau'r prosiectau sy'n derbyn grant yn cael eu coladu’ ac felly ‘A9: Adolygu adroddiadau gwerthuso grantiau’. Mae hefyd yn seiliedig yn rhannol ar weithgareddau ac allbynnau ‘ymgysylltu a chyfathrebu’ Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae canlyniadau lefel prosiect sy’n sail i OC9 lefel cronfa, a ddisgrifir nesaf ym mhwynt 3.32.

*Cysylltiadau rhwng canlyniadau lefel prosiect a lefel cronfa*

3.32 Mae canlyniadau lefel prosiect derbynyddion grant ‘OC20: Gwell dealltwriaeth o’r grŵp neu grwpiau targed’, ‘OC21: Gwell dealltwriaeth o ran ble i ganolbwyntio ymdrechion ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol, neu ble i wneud newidiadau’, ac ‘OC22: Ennill profiad gweithredadwy wrth oresgyn y rhwystrau rhag ymgysylltu sy’n wynebu buddiolwyr terfynol’ yn sail i ganlyniad Llywodraeth Cymru a lefel cronfa ehangach ‘OC9: Gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau targed a gyrhaeddwyd, beth sy’n gweithio, ac arferion da’. Mae’r canlyniadau lefel prosiect hefyd yn ymwneud â’r canlyniadau lefel cronfa ar gyfer derbynyddion grant ‘OC10: Trwy fynychu’r PYD mae mwy o rannu gwybodaeth ac adnoddau dwyffordd ar draws sefydliadau’, ‘OC11: Trwy fynychu’r PYD mae perthnasoedd a rhwydweithiau’n cael eu hadeiladu ar draws

sefydliadau (gan gynnwys derbynyddion eraill ac ehangach)' ac 'OC12: Trwy fynychu'r PYD mae cyfleoedd i gydweithio'n cael eu harchwilio ac felly mae mwy o waith partneriaeth ar draws y sefydliadau'. Mae hyn oherwydd bod canlyniadau lefel prosiect OC20 i OC22 yn cynnwys yr wybodaeth sydd i'w rhannu gan dderbynyddion y grant gyda Llywodraeth Cymru a'r sector ehangach, gan gynnwys trwy'r PYD.

*Rhagdybiaethau sy'n ymwneud â chanlyniadau*

3.33 Fel y nodwyd ym mhwynt 3.16, un rhagdybiaeth ar gyfer derbynyddion grant ar gyfer 'A24: Casglu gwybodaeth i ddeall canlyniadau ac effaith eu prosiect' yw bod gan y derbynnydd yr wybodaeth neu'r offer i wneud hynny. Mae hyn hefyd yn ymwneud ag 'A23: Cynnal goruchwyliaeth lefel uchel o gynnydd y gweithgaredd arfaethedig a ariannwyd, gan fonitro'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn erbyn yr hyn a gynlluniwyd'. Mae'r derbynnydd yn meddu ar yr wybodaeth neu'r offer i fonitro'r cyflawni a deall y canlyniadau ac effeithiau yn ymwneud â chyfres arall o ragdybiaethau sy'n sail i'r canlyniad ar lefel cronfa ar gyfer 'Llywodraeth Cymru a'r sector ehangach', 'OC9: Gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau targed a gyrhaeddwyd, beth sy'n gweithio, ac arferion da'. Y rhagdybiaethau hyn yw:

- Bod derbynyddion y grant wedi gwerthuso eu prosiect mewn ffordd sy'n galluogi'r mewnwelediadau hyn (anghenion y grwpiau targed a gyrhaeddwyd, beth sy'n gweithio, ac arferion da) i gael eu gwneud
- Bod derbynyddion y grant yn teimlo'n gyfforddus i fod yn onest am yr hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd
- Bod angen cael modd / mecanwaith i rannu'r wybodaeth hon a sicrhau ei bod yn cyrraedd y sector ehangach

3.34 Un rhagdybiaeth sy'n eistedd rhwng y canlyniadau ar gyfer buddiolwyr terfynol (OC13 i OC19) ac allbynnau a gyflawnir ar lefel prosiect (OP6 i OP14) yw bod y prosiectau wir wedi cyrraedd y rhai a oedd yn ymwneud llai, os o gwbl, â democratiaeth, a bod y bobl hyn wedi cymryd rhan ynddynt, yn hytrach na'r rhai a oedd eisoes â diddordeb neu a oedd eisoes yn ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd heb yr offer neu'r ddealltwriaeth gywir, a allai ei chael hi'n anodd cymryd rhan, neu nad ydynt yn debygol o gymryd rhan. Un rhagdybiaeth arall yw bod yr hyn

a ddarparwyd gan y prosiect wedi mynd i'r afael ag anghenion penodol y grŵp targed a'u bodloni (wedi'i ategu gan dderbynyddion 'In10: Profiad o anghenion buddiolwyr targed, a ffyrdd o weithio gyda nhw, a/neu wybodaeth amdanynt', a arweiniodd at weithgareddau 'datblygu a chymhwyso' a 'chyflawni prosiect').

*Gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag effeithiau*

3.35 Ar gyfer 'I3: Gwell cydweithredu ar draws y rhai sy'n gweithredu yn y sector: mae ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ymgysylltu â democratiaeth', mae dull mwy cydweithredol a chydgysylltiedig yn gwella effeithlonrwydd trwy rannu arferion ac adnoddau, gan gwtogi ar ddyblygu gwaith.

3.36 Ar gyfer 'I4: O fewn y sector, mae gwersi a ddysgwyd am y grwpiau targed ac ymyriadau yn cael eu cymhwyso i lywio a gwella gwaith ymgysylltu â democratiaeth yn y dyfodol', mae hyn yn cynnwys dysgu am ddulliau newydd: fel y nodir yn y 'Rhagdybiaethau cyffredinol' (pwynt 3.4), ceisiodd y GYD ariannu arferion arloesol a chreadigol.

*Cysylltiadau rhwng canlyniadau ac effeithiau*

3.37 Mae 'I1: Mae pobl (yn enwedig yn y grwpiau targed) yn cael eu cynnwys, eu cymell a'u grymuso i gymryd rhan mewn democratiaeth, gyda'r offer i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac effeithio'n gadarnhaol ar Gymru o'u cwmpas.' yn ymwneud yn bennaf â'r canlyniadau ar gyfer buddiolwyr terfynol (OC13 i OC19) a phobl neu sefydliadau eraill (OC25 ac OC26). Unwaith eto, mae pob prosiect yn unigryw a bydd ganddo ganlyniadau gwahanol i fuddiolwyr a phobl neu sefydliadau eraill mewn gwahanol gyfuniadau, a fydd yn dylanwadu'n wahanol ar yr effaith. Er enghraifft, gallai 'OC25: Newidiadau wedi'u gwneud e.e., cynghorwyr yn cyflwyno awgrymiadau a godwyd gan fuddiolwyr', gysylltu ag 'I1' oherwydd gallai hyn arwain at gael eu cynnwys, eu cymell a'u grymuso drwy 'OC16: Teimlo bod eu llais yn cael ei glywed' – gan weld bod eu llais yn gwneud gwahaniaeth. Ar ben hynny, drwy'r allbynnau ar lefel prosiect (OP6 i OP14) cyflawnir gwaith sy'n ymwneud ag 'OC6: Mae capasiti'r sector ar gyfer y gwaith hwn yn cynyddu rhwng cylchoedd etholiadol', sy'n gwneud yr effaith i'r rhai yn y grwpiau targed yn bosibl.

3.38 ‘I2: Mae sefydliadau'n gallu mabwysiadu dull hirdymor o annog a chefnogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth’ yn y pen draw yn cysylltu’n ôl ag ‘In1: Cymeradwyaeth y Gweinidogion a £900,000 o gyllid ar gael dros 3 blynedd’. O ran cysylltiadau â’r canlyniadau, mae effaith 2 yn ymwneud â’r canlyniadau ar lefel prosiect ar gyfer derbynyddion ‘OC23: Magu perthynas â buddiolwyr, a sefydliadau eraill. Proffil y sefydliad derbyn yn uwch ymhlith y grwpiau hyn’ ac ‘OC24: Adeiladu capasiti, adnoddau a sgiliau’, gan fod y canlyniadau hyn yn adlewyrchu elfennau a adeiladwyd sy’n galluogi sefydliadau i weithio yn y maes hwn yn y tymor hir. Mae effaith 2 hefyd yn ymwneud â chanlyniad lefel cronfa ‘Y sector ehangach’ ‘OC7: Mae mwy o adnoddau ar gael, y gellir eu defnyddio hefyd gan sefydliadau heb eu hariannu a'r boblogaeth ehangach’, cyn belled â bod sefydliadau yn gallu defnyddio’r rhain dros amser, lle mae’r adnoddau a grëwyd yn dal i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf/gywir. Yn ogystal, mae ‘OC6: Mae capasiti’r sector ar gyfer y gwaith hwn yn cynyddu rhwng cylchoedd etholiadol’, lle mae gallu gwneud gwaith y tu allan i’r cyfnod cyn etholiadau yn cefnogi dull tymor hwy. Mae effaith 2 hefyd yn ymwneud â chanlyniad lefel cronfa Llywodraeth Cymru ‘OC4: Gwell dealltwriaeth o anghenion sefydliadau o fewn y sector democratiaeth’ oherwydd drwy ddeall anghenion sefydliadau, gellir cymhwyso’r rhain i ystyried rôl Llywodraeth Cymru wrth alluogi dull tymor hwy.

3.39 Mae ‘I3: Gwell cydweithredu ar draws y rhai sy'n gweithredu yn y sector: mae ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ymgysylltu â democratiaeth’ yn gysylltiedig â chanlyniadau lefel cronfa derbynyddion grant ‘OC10’ i ‘OC12’ (sydd, fel y nodwyd ym mhwynt 3.32, yn seiliedig ar ganlyniadau OC20 i OC22 lefel prosiect derbynyddion grant). Mae hyn yn cysylltu’n ôl â’r allbwn lefel cronfa ar gyfer Llywodraeth Cymru a’r derbynyddion ‘OP5: Cynhelir cyfarfodydd y PYD bob deufis ac maent yn fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a diweddariadau prosiectau’. Mae effaith 3 hefyd yn gysylltiedig â chanlyniad ‘Y sector ehangach’ ‘OC6: Mae capasiti’r sector ar gyfer y gwaith hwn yn cynyddu rhwng cylchoedd etholiadol’ gan fod gallu gwneud y gwaith yn galluogi cydweithio. Yn ogystal, ‘OC5: Codi proffil yr hyn sy'n digwydd yn y maes ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru gyda gweddill y DU’ ac ‘OC8: Dod â sefydliadau i'r maes ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru nad oeddent yn weithgar, neu a oedd yn llai gweithgar, yn y maes hwn o'r blaen’, gan fod y rhain yn ehangu’r cyfleoedd i gydweithio yn y sector. Ar gyfer Llywodraeth Cymru, mae effaith 3 yn cysylltu â chanlyniadau ‘OC1: Cefnogir

meysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru i gyflawni eu hamcanion sy'n gysylltiedig â democratiaeth', 'OC2: Gwell perthynas â meysydd polisi cysylltiedig eraill ar draws Llywodraeth Cymru' ac 'OC3: Gwell cysylltiadau a pherthynas â sefydliadau o fewn y sector democratiaeth'. Trwy wella perthnasoedd a chysylltiadau mae hyn yn darparu sail i nodi cyfleoedd i gydweithio.

3.40 Mae 'I4: O fewn y sector, mae'r gwersi a ddysgwyd am y grwpiau targed ac ymyriadau yn cael eu cymhwyso i lywio a gwella gwaith ymgysylltu â democratiaeth yn y dyfodol' yn ymwneud â chanlyniad Llywodraeth Cymru a'r sector ehangach 'OC9: Gwell dealltwriaeth o anghenion y grwpiau targed a gyrhaeddwyd, beth sy'n gweithio, ac arferion da (drwy rannu gwersi a ddysgwyd gan dderbynyddion y grant)'. Fel y nodwyd ym mhwynt 3.32, mae 'OC9' yn seiliedig ar ganlyniadau lefel prosiect derbynyddion grant 'OC20' i 'OC22' a chanlyniadau lefel cronfa derbynyddion grant 'OC10' i 'OC12', sydd felly hefyd yn ymwneud ag effaith 4. Mae'r canlyniadau hyn i gyd yn ymwneud â'r gwersi a ddysgwyd a rhannu gwybodaeth sy'n galluogi'r rhain i gael eu cymhwyso mewn gwaith ymgysylltu â democratiaeth yn y sector yn y dyfodol. Mae effaith 4 hefyd yn ymwneud ag 'OC7: Mae mwy o adnoddau ar gael, y gellir eu defnyddio hefyd gan sefydliadau heb eu hariannu a'r boblogaeth ehangach', sy'n seiliedig ar yr allbynnau lefel prosiect. Trwy ddarparu adnoddau fel rhan o'r prosiectau, gall eraill ddefnyddio'r rhain a thrwy hynny eu cymhwyso mewn gwaith yn y dyfodol.

*Rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig ag effeithiau*

3.41 Un rhagdybiaeth sy'n sail i 'I1: Mae pobl (yn enwedig yn y grwpiau targed) yn cael eu cynnwys, eu cymell a'u grymuso i gymryd rhan mewn democratiaeth, gyda'r offer i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac effeithio'n gadarnhaol ar y Gymru o'u cwmpas' yw bod canlyniadau'r buddiolwyr terfynol yn cael eu cynnal yn y tymor hwy ar ôl i'r buddiolwr roi'r gorau i gymryd rhan yn y prosiect.

**Risgiau**

3.42 At y diben hwn, mae risg yn ffactor mewnol neu allanol a all ddylanwadu ar y rhaglen naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol. Un yw, oherwydd cyflymder prosesau mewnol Llywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyo cyllid, na ellir ymrwymo i gyllid fod ar gael y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o 3 blynedd (rhwng 2022/23 a 2024/25). Mae hyn yn peri risg i barhad prosiectau ac felly i effaith GYD 'I2: Mae sefydliadau'n gallu mabwysiadu dull hirdymor o annog a chefnogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth'.

3.43 Un risg arall yw nad yw sefydliadau sy'n derbyn grant yn gallu cyflawni yn unol â'r hyn y cytunwyd arno, sy'n peri risg i sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a chyflawni canlyniadau ac effeithiau arfaethedig y cynllun grant. Caiff hyn ei liniaru drwy gyfathrebu rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a derbynyddion y grant (A14: Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau derbyn: ymgysylltu parhaus a rheoli perthnasoedd). Mae hyn hefyd yn cael ei liniaru gan y tîm polisi Etholiadau yn cynnal diwydrwydd dyladwy ar sefydliadau yn y cam asesu grant (A5: Adolygu ceisiadau), gan sicrhau eu bod yn dangos tystiolaeth o egwyddorion busnes cadarn. Caiff hyn ei ategu gan 'In5: Canllawiau ar gyfer arferion dylunio grantiau sy'n ystyried: gwerth grant; math o sefydliad neu sector' ac 'In6: Gwybodaeth a gafwyd o brofiad blaenorol: Y maes a chyd-destun polisi; Dyluniad grant; Sefydliadau o fewn y sector; Costau cyflawni nodweddiadol'.

3.44 Mae colli adnodd staff polisi a pharhad personél yn risg, oherwydd maint bach y tîm polisi Etholiadau. Mae hyn yn peri risg i'r gweithgareddau a'r allbynnau 'lefel cronfa' sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

3.45 Mae colli capasiti neu adnodd panel asesu grant yn peri risg i wneud penderfyniadau panel ac felly darparu canlyniadau ymgeisio i sefydliadau derbyn. Mae hyn yn peri risg i weithgareddau ac allbynnau lefel prosiect yn cael eu cyflawni gan dderbynyddion.

3.46 Risg arall yw'r gallu i ystyried effaith a gwerth am arian pan fydd y panel yn asesu grantiau am nad yw natur y grant yn gyfarwyddiadol ynghylch allbynnau a chanlyniadau prosiectau. Mae'r risg hon o ganlyniad i'r 'Rhagdybiaethau cyffredinol' bod gan Lywodraeth Cymru ddiduedddrwydd gwleidyddol clir yn y maes hwn ac nad

yw'n gyfarwyddiadol mewn democratiaeth (pwynt 3.4). Caiff yr elfen gwerth am arian ei lliniaru'n rhannol gan In5 ac In6.

3.47 Risg arall yw bod trosiant staff o fewn y sefydliad sy'n derbyn grant, lle mae gwybodaeth o'r prosiect yn cael ei cholli cyn y gellir crisialu gwersi a ddysgwyd a chanfyddiadau'r gwerthusiad a'u cyfleu gan y sefydliad sy'n derbyn i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn peri risg i'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth a gwell dealltwriaeth (OC9, OC10, OC 20 i 22), ac yn y pen draw 'I4: O fewn y sector, mae gwersi a ddysgwyd am y grwpiau targed ac ymyriadau yn cael eu cymhwyso i lywio a gwella gwaith ymgysylltu â democratiaeth yn y dyfodol'.

3.48 Yn olaf, un risg yw nad yw derbynyddion grant yn cydweithredu nac yn rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill yn y sector, er enghraifft am yr hyn y maent wedi'i gyflawni a'i ddysgu. Mae hyn yn peri risg i 'I3: Gwell cydweithredu ar draws y rhai sy'n gweithredu yn y sector: mae ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ymgysylltu â democratiaeth' ac 'I4: O fewn y sector, mae gwersi a ddysgwyd am y grwpiau targed ac ymyriadau yn cael eu cymhwyso i lywio a gwella gwaith ymgysylltu â democratiaeth yn y dyfodol'.

# 4. Canfyddiadau – nod 1: Dylunio a chyflawni'r cynllun cyllid grant cyfredol.

**Pa sefydliadau a gafodd gyllid y GYD a sut cafodd ei ddefnyddio?**

4.1 Ym mlynyddoedd ariannol 2022/23 (mis Ionawr i fis Mawrth 2023) a 2023/24 (mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024), cafodd cyfanswm o 16 o sefydliadau gyllid grant. Cafwyd ceisiadau mewn cyfrannau, a chafwyd cyfanswm o 38 o geisiadau. Mae cyfanswm nifer y ceisiadau ym mhob cyfran wedi'i rannu yn ôl ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus yn Nhabl 1. Mae hyn yn dangos bod y rhan fwyaf o geisiadau wedi'u cael pan lansiwyd y grant gyntaf.

**Tabl 1: Nifer y ceisiadau llwyddiannus ac aflwyddiannus am gyllid rhwng mis Ionawr a mis Medi 2023 [Nodyn 1]**

| | Cyfran 1: mis Ionawr i fis Chwefror 2023 | Cyfran 2: mis Ebrill i fis Mai 2023 | Cyfran 3: mis Gorffennaf i fis Medi 2023 |
|---|---:|---:|---:|
| **Llwyddiannus** | 12 | 2 | 3 |
| **Aflwyddiannus** | 14 | 7 | 0 |
| **Cyfanswm y ceisiadau** | **26** | **9** | **3** |

[Nodyn 1] Nid oedd un o'r sefydliadau a oedd yn llwyddiannus yng nghyfran 1 yn gallu cyflawni yn unol â'i amserlen grant ac felly cafodd ei dynnu fel derbynnydd grant.

4.2 Roedd gwerth y grantiau a ddyfarnwyd i'r 16 sefydliad yn amrywio o oddeutu £900 i oddeutu £87,000. Y gwerth grant cymedrig oedd £17,700. Roedd naw o'r grantiau ar gyfer blwyddyn o weithgarwch wedi'i ariannu, pedwar ar gyfer gweithgarwch tymor byr, a thri ar gyfer gweithgaredd aml-flwyddyn (dwy neu dair blynedd). Ailymgeisiodd un sefydliad a gafodd gyllid blwyddyn ym mlwyddyn ariannol 2024/25 (mis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025) i barhau ac felly daeth yn brosiect aml-flwyddyn. Cafodd pob prosiect tymor byr ddyfarniad islaw £2,000.

4.3 Daeth ceisiadau gan chwe sefydliad sydd o fewn llywodraeth leol (tri awdurdod lleol, tri chyngor tref neu gymuned). Un awdurdod lleol oedd y prif ymgeisydd ar gyfer dau gais llwyddiannus ar wahân, ac roedd un ohonynt mewn partneriaeth â dau awdurdod lleol arall. Felly, yn gyffredinol, wrth ystyried ceisiadau partneriaeth, roedd pedwar awdurdod lleol unigryw yn rhan o brosiectau'r GYD. Roedd saith ymgeisydd yn elusennau, a thri yn gwmnïau buddiannau cymunedol.

4.4 Bwriad y grant oedd cyrraedd ledled Cymru (nodiadau canllaw ffurflen gais y GYD, Llywodraeth Cymru, 2024). Dywedodd chwe sefydliad yn eu ceisiadau eu bod yn bwriadu cael cyrhaeddiad cenedlaethol. Amlinellodd pedwar sefydliad gyrhaeddiad rhanbarthol – sydd at y dibenion hyn yn cynnwys cyrhaeddiad ar draws nifer o ardaloedd awdurdod lleol neu un ardal awdurdod lleol. Y rhanbarthau oedd De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru, a De-ddwyrain Cymru. Roedd chwech yn amlinellu cyrhaeddiad lleol sydd at y dibenion hyn yn dref neu ddinas benodol, ac yn cynnwys lleoedd yn y Gogledd, y De-orllewin a'r De-ddwyrain. Felly, o ran cyrhaeddiad daearyddol, nid oedd Gogledd Cymru yn cael ei chynrychioli ar lefel ranbarthol.

4.5 Roedd naw o'r ceisiadau yn gais partneriaeth gyda sefydliadau eraill tra bod saith yn gais gan unig sefydliad. Nid oedd hyn yn amrywio yn ôl gwerth dyfarniad grant. Roedd pedwar o'r ceisiadau ar gyfer prosiect newydd, lle roedd y sefydliad yn rhoi cynnig ar rywbeth nad oedd wedi'i wneud o'r blaen. Roedd y grantiau hyn yn werth £1,000 neu is. Roedd deg o'r ceisiadau ar gyfer prosiect newydd yn dilyn prosiect blaenorol. Dyma lle bu rhywfaint o weithgareddau blaenorol yn yr ardal i osod sail i fformat y prosiect a ariannwyd gan y GYD yr oedd y sefydliadau'n dymuno adeiladu arno. Er enghraifft, adeiladu ar weithgareddau a wnaed yn flaenorol yn y cyfnod cyn etholiadau 2021 neu 2022, parhau â chynllun i flwyddyn arall, neu ddod â chynllun i Gymru. Roedd dau o'r ceisiadau yn rhan o brosiect parhaus presennol. Hynny yw, roedd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i lenwi bylchau o fewn rhaglen ehangach o waith a oedd eisoes yn digwydd, gan gynnwys ehangu cylch gwaith y prosiect presennol.

4.6 O ran sut y defnyddiwyd y cyllid grant, mae adran 'Allbynnau' y model rhesymeg (gweler Ffigur 1 a phwyntiau 3.18 i 3.21) yn manylu ar y themâu sy'n ymwneud â'r mathau eang o'r hyn a gyflwynwyd, a oedd yn seiliedig ar ddadansoddiad o geisiadau grant, adroddiadau gwerthuso a chyfweliadau sydd ar gael. Roedd gan y rhan fwyaf elfennau lluosog i'w prosiect a ariannwyd gan y grant yn eu cais, ac felly roedd yr hyn yr oeddent yn bwriadu ei gyflawni yn cwmpasu themâu allbwn lluosog. Ar y cyfan, yr allbwn mwyaf cyffredin oedd 'OP6: Addysg am ddemocratiaeth trwy weithdai a digwyddiadau', a nodwyd gan 11 o'r 16 derbynnydd grant yn eu ceisiadau.

4.7 Yn gyffredinol, ar gyfer y 12 prosiect a gwblhawyd, mae'n debyg bod y derbynyddion wedi defnyddio'r cyllid fel y bwriadwyd ac wedi cyflawni'r hyn yr oeddent wedi bwriadu ei wneud.

4.8 Er bod rhai prosiectau wedi cyflawni'r hyn yr oeddent wedi'i fwriadu yn gyffredinol, roedd rhai elfennau na chafodd eu cyflawni. Er enghraifft, roedd achosion lle 'OP6: Addysg am ddemocratiaeth trwy weithdai a digwyddiadau' oedd y prif allbwn a gynlluniwyd, ond nid oedd y derbynyddion yn gallu darparu 'OP7: Cymorth Ymarferol i bleidleisio' fel rhan o hyn (darparu cymorth uniongyrchol i fuddiolwyr neu gyfle i gofrestru). Roedd yna hefyd achosion lle cynhaliwyd llai o weithdai/digwyddiadau nag a gynlluniwyd i ddechrau. Yn yr un modd, roedd enghraifft lle 'OP9: Cymryd rhan mewn proses ddemocrataidd' oedd y prif allbwn a gynlluniwyd. Fodd bynnag, er bod y rhan graidd o fforwm wedi'i sefydlu, ni wnaeth rhan arall o'r fforwm gyda chylch gorchwyl gwahanol ddwyn ffrwyth.

4.9 Ar gyfer prosiectau eraill, mae'r darlun cyffredinol yn fwy cymysg o ran pa elfennau a gafodd eu cyflawni a pha rai na chafodd eu cyflawni, gyda bylchau cyflawni mwy o faint. Roedd enghraifft lle 'OP8: Adnoddau a gwybodaeth' oedd y prif allbwn a gynlluniwyd, crëwyd y rhain ond ni fu'n bosibl eu lledaenu o fewn cyfnod y grant. Roedd achos hefyd lle 'OP9: Cymryd rhan mewn proses ddemocrataidd' ac 'OP7: Cymorth Ymarferol i bleidleisio' oedd y prif allbynnau a gynlluniwyd, ond mewn rhai achosion ni wnaed cynnydd y tu hwnt i gynllunio. Roedd enghraifft hefyd lle 'OP6: Addysg am ddemocratiaeth trwy weithdai a digwyddiadau' ac 'OP8: Adnoddau a gwybodaeth' oedd y prif allbynnau a gynlluniwyd. Fodd bynnag, nid yw'n glir o'r adroddiad a gynhyrchwyd yr adnoddau arfaethedig (OP8) ai peidio.

4.10 Roedd yna hefyd brosiectau a gyflawnodd fwy o allbynnau nag a fwriadwyd yn wreiddiol. Er enghraifft, roedd achosion lle 'OP6: Addysg am ddemocratiaeth trwy weithdai a digwyddiadau' oedd y prif allbwn a gynlluniwyd, a chyflawnodd derbynyddion hefyd allbynnau o dan 'OP8: Adnoddau a gwybodaeth' ac 'OP9: Cymryd rhan mewn proses ddemocrataidd'. Roedd enghreifftiau o allbynnau ychwanegol yn cynnwys fideos, etholiadau ffug neu ddarparu'r cymorth sydd ei angen i wneud newid yng nghymuned y buddiolwyr.

4.11 Wrth grynhoi'r 21 cais aflwyddiannus, roedd yr ystod o arian yr ymgeisiwyd amdano oddeutu £1,000 i oddeutu £114,000, gyda chanolrif o ryw £4,800 a chymedr o £18,851, gan amlygu bod llawer ohonynt ym mhen gwerth is y raddfa. Roedd pob un ohonynt yn brosiectau tymor byr neu flwyddyn, neu ar gyfer rhywbeth untro. O ran grwpiau targed, roedd 11 yn anelu at gyrraedd pobl ifanc, ac mewn un achos roedd prosiect wedi'i anelu at bobl ifanc o gefndir ymylol penodol. Roedd naw yn anelu at gyrraedd y gymuned yn gyffredinol, dau yn anelu at gyrraedd grwpiau penodol (gan gynnwys pobl anabl, pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu grwpiau nas clywir yn aml), un cais cenedlaethol yn targedu'r boblogaeth gyffredinol. O ran sector yr 20 sefydliad unigryw, roedd 16 yn perthyn i lywodraeth leol (chwe awdurdod lleol, un awdurdod arbenigol, naw cyngor tref neu gymuned), tri yn elusennau ac un yn 'egin fusnes'.

### A gyrhaeddwyd y grwpiau targed?

4.12 Bwriad y grant oedd cyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, grwpiau newydd eu hetholfreinio a phobl anabl (nodiadau canllaw ffurflen gais y GYD, Llywodraeth Cymru, 2024). Dengys canfyddiadau ymchwil desg fod gan rai derbynyddion grant nifer o grwpiau targed ar gyfer eu prosiectau. Roedd mwyafrif y ceisiadau (10 o'r 16) yn nodi pobl ifanc fel grŵp targed, a oedd yn cynnwys gwahanol ystodau oedran. Roedd pedwar cais yn nodi pobl anabl fel grŵp targed ac roedd tri yn nodi gwladolion tramor fel grŵp targed. Roedd dau o'r ceisiadau lleol yn targedu'r gymuned yn eu hardal, ac roedd un cais cenedlaethol yn targedu'r etholwyr cyffredinol.

4.13 Yn nodedig, nid yw 'grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol' wedi'u diffinio yn nogfennaeth y GYD Llywodraeth Cymru. Roedd dau gais yn ceisio targedu pobl ifanc o gefndir penodol (Sipsiwn, Roma a Theithwyr, neu gymunedau difreintiedig). Nod dau oedd targedu pobl ifanc neu oedolion ag unrhyw un o ystod o nodweddion neu amgylchiadau penodol. Roedd y rhain yn cynnwys nodweddion gwarchodedig (oedran, anabledd, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd) yn ogystal â ffactorau ehangach (statws economaidd, allgáu digidol, myfyrwyr, gofalwyr, statws cyflogaeth, sefyllfa tai). Gellir dod i'r casgliad mai dyma'r hyn y mae derbynyddion wedi'u hystyried yn 'grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol'.

4.14 Mae canfyddiadau o gyfweliadau â derbynyddion grant yn awgrymu bod y prif fuddiolwyr yn cydredeg yn ehangach â gweithgareddau'r sefydliad. Wrth dargedu pobl ifanc, pobl anabl a gwladolion tramor, gweithiodd y sefydliadau derbyn yn benodol gyda'r grwpiau hyn. Ar gyfer grŵp targed mwy cyffredinol, roedd y sefydliadau derbyn naill ai mewn tref neu ddinas benodol yr oeddent yn bwriadu ei chyrraedd, neu wedi datblygu cynnwys ar-lein a oedd felly yn golygu bod ganddynt gyrhaeddiad ledled Cymru.

4.15 Trafododd cyfranogwyr y dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i gyrraedd y grwpiau targed arfaethedig. Un set o ddulliau oedd ffurf lai uniongyrchol o ymgysylltu, a oedd yn cynnwys hysbysebu'r gweithgaredd gan ddefnyddio taflenni, posteri, cyfryngau cymdeithasol, neu roi gwybodaeth ar wefan eu sefydliad. Mewn rhai achosion, roedd gan sefydliadau bresenoldeb ffisegol yng nghanol y dref/ar y stryd fawr lle maent yn hysbysebu gweithgaredd. Roedd yna hefyd achosion lle soniodd cyfranogwyr am rannu gwybodaeth ar lafar. Byddai'r rhai a oedd wedi cymryd rhan o'r blaen, boed yn sefydliadau sy'n gweithio gyda'r grŵp targed neu'n bobl o'r grŵp targed, yn annog eraill i gymryd rhan.

4.16 Un dull arall oedd ffurf fwy uniongyrchol ac roedd yn cynnwys manteisio ar rwydweithiau. Roedd hyn yn cynnwys estyn allan i sefydliadau eraill a oedd yn gweithio gyda'r grŵp targed, a meithrin perthynas â'r sefydliadau hynny. Byddai'r sefydliad yr estynnodd y cyfranogwyr allan ato wedyn yn hyrwyddo'r gweithgaredd i bobl o'r grŵp targed y mae'n gweithio gydag ef, neu byddai'r sefydliad partner yn gweithio gyda'r derbynnydd i sefydlu sesiwn gyda'r grŵp targed. Mewn rhai achosion, roedd gan gyfranogwyr berthnasoedd a chysylltiadau presennol yr oeddent yn gwybod y gallent estyn allan atynt oherwydd eu profiad o weithio gyda grwpiau penodol. Roedd manteisio ar rwydweithiau hefyd yn cynnwys cyfranogwyr yn estyn allan at bobl a oedd yn gweithio mewn democratiaeth i'w hannog i fod yn siaradwr fel rhan o'r prosiect. Dywedodd cyfranogwyr eu bod wedi canfod bod yr ymrwymiad hwn wedi cynyddu'r tebygolrwydd y bydd sefydliadau sy'n gweithio gyda'r grŵp targed yn cymryd rhan yn y prosiect. Roedd achosion lle roedd cyfranogwyr yn defnyddio dulliau mwy a llai uniongyrchol o gyrraedd y grwpiau targed.

4.17 Roedd yna achosion lle adroddodd cyfranogwyr yn benodol nad oeddent yn wynebu unrhyw heriau wrth gyrraedd y grŵp targed, oherwydd bod eu sefydliad wedi'i hen sefydlu, ac am fod ganddo gysylltiadau cryf â'r grŵp targed.

4.18 Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr a nododd heriau wrth gyrraedd y grwpiau targed arfaethedig, gan gynnwys presenoldeb a chapasiti'r grŵp targed (a drafodir ymhellach ym mhwynt 4.66). Yn ogystal, bod is-grwpiau penodol neu rai mewn rhanbarth penodol yn anoddach eu cyrraedd nag eraill yn y grŵp targed. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys troseddwyr ifanc a buddiolwyr targed yng Ngogledd Cymru.

4.19 Roedd dulliau a grybwyllwyd i oresgyn presenoldeb isel (mewn cyfweliadau ac ymchwil desg) yn cynnwys treialu gwahanol amseroedd, lleoedd a fformatau ar gyfer y digwyddiadau, a chael trafodaethau pwnc penodol. Ond, weithiau, roedd maint yr amser a chyllid yn rhwystro derbynyddion rhag ystyried sut i oresgyn presenoldeb isel.

4.20 Mae'r canlynol (4.20 i 4.25) yn cynnwys asesu ar draws ymchwil desg a chyfweliadau â derbynyddion y grant. Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y grwpiau targed a nodir mewn ceisiadau wedi'u cyrraedd (prosiectau a ariannwyd am flwyddyn neu lai) neu eu bod yn cael eu cyrraedd hyd yma (prosiectau aml-flwyddyn). Fodd bynnag, roedd enghraifft ar gyfer prosiect wedi'i gwblhau gyda'r unig allbwn o ddarparu gwybodaeth ac adnoddau digidol (model rhesymeg OP8) lle nad oedd yn ymddangos bod y grwpiau targed yn cael eu cyrraedd. Er bod y prosiect yn cynhyrchu'r wybodaeth a'r adnoddau a fwriadwyd, ni chafodd y rhain eu lledaenu.

4.21 Hyd yn oed lle'r oedd prosiectau a ariannwyd am flwyddyn neu lai wedi cyrraedd y grwpiau targed yn gyffredinol, mae canfyddiadau'n dangos bod rhywfaint o amrywiaeth ym maint y cyrhaeddiad. Cafwyd amrywiad yn y ffyrdd canlynol: prosiectau'n cyrraedd llai o'r grŵp targed nag a gynlluniwyd yn wreiddiol, a lle roedd prosiectau'n ceisio cyrraedd y rhai sy'n ymgysylltu llai â democratiaeth ond yn hytrach yn cyrraedd y rhai sydd eisoes yn ymgysylltu rywfaint. Roedd hyn hefyd yn cynnwys prosiectau nad oeddent yn cyrraedd trawstoriad eang o'r grŵp targed, ond roedd disgwyl hyn oherwydd bod y prosiect yn llai o faint.

4.22 Mae'r canfyddiadau hefyd yn amlygu bod amrywiant mewn tystiolaeth ynghylch cyrhaeddiad i'r grwpiau targed, a hynny ar gyfer prosiectau aml-flwyddyn a'r rhai a ariannwyd am flwyddyn neu lai, sydd weithiau yn effeithio ar y gallu i ddod i gasgliadau.

4.23 Ar gyfer prosiectau ag allbynnau sy'n cynnwys cyflawni gweithgareddau y mae buddiolwyr yn cymryd rhan ynddynt, mae yna achosion lle mae cyrhaeddiad i'r grwpiau targed yn glir. Mae hyn trwy ddarparu'n gyson niferoedd y rhai yn y grŵp

targed a gymerodd ran (blwyddyn neu lai) neu a gymerodd ran hyd yma (aml-flwyddyn) ar draws gweithgareddau prosiect, yn ogystal â disgrifiadau cyffredinol o weithgaredd. Mewn achosion eraill, rhaid bod cyrhaeddiad yn cael ei dybio. Yn yr achosion hyn disgrifiwyd gweithgaredd cyffredinol hefyd. Fodd bynnag, roedd data wedi'i ddarparu'n anghyflawn neu'n anghyson, er enghraifft, roedd niferoedd bras yn cael eu cynnwys weithiau neu roedd y data ar gyfer rhai gweithgareddau wedi'u cynnwys ond nid eraill, gan olygu na ellir canfod cyrhaeddiad cyffredinol y grwpiau targed. Yn olaf, roedd rhai achosion lle nad oedd niferoedd wedi'u darparu o gwbl.

4.24 Ar gyfer prosiectau â'r unig allbwn o ddarparu gwybodaeth ac adnoddau digidol (model rhesymeg OP8), mewn rhai achosion nodir cyrhaeddiad i'r grwpiau targed trwy adborth gan sefydliadau partner a rannodd yr wybodaeth a dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol (cyfyngedig). Mewn achosion eraill, nid oedd unrhyw arwydd o gyrhaeddiad i'r grŵp targed y tu hwnt i dystiolaeth anecdotaidd neu'r adnodd yn cael ei wneud ar gael i'r cyhoedd.

4.25 Roedd achosion lle roedd prosiectau yn anelu at dargedu pobl ifanc neu oedolion o grwpiau penodol a ymyleiddiwyd neu sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Ar gyfer y prosiectau perthnasol a ariannwyd am flwyddyn neu lai, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth am nodweddion y rhai a gyrhaeddwyd. Ar gyfer prosiectau aml-flwyddyn, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y derbynyddion wedi gweithio gyda sefydliadau arbenigol i gyrraedd y grwpiau hyn, ond nid oes tystiolaeth fanwl ar gael ar hyn o bryd i asesu i ba raddau y mae pob un o'r grwpiau penodol hyn wedi'u cyrraedd.

4.26 Bwriad y grant oedd cyrraedd ledled Cymru (nodiadau canllaw ffurflen gais y GYD, Llywodraeth Cymru, 2024). O'r prosiectau sydd wedi'u cwblhau, nododd tri gyrhaeddiad cenedlaethol yn eu cais. O ymchwil desg yn benodol, mewn un achos, roedd y derbynnydd fel petai'n gweithio'n genedlaethol, gan gynnwys gweithio ar draws sefydliadau mewn gwahanol ranbarthau (Gogledd, Canolbarth, De-orllewin a De-ddwyrain Cymru). Mewn achos arall, roedd y derbynnydd yn cynnal sesiynau ar-lein ac adroddodd fod hyn yn galluogi presenoldeb o bob cwr o Gymru, ond ni ddarparwyd y cyrhaeddiad gwirioneddol. Mewn achos arall, mae'n ymddangos bod y derbynnydd yn gweithio'n bennaf gydag awdurdodau yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Cymru, yn ogystal â'r Canolbarth, ond ni chafodd gwybodaeth ei

chynhyrchu ar gyfer awdurdodau yng Ngogledd Cymru. Dylid ystyried hyn gyda phwynt 4.4 sy'n dangos nad oedd Gogledd Cymru yn cael ei chynrychioli ar gyfer ceisiadau rhanbarthol, a phwynt 4.18 lle nododd y derbynyddion anawsterau wrth ymgysylltu â'u grŵp targed yn y Gogledd.

**Cyflawni'r GYD a phrofiadau derbynyddion y grant**

*Gwneud cais am y grant*

4.27 Fel y nodwyd yn y model rhesymeg (Gweithgaredd 'A4'), mae rhan o'r broses yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn lansio'r grant a sefydliadau yn dod yn ymwybodol o'r grant ac yn gwneud cais amdano. Fel y nodwyd ym mhwynt 3.7, adroddodd cyfranogwyr y gweithdy model rhesymeg mai bwriad y GYD oedd cyrraedd sefydliadau newydd. Dengys canfyddiadau'r cyfweliadau fod nifer o ffyrdd y daeth sefydliadau yn ymwybodol o'r grant (yn dderbynyddion grant ac yn ymgeiswyr aflwyddiannus). Roedd hyn yn amrywio o gysylltiadau uniongyrchol iawn â Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i'r wybodaeth yn unig:

- Clywodd rhai am y cyfle trwy gysylltiad presennol â'r tîm polisi Etholiadau yn Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cael cysylltiadau cyfathrebu cyffredinol â'r tîm hwn, cael cyllid grant yn flaenorol i wneud gwaith ymgysylltu â democratiaeth trwy'r tîm, neu drwy fynychu fforwm ynglŷn ag ymgysylltu â democratiaeth. Cafodd pedwar sefydliad a weithiodd gyda Llywodraeth Cymru ar eu set o fentrau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022 (pwyntiau cyflwyno 1.13 i 1.16) gyllid y GYD, a chafodd tri ohonynt ddyfarniad aml-flwyddyn o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys dau sefydliad a gafodd 'Grant Cymorth Cofrestru Pleidleiswyr' y Trydydd Sector.
- Roedd gan rai gysylltiadau presennol â Llywodraeth Cymru trwy waith cysylltiedig heblaw ymgysylltu â democratiaeth yn benodol.
- Clywodd rhai am y cyfle mewn digwyddiad lle siaradai Llywodraeth Cymru am y grant.
- Clywodd rhai am y cyfle trwy ohebiaeth neu'r wefan.

4.28 Mewn rhai achosion, dywedodd cyfranogwyr awdurdodau lleol efallai nad oedd y grant wedi cyrraedd rhai sefydliadau:

*'… Dydw i[...]ddim yn hyderus y buasai pob arweinydd partneriaeth yn ymwybodol o'r gweithgaredd grant hwn[...]sut y gallai gyrraedd rhai o'r partneriaid hynny hefyd, rwy'n credu, mae'n debyg, fyddai'n rhoi'r gwerth mwyaf...'*

4.29 Disgrifiodd cyfranogwyr y cyfweliadau (rhai llwyddiannus ac aflwyddiannus) y broses ymgeisio fel un 'syml'. Roedd yna achosion lle trafododd y cyfranogwyr y broses ymgeisio ar gyfer y GYD o'i gymharu â grantiau blaenorol yr oeddent wedi gwneud cais amdanynt. Yn yr achosion hyn, teimlad cyffredinol derbynyddion y grant oedd eu bod wedi cael profiad mwy cadarnhaol gyda phroses ymgeisio'r GYD: roedd yn 'hawdd' neu'n 'hygyrch' o'i gymharu. Mewn achosion lle roedd safbwyntiau yn llai cadarnhaol, roedd rhai cyfranogwyr (ymgeiswyr aflwyddiannus) yn teimlo ei fod yn 'sylfaenol' o'i gymharu gan eu bod wedi ymgeisio trwy ffurflen ar-lein.

4.30 Roedd yna hefyd achosion lle nododd cyfranogwyr derbynyddion y grant fod symlrwydd y broses wedi eu hannog i ymgeisio, ac nad oes gan sefydliadau llai y gallu i lenwi ceisiadau cymhleth neu lafurus. Un maes i'w wella a nodwyd oedd nad oedd y cais ar gael yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac felly mae angen cymorth i ddefnyddwyr BSL drosi'r cais Saesneg i BSL.

4.31 O ran eglurder y gofynion, roedd yna achosion lle nododd cyfranogwyr derbynyddion y grant eu bod wedi gweithio gyda'r tîm polisi Etholiadau o'r blaen ac felly roedd eu dealltwriaeth o'r hyn a oedd yn ofynnol a'r hyn yr oeddent am ei gyflawni yn seiliedig ar hyn. Roedd yna hefyd achosion lle nododd y cyfranogwyr (derbynyddion y grant ac ymgeiswyr aflwyddiannus) eu bod wedi troi at y tîm i ddeall y gofynion i lunio eu cais neu ofyn cwestiynau am beth i'w gynnwys.

4.32 Ystyriwyd bod cyfathrebu gan y tîm yn elfen gadarnhaol o'r broses ymgeisio (derbynyddion y grant ac ymgeiswyr aflwyddiannus). Mewn rhai achosion (ymgeiswyr aflwyddiannus), roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallent fod wedi cael mwy o eglurder ar ffiniau ariannol y grant, a pha werth o brosiectau yr oedd y grant yn ceisio eu hariannu, hyd yn oed os oedd y rhain dros dro. Mae hyn er mwyn helpu sefydliadau i asesu a yw'n addas i'w sefydliad cyn penderfynu buddsoddi amser ac

adnoddau yn y cais. Mae canfyddiadau'r cyfweliadau hefyd yn awgrymu nad oedd yn glir nad oedd ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol yn y cwmpas.

4.33 Gellir asesu eglurder gofynion hefyd o ystyried yr ymchwil desg lle adolygwyd ceisiadau aflwyddiannus. Ar y cyfan, mae hyn yn awgrymu bod yna feysydd lle gellid gwella eglurder y gofynion. Roedd tri o'r ymgeiswyr (yn benodol y sector llywodraeth leol) wedi cynnig ymgyrchoedd cyfathrebu (gan gynnwys creu fideos, deunyddiau) a digwyddiadau, gyda'r prif fwriad o gynyddu cofrestriadau pleidleiswyr, ond hefyd cymryd rhan a chyfranogi mewn democratiaeth (model rhesymeg OP6, OP7 ac OP8). Fodd bynnag, ystyriwyd bod natur yr hyn a gynigiwyd yn weithgareddau statudol neu 'busnes fel arfer', ac felly allan o'r cwmpas. Yn ogystal, roedd rhai ymgeiswyr (yn benodol y sector llywodraeth leol) yn dymuno ariannu SCCE, ac roedd wyth yn ceisio prynu offer technegol neu wasanaethau i gefnogi gweithgareddau cyfarfod busnes fel arfer, sydd hefyd allan o'r cwmpas. Diweddarwyd canllawiau ymgeisio wedyn i adlewyrchu nad oedd prynu offer ar gyfer cyfarfodydd yn y cwmpas.

4.34 I bum ymgeisydd ystyriwyd bod costau'r prosiect yn rhy uchel, naill ai'n gyffredinol, gan ystyried graddfa'r hyn a gynigiwyd (fel prosiect tymor byr neu ddigwyddiad untro, a sut y byddai ymgysylltu yn cael ei gynnal), neu o ystyried cyrhaeddiad y prosiect (fel cyrhaeddiad bach yn ddaearyddol). Yn ogystal, i bedwar ymgeisydd, nid oedd digon o ffocws ar ymgysylltu â democratiaeth ehangach neu brosesau democrataidd penodol.

4.35 O ran llenwi'r ffurflen gais, roedd cyfranogwyr y cyfweliadau yn gadarnhaol ar y cyfan. Mewn rhai achosion, dywedodd y cyfranogwyr fod nifer y cwestiynau a lefel y manylion gofynnol yn gymesur â gwerth y grant. Soniodd rhai cyfranogwyr am y cyfrif geiriau ac roeddent yn gwerthfawrogi'r elfen hon o'r ffurflen, gan ei bod yn nodi lefel y manylder gofynnol. Roedd ei gadw'n isel yn eu helpu i gadw at y pwynt. Nododd y cyfranogwyr fod y cwestiynau'n syml neu'n glir yn yr hyn a ofynnwyd. Fodd bynnag, roedd yna achosion lle cododd cyfranogwyr y byddent yn disgwyl mwy o awgrymiadau i helpu i dynnu mwy o'u hesboniad, neu yn teimlo nad oedd y terfyn geiriau yn ddefnyddiol (ymgeiswyr aflwyddiannus). Daw hyn hefyd i'r amlwg wrth ystyried yr adolygiad ymchwil desg o geisiadau aflwyddiannus, lle na ddarparwyd digon o fanylion ar y grwpiau targed i'w cynnwys mewn tri achos, na

chanlyniadau arfaethedig. Wrth gyflwyno cais partneriaeth, roedd achosion lle roedd cyfranogwyr cyfweliadau ymgeiswyr aflwyddiannus yn ystyried bod diffyg eglurder neu fanylion wedi codi o heriau gweithio gyda sefydliad trydydd sector, o ran ymgorffori nifer o safbwyntiau a chwtogi ar wybodaeth.

4.36 Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i wneud cais. Roedd yna achosion lle nododd cyfranogwyr eu bod yn hoffi cael dyddiad cau clir o ran cau'r ffenestr. Roedd yna hefyd achosion lle roedd cyfranogwyr yn hoffi eu bod yn gwybod y dyddiadau ar gyfer rowndiau cyllid yn y dyfodol a fyddai ar gael, i benderfynu p'un a fyddai ffenestr yn y dyfodol yn fwy priodol i ymgeisio amdani. Un maes i'w wella a nodwyd oedd y byddai nodyn atgoffa yn ddefnyddiol i gyfranogwyr pan fydd y rowndiau nesaf o gyllid ar gael. Ar y llaw arall, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oedd yr amser yn ddigonol. Roeddent yn teimlo, oni bai bod gan ymgeiswyr gynnig 'oddi ar y silff' yn barod, ei bod yn anodd rhoi cais at ei gilydd o fewn yr amserlen (ymgeiswyr aflwyddiannus).

4.37 Soniodd rhai cyfranogwyr fod yr amser cyn cael gwybod eu bod yn llwyddiannus yn gyflym. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr aflwyddiannus yn teimlo bod y penderfyniad yn araf ac, mewn rhai achosion, bu'n rhaid iddynt fynd ar drywydd penderfyniad. Amlygodd y cyfranogwyr y gall hyn effeithio ar gynllunio oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i drefnu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â grant. Hefyd, gall hyn oedi'r prosiect a golygu bod yr amser mwyaf effeithiol o'r flwyddyn i redeg prosiect o ystyried anghenion buddiolwyr yn cael ei golli. Dyma faes posibl i'w wella.

4.38 Roedd cyfranogwyr aflwyddiannus yn gadarnhaol am yr adborth a'r rheswm a gawsant dros eu cais aflwyddiannus.

*Prosesau gweinyddu grant*

4.39 Ar y cyfan, roedd y derbynyddion grant a gafodd gyfweliad yn gadarnhaol ynglŷn â maint y cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd achosion lle amlygodd cyfranogwyr fod nifer o ffyrdd o gyfathrebu â thîm polisi Etholiadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr adroddiadau chwarterol, cyfarfodydd y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth (PYD), neu gyfathrebu unswydd yn uniongyrchol â'r tîm.

4.40 Yn gyffredinol, roedd gan gyfranogwyr derbynyddion y grant deimlad cadarnhaol ynglŷn â rhyngweithio â thîm polisi Etholiadau Llywodraeth Cymru. Un term cyffredin a ddefnyddiwyd gan y cyfranogwyr oedd 'cefnogaeth'. Nododd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo bod y tîm ar gael. Roedden nhw'n teimlo'n gyfforddus yn mynd at y tîm os oedd angen gofyn unrhyw gwestiynau neu angen arweiniad. Amlygodd y cyfranogwyr fod y tîm yn ymateb yn gyflym i unrhyw gwestiynau neu geisiadau. Roedd y cyfranogwyr yn hyderus eu bod yn cytuno â'r tîm polisi ynglŷn â chyflawni, a bod adnoddau'n cael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sefydliad derbyn.

> *'… Byddai'r* [tîm polisi Etholiadol] *bob amser yn agored iawn gyda'u hamser a'u capasiti[...]rydyn ni[...]wedi teimlo cryn gefnogaeth wrth i ni fynd trwy'r grant...'*

4.41 Roedd rhai sefyllfaoedd lle roedd cyfranogwyr yn teimlo bod rhai problemau cyfathrebu ynghylch adrodd am grantiau, cyfarfodydd partneriaeth a chyflawni prosiectau.

4.42 Roedd achosion lle soniodd y cyfranogwyr eu bod wedi cael gwybod ar fyr rybudd bod y dyddiad cau ar gyfer eu ffurflen hawlio grant derfynol a'u hadroddiad diwedd grant yn gynharach nag a nodwyd i ddechrau. Dywedodd y cyfranogwyr y byddai angen mwy o rybudd arnynt yn y dyfodol, gan fod hyn yn creu llwyth gwaith ychwanegol, annisgwyl i gasglu cyllid terfynol ac yn golygu nad oedd rhai gweithgareddau terfynol a gynlluniwyd wedi'u cynnal gan na fyddent yn cael eu cyllido. Roedd achosion hefyd lle roedd cyfranogwyr wedi cyflwyno eu hadroddiad ond yn ddiweddarach daethpwyd ar eu holau am yr adroddiad. Ar ben hynny, roedd achosion lle dywedodd cyfranogwyr nad oeddent wedi cael unrhyw adborth ar ôl cyflwyno'r adroddiad ac, o ganlyniad, roeddent ychydig yn ansicr a oeddent wedi ei gwblhau'n gywir ai peidio. Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai hyn yn ddefnyddiol.

4.43 O ran cyfarfodydd partneriaeth, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod geiriad yr ohebiaeth yn aneglur gan ei bod yn awgrymu bod cyfarfodydd y PYD yn orfodol i'w mynychu hyd yn oed pan fydd eu tymor grant wedi'i gwblhau.

4.44 Roedd achosion lle soniodd y cyfranogwyr fod camfynegi neu gamddealltwriaeth o ran disgwyliadau cyflawni prosiectau. Dywedodd y cyfranogwyr eu bod wedi cael cymeradwyaeth i oedi elfen benodol o'u prosiect oherwydd y potensial i achosi dryswch ar gyfer cymhwysedd ar gyfer Etholiad Cyffredinol y DU 2024 (a oedd ar fin digwydd). Fodd bynnag, nododd cyfathrebu dilynol na fyddai'r elfen hon yn gymwys i gael ei chyllido yng nghylchoedd y GYD yn y dyfodol.

4.45 Yn olaf, roedd achosion lle soniodd cyfranogwyr, gan fod diwedd y grant presennol yn agosáu (adeg y cyfweliadau) (mis Mawrth 2025), fod angen eglurder ar y camau nesaf a'r amserlenni sydd i ddod, er mwyn i sefydliadau ganfod a allant barhau â'r gweithgarwch a chadw staff.

4.46 Mae'n ofynnol i dderbynyddion y grant lenwi ffurflen hawlio grant chwarterol, sy'n cynnwys costau maen nhw'n hawlio amdanynt mewn ôl-ddyledion a lle ar gyfer diweddariad prosiect. Roedd barn cyfranogwyr y cyfweliadau yn gymysg ynglŷn â'r broses hawlio grant.

4.47 Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod y broses hawlio grant yn syml. Roedd achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo ei fod yn offeryn defnyddiol i fyfyrio ar eu cynnydd a'u camau nesaf. Pan dynnodd cyfranogwyr sylw at rannau o'r broses, nodwyd eu bod yn cael nodiadau atgoffa rheolaidd, a bod yr amlder chwarterol yn gymesur. Lle soniwyd am y fformat, roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol ynglŷn â chael lle gwag ar gyfer diweddariad eu prosiect, gan ganiatáu iddynt ddarparu diweddariad perthnasol yn seiliedig ar eu prosiect unigryw, yn hytrach na chael eu cyfyngu. Nodwyd ganddynt, pe byddai angen gwybodaeth benodol ar y tîm polisi, yna gallai fod angen cwestiynau penodol a lle gwag. Yn gysylltiedig â hyn, trafodir llenwi ffurflenni hawlio grant ym mhwynt 6.11, sy'n amlygu bod derbynyddion y grant wedi mabwysiadu dulliau amrywiol ac yn amrywio o ran lefel y manylder a ddarparwyd.

4.48 Un rhan o’r broses yr oedd cyfranogwyr yn ei chael yn llai syml oedd talu arian grant mewn ôl-ddyledion gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn broblem arbennig i sefydliadau llai o faint. Canfu’r cyfranogwyr fod hyn *‘... Ychydig yn fwy cymhleth...’* ac nid oeddent yn siŵr sut i hawlio am eitemau mwy o faint pan rannwyd y grant yn bedwar hawliad chwarterol, gan fod y ffordd hon o weithio yn newydd. Roedd achosion, os oedd cyfranogwyr yn cael anawsterau gyda’r broses hawlio, naill ai gyda hawlio ôl-ddyledion neu oherwydd oedi yn eu gallu i gyflwyno’r ffurflen, lle nodwyd eu bod yn cael eu cefnogi gan dîm polisi Etholiadau Llywodraeth Cymru. Mae’r canllawiau ymgeisio’n nodi y gellir ystyried dewis arall os oes angen sefydliadol, a dylai’r cymorth hwn fesul achos barhau i fod ar gael.

4.49 Un rhan arall o’r broses y dywedodd cyfranogwyr ei bod yn gweithio’n llai effeithiol oedd bod cyfnodau cyllido prosiectau yn gysylltiedig â blwyddyn ariannol Llywodraeth Cymru. Lle’r oedd cyfranogwyr yn gweithio i ddigwyddiad democrataidd penodol, fel etholiad, nid oedd amserlen y flwyddyn ariannol yn cydredeg â’u prosiect. Roedd hyn yn golygu nad oedd y broses diweddaru prosiect chwarterol yn ddefnyddiol nac yn berthnasol. Byddai gallu cael y grant wedi’i ddyfarnu yn unol ag amserlen y digwyddiad democrataidd y mae gweithgareddau prosiect wedi’u cynllunio o’i gwmpas yn welliant.

*‘... roeddem yn gweithio gydag etholiadau[...]Rwy’n credu bod eu cyllideb yn ymwneud â blynyddoedd ariannol[...]nid oedd amserlenni’r ddau beth yn cydredeg[...]Felly, yr unig newid y byddwn i’n ei ddweud yw caniatáu i’r grant gael ei ddyfarnu dros yr etholiad gwirioneddol y mae’n cael ei ariannu ar ei gyfer ac yna bod y dyddiadau cau yn cydredeg â hynny ychydig yn well...’ [...] ‘… roedd ffurflen hanner ffordd y bu’n rhaid i ni ei llenwi, a oedd yn dweud "rhowch y diweddariad statws i ni" a deimlai[...]fel rhyw fath o adrodd er mwyn adrodd [...]Doedd e ddim yn teimlo ei fod yn arbennig o ddefnyddiol i’r naill neu’r llall ohonom [y derbynnydd a Llywodraeth Cymru]...’*

4.50 Roedd achosion hefyd lle roedd angen mwy o gymorth neu gyfathrebu cliriach ar gyfranogwyr o’r cychwyn cyntaf ynghylch y ffaith bod diwedd y flwyddyn ariannol yn ddyddiad cau anodd ei gyflawni. Nid oedd y cyfranogwyr yn glir pan ddaeth y flwyddyn ariannol i ben, hyd yn oed os nad oedd gwerth y grant llawn wedi’i hawlio, na ellid gwneud cynnydd pellach gyda’r prosiect.

*'... Byddwn wedi elwa ar fwy o gymorth, oherwydd roeddem yn dderbynnydd grant newydd ac yn newydd i Gymru[...]terfynodd y flwyddyn ariannol[...], ac felly, mae'n rhaid i ni stopio oherwydd allwn ni ddim hawlio mwy o arian wedyn, sy'n fwy anhyblyg na grantiau eraill a gawsom...'*

*Cynllunio cyflawni prosiectau*

4.51 Trafododd rhai derbynyddion grant sut yr oeddent yn cynllunio eu rhaglen waith fel parhad o brosiect blaenorol, gan ddefnyddio'r profiad hwn i lywio'r hyn yr oeddent am ei wneud a sut y dylai weithio, a chymhwyso gwersi a ddysgwyd. Roedd achosion lle roedd cyfranogwyr wedi cynnal prosiect blaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn y maes democratiaeth. Dyma rai enghreifftiau penodol lle defnyddiwyd profiad a gwersi a ddysgwyd o brosiect blaenorol wrth gynllunio:

- gosod targedau realistig
- rhagweld a lliniaru rhwystrau posibl
- penderfynu ar ffactorau gweithredol (megis amseru pryd y cynhaliwyd sesiynau, sut i annog presenoldeb, dulliau hwyluso)
- y cynnwys neu'r pynciau i'w cyflwyno mewn gweithgareddau

4.52 Un ffactor arall oedd bod cyfranogwyr wedi defnyddio eu gwybodaeth neu berthnasoedd presennol wrth gynllunio'r rhaglen waith. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am randdeiliaid, rhwydweithiau a grwpiau buddiolwyr targed, neu berthynas â hwy. Roedd hyn yn llywio beth allai fod yn ymarferol i'w gyflawni, sut i gyrraedd grwpiau targed, a sut neu beth i'w gyflawni i grwpiau targed.

*'… dyluniwyd y cynnwys rydych chi'n gwybod yn seiliedig ar[...]brofiad a dealltwriaeth[...]o'r hyn a fyddai'n briodol i ddysgwyr Saesneg[...]gall iaith, wyddoch chi, o bosibl, rwystro rhag ymgysylltu â democratiaeth, ac felly[...]fe wnaethom benderfynu y byddai tua lefel mynediad dau...'*

4.53 Un ffactor arall oedd bod cyfranogwyr yn defnyddio adborth gan grwpiau buddiolwyr targed a gafwyd yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd neu brosiect blaenorol. Mae'r adborth hwn naill ai wedi arwain at y syniad ar gyfer y gweithgaredd a ariannwyd gan grant yn ei gyfanrwydd, neu fe'i defnyddiwyd i lunio cynnwys gweithgareddau neu wybodaeth a gyflawnwyd gyda'r cyllid grant (megis pa feysydd democratiaeth y byddent yn eu cwmpasu). Ar gyfer yr olaf, trwy ddefnyddio adborth, roedd cynnwys

wedi'i deilwra i anghenion addysg ddemocrataidd y grŵp targed penodol, lle nodwyd bylchau neu rwystrau.

*'… Un peth a nodwyd gan lawer o bobl yn y gorffennol oedd y rhwystrau a wynebwyd rhag cael gwybodaeth, naill ai nid oedd mewn fformatau hygyrch, roedd gofyn iddyn nhw fod ar-lein[...]Felly un peth pwysig iawn yn ein cynllunio oedd bod yr holl weithgareddau, yr holl weithdai, yn ymwneud â darparu gwybodaeth hygyrch er mwyn i bobl wneud dewis gwybodus...'*

4.54 Mewn rhai achosion, lle roedd cyfranogwyr o sefydliad nad oedd yn benodol yn y sector democratiaeth, nodwyd bod ganddynt fylchau yn yr wybodaeth bresennol am ddemocratiaeth i gyflwyno sesiynau. Adroddodd y cyfranogwyr eu bod yn defnyddio adnoddau sydd ar gael yn gyffredinol i ddatblygu cynnwys sesiwn. Yn gysylltiedig â hyn, roedd achosion lle roedd cyfranogwyr rhanddeiliaid allanol ehangach yn teimlo mai un newid i ddyluniad y GYD a fyddai'n ddefnyddiol i'w gymhwyso i unrhyw raglen ariannu grant yn y dyfodol oedd y dylid darparu canllawiau ac adnoddau ar bwnc democratiaeth lle bo angen, megis sefydliadau sy'n newydd i'r maes hwn neu sy'n cyflwyno cynnwys fel rhan o'u prosiect. Roedden nhw'n teimlo y dylid gwneud y canllawiau hyn mewn partneriaeth â sefydliadau arweiniol eraill yn y sector.

4.55 Roedd achosion hefyd lle nad oedd cyfranogwyr yn nodi'n benodol bod y prosiect wedi'i gynllunio gan ddefnyddio gwybodaeth neu adborth, ond roedd yn seiliedig ar eu nod sefydliadol i gysylltu mwy â'r grŵp targed. Lle mae cyfranogwyr yn gweithio mewn rhannau eraill o'r DU, roedd achosion lle soniodd cyfranogwyr eu bod yn ystyried addasu i'r cyd-destun yng Nghymru yn benodol fel rhan o'u cynllunio. Er enghraifft, wrth weithio gyda phobl ifanc o oedran ysgol, ystyried sut mae eu prosiect yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n cynnwys gofynion ar gyfer addysg ddemocrataidd.

4.56 Roedd yn ofynnol i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg a chynhyrchu gwybodaeth ddwyieithog lle bo'n rhesymol. Er enghraifft, os oeddent yn gweithio gyda grŵp o wladolion tramor â Saesneg fel ail iaith, yna nid oedd angen deunyddiau Cymraeg. O ran elfen ddwyieithog cyflawni prosiectau, roedd achosion lle nododd cyfranogwyr rhanddeiliaid allanol ehangach y gall fod yn anodd i sefydliadau'r trydydd sector gymhwyso safonau statudol Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg. Adleisiodd rhai cyfranogwyr o sefydliadau'r trydydd sector y pwynt hwn, gan nodi bod angen mwy o gymorth arnynt gyda gofynion y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau

ychwanegol ynghylch pryd mae angen cyfieithu ar y pryd ai peidio, yn ogystal â chymorth ymarferol i drefnu cyfieithu. Nododd y cyfranogwyr efallai nad oeddent wedi cael cymorth o ddechrau'r prosiect gan fod gwahanol brosiectau a ariannwyd gan y grant wedi dechrau ar wahanol adegau.

*Rhwystrau a galluogwyr i gyflawni*

4.57 Gofynnwyd i gyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant fyfyrio ar rwystrau a galluogwyr i gyflawni eu prosiectau. Tynnwyd yr wybodaeth hon hefyd o adroddiadau gwerthuso diwedd grant fel rhan o'r ymchwil desg.

4.58 Un peth a amlygwyd a oedd yn galluogi cyflawni oedd gweithio gyda grwpiau presennol neu ddefnyddio dylanwad rhwng cyfoedion. Canfu derbynyddion fod ymgysylltu trwy rwydwaith neu grŵp presennol yn fwy effeithiol na cheisio cyrraedd y buddiolwyr targed yn gyffredinol. Ymhlith y rhesymau a nodwyd oedd bod pobl yn teimlo'n fwy cyfforddus yn trafod democratiaeth mewn lleoliad cyfarwydd gyda phobl gyfarwydd. Yn ogystal, crybwyllodd rhai eu bod yn rhannu gwybodaeth ar lafar, defnyddio dylanwad unigolion lleol sy'n wleidyddol weithgar o'r grŵp targed, neu swyddogion ymgysylltu â'r gymuned fel modd o gyrraedd pobl o'r grŵp targed ac annog eraill i fynychu neu gymryd rhan.

4.59 Un peth arall a ddaeth i'r amlwg a oedd yn galluogi cyflawni oedd gwybodaeth bresennol am y grŵp targed a'r profiad o weithio gyda nhw. Un enghraifft benodol o hyn oedd mabwysiadu naill ai dull unigol a person-ganolog, neu deilwra i grŵp penodol, fel bod gweithgareddau a chynnwys yn ystyried anghenion penodol. Roedd derbynyddion yn cydnabod nad yw dull cyffredinol ar draws grŵp targed cyfan yn briodol (er enghraifft, mae gan bobl ifanc oll amgylchiadau gwahanol) ac addaswyd gweithgareddau yn unol â hynny. Yn gysylltiedig â hyn, roedd achosion lle nodwyd cyd-gynhyrchu cynnwys gyda'r grwpiau targed. Er enghraifft, diwygiwyd cynnwys sesiwn yn ailadroddus yn seiliedig ar adborth yn ystod y prosiect, neu meddyliodd grwpiau targed am syniadau ar gyfer digwyddiadau yr oeddent yn teimlo y byddai eraill yn eu mwynhau ac a fyddai'n annog presenoldeb. Ar ben hynny, nododd rhai derbynyddion, ar gyfer eu grwpiau targed nhw, fod cysylltu cynnwys yn ôl i'w cymuned eu hunain yn eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o elfennau democratiaeth (y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r rhai ag

anableddau dysgu). Un rhwystr cysylltiedig oedd peidio â chyd-ddatblygu'r broses o gynhyrchu cynnwys sesiwn gyda'r sefydliad partner a oedd ag arbenigedd o'r grŵp targed, ac felly roedd yn rhaid teilwra cynnwys i fod yn berthnasol yn unswydd.

4.60 Dywedodd y derbynyddion hefyd eu bod wedi defnyddio dulliau creadigol neu ryngweithiol gyda'r grŵp targed fel galluogwr. Nodwyd, ar gyfer eu grŵp targed hwy, nad yw defnyddio dulliau cyflwyno nodweddiadol yn briodol nac yn addas ar gyfer ymgysylltu. Amlygodd y derbynyddion eu bod wedi defnyddio dulliau fel animeiddio stop-symud, gweithgareddau rhyngweithiol, gemau, neu ddulliau gweledol i ymgysylltu â'u grŵp targed. Nododd y derbynyddion hefyd fod hyn yn bwysig lle efallai nad yw democratiaeth bob amser yn bwnc o ddiddordeb (fel y nodwyd ym mhwynt 4.66, cyfrannodd prinder diddordeb at bresenoldeb isel). Ar ben hynny, mae canfyddiadau'n awgrymu pwysigrwydd trosglwyddo gwybodaeth ond hefyd rhoi'r lle i grwpiau targed godi'r hyn sy'n bwysig iddynt: cyfathrebu dwyffordd.

4.61 Cododd gwybodaeth am y grŵp targed, a phrofiad ohono, hefyd lle trafododd y derbynyddion ymgysylltu dros amser fel galluogwr. Nododd y cyfranogwyr, er bod ymgysylltu untro'n gallu gweithio, eu bod yn crybwyll bod magu ymddiriedaeth dros amser yn cefnogi buddiolwyr i gymryd rhan mewn sgyrsiau am ddemocratiaeth.

4.62 Trafodwyd galluogwyr eraill i gyflawni sy'n gysylltiedig â'r grwpiau targed. Un enghraifft oedd bod y cyllid yn galluogi'r sefydliad i ddarparu elfennau sy'n annog neu'n cefnogi presenoldeb. Ymhlith yr enghreifftiau roedd lluniaeth, gofal plant, y gallu i dalu gwirfoddolwyr, darparu cyfieithu Cymraeg, darparu cyfieithwyr i'r rhai sydd â Saesneg fel ail iaith. Yn ail, dywedodd y derbynyddion fod rhai dulliau yn fwy effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys darparu modd anffurfiol i bobl ymgysylltu â'r rhai a oedd yn gweithio mewn democratiaeth. Roedd hyn hefyd yn cynnwys darparu sesiynau wyneb yn wyneb yn hytrach nag adnoddau neu wybodaeth ysgrifenedig yn unig (yn enwedig i'r rhai y mae Saesneg yn ail iaith iddynt), neu ddefnyddio grwpiau bach ar gyfer trafodaethau, i annog rhannu. Yn olaf, gwybodaeth bresennol y derbynnydd o'r dull ymgysylltu â democratiaeth a ddefnyddiwyd fel rhan o'u prosiect a ariannwyd. Roedd hyn yn galluogi cyflawni trwy gymhwyso'r hyn oedd yn effeithiol fel sut i hysbysebu a hyrwyddo'r digwyddiad, sut i gynnal sesiynau trafod, a threfnu siaradwyr gwadd.

4.63 Amlygwyd bod manteisio ar rwydweithiau yn galluogi cyflawni. Yn yr achosion hyn, nododd cyfranogwyr y PYD a rhwydweithiau allanol eraill. Ystyriwyd ei bod yn bwysig manteisio ar rwydweithiau i ddatblygu cynnwys y prosiect, ac i gyrraedd y sefydliadau yr oedd angen eu cynnwys yn y cyflawni er mwyn i'r prosiect lwyddo.

4.64 Roedd cymorth gan Lywodraeth Cymru neu'r rhai sy'n gweithio mewn democratiaeth hefyd yn fuddiol i gyflawni. Roedd achosion lle trafododd y derbynyddion, gan fod y grant gan Lywodraeth Cymru, fod hyn yn eu helpu i recriwtio sefydliadau rhanddeiliaid i gymryd rhan gan ei fod yn rhoi elfen o ddilysrwydd i'w prosiect.

4.65 Mewn achosion eraill, roedd adroddiadau'n dangos bod cefnogaeth i'r prosiect gan wleidyddion yng Nghymru, neu lle roedd y rhai sy'n gweithio mewn democratiaeth yn cymryd rhan, yn rhagweithiol ac yn ffurfio cysylltiad penodol rhwng y grŵp targed a'r sefydliad gwleidyddol, yn ei gwneud hi'n haws i'r derbynyddion hwyluso cyfranogiad neu bresenoldeb cynrychiolwyr mewn digwyddiadau. Roedd hyn yn cefnogi darpariaeth gweithgareddau'r derbynnydd.

4.66 Daeth nifer o rwystrau i'r amlwg hefyd. Yn gyntaf, ynglŷn â phrinder presenoldeb mewn gweithgareddau/digwyddiadau, neu ddefnydd isel gan grwpiau targed. Esboniodd y derbynyddion mai un ffactor sy'n cyfrannu at bresenoldeb isel oedd capasiti grwpiau targed, lle roedd ymrwymiadau eraill yn golygu nad oedd mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltiedig â phrosiectau yn flaenoriaeth i fuddiolwyr a fwriadwyd. Er enghraifft, gweithgaredd sy'n digwydd yn ystod cyfnodau arholiadau wrth weithio gyda phobl ifanc o oedran ysgol neu goleg. Un ffactor arall sy'n cyfrannu at bresenoldeb isel a ddyfynnwyd gan dderbynyddion oedd y gallai hyn fod oherwydd diffyg diddordeb ym mhwnc democratiaeth. Yn olaf, un ffactor a ddaeth i'r amlwg oedd anhawster cael grwpiau targed (yn benodol pobl ifanc) i fynychu gweithgareddau prosiect lle nad oedd ganddynt hyder, neu lle roedd gweithgaredd y prosiect y tu hwnt i'w man cysurus.

4.67 Adroddwyd bod magu perthnasoedd a chael pobl i ymrwymo wrth weithio gyda sefydliadau eraill hefyd yn rhwystr. Mewn rhai achosion, nododd y derbynyddion, lle nad oedd ganddynt berthynas bresennol â sefydliadau, neu lle nad oedd strwythurau presennol o fewn y sefydliadau hyn i gefnogi'r gweithgaredd, fod angen cael pobl i ymrwymo cyn gweithgaredd yn estyn amserlenni cyflawni. Roedd yna

hefyd achosion lle crybwyllwyd diffyg cymhelliant ac ymgysylltiad gan gynrychiolwyr o sefydliadau eraill, neu lle nad oedd gan sefydliadau eraill hyder wrth ymgysylltu â'u grwpiau targed ar bwnc democratiaeth. Yn yr achosion hyn, roedd adroddiadau'n dangos na ellid darparu gweithgareddau penodol neu fod hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i'r grŵp targed gymryd rhan.

4.68 Roedd cyfyngiadau capasiti pobl neu sefydliadau yn rhwystr cysylltiedig arall, er bod hyn mewn perthynas â gwahanol elfennau ar gyfer gwahanol brosiectau. Un elfen oedd bod derbynyddion yn nodi y gall sefydliadau neu bobl y maent yn gweithio gyda nhw fod â gallu cyfyngedig, sy'n effeithio ar eu gallu i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect, hyd yn oed os oes ganddynt ddiddordeb neu os ydynt am roi'r cyfle hwn i'r grwpiau targed. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys gweithio gydag ysgolion neu gynghorwyr lleol. Un elfen arall oedd capasiti isel o fewn y sefydliad derbyn i gynnal y prosiect. O ongl ychydig yn wahanol, lle roedd cyfranogwyr yn creu adnodd a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu â llaw gan sefydliadau eraill, codwyd y gofynion capasiti ar sefydliadau i ddarparu'r wybodaeth a gallu eu sefydliad eu hunain i'w phrosesu. Roedd hyn yn rhwystr rhag mynd â phrosiectau o fod yn brosiectau peilot untro i ddarpariaeth reolaidd ar raddfa fwy.

4.69 Ystyriwyd bod amser i gyflawni'r prosiectau yn rhwystr. Fel y trafodwyd ym mhwynt 4.50, roedd dyddiad cau cyflawni caled y flwyddyn ariannol yn golygu weithiau na allai'r cyfranogwyr barhau i gyflawni, gan ddod â rhywfaint o weithgaredd wedi'i gwblhau'n rhannol i ben er nad oeddent wedi hawlio gwerth llawn eu grant. Awgrymodd adroddiadau hefyd fod yr her gyda'r dyddiad cau cyflawni wedi'i gwaethygu gan ddiffyg cydredeg rhwng cyllid y flwyddyn ariannol a'r flwyddyn ysgol. Ar ben hynny, mewn rhai achosion roedd derbynyddion yn teimlo y buasai mwy o amser yn ddefnyddiol, gan ei fod yn cymryd amser i ledu'r gair, a bod ceisiadau newydd am sesiynau yn dod i mewn tua diwedd eu prosiect, felly roedd awydd i'r cyflawni barhau. Yn yr achosion hyn, ariannwyd y derbynyddion am un flwyddyn.

4.70 Roedd ffactorau allanol na ellid eu rheoli hefyd yn rhwystro'r cyflawni. Ar gyfer prosiectau aml-flwyddyn a ariannwyd i mewn i flwyddyn ariannol 2024/25 (Ebrill 2024 i Fawrth 2025), roedd Etholiad Cyffredinol y DU 2024 yn un enghraifft o'r fath. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn rhwystr oherwydd ei fod yn effeithio ar gynllunio cyflwyno

cynnwys penodol gan fod y dyddiad yn anhysbys. Un ffactor allanol arall a grybwyllwyd oedd y newidiadau yn y Senedd, a effeithiodd ar allu cael y rhai sy'n gweithio yn y maes hwn i ymgysylltu â'r grwpiau targed. Roedd effeithiau pandemig y coronafirws (COVID-19) a'r argyfwng costau byw hefyd yn ffactorau allanol a godwyd, a oedd yn golygu bod rhai rhwydweithiau neu grwpiau yn y gymuned wedi cau, gan i gwneud hi'n anoddach cyrraedd y grwpiau targed. Mae'r canfyddiadau hefyd yn amlygu costau cynyddol, yn enwedig i ymgysylltu mewn ardaloedd gwledig iawn.

4.71 Daeth diffyg gwybodaeth hygyrch ar gael i gyflwyno sesiynau i'r amlwg hefyd fel rhwystr rhag cyflawni. Er enghraifft, crybwyllodd derbynyddion ddiffyg gwybodaeth ddiduedd am yr hyn y mae pleidiau gwleidyddol yn sefyll amdano, er mwyn gallu datblygu cynnwys sesiynau ar gyfer buddiolwyr ar y pwnc hwn.

4.72 Un rhwystr arall a wynebwyd yn ystod y cyflawni oedd nad oedd gan siaradwyr gwadd a oedd yn gweithio mewn democratiaeth bob amser wybodaeth am y grŵp targed ac felly nad oeddent yn teilwra eu hatebion yn unol â hynny. Roedd hyn yn golygu na allai'r grŵp targed uniaethu â'r siaradwr gwadd ac roedd hyn yn effeithio'n negyddol ar ymgysylltiad. I'r gwrthwyneb, roedd yna hefyd achosion lle galluogwyd cyflawni trwy baratoi buddiolwyr cyn cwrdd â'r rhai sy'n gweithio mewn democratiaeth am bwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud. Adroddwyd bod hyn yn arwain at sgwrs fwy manwl a chwestiynau wedi'u hystyried yn dda gan fuddiolwyr. Dengys y galluogwr hwn fod angen gwaith paratoi dwy ffordd i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd cyflawni pan fydd buddiolwyr a'r rhai sy'n gweithio mewn democratiaeth yn cwrdd.

*'… mae gwleidyddion yn aml yn mynd i siarad o flaen llond ystafell o bobl ifanc heb ddeall mewn gwirionedd pwy ydyn nhw, pam maen nhw yno, beth yw diben y peth. Ond nid yw hynny'n digwydd gyda'n pethau ni, oherwydd bod* [y bobl ifanc] *wedi paratoi'r cwestiynau, maen nhw wedi gwneud yr ymchwil, ac mae'n bendant yn arwain at sgwrs well...'*

*'… ni wnaeth y gwleidyddion ddelio â rhai o'r cwestiynau yn dda iawn, wyddoch chi, felly rydym wedi gwneud cais am fwy o gyllid, o'r cyllid hwn, i wneud pecyn cymorth i'w lunio gyda'r bobl ifanc i'w roi'n ôl i'r Senedd, i'r gwleidyddion, ar sut maen nhw'n ymgysylltu â phobl ifanc yn well...'*

*Gweithio mewn partneriaeth*

4.73 Roedd naw cais yn gynigion partneriaeth yn benodol. O'r ymchwil desg a'r cyfweliadau â derbynyddion grant, roedd mathau o weithio mewn partneriaeth yn cynnwys:

- Gweithio gyda sefydliadau a rhwydweithiau sydd â pherthynas sefydledig neu ymddiriedus â'r grwpiau targed ac sydd felly trwy'r rhain yn gall cyrraedd y grwpiau arfaethedig neu gynulleidfa ehangach.
- Gweithio gyda sefydliadau sy'n gallu cynnig gwasanaeth/gweithgaredd penodol neu sydd â gwybodaeth ofynnol. Er enghraifft, meddu ar arbenigedd digidol, meddu ar arbenigedd yn y Gymraeg, hyfforddiant penodol/perthnasol, arbenigedd digwyddiadau penodol, yn gallu rhoi adborth ar ddichonoldeb prosiect.
- Cyd-ddylunio a/neu gyd-gyflwyno'r gweithgareddau (fel digwyddiadau, gweithdai, adnoddau) gyda'u sefydliadau partner.
- Gweithio gyda sefydliadau i ehangu'r cynnig hyd nifer o ardaloedd daearyddol.
- Defnyddio adnoddau a rennir gan sefydliadau partner.

4.74 Siaradodd rhai derbynyddion grant yn gadarnhaol am eu partneriaethau, o ran sut roedd hyn yn cefnogi'r gallu i ddarparu gweithgareddau, gan gynnwys yn ychwanegol at yr hyn yr oeddent wedi'i gynllunio'n wreiddiol. Nodwyd rhai heriau gyda gweithio mewn partneriaeth, ond prin oedd yr ymatebion. Roedd hyn yn cynnwys achosion lle nad oedd sefydliadau partner yn ymgysylltu â'r derbynnydd tan yn agos at ddiwedd eu prosiect neu'n rhy hwyr, neu fel y nodwyd yn yr ymchwil desg nid oedd yn ymateb i'r derbynnydd o gwbl, a oedd yn golygu y gallai mwy fod wedi dod o'r bartneriaeth neu y gellid bod wedi cyrraedd mwy o fuddiolwyr.

4.75 Myfyriodd rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol hefyd ar weithio mewn partneriaeth yn y sector ac mewn rhai achosion atebwyd hyn o safbwynt cyflawni prosiectau (yn hytrach na safbwynt sector ehangach). Un her bosibl a ddaeth i'r amlwg gan awdurdodau lleol oedd casglu tystiolaeth gadarn i'w gwerthuso pan fo sefydliadau partner yn bennaf gyfrifol am gyflawni ond nad oes ganddynt brofiad o brofi gweithgareddau a chanlyniadau. O ran yr hyn y gallai grant ei roi ar waith, adroddwyd bod cyfathrebu rheolaidd â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y prosiect ar y trywydd iawn yn ddigonol.

4.76 Un her a ddaeth i'r amlwg gan randdeiliaid allanol ehangach oedd cyd-gynhyrchu. Roedden nhw'n teimlo bod y capasiti, yr ymrwymiad a'r gyllideb sydd eu hangen yn uchel i sefydliadau weithio'n llawn mewn partneriaeth â grwpiau targed. Hynny yw, cynnwys grwpiau targed/buddiolwyr yn y broses o ddatblygu prosiect, nid dim ond darparu gweithgareddau iddynt. Roedden nhw'n teimlo bod hyn yn ffordd fwy effeithiol o ddysgu. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gallai telerau'r grant fod yn gliriach ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â chyd-gynhyrchu a gweithgareddau cysylltiedig oherwydd byddai hyn yn caniatáu i ymgeiswyr baru eu hunain yn erbyn set ddiffiniedig o fetrigau, a gallai helpu sefydliadau i weld sut mae eu gwaith yn ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth.

*'… esbonio gwahanol gamau* [cyd-gynhyrchu] *a beth allai'r gwahanol effeithiau fod o bosibl...' [...] '… Felly, rwy'n credu mai unrhyw beth sy'n ei gwneud yn gliriach fel hyn sydd gennym mewn golwg[...]Rwy'n credu ei fod yn ddefnyddiol.'*

*Ffynhonnell cyllid ac addasrwydd ar gyfer cyflawni*

4.77 Roedd achosion lle amlygodd derbynyddion y grant mai'r GYD oedd yr unig ffynhonnell o gyllid ar gyfer y gwaith. Mewn achosion eraill, dywedodd y cyfranogwyr mai'r cyllid yn bennaf oedd yr unig ffynhonnell o gyllid, neu nad hwnnw oedd yr unig ffynhonnell ar gyfer y gwaith. Yn yr achosion hyn, soniodd cyfranogwyr fod adnoddau a staff y sefydliad ei hun yn cymorthdalu'r prosiect yn rhannol (costau craidd). Er enghraifft, cynnwys aelod o staff a ariannwyd trwy'r sefydliad yn y prosiect i gyrraedd y grwpiau targed, neu fod gwaith wedi'i wneud cyn ac ar ôl y cyfnod grant. Soniodd y cyfranogwyr hefyd fod ganddynt gyllid o ffynhonnell arall a oedd yn golygu, pan oeddent yn cyflwyno sesiynau, eu bod yn cwmpasu meysydd eraill yn ogystal â'r hyn oedd yn eu manyleb. Nododd cyfranogwyr hefyd eu bod yn gwneud gwaith arall o amgylch y prosiect trwy adeiladu rhwydweithiau yng Nghymru, ac nad oedd y grant yn cwmpasu hyn.

4.78 Dywedodd rhai cyfranogwyr na fyddai'r gweithgareddau wedi bod yn bosibl o gwbl heb y grant. Roedd hyn yn cynnwys achosion lle roedd y grant yn sbardun i arloesi ac yn arwain at ddatblygu gweithgareddau na fyddent wedi meddwl amdanynt fel arall. Mewn achosion eraill, nododd cyfranogwyr na fyddai'r seilwaith, y capasiti, yr adnoddau na'r staff sydd eu hangen i gefnogi'r gwaith, heb y grant.

4.79 Nododd cyfranogwyr eraill y byddai'r gweithgareddau wedi bod ar raddfa lawer llai heb y grant. Roedd hyn yn cynnwys cynnal gweithgareddau achlysurol lle mae

hyrwyddo hawliau yn rhan o werthoedd y sefydliad. Roedd hyn hefyd yn cynnwys achosion lle roedd y grant yn galluogi cyfranogwyr i adeiladu ac estyn capasiti a chyrhaeddiad yng Nghymru.

4.80 Wrth drafod a oedd swm y cyllid yn addas, roedd y cyfranogwyr yn aml yn trafod yr amser sydd ar gael ochr yn ochr â swm y cyllid.

4.81 I'r rhai a gafodd gyllid aml-flwyddyn, roedd yna achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo bod swm y cyllid yn addas. Roedd yna hefyd achosion lle nad oedd y cyfranogwyr yn teimlo bod y swm yn addas, lle nad oedd y costau a ddefnyddiwyd ganddynt yn eu cais i gyfrifo gwerth cyllid ar gyfer teithio, cynhaliaeth a llogi lleoliad yn ddigon uchel. Creodd hyn rai cyfyngiadau cyflawni. Dywedodd cyfranogwyr y gallai hyn fod oherwydd teimlo'n bryderus am gael cais aflwyddiannus pe byddai'r costau'n uwch. Crybwyllwyd hefyd nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn ystod y cam ymgeisio i ofyn i aelod o'r tîm polisi a yw'r costau'n ymddangos yn briodol. Roedd yna hefyd achosion lle cododd cyfranogwyr eu bod wedi gwneud gwaith ychwanegol heb ei ragweld na chynllunio amdano, felly roeddent yn hyblyg neu'n adweithiol wrth gyflawni i ddiwallu anghenion eu grwpiau targed. Roedd hyn yn cynnwys cynnal digwyddiadau ychwanegol neu greu fideos. Mewn rhai achosion, nododd cyfranogwyr y byddai angen mwy o gyllid arnynt pe baent yn cyflawni eto yn y dyfodol oherwydd y cyfleoedd ychwanegol a gododd. Mewn achosion eraill, nododd cyfranogwyr fod y gwaith ychwanegol wedi oedi eu gweithgareddau eraill ac effeithio ar eu baich gwaith, ond nid oeddent yn sôn bod angen mwy o arian.

4.82 Un elfen arall a godwyd gan dderbynyddion cyllid aml-flwyddyn oedd bod cyfranogwyr yn gadarnhaol ynglŷn â hyd y cyllid. Yn yr achosion hyn, nododd y cyfranogwyr fod cyllid aml-flwyddyn yn golygu bod amser, ac ymdeimlad o ddiogelwch, i gefnogi meithrin perthynas gryfach â sefydliadau a phartneriaethau. Roedden nhw'n teimlo bod hyn wedyn yn sail i gyflawni llwyddiannus, yn hytrach na cheisio cyrraedd targedau cyflawni ar unwaith. Roedd hyn hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i newid ac addasu gweithgareddau prosiect yn ôl amgylchiadau. Cymharwyd hyn â phrosiectau blaenorol a fu'n fwy byrdymor ac felly dan fwy o bwysau.

4.83 I'r rhai a gafodd gyllid un flwyddyn, roedd yna achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo bod swm y cyllid yn addas, ond nad oedd maint yr amser yn addas. Mewn rhai

achosion, cododd cyfranogwyr y pwynt eto am adeiladu perthynas, ond o'r ochr arall fel y trafodwyd gan dderbynyddion cyllid aml-flwyddyn. Roedden nhw'n teimlo yn y dyfodol y byddai angen iddynt gael prosiect aml-flwyddyn, fel y gellir adeiladu perthnasoedd yn y flwyddyn gyntaf, i alluogi cyflawni wedyn yn ddiweddarach. Nid oedd blwyddyn i wneud y ddwy elfen yn ddigonol. Mewn achosion eraill, teimlai cyfranogwyr eu bod wedi colli momentwm pan ddaeth y flwyddyn i ben. Fel y trafodwyd ym mhwynt 4.69 (amser fel rhwystr rhag cyflawni), nododd cyfranogwyr fod awydd i'r cyflawni barhau ar ddiwedd y cyfnod cyllido. Roedd achosion lle cyflwynodd cyfranogwyr sesiynau 'am ddim' oherwydd yr awydd er bod y cyllid wedi dod i ben. Cododd cyfranogwyr hefyd y gallent fod wedi creu adnoddau mwy cynaliadwy gyda dull mwy hirdymor. Nid oeddent yn glir a allai'r prosiect gael ei gyflawni eto yn y dyfodol heb fuddsoddi amser ac arian pellach, gan dynnu sylw unwaith eto at golli momentwm.

4.84 Yn olaf, i'r rhai a gafodd gyllid tymor byr, teimlai cyfranogwyr bod swm y cyllid yn addas ac yn cwmpasu'r hyn yr oedd ei angen arnynt ar gyfer peilot. Fodd bynnag, trafododd y cyfranogwyr y gallent fod wedi cyflawni mwy, unwaith eto, gyda chyllid ychwanegol neu ddull mwy hirdymor. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau bod camau gweithredu'n parhau ar ôl y prosiect, neu allu rhoi cynlluniau ar waith i annog presenoldeb.

**Dylunio a chyflawni'r Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth (PYD)**

4.85 Roedd cyfranogwyr cyfweliadau'r derbynyddion grant yn gadarnhaol am y gofyniad i ymuno â'r PYD. Trafododd rhai ei bod yn gadarnhaol bod Llywodraeth Cymru fel ariannwr yn defnyddio ei sefyllfa unigryw o gael cyswllt â'r holl brosiectau gwahanol i ddod â nhw ynghyd. Roedd achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo y dylid gwneud hyn mwy o hyn ar draws grantiau eraill. Mewn rhai achosion, cododd cyfranogwyr cyfweliadau'r derbynyddion grant nad oedd y gofyniad i ymuno â'r PYD yn heriol oherwydd amlder a hyd y cyfarfodydd.

*'... Mewn gwirionedd, mae'n teimlo fel peth cadarnhaol i ariannwr ddefnyddio'r pŵer ymgynnull hwnnw a chael pawb yn yr un ystafell am mai'r ariannwr yw'r unig un sy'n gallu.'*

*'... Rwy'n credu bod gwneuthurwyr grant yn aml mewn [...]sefyllfa o bŵer, ond hefyd rhwydweithio, lle bydd ganddynt ryw fath o olwg aderyn ar lawer o wahanol rannau o sector y maent oll yn ei ariannu ar yr un pryd, ond ni fyddant yn gwneud llawer iawn i fanteisio ar y sefyllfa honno sydd ganddynt. Ni fyddant yn annog derbynyddion grant i siarad â'i gilydd na chydweithio mewn unrhyw ffordd, ac rwy'n credu bod y ffaith bod y grant hwn wedi gwneud hynny yn dda iawn. Rwy'n credu y dylid annog mwy o hynny...'*

4.86 Yn yr un modd, roedd achosion lle soniodd cyfranogwyr cyfweliadau'r rhanddeiliaid allanol ehangach am y PYD ac roeddent yn gyffredinol gadarnhaol. Nododd rhai fod diweddariadau prosiect wedi gwneud i'r grant deimlo fel petai'n rhan o sgwrs ehangach yn hytrach na phrosesau ynysig. Nododd eraill y gall helpu derbynyddion i nodi cysylltiadau a heriau cyffredin.

4.87 Gofynnwyd i gyfranogwyr cyfweliadau'r derbynyddion grant am eu bwriad i barhau i fynychu'r PYD ar ôl i'w cyfnod grant orffen. Yn gyffredinol, dywedodd y cyfranogwyr y byddent o bosibl yn dal i fynychu, ar yr amod bod ganddynt yr amser neu'r capasiti, ar gyfer prosiectau llai yn arbennig. Ymhlith y rhesymau oedd ei fod yn ddefnyddiol neu'n ddiddorol clywed beth sy'n digwydd yn y maes hwn. Roedd achosion hefyd lle nododd cyfranogwyr y gallent barhau i fynychu yn enwedig yn y cyfnod cyn cyfres nesaf etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru, at ddibenion cynllunio a pharatoi ac i gynnal eu cysylltiadau a adeiladwyd yn ystod y grant. Roedd achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn aneglur a oeddent yn dal i allu mynychu, neu yn dal i orfod mynychu (fel y nodwyd hefyd ym mhwynt 4.43).

*Newidiadau i'r PYD*

4.88 Adroddodd cyfranogwyr cyfweliadau'r derbynyddion grant feysydd lle gellid ystyried newidiadau i'r broses PYD. Soniodd cyfranogwyr fod rhwydweithiau eraill yng Nghymru, er enghraifft sy'n cael eu rhedeg gan Gymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru. Un peth cadarnhaol oedd bod cyfranogwyr yn teimlo nad oedd y naill na'r llall yn heriol, ond nodwyd y dylid cadw ymwybyddiaeth o ran faint y mae'n ofynnol i sefydliadau ei fynychu neu ei wneud. Roedd cyfranogwyr yn teimlo mai meysydd i'w hystyried oedd sut mae'r PYD yn gweithio gyda'r rhwydweithiau eraill, beth yw ei rôl, a sut y gellir manteisio ar y rhain wrth nesáu at yr etholiadau nesaf. Roedd hyn yn cael ei ystyried fel cyfle yn y dyfodol gan gyfranogwyr.

*'… Wn i ddim a oes rhywbeth penodol yn y cyfnod cyn etholiadau[...]er mwyn cael y llais cyfunol hwnnw. Neu pe bai gweithred y gallwn ni i gyd ei chymryd[...]Rhyw fath o gyd-gyfathrebu ar y cyd. Dim ond rhywbeth, mae'n debyg, i fanteisio ar y rhwydweithiau o fewn y grŵp hwnnw[...]Rwy'n gwybod bod gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yng Nghymru grŵp tebyg[...]Felly cyfle efallai i gydweithio.'*

4.89 Trafododd cyfranogwyr o brosiectau mwy a llai wahaniaethau prosiectau. O safbwynt y prosiectau llai, soniodd cyfranogwyr fod y grantiau mwy yn arwain y bartneriaeth ac y byddai'n ddiddorol gwybod mwy am ba brosiectau llai oedd yn digwydd. O safbwynt y prosiectau mwy, dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo bod y cyfle i gydweithio rhwng prosiectau mwy a'r rhai sydd â ffocws llai yn gyfyngedig. Awgrymwyd y gallai is-grwpiau neu gyfarfodydd pwnc penodol fod yn ddefnyddiol lle byddai pawb yn gallu cymryd rhan fwy gweithredol.

*'… Felly tybed a oes dipyn o is-grŵp o bobl sy'n gwneud pethau personol a grŵp arall o bobl sy'n gwneud mwy o bethau polisi neu rywbeth allai fod yn ddefnyddiol...' [...] '… Neu efallai hyd yn oed cyfarfodydd sy'n seiliedig ar bwnc lle gallwch chi fynychu o hyd, ond os nad ydych chi'n gwneud y pwnc, yna rydych chi'n chwarae llai o ran, ac os ydych chi, yna rydych chi'n cymryd rhan fwy gweithredol neu rywbeth tebyg.'*

4.90 Roedd yna hefyd achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo bod cyfleoedd wedi'u colli i gydweithio â derbynyddion grant eraill oherwydd nad yw'r cyfarfodydd yn cyd-fynd â phryd mae eu prosiect yn dechrau. Yn benodol, ar gyfer prosiectau sy'n cael cyllid tymor byr yn unig, mae'n ei gwneud hi'n anodd bwydo adnoddau gan

dderbynyddion eraill. Mae hyn oherwydd bod y grant ar agor ar fwy o sail dreigl, felly mae gwahanol dderbynyddion grant yn ymuno ar wahanol adegau.

*'…Trueni na wnes i fynychu'r cyfarfod ar ddechrau ein prosiect, oherwydd rwy'n credu y gallai fod wedi cael dylanwad neu hysbysu[...]y deunyddiau a ddefnyddiwyd gennym[...] Byddai wedi bod yn wych gwybod am* [weithgareddau eraill] *yn gynt, oherwydd rwy'n credu y gallem fod wedi gwneud mwy i wneud defnydd o'r deunyddiau yr oeddent yn eu datblygu[...]neu hyd yn oed[...]efallai wedi dod o hyd i ffordd o gydweithio arno, neu ddod â rhai o'u staff i mewn...'*

4.91 Un awgrym arall a godwyd gan dderbynyddion grant a rhanddeiliaid allanol oedd ystyried cyfarfod yn bersonol o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, digwyddiad hirach, yn llai aml. Roedd y rhesymau'n cynnwys awydd i rannu gwybodaeth ehangach am yr hyn y mae eu sefydliad yn ei wneud y tu allan i'w prosiect GYD, a allai helpu i ddatgelu cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

4.92 Yn olaf, roedd gwelliannau eraill a awgrymwyd gan dderbynyddion grant yn cynnwys yr angen i sicrhau bod jargon technegol mewn cyfarfodydd yn cael ei leihau a'i egluro. Mae hyn oherwydd yr ystod o lefelau profiad ar draws y rhai a fynychodd o sefydliadau derbyn. Awgrymodd rhanddeiliaid allanol gynnig mwy o gyfleoedd hyfforddi fel rhan o'r sesiynau. Yn ogystal, ymgorffori 'dull ymarfer cyfranogol', clywed yn uniongyrchol gan fuddiolwyr terfynol a rhoi cyfle iddynt arddangos yr hyn maen nhw wedi'i wneud.

*Cefnogi cydweithio a rhannu gwybodaeth*

4.93 Gofynnwyd i gyfranogwyr cyfweliadau'r derbynyddion grant fyfyrio ar unrhyw ffyrdd eraill y gallai'r GYD gefnogi gweithio mewn partneriaeth. Un maes a godwyd oedd cyfathrebu rhwng cymheiriaid y tu allan i gyfarfodydd. Awgrymodd cyfranogwyr y gallai ffurf ysgrifenedig o gyfathrebu y tu allan i gyfarfodydd y PYD gefnogi cydweithio parhaus. Roedd hyn yn cynnwys cylchlythyr / rhestr bostio, neu offeryn fforwm ar-lein. Roedd manteision posibl hyn a godwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys:

- gallu cael yr wybodaeth pan nad yw'n bosibl mynychu'r cyfarfod
- gallu edrych ar bethau yn eu hamser eu hunain
- cael gwybodaeth mewn un lle fel ei bod yn haws cadw golwg ar bwy yr oeddent am drafod gyda nhw
- gallu nodi cysylltiadau neu gyfleoedd ar gyfer cydweithio
- gallu manteisio ar syniadau

4.94 Roedd y cynnwys a awgrymwyd yn cynnwys: trosolwg o'r holl brosiectau (megis amlinelliadau prosiectau, dolen i'w gwefan, manylion cyswllt), rhannu adnoddau neu ddeunyddiau, rhannu digwyddiadau, a lle i sôn am waith arall sy'n gysylltiedig â democratiaeth y mae'r sefydliad yn gweithio arno, heb fod yn gyfyngedig i'w prosiect a ariannwyd.

4.95 Mewn rhai achosion, nododd y cyfranogwyr y byddai'n ddefnyddiol gallu mynd yn uniongyrchol at dderbynyddion eraill. Roedden nhw'n teimlo ar hyn o bryd mai un rhwystr oedd bod cyfathrebu yn system 'prif ganolfan a lloerennau' lle'r oedd yn rhaid iddynt fynd trwy dîm polisi Llywodraeth Cymru i gyrraedd derbynyddion eraill. Roedd achosion hefyd lle nododd cyfranogwyr y dylai unrhyw beth ychwanegol fod yn gyffyrddiad ysgafn, ac er mwyn osgoi creu gormod o waith ychwanegol i'r sefydliadau derbyn.

4.96 Un maes arall a godwyd gan y cyfranogwyr oedd eu bod yn cefnogi rhannu gwybodaeth trwy sicrhau bod yr adnoddau a gynhyrchwyd ganddynt ar gael ar eu gwefan.

4.97 Myfyriodd y rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol hefyd ar agweddau ar y GYD lle byddai'n ddefnyddiol gwneud newidiadau i unrhyw raglen cyllid grant yn y dyfodol. Un maes a ddaeth i'r amlwg oedd yr angen i rannu gwersi a ddysgwyd o'r

prosiectau a ariannwyd gan y GYD yn fwy effeithiol ac yn ehangach. Dywedodd y cyfranogwyr nad oedd hi'n glir beth mae'r prosiectau a ariannwyd gan y GYD wedi'i wneud a beth oedd y canlyniadau, a byddai rhannu arferion gorau ynghylch yr hyn a weithiodd yn fwy defnyddiol na gwybodaeth am y gweithgareddau a gyflwynwyd.

4.98 Yn gysylltiedig, mewn rhai achosion, dywedodd y derbynyddion grant a gyfranogodd y gallai Llywodraeth Cymru ystyried yn fwy yn y dyfodol sut i greu darlun o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio ar y cyd ar draws prosiectau derbynyddion. Mae hyn yn mynnu gonestrwydd a chyd-destun lle mae derbynyddion yn teimlo'n gyfforddus i rannu.

4.99 Nododd awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach bwysigrwydd rhannu gwersi a ddysgwyd yng nghyd-destun adnoddau a chapasiti isel yn y sector. Nododd y derbynyddion grant fod rhannu gwersi a ddysgwyd yn helpu i lywio prosiectau yn y dyfodol.

4.100 Er mwyn cefnogi rhannu gwersi a ddysgwyd, cododd cyfranogwyr awdurdod lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach y syniadau o rannu trwy rywbeth ysgrifenedig, digwyddiad penodol, neu ddefnyddio fforymau presennol. Soniodd y cyfranogwyr hefyd fod angen cefnogi sefydliadau i wybod sut i fesur a gwerthuso effaith**.** Yn gysylltiedig, roedd yna hefyd achosion lle crybwyllodd y derbynyddion grant a gyfranogodd y byddai'n ddefnyddiol cael adnodd sy'n amlinellu gweithgareddau posibl ymgysylltu â democratiaeth yn seiliedig ar yr hyn sydd wedi llwyddo a methu o ran gwella ymgysylltu â democratiaeth, fel y gall sefydliadau gymhwyso dulliau:

*'... Dyna yw'r peth anodd bob tro, ynte, sef cael y syniad am brosiectau yn y lle cyntaf, wyddoch chi, meddwl beth alla i geisio ei wneud a allai weithio yma, yn fy marn i. Felly ie, cronfa adnoddau o weithgareddau posibl. Ar gyfer cymunedau o wahanol faint sy'n helpu i wella ymgysylltiad â democratiaeth. Byddai hynny'n wych...'*

# 5. Canfyddiadau – nod 2: Effaith ganfyddedig y cynllun cyllid grant.

## Cyd-destun

5.1 Cylch gwaith y gwerthusiad hwn yw adrodd ar effeithiau canfyddedig yn unig. Nid yw gwerthusiad systematig o effaith yn bosibl gan fod dyluniad y grant yn golygu bod prosiectau a ariennir yn unigryw, ac oherwydd y ffordd y cafodd tystiolaeth o bob prosiect ei chasglu a'i hadrodd (a drafodir yn adran 6).

5.2 Mae nodiadau canllawiau'r grant yn nodi bod y cyllid er mwyn i dderbynyddion "ddilyn dull arloesol o gynnwys pobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, pobl sydd newydd eu hetholfreinio, a phobl anabl mewn democratiaeth." Gan fod nodau'r grant (a nodir yn 1.29) yn eang a'r cysyniad o gymryd rhan mewn democratiaeth yn eithaf eang a heb ddiffiniad penodol, gofynnwyd i gyfranogwyr y cyfweliad ymchwil am eu barn ar nodau'r grant a chysyniad ymgysylltu â democratiaeth.

*Nodau'r GYD*

5.3 Gofynnwyd i dderbynyddion grant a gyfranogodd fyfyrio ar eu dealltwriaeth o nodau'r GYD. Bu'r cyfranogwyr naill ai'n trafod y cwestiwn hwn o fewn ffrâm nodau eu prosiect eu hunain, neu'n trafod nodau'r grant yn ehangach.

5.4 Waeth beth oedd ffrâm eu hymateb, bu'r cyfranogwyr yn trafod nodau mewn perthynas â grwpiau targed. Roedd y termau a ailddefnyddiwyd yn cynnwys 'Dealltwriaeth', 'Gwybodaeth', 'Ymwybyddiaeth', 'Addysg', 'Cymorth', 'Cynnwys', 'Cyfranogiad' a 'Grymuso'. Nod penodol a nodwyd ynglŷn â grwpiau targed oedd gwella dealltwriaeth o'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio. Nod arall ynglŷn â grwpiau targed a drafodwyd oedd cynnwys pobl mewn democratiaeth trwy eu grymuso i ddweud eu dweud a gwella dealltwriaeth o'r ffyrdd o gymryd rhan, neu ei gwneud hi'n haws cymryd rhan. Roedd yna achosion lle nododd cyfranogwyr y math o berson yr oedd y grant yn ceisio ei gynnwys, a oedd yn cynnwys y rhai heb yr offer neu ddealltwriaeth gywir, pobl a allai ei chael hi'n anodd cymryd rhan, neu bobl nad ydynt yn debygol o gymryd rhan.

5.5 Roedd achosion lle nododd cyfranogwyr mai'r nodau (boed nodau'r grant yn ei gyfanrwydd neu nodau eu prosiect) oedd cefnogi'r rhai o grwpiau targed penodol, a oedd yn cynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, pobl ifanc, a phobl anabl.

Roedd yna hefyd achosion lle nododd cyfranogwyr yn benodol fod y nodau (boed nodau'r grant yn ei gyfanrwydd neu nodau eu prosiect) yn ehangach nag ymwneud â chofrestru i bleidleisio a phleidleisio yn unig.

5.6 I'r rhai a drafododd y cwestiwn yn ffrâm y grant yn ehangach, roedd achosion lle siaradodd y cyfranogwyr am y nodau mewn perthynas â'r system ehangach. Yn yr achosion hyn, nododd y cyfranogwyr mai'r nod, trwy ariannu llawer o wahanol feysydd gwaith, gwahanol fathau o sefydliadau, gyda gwahanol grwpiau a gefnogir, yw gwella'r system ar gyfer annog pobl i ymgysylltu â democratiaeth. Ar ben hynny, anelu at feithrin capasiti'r system rhwng cylchoedd etholiadol i sicrhau bod pethau ar waith er mwyn i bobl gymryd rhan os dymunant - boed hynny'n seilwaith technegol neu adeiladu cymunedau a rhwydweithiau. Cafwyd achosion hefyd lle trafododd y cyfranogwyr nodau mewn perthynas â'r sector, yn enwedig bod y grant yn anelu at adeiladu sector sy'n gallu cydweithio trwy fabwysiadu dull sy'n annog cydweithio'n arbennig.

*Diffinio ymgysylltu â democratiaeth*

5.7 Yn y cyfweliadau, gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr (derbynyddion y grant, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach) ystyried sut y byddent yn diffinio ymgysylltiad â democratiaeth. Roedd atebion yr holl gyfranogwyr yn amrywio, gan ddangos ehangder y pwnc, ond roedd yna nodweddion cyffredin.

5.8 Un thema allweddol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd bod ymgysylltu â democratiaeth yn cael ei ddiffinio fel rhyngweithio â chymdeithas neu brosesau democrataidd neu gymryd rhan ynddynt.

*'… pobl[...]yn ymgysylltu â gwahanol systemau a phrosesau democrataidd[...]yn cymryd rhan mewn math o gymdeithas sifil ar y cyd mewn gwahanol ffyrdd...'*

5.9 Diffiniodd y cyfranogwyr ymgysylltiad â democratiaeth yn llawer ehangach na dim ond cyfranogiad mewn gweithgarwch etholiadol: mae'n system gyfan, ac yn broses barhaus sy'n cynnwys yr hyn sy'n digwydd rhwng etholiadau.

*'...nid meddwl mai dim ond rhoi eich croes mewn blwch bob 4 i 5 mlynedd ydyw.'*

5.10 Roedd yr enghreifftiau a roddwyd o sut olwg fyddai ar gyfranogiad neu ymgysylltiad â'r system ddemocrataidd yn amrywio ar draws cyfranogwyr ac yn cynnwys:

- Pleidleisio ac etholiadau
- Cysylltu â chynghorydd, Aelod Seneddol neu Aelod o'r Senedd lleol
- Ymgysylltu â sefydliadau
- Deisebau neu ymgynghoriadau
- Eiriolaeth, protestio, ymgyrchoedd
- Cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau, neu bethau fel Cynulliadau Dinasyddion
- Cyfranogiad posibl yn y dyfodol mewn gweithio mewn gwleidyddiaeth
- Bod yn aelod o blaid wleidyddol

5.11 Fodd bynnag, un thema allweddol arall a ddaeth i'r amlwg oedd bod angen ymwybyddiaeth, gwybodaeth, dealltwriaeth, offer, sgiliau a hyder yn bennaf er mwyn i rywun allu cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth neu ymgysylltu â democratiaeth.

*'I gael y sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i gymryd rhan weithredol mewn cymdeithas...'*

5.12 Roedd pynciau penodol yn cynnwys dealltwriaeth o hawliau, sut mae pethau'n gweithio a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud, pa feysydd sy'n cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru, beth mae gwahanol gynrychiolwyr yn ei wneud, pwy i'w holi neu gysylltu â nhw am bethau, a thrwy ba fecanweithiau y gall pobl gymryd rhan. Ar gyfer etholiadau yn benodol roedd hyn yn cynnwys hanfodion pleidiau gwleidyddol a gwybod dros bwy y gall rhywun bleidleisio, er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus.

5.13 Yn ogystal, nododd derbynyddion y grant ac awdurdodau lleol fod angen i bobl allu cysylltu eu bywydau pob dydd â democratiaeth, ac ar lefel gymunedol/leol, i allosod hyn i lefelau eraill (fel lefel Cymru gyfan). Diffiniodd awdurdodau lleol hefyd ymgysylltiad â democratiaeth yn benodol fel cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau. Yn yr achosion hyn, trafododd y cyfranogwyr gael deialog ystyriol gyda'r gymuned a grymuso'r gymuned i fod yn rhan o benderfyniadau lleol. Roedd

yna hefyd enghreifftiau o fewn y thema hon lle roedd cyfranogwyr yn cysylltu ymgysylltiad â democratiaeth yn ôl â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol y ffordd o weithio sy'n cynnwys pobl.

**Canlyniadau canfyddedig ar lefel prosiect a chanlyniadau anfwriadol i fuddiolwyr**

5.14 Bu cyfranogwyr cyfweliad derbynyddion y grant yn myfyrio ynghylch eu canfyddiadau o'r canlyniadau allweddol i'r buddiolwyr a gymerodd ran. Nid oedd cwmpas yr ymchwil hon yn cynnwys casglu data yn uniongyrchol gan fuddiolwyr. Dylid nodi bod y drafodaeth ar ganlyniadau i fuddiolwyr yn seiliedig ar farn neu hanesion y derbynnydd. O ran y chwe derbynnydd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y canfyddiadau cyfweliad hyn, mae canlyniadau buddiolwyr o fewn adroddiadau gwerthuso diwedd grant yn cyd-fynd â'r meysydd eang a drafodir yn yr adran hon. Fodd bynnag, unwaith eto, yn yr adroddiadau, mae canlyniadau buddiolwyr fel arfer naill ai wedi'u hawgrymu ar sail gweithgareddau'r prosiect a gynhaliwyd neu wedi'u hadrodd yn anecdotaidd, yn hytrach na'u mesur yn benodol. Ar gyfer un derbynnydd grant, nid yw'n bosibl dirnad canlyniadau buddiolwyr gan nad oes unrhyw adroddiad ar gael ar adeg ysgrifennu. Trafodir y casgliad o wybodaeth i'w gwerthuso'n fanylach yn Adran 6 (pwyntiau 6.13 i 6.15).

5.15 Un canlyniad a ddyfynnwyd ar gyfer buddiolwyr oedd gwell gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth. Roedd hyn mewn perthynas â gwahanol bynciau ar draws gwahanol gyfranogwyr, ac mae'r pynciau'n cynnwys (er enghraifft):

- Prosesau democrataidd, sefydliadau, rolau cynrychiolwyr etholedig, pleidiau gwleidyddol
- Hawliau a chyfrifoldebau
- Y pethau ymarferol i allu cymryd rhan weithredol mewn prosesau democrataidd – megis gwybod sut i gysylltu â chynrychiolydd, gwybod dros bwy y gallant bleidleisio i wneud penderfyniad gwybodus, gwybod pa gyfleusterau sydd yn yr orsaf bleidleisio

5.16 Un canlyniad arall a ddaeth i'r amlwg oedd bod buddiolwyr yn cymryd rhan mewn democratiaeth. Digwyddodd hyn ar wahanol ffurfiau ar draws prosiectau. Un ffordd y bu buddiolwyr yn cymryd rhan oedd y tu allan i weithgarwch y prosiect, er enghraifft buddiolwyr yn mynd ati i gysylltu â gwleidyddion, gwneud deisebau, neu

gofrestru i bleidleisio a phleidleisio. Roedd adroddiadau hefyd yn nodi bod buddiolwyr wedi cymryd rhan mewn prosiect neu weithgaredd arall ar ôl cymryd rhan ym mhrosiect y derbynnydd. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys annog neu feithrin cyfranogiad gan fuddiolwyr a oedd wedi ymddieithrio o'r blaen.

*'… mewn gwirionedd ar ôl y prosiect, ar ôl i ni orffen[...]roedd cais yno, i fynd i ymweld â'r Senedd, o'r grŵp hwnnw, a daeth llawer i hwnnw, wyddoch chi, fe wnaethon nhw wir fwynhau mynd yno. Felly rwy'n credu bod hynny'n arwydd o'r ffaith eich bod chi'n gwybod bod yr hyn roedden nhw wedi'i ddysgu yn y sesiynau wedi aros gyda nhw go iawn...'*

5.17 Mewn achosion eraill, roedd canlyniad cymryd rhan mewn democratiaeth ar ffurf y buddiolwr yn cymryd rhan yn y prosiect a ariannwyd gan y grant, yn hytrach na mynd ati i wneud rhywbeth wedyn. Er enghraifft, siarad â'r rhai sy'n gweithio mewn democratiaeth neu eu holi, buddiolwyr yn cael eu hyfforddi i gyflwyno sesiynau i fuddiolwyr eraill, neu fynychu trafodaethau/fforymau lleol.

*'… A rhywbeth rydym yn ei ystyried yn ystod y misoedd nesaf gyda'r etholiadau ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru, yw bod pobl ifanc, unwaith eto, yn cael llais egnïol, gweithgar ac yn dweud eu dweud o ran pa bobl ifanc yng Nghymru sy'n cael eu hethol...'*

5.18 Un canlyniad arall a ddaeth i'r amlwg oedd bod buddiolwyr yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed, yn enwedig ynghylch materion sy'n bwysig iddynt. Adroddodd y cyfranogwyr fod buddiolwyr wedi cael y lle i godi'r materion hyn trwy'r prosiect. Mewn rhai achosion, codwyd y rhain gan y sefydliad derbyn gyda chyngor ar y lefel briodol i'w hystyried. Roedd yna achosion lle arweiniodd hyn at newid, sef canlyniad pellach. Daeth newidiadau trwy rannu barn i'r amlwg hefyd mewn adroddiadau gwerthuso. Yn yr achosion hyn yn benodol, bu cynghorwyr yn gwneud newidiadau i broses, neu'n datblygu proses newydd i ymgysylltu â'r grŵp targed, neu gwnaethant ymrwymiad i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

*'... felly cawsom gyfarfodydd â'r cynghorydd lleol[...]roedd ar y newyddion, ar y teledu, i fynd ati i lobïo'r cyngor er mwyn adfer hynny, ac roedd hynny'n enghraifft arall i'n cyfranogwyr o'r ffordd y gall eu camau nhw arwain at newid pethau go iawn. Felly fe weithiodd hynny'n dda iawn hefyd...'*

5.19 Adroddodd rhai cyfranogwyr fod buddiolwyr wedi gwella eu hyder o ganlyniad i'r prosiect. Roedd hyn yn cwmpasu gwahanol feysydd ar gyfer gwahanol brosiectau. Un enghraifft oedd yr hyder i allu cael at wybodaeth a'i hasesu a llunio barn. Roedd ffordd arall yn ymwneud â'r hyder i gymryd rhan – fel teimlo'n hyderus am y broses bleidleisio neu sut i gofrestru.

*'… roedd ein hadborth ar ein gwefan yn awgrymu oherwydd bod rhywun yn hyderus bod lle parcio i'r anabl ger yr orsaf bleidleisio, er enghraifft, ei fod wedi gallu mynd ac, yn wir, yn teimlo'n fwy hyderus am ei siwrnai yno...'*

5.20 Un canlyniad arall a grybwyllwyd oedd bod sgiliau eraill neu ehangach wedi'u datblygu trwy hyfforddiant fel rhan o'r prosiect. Er enghraifft, datblygwyd sgiliau cyflwyno/siarad cyhoeddus buddiolwyr drwy gyflwyno sesiynau neu gyflwyniadau. Trafododd eraill sgiliau digidol, trwy ddefnyddio offer a meddalwedd.

5.21 Yn olaf, dywedodd y cyfranogwyr hefyd mai un canlyniad i fuddiolwyr fu ymdeimlad o gymuned. Roedd hyn naill ai'n llai diriaethol, fel teimlo'n rhan o gymuned, neu fe'i codwyd mewn ystyr fwy ymarferol – fel achosion lle aeth buddiolwyr ati i greu grwpiau cymunedol o ganlyniad i weithgaredd y prosiect.

5.22 Fodd bynnag, nodwyd rhai rhwystrau o ran canlyniadau. Yn gyntaf, nododd rhai cyfranogwyr y bu canlyniadau eu prosiect yn fwy i rai buddiolwyr yn y grŵp targed nag eraill. Er enghraifft, mae lefel y gwelliant yn dibynnu ar lefel dealltwriaeth neu wybodaeth flaenorol y buddiolwyr. Yn ail, nododd rhai cyfranogwyr nad oeddent bob amser yn gweld y canlyniadau a ddymunwyd. Er enghraifft, ni aeth rhai buddiolwyr ati i gymryd rhan mewn democratiaeth ar ôl y prosiect, gan fod rhwystrau o hyd yr oedd angen eu goresgyn i effeithio ar ymddygiad.

*'… roeddem yn eithaf siomedig achos, a dweud y gwir, fe wnaethom gryn dipyn o waith i geisio annog pobl i bleidleisio yn etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai[...]pan aethom allan a siarad â phobl, fe ddywedon nhw "na, wnaethon ni ddim pleidleisio"[...]A hynny, yn syml, am nad oedden nhw'n gwybod am beth oedd pob plaid yn sefyll, felly arhoson nhw gartref[...]doedd dim maniffestos hygyrch[...] "Pa ddiben sydd imi fynd? oherwydd does dim diben imi fod yn ticio'r blwch. A dw i ddim yn gwybod pam rydw i'n ei wneud."...'*

5.23 Myfyriodd cyfranogwyr cyfweliad derbynyddion y grant hefyd ar ganlyniadau anfwriadol i fuddiolwyr. Dylid nodi bod atebion i'r cwestiwn hwn yn gyfyngedig. Nid oedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Os oeddent, mewn rhai achosion adroddodd y cyfranogwyr fod eu digwyddiadau wedi peri i gynrychiolwyr etholedig gymryd camau pellach i'r buddiolwyr neu fod cymryd rhan yng ngweithgaredd y prosiect wedi gwella dysgu ehangach buddiolwyr yn yr ysgol. Nododd eraill fod yna achosion lle aeth buddiolwyr ati wedyn i ymwneud â sefydliadau eraill gan eu bod wedi datblygu diddordeb yn y sector democratiaeth. Mae canlyniadau anffurfiol anfwriadol yn cynnwys trafodaethau ar ôl y digwyddiad yn cynnwys buddiolwyr.

**Canlyniadau canfyddedig ar lefel prosiect a chanlyniadau anfwriadol i dderbynyddion y grant**

5.24 Dylid nodi, wrth drafod canlyniadau allweddol i'w sefydliad sy'n deillio o'r grant, unwaith eto, bu'r derbynyddion grant a gyfranogodd yn trafod hyn yn anffurfiol yn bennaf, gan fod canlyniadau'n seiliedig ar eu barn neu eu hanesion.

5.25 Un canlyniad a ddaeth i'r amlwg oedd gwell proffil, rhwydweithiau a mwy o bresenoldeb yng Nghymru ar gyfer sefydliadau sydd ag ychydig neu ddim profiad blaenorol o weithredu yng Nghymru. Canlyniad arall a nodwyd gan gyfranogwyr ar gyfer eu sefydliad oedd eu bod yn gallu magu perthynas â grwpiau buddiolwyr, neu berthynas a rhwydweithiau gyda'u rhanddeiliaid / sefydliadau eraill. Nododd rhai fod y gweithgaredd a gynhaliwyd trwy'r grant wedi hybu proffil eu sefydliad gyda buddiolwyr, neu gyda'r sector ehangach.

*'…mae'n gyfle arall i ni fynd allan a magu perthynas â'r [...]gymuned yng Nghymru oherwydd yn hanesyddol[...]*[bu yna] *deimlad nad oedd [enw'r sefydliad derbyn] yn ymgysylltu digon [...]rydyn ni wedi cael mwy o gyfleoedd i fynd allan a [...]magu perthynas...'*

5.26 Canlyniad pellach a amlygwyd oedd sefydliadau yn adrodd eu bod wedi ennill mwy o ddealltwriaeth a phrofiad o weithio gyda grwpiau buddiolwyr arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau penodol ag anghenion penodol. Hefyd, cynulleidfaoedd yng Nghymru yn gyffredinol, i'r rhai sydd ag ychydig neu ddim profiad blaenorol o weithio yng Nghymru. Er enghraifft, roedd hyn yn cynnwys deall y rhwystrau sy'n wynebu'r buddiolwyr a fwriedir (trafodir rhwystrau a adroddwyd ym mhwyntiau 5.40 i 5.44), neu

sut i ymgysylltu â buddiolwyr orau. Nododd rhai hefyd fod gweithgareddau a ariannwyd trwy'r grant wedi'u hintegreiddio i weithgarwch arferol eu sefydliad.

5.27 Lle'r oedd sefydliadau'n newydd i weithio yn y maes democrataidd, roedd achosion hefyd lle roedd cynnal gweithgareddau trwy'r grant yn golygu bod eu staff yn uwchsgilio yn y pwnc hwn, ac fe'u hysbrydolwyd i ystyried gwaith yn y dyfodol yn y maes hwn.

5.28 Roedd myfyrdodau ar ganlyniadau anfwriadol i'r sefydliadau derbyn mewn cyfweliadau yn gyfyngedig. Mewn rhai achosion, ni allai cyfranogwyr feddwl am unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'w sefydliad. Yn yr agweddau cadarnhaol, fel y trafodwyd ym mhwynt 5.25 crybwyllodd y cyfranogwyr fagu perthynas â sefydliadau eraill. Mewn rhai o'r achosion hyn, roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod hwn yn ganlyniad anfwriadol: roedden nhw naill ai wedi magu perthynas â sefydliad arall a oedd yn digwydd ystyried gwneud rhywbeth tebyg, neu wedi magu mwy o berthynas neu fwy o rwydwaith na'r hyn a ddisgwyliwyd ar ddechrau'r prosiect. Ar ben hynny, yn yr ymchwil desg, roedd canlyniad anfwriadol yn cynnwys cyflwyno astudiaeth achos o ddefnyddio dull ymgysylltu/dysgu mewn digwyddiad ledled Cymru.

5.29 Un maes mwy negyddol a godwyd gan gyfranogwyr y cyfweliad derbynyddion oedd y bu'n annisgwyl peidio â gallu cwblhau gweithgareddau'r prosiect o fewn dyddiad cau caeth y flwyddyn ariannol, ac roedd hyn yn negyddol ar gyfer magu perthnasoedd. Er ei fod yn bwynt neilltuol, roedd canlyniad negyddol arall yn cynnwys digwyddiadau prosiect yn dod yn fforwm ar gyfer dicter wedi'i gyfeirio at gynrychiolwyr y sefydliad derbyn oherwydd anfodlonrwydd cyffredinol mynychwr ar gyflwr ehangach gwleidyddiaeth. Yn yr achos hwn, pwysleisiwyd didueddrwydd gwleidyddol ar ddechrau pob sesiwn er mwyn osgoi ail-ddigwyddiad.

*Ymgysylltu dros gyfnod hir*

5.30 Wrth nodi mai un o nodau'r GYD oedd 'Cefnogi prosiectau i ymgysylltu â'r boblogaeth dros gyfnod parhaus', gofynnwyd i gyfranogwyr cyfweliad derbynyddion y grant ystyried a oedd y grant wedi cefnogi eu sefydliad i wneud hynny.

5.31 Roedd yna achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y cyllid wedi cefnogi eu sefydliad i ymgysylltu â'r boblogaeth dros gyfnod parhaus. Cododd derbynyddion y grant bwysigrwydd prosiectau aml-flwyddyn sy'n eu cefnogi i ddatblygu

rhwydweithiau a pherthnasoedd dros flynyddoedd y cyflawni, naill ai gyda phartneriaid mewn sefydliadau eraill neu eu buddiolwyr. Mewn rhai achosion, bu'r cyfranogwyr yn cymharu hyn â natur fwy fyrdymor neu natur dreialu eu prosiectau blaenorol ar ymgysylltu â democratiaeth, neu'n ei gymharu ag o'r blaen lle byddai eu sefydliad yn darparu gweithgareddau yn unig yn y cyfnod cyn etholiadau.

*'… er enghraifft wrth nesáu at yr etholiad, byddem yn gwneud popeth y gallem i rannu gwybodaeth[...]Ond meddu go iawn ar y gallu hwnnw i ddarparu'r cymorth un ac un, i ddarparu'r gweithdai hynny dros gyfnod parhaus o amser a magu'r math hwnnw o berthynas â phobl. Mae'r grant wedi bod yn amhrisiadwy i'n galluogi i wneud hynny.'*

5.32 Ar gyfer cyfranogwyr â phrosiectau aml-flwyddyn, un flwyddyn a thymor byr, roedd rhai yn myfyrio ar ymgysylltu parhaus trwy'r grant yn darparu adnoddau a chapasiti, ar ffurf amser staff a chymorth ariannol. Roedd hyn yn eu galluogi i gynllunio a chynnal gweithgareddau prosiect dros y cyfnod. I rai cyfranogwyr, roedd hyn yn gyfle i wneud rhywbeth newydd, ac roedd yn galluogi eraill i adeiladu ar waith a darparu pethau yn ychwanegol at yr hyn y mae'r sefydliad eisoes yn ei wneud.

*'… yn bendant. Oherwydd mae wedi golygu ein bod, wyddoch chi, wedi gallu gwario, a chanolbwyntio ar geisio cael y fforymau i fynd[...]efallai na fyddai wedi digwydd mewn gwirionedd pe na byddem wedi cael y cyllid[...]A nawr mae* [y fforwm] *wedi dod yn fwy o beth rheolaidd, awtomatig, wyddoch chi. Felly roedd* [y cyllid] *yn dda fel sbardun cychwynnol.'*

5.33 Fodd bynnag, cafwyd achosion lle roedd cyfranogwyr yn teimlo nad oedd y cyllid wedi cefnogi eu sefydliad i ymgysylltu â'r boblogaeth dros gyfnod parhaus. Dywedodd rhai a gafodd gyllid un flwyddyn neu dymor byr nad oedd y cyllid yn ddigon mawr neu ddigon hirdymor i ganiatáu iddynt gynnal gweithgarwch a bod y math o adnodd yn golygu bod gweithgareddau wedi'u cyfyngu i oes y grant. Yn ogystal, roedd achosion lle crybwyllodd cyfranogwyr fod maint y cyllid yn golygu nad oedd yn galluogi recriwtio adnoddau staff. Mewn rhai achosion, nododd y cyfranogwyr hyn eu bod yn y dyfodol yn teimlo y byddai cyllid aml-flwyddyn yn fwy priodol. Er enghraifft, byddai dull cynllunio aml-flwyddyn yn cefnogi datblygu adnoddau cynaliadwy yn well neu'n cefnogi datblygu perthnasoedd a rhwydweithiau'n well.

*‘…Nid yw wedi caniatáu i ni gyflogi mwy o bobl, na pheidio â gorfod ceisio cyllid o ffynonellau eraill neu, wyddoch chi, nid oedd yn grant digon mawr i newid siâp y sefydliad mewn ffordd ddramatig. Neu fel y dywedais o’r blaen, doedd e ddim yn grant digon mawr i barhau i gynnal* [y prosiect]*... a byddem wedi hoffi gwneud hynny, ond nid ydym wedi gallu ei wneud.’*

5.34 Mewn rhai achosion, adroddodd y cyfranogwyr â grant aml-flwyddyn fod y dull aml-flwyddyn wedi golygu y gellid cynnal gweithgarwch ar ôl y grant, gan fod sefydliadau yr oeddent yn gweithio gyda nhw wedi meithrin gwybodaeth a sgiliau i barhau i gyflwyno gweithgareddau i fuddiolwyr heb gymorth y derbynnydd. Fodd bynnag, roedd yna achosion hefyd lle nododd cyfranogwyr â dyfarniad aml-flwyddyn yr her o gynnal gweithgarwch ar ôl y grant gan fod angen cyllid i allu darparu hyn (trafodir y ddibyniaeth ar gyllid hefyd ym mhwynt 5.65). Fe wnaethant drafod dulliau ar gyfer sut yr oeddent yn ceisio cynnal gweithgaredd ar ôl grant, a oedd yn cynnwys gweithgareddau dan arweiniad buddiolwyr gwirfoddol.

*‘…*[pobl] *sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y rhaglen[...]y mwyaf o weithiau y mae* [pobl] *yn ei wneud [...]* [maen nhw] *yn teimlo [...] “Mae gen i’r hyder, rydw i wedi cael gwybod sut, rwy’n gwybod sut i gynnal y sesiynau hyn. Mae gen i eich adnoddau nawr a gallaf fwrw ymlaen â hyn.” […]mae hynny wedi bod yn wych i’w weld...’*

*‘…Felly yn y tymor hir[...]mae gennym ychydig o broblem gyda’r ffaith, wyddoch chi, pan fyddwn yn siarad am gynaliadwyedd[...]Mae’n anodd oherwydd [...]rydych chi wedi cael eich tair blynedd i’w wneud, i ddarparu gwasanaeth ac mae angen iddo fod yn gynaliadwy ar ôl hynny ac yna eich llinell waelod yw gofyn sut mae’n mynd i fod yn gynaliadwy? Yr unig beth sy’n ei gynnal mewn gwirionedd yw’r arian i gael staff i ddarparu gwasanaeth, wyddoch chi. Felly, rydyn ni’n gobeithio[...]bod y cyfnod hwn yn ymwneud â ni’n ceisio adnabod yr arweinwyr hynny a cheisio eu cael nhw i ddechrau cydweithio, a dweud y gwir...’*

*Cymhwyso gwersi a ddysgwyd yn y dyfodol*

5.35 Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried a oeddent yn bwriadu cymhwyso gwersi a ddysgwyd o'u prosiect a ariannwyd gan y GYD i brosiectau yn y dyfodol. Rhaid nodi nad oedd pob derbynnydd yn siarad am gynlluniau gwirioneddol i weithredu'r rhain, ond yn fwy am y potensial i wneud hynny.

5.36 Roedd rhai cyfranogwyr yn myfyrio ynghylch sut y gwnaethant ddysgu am elfennau gweithredol mwyaf effeithiol eu gweithgaredd fel amser, lle, pwnc neu gynnwys. Er enghraifft, trwy brofi a methu fe ddysgon nhw beth oedd yn gweithio neu beidio, a gallant gymhwyso hynny i weithgareddau yn y dyfodol. Yn ogystal, dywedodd rhai, gan eu bod wedi dysgu'r amserlenni ar gyfer gwahanol elfennau prosiect, pe baent yn ailadrodd gweithgareddau'r prosiect, y byddent yn addasu eu dull gweithredu. Er enghraifft, mabwysiadu dull aml-flwyddyn a fesul cam, neu deilwra'r prosiect i amserlen sy'n addas i'r buddiolwyr arfaethedig (megis ystyried y flwyddyn ysgol i bobl ifanc).

*'...oherwydd buom yn gweithio ar ein [...]*[dull] *dan arweiniad cyfoedion, lle rydych yn hyfforddi pobl ifanc, bob tro y cawn gyfle i wneud hynny mewn gwahanol leoliadau; rydym wedi dysgu cymaint ohono am y ffordd orau i'w cefnogi a'r hyn sydd ei angen arnom i wneud yn siŵr eu bod yn llwyddiannus. Felly pethau fel nodi colegau sydd eisoes â strwythurau a phethau felly, ac os na, cael ffrâm amser hirach i weithio gyda nhw. Felly mae wedi ein helpu ni i fireinio ein dull cyffredinol o ymdrin â'r math hwnnw o brosiect.'*

5.37 Mewn rhai achosion, dywedodd cyfranogwyr eu bod yn bwriadu rhannu eu profiadau o'u prosiect a ariannwyd gan y GYD gyda phrosiectau democratiaeth newydd eraill sy'n digwydd yn eu sefydliad.

5.38 Nododd y cyfranogwyr hefyd y materion allweddol, y rhwystrau rhag ymgysylltu â democratiaeth neu feysydd diffyg gwybodaeth a ddarganfuwyd trwy weithio gyda buddiolwyr fel rhan o weithgareddau prosiect y GYD, yr oeddent yn bwriadu eu cwmpasu mewn gweithgareddau yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr yn ceisio cyllid ar gyfer prosiect newydd yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt.

*'...rwy'n gwybod yn iawn y byddwn yn chwilio am gyllid yn y dyfodol i wneud gwaith tebyg eto. Ac oherwydd bod gennym gysylltiadau â'r Comisiwn Etholiadol, mae gennym well cysylltiadau â gwasanaethau etholiadol lleol hefyd nawr[...]Mae rhywfaint o waith pwysig iawn i'w wneud o amgylch ein systemau etholiadol presennol a gwneud y broses gyfan yn fwy hygyrch[...]Byddai'n gwneud mwy o'r un peth, ond hefyd yn ymhelaethu ar rai meysydd penodol rydyn ni wedi'u darganfod yn y gwerthusiad.'*

5.39 Fodd bynnag, mewn rhai achosion nododd y cyfranogwyr rwystrau rhag cymhwyso gwersi a ddysgwyd. Lle'r oedd cyfranogwyr am ddatblygu eu hadnoddau ymhellach a rhannu'r rhain gyda sefydliadau eraill yn eu maes gwaith neu am weithredu'r hyn a awgrymwyd gan fuddiolwyr yn eu gweithgareddau prosiect, nodwyd amser, staff neu gyllideb fel cyfyngiadau i wneud hyn.

*'…mewn byd delfrydol pe bai gennym yr holl amser a'r arian i'w wneud[...]fe soniom mor wych fyddai gallu cynnig yr adnoddau hynny i grwpiau[...]eraill a allai wneud defnydd ohonynt...'*

*Gwersi a ddysgwyd o brosiectau am y grwpiau targed*

5.40 Fel y trafodwyd ym mhwynt 5.26 a phwynt 5.38, darganfu cyfranogwyr rwystrau rhag ymgysylltu â democratiaeth neu feysydd diffyg gwybodaeth am ddemocratiaeth trwy weithio gyda buddiolwyr yn ystod eu prosiect. Mewn cyfweliadau â derbynyddion y grant ac ymchwil desg, codwyd y rhain mewn perthynas â phobl ifanc, pobl anabl, gwladolion tramor a'r boblogaeth gyffredinol. Roedd rhwystrau rhag ymgysylltu â democratiaeth yn cynnwys amgylchiadau unigolyn a'r system.

5.41 Ymhlith yr amgylchiadau personol y crybwyllwyd eu bod yn creu rhwystrau oedd bod pobl yn destun allgáu digidol neu heb fawr o sgiliau digidol, profiadau o ddemocratiaeth yng ngwlad tarddiad gwladolyn tramor ac, i bobl ifanc, meddu ar yr hyder sydd ei angen i ymgysylltu.

5.42 Un rhwystr yn y system a grybwyllwyd oedd hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio a'r holl system bleidleisio. Ar gyfer gorsafoedd pleidleisio, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar gyfer namau corfforol, nodwyd bod hyn yn llai gwir ar gyfer y rhai â nam gwybyddol, anhawster dysgu, cyflwr iechyd meddwl, neu sy'n niwroamrywiol. I'r unigolion hyn, mae'n bosibl y gellir gwella hygyrchedd trwy'r gallu i drafod y papur

pleidleisio gyda gweithiwr cymorth, neu newid fformat y papur pleidleisio. Un ffactor cysylltiedig oedd bod rhai yn pryderu am fynd i'r orsaf bleidleisio.

5.43 Rhwystr arall yn y system oedd hygyrchedd gwybodaeth ac adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fformatau hawdd eu darllen a darpariaeth mewn ieithoedd gofynnol, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd cymunedol. Ar gyfer deunyddiau ysgrifenedig, mae diffyg darparu gwybodaeth hygyrch ymlaen llaw yn golygu gorfod gofyn am fersiwn benodol. Ar gyfer digwyddiadau, mae diffyg darparu cyfieithwyr. Un maes a godwyd droeon lle nad oedd gwybodaeth yn hygyrch oedd yr wybodaeth gan bleidiau gwleidyddol a chynrychiolwyr gwleidyddol.

5.44 Rhwystr arall oedd y gofyniad am brawf adnabod pleidleisiwr (Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (PCC) ac etholiadau cyffredinol). Yn benodol, yn dibynnu ar y sefyllfa dai fel y rhai mewn tai ansicr, mewn gofal, neu heb gyfeiriad sefydlog. Mae'r mater hwn yn gysylltiedig â'r rhwystr sgiliau digidol (pwynt 5.41) oherwydd i'r rhai heb brawf adnabod â llun, mae'r brif ffordd o wneud cais am dystysgrif awdurdod pleidleisiwr yn gofyn am fynd ar-lein. Yn olaf, cyfeiriodd y derbynyddion at rwystr arall, sef canfod nad oedd y bobl ifanc yr oeddent yn gweithio gyda nhw wedi cael cyflwyniad i drafod materion gwleidyddol cyfoes yn yr ysgol.

5.45 Mae crynodeb o'r meysydd penodol lle nododd derbynyddion fylchau mewn gwybodaeth fel rhan o'u prosiect yn cynnwys:

- Pwy sydd â'r hawl i bleidleisio, gan gynnwys y gall pobl ag anableddau dysgu bleidleisio a phryd y gall gwladolion tramor bleidleisio
- Bod yn ansicr sut i gofrestru neu beidio â gwybod a ydynt wedi'u cofrestru
- Beth sy'n cael ei dderbyn fel prawf adnabod pleidleisiwr
- Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (PCC) ac etholiad PCC
- Gwahaniaethau rhwng mathau o filiau, a'r broses biliau
- Dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i chomisiynydd
- Y gwahanol lefelau llywodraeth a'u rolau a'u cyfrifoldebau, gwneud penderfyniadau, a meysydd sydd wedi'u datganoli
- Sut mae pleidleisio yn effeithio ar fywydau pob dydd

- Sut i weithredu – gan gynnwys cysylltu â chynrychiolwyr, mynychu cymorthfeydd
- Am beth mae pob plaid wleidyddol yn sefyll

5.46 Roedd yna achosion lle nododd cyfranogwyr nad yw bylchau mewn gwybodaeth i'w llenwi yn gyfyngedig i grwpiau targed, ond hefyd i'r rhai o'u cwmpas (fel y rhai sy'n gweithio yn y system ofal, gweithwyr cymorth, aelodau o'r teulu).

**Ym marn derbynyddion y grant, beth yw canlyniadau cymryd rhan yn y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth?**

5.47 Gofynnwyd i gyfranogwyr cyfweliad derbynyddion y grant fyfyrio ar y canlyniadau allweddol i'w sefydliad yn sgil bod yn y PYD. Y prif ganlyniad a ddaeth i'r amlwg oedd gallu dysgu am yr hyn y mae sefydliadau eraill yn ei wneud, a rhannu gwybodaeth ac adnoddau ddwy ffordd. Trwy ddysgu am yr hyn y mae eraill yn ei wneud, cododd cyfranogwyr fod hyn yn cynhyrchu syniadau.

*'…Roedd y cyfarfod hwnnw'n wirioneddol ddefnyddiol i mi. Roedd yn ddiddorol iawn clywed beth oedd pobl eraill yn ei wneud mewn mannau eraill[...] roedd yn ysbrydoledig[...]a sylwais ar nifer o syniadau neu adnoddau...'*

5.48 Roedd cyfranogwyr hefyd a roddodd enghreifftiau penodol o gymhwyso gwybodaeth a rannwyd gan sefydliad arall yn y PYD i lunio eu prosiect, neu ystyried newidiadau i'w prosiect yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, bu cyfranogwyr yn defnyddio'r bartneriaeth fel seinfwrdd yn ystod eu prosiect i gael barn am syniadau i'w cyfrannu at y cyflawni. Cafwyd hefyd achosion lle nododd cyfranogwyr eu bod yn gallu hybu ymwybyddiaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu eu grŵp targed, ac i'r gwrthwyneb adroddodd cyfranogwyr eraill eu bod wedi dysgu am rwystrau gwahanol grwpiau. Yn ogystal, roedd cyfranogwyr a adroddodd fod y bartneriaeth yn cael ei hystyried fel amgylchedd neu rwydwaith cefnogol lle gallai myfyrio neu ddysgu ddigwydd. Mewn rhai achosion, gyda'r cyfranogwr yr unig un yn ei sefydliad oedd yn gweithio yn y maes hwn, nodwyd bod hyn yn ddefnyddiol.

*'…yn ein prosiect ni, doedden ni ddim wedi ystyried[...] a oedd yna bobl oedd angen iaith arwyddion, er enghraifft[...]ddaeth neb oedd angen hynny [...]ond yna efallai nad oeddent wedi dod am nad oedd hynny gennym ni[...]felly y pethau yr oedd pobl yn dysgu amdanynt oedd y materion penodol sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn democratiaeth. Felly roedd hynny'n un peth. Gallai ethnigrwydd neu iaith fod yn un arall, ac rydych chi'n gwybod, er enghraifft[...] rydym wedi cael rhai prosiectau yma ar gyfer ffoaduriaid yn y dref yn ddiweddar. Felly mae hwnnw'n faes arall[...]lle gallem ddysgu efallai ar gyfer rhai o'r prosiectau a oedd yn gweithio ar hynny....'*

5.49 Crybwyllwyd hefyd fod y PYD wedi galluogi derbynyddion y grant i wneud cysylltiadau a chydweithio â sefydliadau eraill. Mewn rhai achosion, priodolodd cyfranogwyr y cydweithio neu'r cysylltiadau hyn i'r PYD - lle na fyddai'r cysylltiadau wedi digwydd neu efallai na fyddai cydweithio wedi digwydd fel arall. Mewn achosion eraill, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y byddent wedi gwneud y cysylltiadau neu gydweithio heb y PYD, gan eu bod yn sefydliadau perthnasol o fewn y maes ymgysylltu â democratiaeth. Serch hynny, yn rhai o'r achosion hyn, roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod y PYD wedi eu helpu i sylweddoli pwy o'r sefydliadau perthnasol hyn y dylent siarad â nhw.

5.50 Roedd y cyfranogwyr yn cydweithio â sefydliadau eraill mewn nifer o ffyrdd, yn amrywio o fwy i lai dwys. Er enghraifft, yn benodol: cydweithio a chymryd rhan mewn cyflawni, manteisio ar rwydweithiau, defnyddio adnoddau, a chael adborth.

5.51 O ran cydweithio a chymryd rhan mewn cyflawni, nododd rhai cyfranogwyr eu bod yn cydweithio i gyd-gyflwyno digwyddiadau, fel ymgyrchoedd, neu ymweliadau â safleoedd democrataidd. Nododd eraill, yn enwedig sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl, eu bod yn rhan o brosiect sefydliad arall i gynhyrchu fideos ynglŷn â mynediad i'r orsaf bleidleisio. Mewn rhai achosion, nododd y cyfranogwyr eu bod wedi cwrdd â sefydliad derbyn arall i drafod dulliau ymgysylltu. Roedd yna achosion lle adroddodd cyfranogwyr fod cydweithio yn helpu i osgoi dyblygu.

5.52 O ran manteisio ar rwydweithiau, roedd achosion lle adroddodd cyfranogwyr eu bod yn defnyddio rhwydweithiau derbynyddion eraill. Roedd hyn yn cynnwys rhannu manylion y prosiect a chael cysylltiad â sefydliadau perthnasol. Trwy wneud hynny, roedd y cyfranogwyr yn gallu cyrraedd sefydliadau neu unigolion newydd, a oedd wedyn yn cymryd rhan yn eu prosiect. Er enghraifft, cyflwynodd sefydliadau eu gweithgareddau i fuddiolwyr a nodwyd trwy rwydwaith derbynnydd arall.

*‘Y prif bethau oedd eu bod yn rhannu ein gwybodaeth gyda’u rhwydwaith ac i’r gwrthwyneb, a oedd mewn gwirionedd yn ein cefnogi i gysylltu á dau o’r colegau AB, a hwythau yn ein helpu i agor y drws hwnnw...’*

5.53 Un ffurf gyffredin arall ar gydweithio, er ei bod yn llai cysylltiedig, oedd bod cyfranogwyr yn crybwyll defnyddio adnoddau gan sefydliadau derbyn eraill o fewn eu prosiectau eu hunain. Nododd cyfranogwyr, oherwydd bod yr adnoddau hyn eisoes wedi’u creu, y gellid eu hychwanegu at eu cyflwyniad prosiect heb orfod dod o hyd i ffynonellau o rywle arall. Un achos arall o gydweithio a godwyd oedd cael adborth gan sefydliadau derbyn eraill ynglŷn â rhai elfennau o brosiect, yn enwedig lle’r oedd y derbynnydd arall yn cynrychioli grŵp targed penodol.

5.54 Fodd bynnag, roedd rhwystr hefyd o ran cydweithio trwy’r PYD. Fel y trafodwyd ym mhwynt 4.90, oherwydd amseriadau roedd cyfranogwyr yn teimlo y gallent fod wedi gweithio gyda’i gilydd ar sesiynau gyda derbynyddion eraill ond collwyd y cyfle hwn.

5.55 Un maes olaf a ddaeth i’r amlwg wrth drafod canlyniadau sefydliadau o’r PYD oedd bod derbynyddion grant a gyfranogodd yn cael budd o’r diweddariadau gan siaradwyr gwadd a Llywodraeth Cymru ynghylch polisi a diwygio etholiadol ehangach. Mewn rhai achosion, crybwyllodd y cyfranogwyr fod hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol y gallent ei hymgorffori yn eu gwaith.

### Sut mae'r GYD yn mynd i'r afael â bylchau yng nghyd-destun ehangach ymgysylltu â democratiaeth

*Diffinio 'y bwlch': Materion allweddol i fynd i'r afael â nhw o ran ymgysylltu â democratiaeth*

5.56 Gofynnwyd i randdeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol fyfyrio ar y materion allweddol i'w datrys o ran ymgysylltu â democratiaeth yn y boblogaeth yng Nghymru. Un thema a ddaeth i'r amlwg oedd nifer isel yn pleidleisio a chofrestru. O fewn hyn, nododd y cyfranogwyr weithiau fod estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig a lleol wedi gwella problemau blaenorol gyda chofrestru a phleidleisio, gyda heriau yn deillio o gymhlethdod gwahanol reolau pleidleisio ar gyfer gwahanol etholiadau. Nododd y cyfranogwyr, er bod grwpiau sy'n llai tebygol o gofrestru neu bleidleisio, fod hyn hefyd yn broblem i'r boblogaeth gyfan yng Nghymru. Cyfeiriodd y cyfranogwyr at grwpiau demograffig penodol a allai fod yn llai tebygol o bleidleisio, gan gynnwys pobl ifanc, grwpiau newydd eu hetholfreinio, gwladolion tramor, bod o statws economaidd-gymdeithasol is, statws deiliadaeth tai, a bod yn rhan o gymuned lleiafrif ethnig.

5.57 Thema arall a ddaeth i'r amlwg oedd bod diffyg addysg ddemocrataidd yn fater allweddol i'w ddatrys o ran ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru. O fewn hyn, nododd y cyfranogwyr y gellid ystyried bod nifer isel yn pleidleisio a chofrestru yn "symptom" o ddiffyg ymwybyddiaeth, gwybodaeth neu ddealltwriaeth ac felly bod angen gwell addysg ddemocrataidd ar draws y boblogaeth yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y bydd hyn yn effeithio ar gyfranogiad mewn etholiadau llywodraeth leol ac yn etholiadau'r Senedd, nes y bydd yn cael ei ddatrys. Yn ogystal, nododd rhai cyfranogwyr mai'r meysydd allweddol lle mae diffyg dealltwriaeth yw'r gwahanol lefelau llywodraeth leol a chenedlaethol a'u cyfrifoldebau priodol, pa feysydd polisi sydd wedi'u datganoli, ac ymhle mae penderfyniadau penodol yn cael eu gwneud (a ganfuwyd hefyd gan dderbynyddion grant yn fwlch yn eu prosiectau, gweler pwynt 5.45). Ar ben hynny, nododd y cyfranogwyr hefyd y gall gwaith yng Nghymru yn aml wahanu etholiadau datganoledig ac etholiadau'r DU, gan ganolbwyntio ar etholiadau datganoledig yn unig, sy'n creu mater lle nad yw'r boblogaeth yn gweld y darlun cyfan. Un maes arall a nodwyd gan y cyfranogwyr yw diffyg ymwybyddiaeth o ran pwy yw'r ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd (un bwlch cysylltiedig a gafwyd gan dderbynyddion y grant ym mhwynt 5.45 yw'r hyn y mae pob plaid yn ei gynrychioli). Eto, wrth drafod grwpiau

penodol, nododd y cyfranogwyr fod gwybodaeth a dealltwriaeth yn fater cyffredinol i'r boblogaeth gyfan. Mynegodd y cyfranogwyr hefyd y farn y gall ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth gael eu dylanwadu gan ddiddordeb cyffredinol unigolyn mewn democratiaeth, neu lefel yr ymgysylltu á democratiaeth yn y teulu.

5.58 Thema arall oedd bod sylw yn y cyfryngau yn fater allweddol i'w ddatrys o ran ymgysylltu â democratiaeth. Crybwyllodd cyfranogwyr y farn bod diffyg sylw yn y cyfryngau yng Nghymru i'r etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd, neu am benderfyniadau a wneir yng Nghymru.

5.59 Ystyriwyd bod y materion ynglŷn ag ymgysylltu â democratiaeth yn hirsefydlog. O safbwynt Cymru gyfan, dywedodd y cyfranogwyr, er bod estyniad yr etholfraint yn 2020 wedi arwain at fwy o waith a sgwrs ar ymgysylltu â democratiaeth, eu bod yn teimlo bod materion ymgysylltu â democratiaeth yn bodoli ers dechrau datganoli. O safbwynt lleol, dywedodd cyfranogwyr fod y canfyddiad wedi cynyddu, dros flynyddoedd lawer, nad yw adborth gan y gymuned yn cael ei ystyried gan gyrff lleol ac y gall hyn greu dadrithiad.

*'...nifer o arolygon barn. Ac mae etholiadau, mewn gwirionedd, wedi dangos bod problem o ran ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru, yn enwedig ar lefel ddatganoledig. Mae nifer o arolygon barn wedi eu cynnal sy'n dangos nad yw pobl yn glir iawn ymhle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ynghylch materion polisi penodol. […]mae'n amlwg bod estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor wedi rhoi lle i ddechrau cael y sgwrs honno am sut i wella ymgysylltiad, sydd yn fy marn i[...]* [yn] *sgwrs barhaus mewn gwirionedd[...]ond mae'r problemau'n dyfalbarhau i raddau...'*

5.60 Yn olaf, roedd achosion lle'r oedd cyfranogwyr o'r farn y bydd cyfres gyfansawdd o heriau ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru cyn etholiadau'r Senedd yn 2026, gan fod llawer o ddiwygiadau ar yr un pryd.

*'...cymaint ag y byddaf yn pwysleisio'r pethau rhwng etholiadau, bydd her fawr, dwi'n credu, yn y cyfnod sy'n agosáu at 2026. Bydd gennym system bleidleisio wahanol iawn, nifer gwahanol o aelodau wedi'u hethol. Bydd gennym blatfform gwybodaeth pleidleiswyr ar waith, ffiniau newydd, ni fydd angen prawf adnabod ar bleidleiswyr[...]mae'r gwaith etholfraint newydd [...]Mae hyn oll ychydig bach fel bom amser sy'n ticio o wybodaeth y mae angen ei rhoi i'r cyhoedd ac mae angen iddynt fod yn ymwybodol ac yn hyderus am yr wybodaeth hon...' [...] '...Dwi'n credu mai dyma'r her fwyaf a gawsom erioed yng Nghymru o ran cyfleu pethau i bleidleiswyr, oherwydd nid un newid ydyw, ond rhyw 10 newid i gyd ar unwaith.'*

*Diffinio 'y bwlch': Cyllid a mentrau eraill*

5.61 Gofynnwyd i randdeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol fyfyrio ar gyllid a mentrau eraill ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru. Roedd yna achosion lle nododd cyfranogwyr gyllid yn y gorffennol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cyllid awdurdodau lleol ar gyfer SCCE, a Grant Cymorth Cofrestru Pleidleiswyr y Trydydd Sector. Nododd y cyfranogwyr hefyd y gwaith o amgylch dyfodol cyfansoddiadol Cymru (gweler pwynt 1.23).

5.62 Mewn rhai achosion, nododd y cyfranogwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gyllid arall sydd ar gael. Mewn achosion eraill, dywedodd cyfranogwyr fod pocedi eraill o gyllid ar gael, neu y buont ar gael, er bod hyn yn gyfyngedig, heb fod yn benodol ar gyfer 'ymgysylltu â democratiaeth' bob tro. Ymhlith y ffynonellau hyn roedd cyllid y Loteri, Cronfa Democratiaeth y DU (Joseph Rowntree Reform Trust), Waterloo Foundation, Cyngor Celfyddydau Cymru, y Sefydliad Materion Cymreig, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Integreiddio Rhanbarthol, a chyllid grwpiau cymunedol llai. Hefyd, dywedodd cyfranogwyr fod y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn y Senedd wedi ymgymryd â mentrau, er nad 'sefydliadau sy'n gwneud grantiau' yn unig ydynt, a'u bod wedi gwneud mwy o waith ymgysylltu neu allgymorth. Mewn rhai achosion, myfyriodd y cyfranogwyr ar gyllid ymchwil, boed hynny drwy brifysgolion neu Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ond nodwyd bod yr ymchwil hon yn tueddu i archwilio beth yw'r materion yn hytrach na chyllido gweithredu ar ymgysylltu â democratiaeth.

*Diffinio 'y bwlch': Heriau gyda chyllid a mentrau*

5.63 Y brif her gyda chyllid yn y sector ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru a godwyd gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach yw'r diffyg cyllid sydd ar gael. Mae hyn yn golygu bod diffyg cyllidwyr a diffyg amrywiaeth cyllidwyr. Crybwyllodd rhai o dderbynyddion y grant hefyd ddiffyg cyllid a chyllidwyr wrth fyfyrio ynghylch eu hanghenion am gyllid yn y maes ymgysylltu â democratiaeth.

*'Mae'n eitha' llwm. Byddwn i'n dweud, y tu allan i gyllid y llywodraeth, mai dim ond un sefydliad sydd mewn gwirionedd, sef Sefydliad Joseph Rowntree[...]sy'n ariannu pethau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth. Ac nid yw'n ariannu symiau mawr iawn[...]ond rwy'n meddwl bod mwy o amrywiaeth cyllid yn bwysig iawn...'*

5.64 Yn gysylltiedig â'r diffyg cyllid a chyllidwyr, her arall a godwyd gan y rhanddeiliaid allanol ehangach a gyfranogodd oedd, lle mae cyllid ar gael yn y sector, bod hwn yn tueddu i fod yn bocedi unigol, llai o gyllid. Nid yw'r cyllid wedi'i ganoli. Nododd y cyfranogwyr fod hyn yn arwain at ddyblygu neu orgyffwrdd gweithgaredd, a chystadleuaeth rhwng sefydliadau.

5.65 Ar ben hynny, dywedodd rhanddeiliaid allanol ehangach a gyfranogodd, yn gyffredinol, fod sefydliadau fel elusennau yn aml yn parhau i geisio gwneud gwaith ymgysylltu â democratiaeth heb ei ariannu, ar sail ymdeimlad o rwymedigaeth i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a hunan-eiriolaeth. Yn gysylltiedig â hyn, wrth fyfyrio ar eu hanghenion am gyllid ym maes ymgysylltu â democratiaeth, roedd rhai derbynyddion grant a gymerodd ran yn ymdrin â hyn o safbwynt datgan bod angen cyllid arnynt yn y maes hwn. Mae hyn oherwydd bod cyllid yn greiddiol i allu eu sefydliadau i weithredu. Heb gyllid, mae sefydliadau naill a'i methu'n llwyr ag ymgymryd â gweithgareddau, neu'n methu eu cynnal yn gynaliadwy, gan effeithio felly ar ymgysylltiad â'u grwpiau targed/buddiolwyr. Mae hyn yn cyfeirio'n ôl at bwynt 5.34 lle trafododd cyfranogwyr heriau gyda chynnal gwaith.

*'…mae sefydliadau fel ein sefydliad ni yn gweithredu ar geiniogau fel y mae[...]Os ydych chi am i sefydliadau ymgymryd â rolau ymgysylltu â phobl mewn cymunedau, mae'n rhaid ei gydnabod fel gwaith go iawn...'*

5.66 Crybwyllodd rhanddeiliaid allanol ehangach a gyfranogodd hefyd fod cyllid wedi tueddu i ganolbwyntio ar gyfnodau etholiadol, sy'n golygu y bu bwlch ariannu rhwng cylchoedd etholiadol ac ar gyfer canolbwyntio ar ddarlun cyfan democratiaeth.

5.67 Yn ogystal, nododd rhanddeiliaid allanol ehangach a chyfranogwyr awdurdod lleol nad yw pocedi o gyllid arall yn tueddu i fod yn benodol neu'n unswydd ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth, ond ar gyfer pynciau cysylltiedig neu gymunedol y gellid eu hystyried yn ffurf ehangach ar ymgysylltu â democratiaeth. Er enghraifft, cyfeiriodd cyfranogwyr at Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Chronfeydd Integreiddio Rhanbarthol, sy'n ariannu ymgysylltu â'r gymuned yn bennaf trwy lens y ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chyd-gynhyrchu. Nododd y cyfranogwyr hefyd mai un her yw nad yw pocedi eraill o gyllid yn aml yn canolbwyntio'n benodol ar Gymru. Er enghraifft, er bod Cronfa Ddemocratiaeth y DU yn cwmpasu Cymru, gall hyn fod ar ffurf sefydliadau'r DU yn gwneud gwaith yng Nghymru yn hytrach na gweithgarwch yng Nghymru, ac nid oes ffrwd ariannu bwrpasol i Gymru.

5.68 Amlygodd rhanddeiliaid allanol ehangach a gyfranogodd rai rhesymau a allai arwain at ddiffyg cyllid a chyllidwyr. Un elfen oedd didueddrwydd, lle adroddodd cyfranogwyr y gallai sefydliadau bryderu am sut i wneud hyn mewn ffordd 'ddiduedd' neu 'elusennol', ar gyfer ariannu ymgysylltu â democratiaeth. Un elfen arall yw bod effaith gweithgarwch ymgysylltu â democratiaeth yn anodd ei werthuso. Adroddodd y cyfranogwyr fod y mater hwn yn cyfrannu at y diffyg cyllid a chyllidwyr (fel y nodwyd yn 5.63), a, lle bo cyllid ar gael, ffocws ar gyfnodau etholiadol (fel y nodwyd yn 5.66), oherwydd ystyrir ei bod yn haws mesur cofrestru a phleidleisio na chysyniadau fel gwybodaeth neu ddealltwriaeth.

5.69 Un her arall a grybwyllwyd gan randdeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol a gymerodd ran oedd nad yw gwerth y cyllid yn aml yn ddigonol. Nododd cyfranogwyr fod y potiau o gyllid sydd ar gael yn aml yn llai, sy'n eu gwneud yn anaddas i sefydliadau mawr. Nodwyd bod y symiau llai o gyllid hefyd yn broblem oherwydd gall fod yn heriol ac yn ddrud ymgysylltu â grwpiau penodol o'r boblogaeth, yn enwedig lleisiau nas clywir yn aml. Roedd yna hefyd achosion lle'r oedd cyfranogwyr yn teimlo bod cyllid parhaus a hirhoedledd cyllid yn fwlch.

5.70 Er nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chyllid, cododd y cyfranogwyr heriau a bylchau cysylltiedig hefyd. Ar gyfer awdurdodau lleol yn benodol, adroddodd cyfranogwyr fod prinder adnoddau, capasiti a chyllidebau sector cyhoeddus yn cyfyngu ar y gallu i ymgymryd â gweithgareddau a phrosiectau ymgysylltu â democratiaeth. Nododd cyfranogwyr hefyd y gall y cyfyngiadau hyn arwain at ddiffyg arloesedd a'r gallu i wneud ffurfiau sylfaenol ar ymgysylltu yn unig (megis rhannu gwybodaeth trwy wefan, cyfryngau cymdeithasol, print). Nododd rhanddeiliaid allanol ehangach hefyd fod capasiti ac adnoddau yn her. Ar draws awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach, dywedodd cyfranogwyr, hyd yn oed os oes ganddynt y gyllideb ar gyfer prosiect, fod angen i sefydliadau allu adnoddu hyn o hyd gan ei fod yn faich gwaith ychwanegol, ac efallai na fydd hynny'n bosibl. Felly, hyd yn oed pan fydd cyllid ar gael, efallai na fydd sefydliadau'n gallu mynd ar ei drywydd. O blith rhanddeiliaid allanol ehangach yn arbennig, nododd y cyfranogwyr y gallai fod angen hyfforddi staff i gyflwyno gweithgareddau sy'n gysylltiedig â democratiaeth lle nad yw hyn yn swyddogaeth graidd y sefydliad.

5.71 Soniodd y cyfranogwyr o awdurdodau lleol am heriau cydweithio hefyd. Mewn rhai achosion, nododd cyfranogwyr yr anawsterau cydweithio â sefydliadau y tu allan i gyrff cyhoeddus eraill (fel sefydliadau cymunedol a'r sector preifat) i fanteisio ar arbenigedd oherwydd gofynion cyllido a'r amser y mae hyn yn ei gymryd (caffael, diwydrwydd dyladwy). Gall hyn gyfyngu ar arloesi a gall olygu colli cyfleoedd i gydweithio â'r partneriaid mwyaf addas. Mewn achosion eraill, nododd cyfranogwyr yr anawsterau cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill. Gellid gwneud mwy i gyrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd, er enghraifft ar lefel ranbarthol neu ehangach, i wella gwerth am arian gweithgarwch ymgysylltu. Nododd cyfranogwyr heriau gyda'r maes a'r seilwaith ar gyfer cyfuno cyllid.

*I ba raddau y mae'r GYD wedi helpu i fynd i'r afael â heriau ymgysylltu â democratiaeth a heriau ariannu?*

5.72 Roedd achosion lle roedd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach yn gadarnhaol am y GYD yn mynd i'r afael â heriau neu fylchau cyllid. Yn yr ystyr fwyaf sylfaenol, amlygodd y cyfranogwyr fod y GYD yn helpu i lenwi bwlch dim ond oherwydd diffyg cyllid arall yn y maes hwn. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y GYD yn "gam i'r cyfeiriad cywir". Yn gysylltiedig â hyn, pan ofynnwyd iddynt ystyried sut olwg fyddai ar y dirwedd ariannu a chymorth pe na bai Llywodraeth Cymru yn darparu'r GYD, un maes a ddaeth i'r amlwg gan y cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach oedd na fyddai llawer o gyllid ar gael, os o gwbl.

*'… Felly rwy'n credu bod y grant ymgysylltu â democratiaeth wedi digwydd i ddigolledu absenoldeb unrhyw beth arall. Mae gennym sector cyllido arbennig o ryfedd yng Nghymru beth bynnag, mae gennym broblemau penodol gydag ymgysylltu â democratiaeth. Felly mae'n teimlo fel bod y grant hwnnw wedi llenwi rhyw fwlch lle nad oedd cyllid presennol neu bwyslais neu ymdrechion presennol yn digwydd.'*

*'Rwy'n credu y byddai* [y dirwedd ariannu] *yn edrych braidd yn llwm a dweud y gwir. Oherwydd rwy'n meddwl nad oes llawer iawn o gyllid yn y maes hwn...'*

[Sylwer] Defnyddiwyd y term 'llwm' hefyd i ddisgrifio'r dirwedd ariannu gan dderbynnydd grant wrth drafod ei anghenion ariannu ym mhwynt 5.63.

5.73 Cafwyd hefyd achosion lle'r oedd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach yn myfyrio'n gadarnhaol ar Lywodraeth Cymru yn darparu cynllun a ariennir yn ganolog. Yn ogystal, cydnabod y dylid ariannu gwaith mewn ymgysylltu â democratiaeth a gweithredu. Yn gysylltiedig â hyn, pan ofynnwyd iddynt ystyried sut olwg fyddai ar y dirwedd ariannu a chymorth pe na bai Llywodraeth Cymru yn darparu'r GYD, roedd achosion lle dywedodd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach y gallai hyn effeithio ar y berthynas a fagwyd â sefydliadau yn y sector. Nododd cyfranogwyr, heb gymorth, y byddai'r cyfrifoldeb o fynd i'r afael â materion ymgysylltu â democratiaeth yn cael ei roi'n ôl ar y sefydliadau.

*'...mae'n gynllun a ariennir yn ganolog, sy'n gadarnhaol yn fy marn i oherwydd [...]mae hwn yn waith y dylai'r llywodraeth fod yn ei ariannu, wyddoch chi, yn hytrach na dibynnu ar gyllidwyr llai...' [...] '...mae llawer ohonyn nhw* [elusennau] *yn teimlo eu bod yn gorfod gwneud pethau ynghylch democratiaeth, dim ond oherwydd yr hyn maen nhw'n sefyll amdano fel sefydliad, ond[...]nid gwaith elusennau mewn gwirionedd yw llenwi'r bwlch [...]dylem fod yn eu hariannu'n iawn.'*

5.74 O ongl ychydig yn wahanol, gofynnwyd i dderbynyddion y grant a gyfranogodd ystyried eu hanghenion am gyllid yn y maes ymgysylltu â democratiaeth. Soniodd cyfranogwyr y byddai'n bwysig neu'n ddefnyddiol parhau â'r GYD. Mewn rhai achosion, nododd cyfranogwyr hyn mewn perthynas â'r etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd i ddod yng Nghymru. Teimlai cyfranogwyr y byddai grant a ddyfarnwyd wrth agosáu at y cyfnod hwn ac yn ystod y cyfnod hwn yn ddefnyddiol, er enghraifft i barhau i adeiladu ar eu gwaith.

5.75 Fodd bynnag, roedd achosion lle'r oedd y cyfranogwyr yn llai cadarnhaol am y GYD yn ymdrin â heriau neu fylchau cyllid. Amlygodd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol fod y GYD yn dal i fod yn tueddu i ariannu pocedi o weithgarwch, a hynny fel arfer ar raddfa lai neu fwy byrdymor. O ran hyn, nid yw'r cyllid o reidrwydd wedi ymdrin â'r bylchau ynghylch cyllid parhaus a hirhoedledd cyllid. Nododd cyfranogwyr, er mwyn mynd i'r afael â materion ymgysylltu â democratiaeth, y byddai angen i gyllid fod yn barhaus, a bod cyllid grant yn fwy byrdymor ei natur sy'n golygu nad yw'n rhoi'r sicrwydd hwnnw. Oherwydd adnoddau a chapasiti sefydliadol, daw gweithgarwch i ben gyda'r cyllid, gan olygu bod y manteision a gyflawnir yn gyfyngedig ac yn anodd adeiladu arnynt. Er bod yna agweddau ar welliant ar y pryd, mae hyn ar gyfer rhai grwpiau ar lefel lai.

*'…*[Mae'r GYD] *yn dal i ddioddef o[...]Rwy'n credu bod rhai prosiectau er enghraifft wedi cael eu hariannu am flwyddyn[...]wedi dod i ben, ac yna mae'r cyllid wedi dod allan eto[...]mae'n dal yn debygol o fod yn dioddef o fod ychydig yn dameidiog[...]ariannu pethau bach[...]prosiectau unigol ac yna, wyddoch chi, hirhoedledd y prosiectau hynny, mae'n anodd[...]llawer o fathau o sefydliadau elusennol, maen nhw'n amlwg yn gallu gwneud dim ond yr hyn maen nhw'n cael eu hariannu i'w wneud. Felly os daw'r cyllid i ben, daw'r gweithgaredd hwnnw i ben...'*

*'…Nid wyf yn argyhoeddedig bod y grant yn llenwi'r bwlch yn effeithiol oherwydd [...]does dim sicrwydd yn ei gylch[...]Rwy'n credu ei fod yn fyrdymor iawn, iawn, iawn. Efallai y daw â rhai manteision ar y pryd, ond dw i ddim yn credu yr adeiladir ar y buddion hynny, oherwydd allwch chi ddim parhau â'r prosiectau.'*

5.76 Mewn perthynas â'r heriau a'r bylchau sy'n ymwneud ag adnoddau (5.70), dywedodd rhai rhanddeiliaid allanol ehangach y byddai llai o weithgarwch yn y maes hwn heb y GYD, yn enwedig rhwng etholiadau. Unwaith eto, cyfeiriodd cyfranogwyr at yr her o sefydliadau'n methu ag adnoddu a chynnal gwaith heb gyllid grant. Dywedodd cyfranogwyr y gallai hyn hefyd arwain at gronfa lai o sefydliadau'n gweithio yn y maes hwn, oherwydd gyda llai o weithgarwch yn digwydd, mae llai o sefydliadau yn datblygu neu'n cynnal arbenigedd. Nododd rhai cyfranogwyr awdurdod lleol hefyd na fyddai gweithgarwch yn bosibl heb y GYD oherwydd diffyg adnoddau yn eu sefydliad. Un maes cysylltiedig arall a grybwyllwyd gan awdurdodau lleol oedd, pe na bai Llywodraeth Cymru yn darparu'r GYD, byddai llai o weithgarwch yn y maes hwn, ond hefyd llai o weithgarwch arloesol. Dywedwyd bod y GYD yn gyfle i roi cynnig ar ddulliau newydd o ymgysylltu â democratiaeth yng nghyd-destun diffyg adnoddau a chapasiti mewn cyrff cyhoeddus.

*'...felly rwy'n meddwl os nad oes gennych y GYD[...]Nid oes gennych chi[...]sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithio ar faterion democrataidd[...]ac nid oes gennych y math hwnnw o ddyfalbarhad[...]gan sefydliadau eraill a fyddai'n gwneud pethau yn bennaf o gwmpas etholiadau.'*

*'…cyrff sector cyhoeddus, dylem fod yn ymwneud â chymunedau mewn capasiti beth bynnag. Ac rwy'n gweld mai'r grant yw'r lle ar gyfer y risg a'r arloesi hwnnw[...]heb y grant mae'n debyg bod risg y bydd cyrff cyhoeddus iawn yn dychwelyd i wneud yr hyn a wnaethant erioed am fod hynny o fewn eu hamlen adnoddau bresennol...'*

5.77 Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol eraill yn llai cadarnhaol ynglŷn ag adnoddau, gan nodi mai un bwlch yw nad yw'r GYD yn darparu cyllid ar gyfer adnoddau staff, sef yr hyn sy'n ofynnol i allu gwneud prosiectau ymgysylltu.

*'…y rhwystr mwyaf i ni yw nad oes gennym gapasiti o fewn ein hadnoddau staff presennol i ymgymryd â mwy o waith...' […] '…budd y* [cyllid Llywodraeth Cymru] *blaenorol yr oeddem wir yn ei werthfawrogi oedd y gellid defnyddio'r cyllid i gyflogi adnodd staff...'*

5.78 Rhagdybiaeth o fewn y model rhesymeg (pwynt 3.4) yw y gall y sefydliad sy'n derbyn dalu costau gorbenion yn ystod y prosiect oni bai y costiwyd amdanynt yn eu cais. Mae gweithgaredd 'A20: Caffael neu recriwtio lle bo angen i ehangu'r capasiti i gyflawni prosiectau' ac allbwn 'OP11: Staff prosiect' yn tynnu sylw at achosion lle cafodd staff eu cyflogi i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau'r GYD. Byddai mwy o eglurder ar yr amgylchiadau lle mae cyflogi staff fel rhan o brosiectau'r DEG yn gymwys ac yn anghymwys yn fuddiol.

5.79 Roedd yna achosion lle soniodd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol am werth y grant, lle'r oedd rhai yn teimlo bod y swm yn ddigon ac eraill yn teimlo bod y GYD yn rhy fach.

*'...teimlaf ei fod wedi llenwi'r bwlch a oedd yn bodoli. Mae'n teimlo fel swm digon sylweddol o arian yn flynyddol...'*

*'...£300,000 y flwyddyn. Ond oherwydd ymrwymiadau yr ydym eisoes wedi'u gwneud mewn gwirionedd[...]dim ond £40,000 sydd ar gael. Felly mae'n gwneud i chi feddwl, wel, beth yw'r diben, 'chi'n gwybod?...'*

*Newidiadau ar gyfer cyllid grant yn y dyfodol*

5.80 O ran newidiadau y byddai'n ddefnyddiol eu cymhwyso i raglenni cyllid grant yn y dyfodol, un maes a amlygwyd (rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol) oedd yr angen i ariannu prosiectau ar raddfa fwy neu dymor hwy. Dywedodd cyfranogwyr fod angen prosiectau aml-flwyddyn (e.e. grant 5 mlynedd), neu gyllid mwy parhaus. Nododd cyfranogwyr ei bod yn cymryd amser i effeithio ar ymgysylltu â democratiaeth.

5.81 Yn gysylltiedig â hyn, wrth fyfyrio ar eu hanghenion am gyllid yn y maes ymgysylltu â democratiaeth, roedd achosion lle trafododd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant (o brosiectau aml-flwyddyn, un flwyddyn a thymor byr) yr angen am gyllid hirdymor. Ystyriwyd bod hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn caniatáu i sefydliadau gynnal momentwm a dysgu, mynd i'r afael â rhwystrau a chefnogi eu grŵp targed ar raddfa fwy, a deall pam nad yw pobl yn ymgysylltu. Trafodwyd pwysigrwydd prosiectau aml-flwyddyn hefyd ym mhwyntiau 4.82 i 4.83 a phwyntiau 5.31 i 5.34.

*'…Rwy'n credu bod cyllid tymor hwy yn hanfodol[...]Mae cyllid tair blynedd yn aruthrol o anodd ei gael erbyn hyn. Felly mae'r rhan fwyaf o'n prosiectau yn cael eu hariannu am flwyddyn, 18 mis. Ac fel y dywedaf, rydych chi'n magu rhyw fomentwm, ac yna daw'r prosiect i ben...' […] '…mae'r momentwm mewn gwirionedd yn bwysig iawn oherwydd mae hynny'n arbed cymaint o amser. Mae'r holl amser cyhoeddusrwydd, ac yna gallwch[...]ganolbwyntio ar dreulio'r amser a'r adnoddau ar[...]gyflawni gweithgareddau a chael canlyniadau mewn gwirionedd.'*

*'…Rwy'n credu mai dyna lle mae bwlch mewn cyllid a rhyw fath o fwlch yn y sgwrs am[...]ymyriadau dyfnach neu ymyriadau tymor hwy...'*

5.82 Wrth fyfyrio ar eu hanghenion am gyllid yn y maes ymgysylltu â democratiaeth, awgrymodd rhai cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant gynyddu gwerth y cyllid sydd ar gael yn rhan o'r GYD yn y dyfodol.

5.83 Yn ogystal, roedd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol yn teimlo y gallai'r GYD gefnogi prosiectau ar raddfa fwy neu brosiectau mwy cydgysylltiedig. Er enghraifft, mae angen i'r sector gydlynu ar ba gamau gweithredol sy'n ofynnol ynghylch ymgysylltu â democratiaeth. Hefyd, yn hytrach na chyllido awdurdodau neu sefydliadau lleol unigol, gellid gwneud gwaith ar lefel uwch (fel lefel ranbarthol neu Gymru gyfan) ar gyfer y materion ymgysylltu â

democratiaeth sy'n effeithio ar y boblogaeth yn gyffredinol neu lle mae problemau ymgysylltu hysbys gyda grwpiau penodol ar draws y lefel uwch honno o ddaearyddiaeth. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y byddai hyn yn cynnig gwerth am arian, neu'n helpu buddiolwyr i gysylltu'r gwahanol lefelau llywodraeth.

*'...mae'n llai o rôl i'r GYD nawr fod yn rhagnodol, rwy'n credu, ac yn fwy o rôl i'r sector, rwy'n credu, gydlynu sgwrs am yr hyn sydd wir ei angen o ran gweithredu[...]sut mae dysgu o weithgarwch y mae'r grant wedi'i ariannu ar sail fwy hirdymor[...]ac a ellir gwneud hynny ar draws y trydydd sector yng Nghymru?'*

*'…rwy'n credu mai'r hyn sydd ar goll o bosibl yw ystyried sut y gellir uno hyn â mentrau eraill, mwy o faint, i geisio dod â mwy o chwaraewyr at ei gilydd a cheisio datrys, ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn ar lefel fwy cenedlaethol...' […] '…efallai bod rhywbeth yno o ran cyllid, fel prosiectau mwy o faint dros gyfnod hirach o amser[...]yn rhoi cyfle i sefydliad brofi rhai o'r canlyniadau hynny, a gallai hynny fod fel grant pum mlynedd[...]dilyn y prosiect hwnnw dros amser[...]Ond mae hynny ychydig yn wahanol i sut mae'r grant wedi'i drefnu ar hyn o bryd.'*

5.84 Yn cyd-fynd â hyn, wrth fyfyrio ar eu hanghenion am gyllid ym maes ymgysylltu â democratiaeth, roedd yna hefyd achosion lle trafododd cyfranogwyr sy'n derbyn y grant fabwysiadu dull mwy strwythuredig neu drefnus, naill ai yng Nghymru neu ar draws gwledydd.

5.85 O ran ar draws gwledydd, mewn rhai achosion roedd y cyfranogwyr yn teimlo y gellid mabwysiadu dull partneriaeth o ymdrin â chyllid i fynd i'r afael â rhai materion ymgysylltu â democratiaeth, er mwyn sicrhau effeithiau mwy neu fwy hirdymor. Gellid gosod grŵp o faterion allweddol i'w datrys ar draws cenhedloedd, a gellid gwneud gwaith ar yr un pryd mewn gwahanol genhedloedd lle mae gan sefydliadau gyrhaeddiad ledled y DU.

*'…Byddwn i'n dweud os oes gan Lywodraeth Cymru amcanion y mae'n ceisio eu cyflawni gyda'r gronfa, yna efallai[...]gwella'r gronfa o amgylch cyfres o amcanion[...]pe gallai wneud hynny mewn partneriaeth[...]rydych chi wedyn[...]yn cael mwy o arian, sy'n golygu naill ai y gallwch brynu prosiectau mwy o faint neu ariannu mwy o bobl[...]mae teilyngdod pendant i Lywodraeth Cymru'n gwneud rhywbeth ar ei phen ei hun, ond efallai y byddai ceisio adeiladu ychydig o glymblaid ariannu sy'n buddsoddi droeon mewn prosiectau dros nifer o flynyddoedd, yn debygol o gael mwy o effaith na'r math untro ...'*

5.86 O ystyried Cymru, roedd achosion lle'r oedd cyfranogwyr sy'n derbyn y grant yn teimlo bod angen dull mwy trefnus ledled Cymru er mwyn cael effaith ehangach ar y sector. Er enghraifft, mabwysiadu dull a ddefnyddiwyd ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth yn lleol, a chyflwyno hwn mewn ardaloedd ledled Cymru drwy'r grant a sefydlu rhwydwaith o sefydliadau lleol sy'n cymryd rhan. Un enghraifft arall oedd cael un prosiect mawr yn cael ei gyflawni ledled Cymru.

*'…yn hytrach na rhoi pocedi o wahanol gyllid i wahanol bobl, rwy'n credu y byddai'n dda sefydlu, sefydlu'r prosiect[...]ar raddfa ehangach, gyda mwy o bobl yn cyflawni[...]mynd i mewn i'r lleoliadau addysg ac i sefydliadau'r trydydd sector[...]cyflwyno'r un rhaglen fesul dipyn ledled Cymru.'*

5.87 Un pwynt arall a godwyd gan dderbynyddion y grant (yn enwedig sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl) oedd bod angen cyllid i gyrraedd ystod eang o sefydliadau, hyd yn oed os yw'n ymddangos eu bod yn gweithio gyda'r un grŵp targed ar yr wyneb. Mae hyn oherwydd y byddant yn cael gwahanol bethau neu'n gweithio gydag is-adrannau o grwpiau targed, neu oherwydd y farn bod llawer o waith i'w wneud o hyd ar gefnogi'r grŵp targed i ymgysylltu â democratiaeth.

*'… mae gennym fath penodol o grŵp[...]arwyddwyr BSL, byddar. Felly, yn amlwg, mae'r bobl sy'n fyddar neu'n ddall fyddar mewn gwirionedd yn llawer mwy o bobl a allai gael eu blaenoriaethu gan sefydliadau eraill[...]efallai yr hoffent elwa ar fath tebyg o brosiect [...]* [ar gyfer] *gwahanol fathau o garfannau o bobl y gallent fod yn ymwneud â nhw...'*

5.88 Gofynnwyd i gyfranogwyr (rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol) ystyried a oedd unrhyw faterion ymgysylltu allweddol y dylai'r GYD fod wedi mynd i'r afael â nhw. Roedd achosion lle trafododd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach na all y GYD fynd i'r afael â phopeth, ac y dylid ei ystyried fel un sy'n mynd i'r afael â materion ymgysylltu â democratiaeth fel rhan o'r cyd-destun ehangach. Fel rhan o hyn nododd cyfranogwyr y newidiadau a fydd yn deillio o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (rhaglenni peilot cofrestru pleidleiswyr awtomatig, bwrdd rheoli etholiadol, platfform gwybodaeth i bleidleiswyr). Nododd y cyfranogwyr hefyd fod angen mwy o ymrwymiad i addysg ddemocrataidd o fewn ysgolion gan Lywodraeth Cymru, gan mai dim ond i ryw raddau y gall prosiectau bach fynd i'r afael â gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth. Yn ogystal, teimlai cyfranogwyr nad yw'r materion sy'n ymwneud â'r sylw yn y cyfryngau yng Nghymru (a drafodwyd ym mhwynt 5.58) yn cael eu hystyried drwy'r GYD, ac felly eto mae'n rhaid iddo eistedd ochr yn ochr â gwaith ehangach. Crybwyllwyd bod angen cyllid y GYD ochr yn ochr â chyllid ar gyfer mentrau mwy o faint.

*'...mae yna bethau fel[...]addysg ddemocrataidd mewn ysgolion, cynulliadau dinasyddion[...]Ond eto byddai'n dal i fod angen [...]cyllid y llywodraeth arnynt[...]ni fyddai gan elusennau rôl yno. Felly y naill ffordd neu'r llall, rwy'n credu bod yn rhaid i chi roi arian[,..]mae angen i chi wneud cyfuniad o'r ddau. Mae angen i chi gael y pethau tocyn mawr hynny a gwneud y math yma o waith mwy manwl...'*

5.89 Yn gysylltiedig â'r syniad o'r cyd-destun ehangach, roedd achosion lle roedd cyfranogwyr sy'n derbyn y grant yn myfyrio ar elfennau ehangach o ymgysylltu â democratiaeth yr oeddent am eu gweld gan Lywodraeth Cymru. Buont yn trafod bod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu ffyrdd o weithio i gynnwys pobl mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys o lefelau Cymru gyfan i lefelau lleol o ddemocratiaeth. Amlygodd cyfranogwyr bwysigrwydd grwpiau targed yn gallu trafod eu barn am ddarnau o bolisi a'r cyhoedd yn cyfrannu at benderfyniadau a wneir.

*'Rwyf wir eisiau i Lywodraeth Cymru ystyried hyn[...]o ran sut y gallwn ddod â democratiaeth gydgynghorol i'r broses o wneud penderfyniadau mewn llywodraeth[...]y cyhoedd yn cael cyfrannu at benderfyniadau a wneir yn y broses ddemocrataidd[...]* [gan gynnwys] *cynulliadau dinasyddion.' [...] '...mae angen rhywbeth mwy cydlynol a llai tameidiog arnom.'*

5.90 Roedd achosion hefyd lle roedd cyfranogwyr o awdurdodau lleol yn teimlo y dylai'r GYD fod wedi ceisio mynd i'r afael â materion ymgysylltu â democratiaeth penodol neu ganolbwyntio ar grŵp penodol, yn hytrach na chymryd ymagwedd eang. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â phobl ifanc neu gydredeg gweithgareddau â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol. Y rheswm dros hyn oedd y byddai ffrydiau gwaith neu brosiectau lluosog ar grŵp neu faes ymgysylltu penodol yn arwain at ddealltwriaeth gryfach a mewnwelediadau gweithredadwy ynghylch ymgysylltu â democratiaeth y gellid eu cymhwyso ar lefel genedlaethol. (Mae hon yn ongl debyg i bwyntiau 5.83 i 5.86 lle trafododd y cyfranogwyr fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig).

*Meysydd y gellid eu cadw ar gyfer cyllid grant yn y dyfodol*

5.91 O ran myfyrdodau ar feysydd a weithiodd yn dda gyda'r GYD y gellid eu cadw ar gyfer rhaglenni cyllido yn y dyfodol, nododd rhanddeiliaid allanol ehangach y rhoddwyd cyfle ariannu i gefnogi sefydliadau i wneud gwaith rhwng etholiadau. Nododd rhai cyfranogwyr hefyd fod yr ymrwymiad blynyddol dros dair blynedd yn beth cadarnhaol. Yn gysylltiedig, roedd yna achosion lle cododd derbynyddion y grant fod angen parhau i gael cyllid sy'n canolbwyntio ar gofrestru pleidleiswyr ond sydd hefyd yn cwmpasu elfennau ehangach o ymgysylltu â democratiaeth.

5.92 Roedd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach, awdurdodau lleol a derbynyddion y grant hefyd yn teimlo y dylai'r grant gadw'r gallu i ddarparu grantiau llai o faint i brosiectau llai o faint a'r rhai sydd wedi'u hanelu at gymunedau penodol, a rhoi'r cyfle i sefydliadau wneud y prosiectau hyn i weld beth sy'n gweithio. Er bod angen wedi dod i'r amlwg ym mhwyntiau 5.80 a 5.83 i ariannu prosiectau tymor hwy neu ar raddfa fwy, dywedodd y cyfranogwyr fod angen cynnig ar gyfer prosiectau llai ochr yn ochr â hyn o hyd. Un elfen gadarnhaol gysylltiedig arall a godwyd gan randdeiliaid allanol ehangach a derbynyddion y grant oedd hyblygrwydd y GYD, yn yr ystyr nad oedd Llywodraeth Cymru yn rhagnodi'r gweithgareddau i'w cynnal, gan ganiatáu i sefydliadau sy'n arbenigwyr gyda'u grŵp targed lywio gweithgareddau.

*‘...Rwy’n credu mai dyna werth y grant yn ôl pob tebyg[...]yn enwedig y cyllid llai, ond wrth gwrs byddai wedi bod yn wych efallai gwneud rhywbeth ar raddfa fwy dros y tymor hwy, ond pan nad hwnnw mo prif fath o weithgaredd eich sefydliad[...]mewn gwirionedd, roedd yn teimlo’n weddol rhydd o risg ymgeisio am y pot bach hwn o gyllid[...]gan ein harwain at ddatblygu rhywbeth nad oeddem efallai wedi meddwl amdano o’r blaen.’*

5.93 Yn olaf, nododd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach ei bod yn gadarnhaol, er bod ffocws prosiectau’r GYD ar etholiadau datganoledig, y gallai prosiectau drafod darlun y DU. Nododd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant fod angen parhau i gefnogi sefydliadau sydd yng Nghymru.

*Cymharu heriau ymgysylltu â democratiaeth a chyllid yng ngwledydd eraill y DU â Chymru*

5.94 Dylid nodi bod y sampl ymchwil fechan o randdeiliaid allanol ehangach yn cyfyngu ar y gymhariaeth â gwledydd eraill y DU ac felly efallai na fydd y safbwyntiau hyn yn cynrychioli’r darlun yng ngwledydd eraill y DU. Roedd y sampl yn cynnwys dau sefydliad yng Nghymru, un sefydliad yn yr Alban, un sefydliad yn Lloegr, a dim sefydliad yng Ngogledd Iwerddon.

5.95 Nododd cyfranogwyr y cyfweliadau rhanddeiliaid allanol ehangach fod y materion yng Nghymru ynglŷn â niferoedd isel yn cofrestru a phleidleisio yn debyg ar draws rhannau eraill o’r DU. Yn gysylltiedig â hyn, nododd cyfranogwyr yn yr Alban fod ffocws penodol ar niferoedd isel yn cofrestru, a hygyrchedd pleidleisio i bobl anabl. Fodd bynnag, nododd rhai cyfranogwyr fod rhai problemau’n cael eu dwysáu yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys y gwahanol reolau neu gymhwysedd ar gyfer etholiadau gwahanol a threialu cofrestru pleidleiswyr awtomatig yr ystyriwyd eu bod yn creu heriau ychwanegol i bleidleiswyr yng Nghymru. Ar ben hynny, er bod cyfranogwyr (sefydliadau yng Nghymru) yn cydnabod bod yn yr Alban lai o bobl yn pleidleisio yn etholiadau seneddol yr Alban nag yn yr etholiadau cyffredinol, dywedodd y cyfranogwyr fod hyn yn gyffredinol uwch o gymharu â Chymru.

5.96 Dywedodd y cyfranogwyr hefyd fod y mater ynglŷn â diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwybodaeth yn debyg ledled Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon o’u cymharu â Lloegr, gan fod datganoli yn golygu’n gyffredinol fod lefel ychwanegol o ddemocratiaeth i ddysgu amdani. Fodd bynnag, roedd yna hefyd achosion lle

nododd cyfranogwyr (sefydliadau yng Nghymru) wahaniaethau yng Nghymru o'i chymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd hyn yn cynnwys y sylw yn y cyfryngau, a nodwyd fel problem "benodol" neu "unigryw" i Gymru. Ar ben hynny, crybwyllodd y cyfranogwyr hyn eu bod yn credu, tra bo gan yr Alban addysg ddemocrataidd gref mewn ysgolion, a Gogledd Iwerddon gymdeithas sifil gref, fod angen llai o waith i wella sylfaen ymgysylltu â democratiaeth o gymharu â Chymru.

5.97 Wrth gymharu'r cyllid sydd ar gael yng Nghymru â gwledydd eraill y DU, lle'r oedd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach mewn sefydliad yng Nghymru, roedd rhai yn teimlo bod llawer mwy o sefydliadau elusennol neu ymddiriedolaethau yn darparu cyllid yn Lloegr nag yng Nghymru. Er nad oedd yn ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth yn llwyr, roedd yna achosion hefyd lle nododd y cyfranogwyr mai ychydig iawn o gyllid yng Nghymru sydd ar gyfer treialu cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, o gymharu ag yn Lloegr. Roedd eraill yn teimlo bod y diffyg cyllid sydd ar gael ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth yn broblem ledled y DU.

5.98 Pan oedd cyfranogwyr mewn sefydliad yn Lloegr, nodwyd bod gwahaniaethau ar draws ardaloedd o Loegr ynglŷn â chyllid ymgysylltu â democratiaeth, fel cyllid Awdurdod Llundain Fwyaf. Hefyd, bod diffyg cyllid llywodraeth ganolog y DU.

5.99 Mae canfyddiadau gan randdeiliaid allanol ehangach mewn sefydliadau yng Nghymru a'r Alban yn dangos diffyg cyllid yn yr Alban. Nododd cyfranogwyr o sefydliad yn yr Alban fod y rhan fwyaf o'r gwaith ymgysylltu yn cael ei wneud trwy Gomisiwn Etholiadol yr Alban, yn hytrach na rhywbeth y mae'r llywodraeth yn ymwneud yn uniongyrchol ag ef. Trafododd rhai o sefydliad yng Nghymru fod gwaith yn yr Alban yn tueddu i ganolbwyntio ar rywbeth neilltuol neu etholiad.

5.100 Trafododd cyfranogwyr (sefydliadau yng Nghymru) fod cyllid wedi bod yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth trwy lens cymdeithas sifil. Roedd hyn yn cynnwys ffrwd ariannu benodol Gogledd Iwerddon gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree, a chyllid i greu cynulliad dinasyddion.

5.101 Wrth drafod sut mae sefydliadau yn parhau i ymgysylltu â democratiaeth mewn rhannau eraill o'r DU heb grant cyfwerth â'r GYD, prin yw'r ymatebion, ac felly dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canfyddiadau.

5.102 Fel y nodwyd ym mhwynt 5.98, amlygodd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach mewn sefydliad yn Lloegr ddiffyg cyllid gan lywodraeth y DU. Wrth gymharu gweithgarwch yng Nghymru â Lloegr, roedd rhanddeiliaid allanol ehangach o sefydliad yng Nghymru yn gweld y gall gweithgarwch ymgysylltu â democratiaeth barhau heb grant cyfatebol gan fod mwy o sefydliadau'n debygol o fod yn gweithio yn y maes hwn a mwy o gyllid a chyllidwyr. Adlewyrchwyd hyn gan y rhai mewn sefydliad o Loegr: nad oes llawer o gyllid yng Nghymru ar wahân i'r GYD, ac oherwydd maint cymharol y boblogaeth mae yma gronfa lai o sefydliadau sydd â chyrhaeddiad ac arbenigedd. Yn yr Alban, adroddwyd bod Comisiwn Etholiadol yr Alban yn cael cyllid gan Senedd yr Alban ac yn gwneud gweithgareddau allgymorth fel hyrwyddo cofrestru ac addysg pleidleiswyr.

5.103 O ran cyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant y mae eu sefydliadau yn gweithredu yng Nghymru a thu hwnt, mae eu lefel o ymgysylltu â democratiaeth mewn rhannau eraill o'r DU yn amrywio. Lle'r oedd sefydliad democratiaeth yn benodol, dywedodd y cyfranogwyr fod gan eu sefydliad gyllid craidd, fel y gall barhau i weithio ym maes democratiaeth. Er hyn, byddai angen ceisio cyllid grant ar gyfer gwaith mwy arloesol.

5.104 Lle nad yw sefydliadau yn sefydliadau democratiaeth yn benodol, adroddodd rhai cyfranogwyr fod canghennau eu sefydliad mewn rhannau eraill o'r DU yn dal i ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth trwy eiriolaeth. Mae hyn yn cynnwys cael y grŵp targed yn rhan o grwpiau cynghori ar gyfer biliau. Mae hyn yn ymwneud â phwynt 5.65, lle nododd rhanddeiliaid allanol fod sefydliadau'r trydydd sector yn aml yn parhau i wneud gwaith ymgysylltu â democratiaeth heb gyllid lle mae hyn yn ymwneud â gwerthoedd y sefydliadau. Yn olaf, adroddodd cyfranogwyr eraill nad yw canghennau eu sefydliad mewn rhannau eraill o'r DU wedi gallu gwneud gwaith ymgysylltu â democratiaeth ac y byddai angen iddynt geisio cyllid i wneud hynny.

**Effeithiau canfyddedig a chanlyniadau anfwriadol i'r sector ehangach**

5.105 Un effaith ehangach ar y sector a ddaeth i'r amlwg mewn cyfweliadau gan dderbynyddion y grant, rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol oedd y GYD yn ehangu capasiti'r sector yng Nghymru. Roedd amryw o elfennau o fewn hyn.

5.106 Un elfen oedd bod y GYD wedi helpu i ddod â sefydliadau i'r sector yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys y rhai nad ydynt efallai fel arfer yn gweithio ar ymgysylltu â democratiaeth, fel y rhai sy'n gweithio gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ond nad ydynt yn canolbwyntio'n benodol ar ddemocratiaeth. Roedd hyn hefyd yn cynnwys lle dywedodd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant nad oedd eu sefydliad wedi gwneud prosiect ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru yn benodol o'r blaen ond ei fod wedi gwneud gwaith ymgysylltu â democratiaeth mewn gwlad arall yn y DU. Fodd bynnag, nododd derbynyddion eraill y grant fod eu sefydliad wedi ennill ei blwyf i raddau helaeth yn ei gyfranogiad blaenorol mewn ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru.

5.107 Elfen arall oedd bod y GYD wedi cefnogi a dod â gwaith i'r sector yng Nghymru. Gan gyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach a derbynyddion y grant (yn arbennig, derbynyddion a gafodd ddyfarniad aml-flwyddyn) daeth i'r amlwg bod y GYD wedi hwyluso gwaith parhaus o fewn y sector, rhwng cylchoedd etholiadol, trwy ddarparu rhywfaint o gefnogaeth sylfaenol neu '*rwyd ddiogelwch*' mewn maes lle nad oedd llawer o gefnogaeth o'r blaen. Nododd rhai o dderbynyddion y grant, gan gynnwys rhai o sefydliadau y tu allan i Gymru, er y gallai eu sefydliadau fod wedi ymgymryd â darnau o waith cysylltiedig yng Nghymru o'r blaen, fod y cyllid grant wedi'u galluogi i ymgymryd â phrosiect pellach/newydd, neu brosiectau ar raddfa fwy. Mewn rhai achosion, sefydlwyd presenoldeb hirdymor mwy cynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys lle nododd sefydliadau eu bod yn ymgymryd â phrosiect arall yng Nghymru oherwydd eu bod yn gweithio yng Nghymru fel rhan o'r GYD.

*'...mae'r ffaith bod cyllid ar gael wedi golygu[...]bod yna ychydig o bobl sydd â'r math hwnnw o gylch gwaith ledled y DU, neu[... ]Loegr, sydd wedi dod i weithio yng Nghymru...' […] '...rydyn ni wedi cael ein hariannu gan [enw ariannwr] i wneud rhywfaint o waith[...]a gallem weithio unrhyw le yn y DU i wneud hynny ac rydyn ni'n blaenoriaethu[...]colegau AB yng Nghymru[...]fel un enghraifft o'r ffordd y mae hynny wedi codi awydd ynom i wneud mwy o waith yng Nghymru...'*

5.108 Elfen arall a grybwyllwyd oedd bod y sector yng Nghymru bellach yn faes lle gall gwaith mwy arloesol yn y maes ymgysylltu â democratiaeth ddigwydd. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn teimlo y gallai'r newidiadau mewn dulliau ymgysylltu ac arloesi yn y sector fod yn newid sector cyffredinol, ac nad ydynt i'w priodoli'n llwyr i'r GYD.

5.109 Crybwyllodd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant a rhanddeiliaid allanol ehangach mai un effaith ehangach ar y sector oedd bod y GYD wedi hwyluso cydweithio, rhannu gwybodaeth a meithrin perthynas ar draws y sector yng Nghymru. Roedd yna achosion lle'r oedd cyfranogwyr yn cymharu hyn â Lloegr ac yn teimlo, er bod rhwydwaith yn Lloegr, fod y rhwydwaith yng Nghymru yn llai '*dryslyd*'.

5.110 O ran hwyluso partneriaethau a rhannu gwybodaeth, ar gyfer rhanddeiliaid allanol ehangach yn benodol, nododd cyfranogwyr fod adnoddau newydd/unigryw a gynhyrchwyd gan brosiectau a ariannwyd gan y GYD ar gael i'r sector. Nododd rhai rhanddeiliaid allanol ehangach hefyd ganlyniad i'w sefydliad sef bod y GYD wedi hybu eu proffil ac wedi darparu sail neu dir cyffredin ar gyfer ymgysylltu â sefydliadau sydd wedi'u hariannu gan y GYD. Roedd achosion lle dywedodd sefydliadau rhanddeiliaid allanol ehangach eu bod yn gweithio gyda derbynyddion fel rhan o brosiectau a ariannwyd gan y GYD. Lle nad oeddent yn ymwneud cymaint, roedd hyn ar ffurf rhyngweithio â derbynyddion trwy gyfarfodydd rhwydwaith (boed y PYD neu rwydwaith arall), gan gadw i fyny â'r hyn y mae'r prosiectau'n ei wneud. Lle roeddent yn ymwneud mwy, roedd hyn yn cynnwys darparu llythyr o gefnogaeth i ymgeiswyr, neu ddarparu hyfforddiant, adnoddau a chyngor i'r derbynyddion.

*'…rydym yn darparu llawer o adnoddau[...]Rwy'n credu ei fod bron wedi dod â chynulleidfa i ni[...]gan wybod eu bod nhw* [elusennau a sefydliadau] *yn cael math o gyllid i'w wneud[...]teimlwn yn fwy hyderus i weithio gyda nhw[...]a gallwn hefyd gynnig iddyn nhw[...]y rôl gynghori honno[...]Felly rwy'n credu efallai ei fod[...]wedi cynyddu ein cyrhaeddiad i wahanol sefydliadau a gwella'r effaith y gallwn* [ei chael]*...'*

5.111 Fodd bynnag, mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer prosiectau derbynyddion mwy o faint, roedd gan y rhanddeiliaid allanol ehangach berthynas eisoes â'r derbynyddion. Nododd rhanddeiliaid allanol ehangach y byddent yn gweithio gyda'r derbynnydd heb ystyried y GYD am ei fod yn y sector, ond cydnabuwyd bod y cyllid yn galluogi derbynyddion i wneud mwy o waith, y gallai'r rhanddeiliaid allanol ei gefnogi.

5.112 Roedd yna hefyd randdeiliaid allanol ehangach a nododd ei bod yn gadarnhaol i'w sefydliad fod ffynhonnell ariannu arall, gan fod pob sefydliad yn y sector yn gweithio tuag at yr un nodau. Felly, waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu, mae gweithgaredd derbynyddion y grant yn cefnogi eu sefydliad neu'r sector i gyrraedd y nodau.

5.113 Un effaith arall ar y sector ehangach a grybwyllwyd gan dderbynyddion y grant a gymerodd ran oedd bod y GYD yn hwyluso gwell dealltwriaeth gan y sector o'r grwpiau targed, megis y rhwystrau sydd o'u blaenau a dulliau llwyddiannus o gael grwpiau targed i gymryd rhan. Fodd bynnag, roedd yna achosion lle soniodd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant fod yr effaith ar y sector ehangach wedi'i chyfyngu gan rai ffactorau, ac un ohonynt oedd diffyg rhannu canlyniadau ar draws derbynyddion. Trafodwyd y diffyg hwn o ran rhannu a rhannu canlyniadau ehangach hefyd ym mhwynt 4.97, a godwyd gan randdeiliaid allanol ehangach.

*'… nid wyf wedi gweld unrhyw ganlyniadau eraill gan unrhyw sefydliadau trydydd sector eraill[...]sy'n drueni braidd...'.*

5.114 Dywedodd rhai o dderbynyddion y grant (prosiectau tymor byr) nad oedd eu prosiect penodol yn cael effaith ehangach. Mewn rhai achosion, roeddent yn teimlo y byddai'r effaith ar y sector ehangach yn gyfyngedig oni bai bod dull mwy strwythuredig ledled Cymru yn cael ei fabwysiadu (trafodir ym mhwynt 5.86).

5.115 Yn olaf, adroddodd derbynyddion y grant a rhanddeiliaid allanol ehangach fod y GYD wedi cael effaith ehangach ar y sector o ran y grant, neu'r gweithgaredd sy'n benodol i'r prosiect, gan ddylanwadu ar waith yn y sector yn y dyfodol yng Nghymru a'r tu hwnt. Yn nodedig, mae hon yn effaith anfwriadol.

5.116 O ran y grant yn ehangach, nododd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach fod gan Lywodraeth yr Alban fil diwygio etholiadol sy'n mynd trwy Senedd yr Alban ar adeg yr ymchwil hon (Bil Etholiadau'r Alban (Cynrychiolaeth a Diwygio), Senedd yr Alban). Mae hyn yn cynnwys cynnig i gyflwyno cynllun cyllid grant i wella ymgysylltu â democratiaeth. Gyda'r sefydliad yn yr Alban, trafodwyd rhesymau pam y penderfynodd Llywodraeth yr Alban fynd i'r afael â heriau ymgysylltu â democratiaeth trwy grant. Nodwyd bod Llywodraeth yr Alban yn cynnwys cwmpas ar gyfer grant fel y GYD er mwyn mynd i'r afael â materion cofrestru a hygyrchedd ac yng ngoleuni cynllun Llywodraeth Cymru. Dywedodd cyfranogwyr eu bod *"...yn bendant wedi'u dylanwadu*

*gan yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud..."*, gan gynnwys ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynglŷn â dyluniad y GYD. Ar ben hynny, nododd y cyfranogwyr, er bod Llywodraeth yr Alban yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau mwy o faint sy'n cynrychioli pobl anabl o amgylch hygyrchedd etholiadau, fod llai o ymgysylltu â sefydliadau llai o faint neu leol. Gall cynllun grant hefyd gefnogi gwaith gyda'r sefydliadau hyn a chefnogi cyrhaeddiad i gymunedau penodol.

5.117 O ran gweithgaredd prosiectau penodol y GYD, nododd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant achosion lle'r oedd sefydliadau eraill yn gobeithio gwneud prosiect tebyg i'w prosiect a ariannwyd gan y GYD. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn sefydliadau eraill ar lefel fwy lleol yng Nghymru. Mewn achosion eraill lle'r oedd y sefydliad derbyn yn gweithredu ledled y DU, roedd hyn mewn gwledydd eraill y tu allan i Gymru.

*'…rydyn ni wedi cael sgyrsiau gyda Llywodraeth yr Alban sydd eisiau gwneud peth tebyg ac efallai bydd Comisiwn Etholiadol y DU eisiau gwneud rhywbeth. Felly mae wedi ein helpu, i ryw raddau, i wneud i'r achos dros hyn ddigwydd yn barhaol...' […] '...ychwanegu mwy o wybodaeth ar-lein yw'r duedd a[...]chredaf ein bod wedi agor y llwybr hwnnw, yn ôl pob tebyg, yn yr agwedd hon ar bethau y gallai eraill ei ailadrodd efallai neu y gallem ni ei ailadrodd yn y dyfodol...'*

*'...rydyn ni wedi cael rhai[...]ymwelwyr â'r cynulliadau sydd wedi rhyfeddu atom ac a oedd am fynd â hynny'n ôl i'w tref eu hunain[...]Rwy'n credu ei fod yn ysbrydoliaeth...'*

5.118 Ar gyfer derbynyddion eraill y grant y mae eu sefydliadau'n gweithredu yng Nghymru a'r tu hwnt, roedd achosion lle dywedodd sefydliadau eu bod wedi datblygu dull mwy pwrpasol wrth wneud gwaith ar draws gwledydd y DU o ganlyniad i'w profiad o ddarparu'r grant yng Nghymru. Mae hyn oherwydd ei fod wedi datblygu eu dealltwriaeth bod gan gynulleidfaoedd ledled y DU anghenion gwahanol. Mewn rhai achosion, lle'r oedd cyfranogwyr mewn cangen yng Nghymru o sefydliad sydd ar waith ledled y DU, nodwyd eu bod yn trafod sut i gynnal prosiect tebyg gyda changen o'r sefydliad o wlad arall yn y DU.

## 6. Canfyddiadau – nod 3: Gwella monitro a gwerthuso.

6.1 Mae’r adran hon yn ceisio ateb y cwestiynau ymchwil canlynol: Sut mae’r GYD yn cael ei fonitro ar hyn o bryd? Lle nad yw monitro a gwerthuso wedi digwydd, beth oedd y rhesymau am hyn? Sut y gellir monitro a gwerthuso’r GYD yn well ac o bosibl ei symleiddio ar draws prosiectau yn y dyfodol?

6.2 Roedd telerau llythyrau dyfarnu’r GYD yn nodi bod yn rhaid i holl dderbynyddion y grant fodloni’r gofynion monitro a gwerthuso canlynol:

- Cyflwyno adroddiadau cynnydd prosiect chwarterol (o fewn y ffurflenni hawlio grant)
- Mynychu cyfarfodydd monitro fel sy’n ofynnol gan Reolwr Grant Llywodraeth Cymru
- Mynychu cyfarfodydd Partneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth (PYD) Cymru[2]
- Cyflwyno adroddiad gwerthuso diwedd grant

6.3 O ran adroddiadau gwerthuso diwedd grant, roedd y disgwyliad yn wahanol ar gyfer grantiau bach (prosiectau gwerth £1,000 neu lai) a grantiau mawr (prosiectau gwerth mwy na £1,000). Ar gyfer prosiectau bach, nododd y canllawiau ymgeisio fod Llywodraeth Cymru yn gofyn am ‘adborth sy’n cwmpasu’r cynllun peilot gan gynnwys sut mae llwyddiant wedi’i fesur’. Ar gyfer prosiectau mawr, nododd y canllawiau ymgeisio fod Llywodraeth Cymru yn gofyn am ‘werthusiad o weithgareddau, llwyddiannau a rhwystrau a wynebwyd ar ddiwedd eu cyfnod grant’.

6.4 Yn ogystal â’r gofynion hyn ar gyfer prosiectau bach a mawr, nododd Llywodraeth Cymru dargedau yn llythyr dyfarnu’r grant yr oedd disgwyl i bob derbynnydd eu cyflawni erbyn diwedd eu prosiect. Roedd y targedau hyn yn unigol i bob derbynnydd grant. Roedd llythyr dyfarnu’r grant hefyd yn cynnwys manylion y dystiolaeth yr oedd Llywodraeth Cymru yn gofyn i dderbynyddion y grant ei darparu i ddangos bod targedau wedi’u cyrraedd. Mae’r targedau a’r dystiolaeth sy’n ofynnol yn seiliedig yn fras ar y cwestiwn o’r ffurflen gais: ‘Beth yw eich canlyniadau

[2] Roedd llythyr dyfarnu’r grant yn nodi y dylai rheolwr prosiect – neu berson arall y cytunwyd arno o sefydliad derbynnydd y grant – fynychu pob cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru.

disgwyliedig a sut fyddech chi'n mesur llwyddiant yn erbyn y rhain? (100 o eiriau ar y mwyaf)'. Mae'r cwestiwn hwn yr un peth ar gyfer ceisiadau grant bach a mawr.

6.5 Er bod pwynt 6.3 yn awgrymu bod y disgwyliadau adrodd yn gyson ar draws grantiau bach a mawr, trafodir cynnwys llythyr dyfarnu'r grant ymhellach ym mhwynt 6.21 i 6.23, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod gofynion adrodd yn anghyson ar gyfer y ddau faint grant. Mae'r dadansoddiad hwn yn datgelu bod Llywodraeth Cymru wedi nodi gofynion gwerthuso gwahanol ar gyfer mathau cyfatebol o grantiau. O ganlyniad, nid oedd yn ofynnol i bob grant bach ddarparu llai o wybodaeth na grantiau mawr. Roedd achosion lle'r oedd gofyn i rai grantiau bach ddarparu gwybodaeth fanylach mewn cysylltiad â gwerthuso na rhai grantiau mawr.

6.6 Ar adeg ysgrifennu, nid oedd un o'r 12 prosiect a gaeodd ym mlwyddyn ariannol 2023/24 (mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024) wedi cyflwyno ei adroddiad diwedd grant, gan olygu bod 11 adroddiad gwerthuso ar gael ar gyfer ymchwil desg. Roedd y rhesymau'n cynnwys cyflwyno prosiect anghyflawn.

**Dulliau ar gyfer monitro cynnydd**

6.7 Mae ymchwil desg a dadansoddiad o'r cyfweliadau yn awgrymu bod dull derbynyddion y grant o fonitro cynnydd wedi amrywio o ran ansawdd a chadernid ar draws grantiau bach a mawr.

6.8 Gofynnwyd i gyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant fyfyrio ar y prosesau ar waith ar gyfer cofnodi cynnydd prosiect. Roedd achosion lle adroddodd y cyfranogwyr fod ganddynt system rheoli prosiect bwrpasol, taenlen, neu system fonitro fewnol arall i gofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau, buddiolwyr terfynol, a hyfforddiant.

*'…mae gennym rywbeth tebyg i daenlen brosiect[...]sy'n rhestru'r holl […]gysylltiadau[...]unrhyw ddiweddariadau ar ba mor bell maen nhw wedi mynd a beth fyddan nhw'n ei wneud rhwng nawr a'r diweddariad nesaf, fel bod gennym draciwr byw yn y bôn drwy'r amser...'*

6.9 Yn wahanol i'r dulliau systematig hyn o fonitro, adroddodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi dibynnu ar ddulliau mwy anffurfiol o fonitro cynnydd. Roedd y mecanweithiau anffurfiol hyn ar gyfer monitro cynnydd yn cynnwys adroddiadau ôl-ddigwyddiad, dyddiadur neu galendr, a'r ffurflenni hawlio grant chwarterol:

*'...dim ond gwneud nodiadau o beth ddigwyddodd a phethau felly, fel fy mod i'n gallu rhoi adroddiad ar y diwedd. Rydych chi'n gwybod am beth ddigwyddodd a beth oedd yn dda a beth nad oedd yn dda ac ati. Felly oedd, roedd yn weddol anffurfiol mewn gwirionedd...'*

6.10 Roedd yna hefyd achosion lle nad oedd cyfranogwyr yn myfyrio ar fonitro cynnydd. Yn hytrach, buont yn trafod sut yr oeddent yn mesur canlyniadau ac effeithiau, neu'n casglu adborth gan fuddiolwyr terfynol, yn hytrach na'r prosesau a ddefnyddiwyd ganddynt i oruchwylio cynnydd y prosiect.

6.11 Roedd dulliau amrywiol derbynyddion y grant o fonitro cynnydd hefyd yn amlwg o ran y diweddariadau cynnydd chwarterol – a oedd eto yn amrywio ar draws grantiau bach a mawr. O'r 16 o dderbynyddion y grant y dadansoddwyd eu hadroddiadau cynnydd fel rhan o'r ymchwil desg, darparodd 10 derbynnydd fetrigau allweddol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â sefydliadau partner, buddiolwyr terfynol (fel niferoedd cyfranogwyr) ac allbynnau (megis manylion digwyddiadau a hyfforddiant gan gynnwys dyddiadau, lleoliad, cynnwys a gwmpaswyd, a rhywfaint o ddadansoddeg sylfaenol yn ymwneud ag adnoddau digidol). Fodd bynnag, mewn rhai o'r achosion hyn, roedd y diweddariadau cynnydd ychydig yn ailadroddus, ac nid oedd yn glir beth oedd wedi'i gyflwyno a oedd yn newydd neu'n ychwanegol ers y chwarter blaenorol. Darparodd y chwe derbynnydd grant arall ddiweddariadau cynnydd a oedd yn fyr ac yn brin o fanylion, i raddau helaeth. Roedd y diweddariadau hyn yn disgrifio'r hyn yr oedd derbynnydd y grant wedi'i wneud hyd yma ac, mewn rhai achosion, pa weithgareddau a oedd ar y gweill yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni chynhwyswyd unrhyw fetrigau allweddol na gwybodaeth fanwl yn ymwneud â buddiolwyr terfynol, allbynnau neu adnoddau. Mewn rhai diweddariadau chwarterol (ond nid eraill) nododd y derbynyddion eu bod wedi rhannu eu diweddariad ar lafar gyda'r tîm polisi.

6.12 Mae dull amrywiol sefydliadau o fonitro cynnydd yn awgrymu nad oedd pob derbynnydd grant yn brofiadol gydag offer rheoli prosiect safonol. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dod i gasgliad cadarn yn seiliedig ar y data ymchwil sydd ar gael, yn enwedig yn achos y dadansoddiad o'r cyfweliadau lle'r oedd y cyfranogwyr yn dehongli'r cwestiwn am fonitro cynnydd yn wahanol (pwynt 6.10).

**Dulliau ar gyfer gwerthuso canlyniadau ac effaith**

6.13 Amrywiai dull derbynyddion y grant o werthuso effaith eu prosiect ar ymgysylltu â democratiaeth hefyd. Yn ystod cyfweliadau, gofynnwyd i'r derbynyddion fyfyrio ar brosesau gwerthuso effaith y prosiect o ran ymgysylltu â democratiaeth. Crybwyllodd rhai cyfranogwyr ddulliau ffurfiol a oedd yn cynnwys casglu adborth wedi'i amseru gan fuddiolwyr, fel casglu adborth ar ôl, neu cyn ac ar ôl, cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phrosiect. Defnyddiwyd yr adborth i asesu a oedd gwybodaeth a dealltwriaeth buddiolwyr wedi gwella, pa sgiliau a fagwyd, lefelau cymhelliant, lefelau hyder, ac a oedd adnoddau wedi eu helpu i gymryd rhan mewn democratiaeth.

*'…gofyn iddynt gwblhau llinell sylfaen, maent yn cwblhau gwerthusiad ar ôl cael eu hyfforddi, ac yna maent yn cwblhau gwerthusiad pan fyddant wedi [...]gorffen eu [...]cyfnod cychwynnol ar y rhaglen. Felly gallwn weld[...]a yw eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth wedi datblygu...'*

6.14 Dywedodd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant hefyd fod metrigau wedi'u casglu i werthuso effaith. Roedd metrigau perthnasol yn cynnwys nifer y buddiolwyr terfynol a gofrestrodd i bleidleisio ar ôl iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n gysylltiedig â phrosiect. Roedd dulliau ar gyfer crisialu cofrestriadau pleidleiswyr yn amrywio o ran cadernid. Roedd achosion lle'r oedd sefydliadau yn cefnogi buddiolwyr yn uniongyrchol i gofrestru ac yn cofnodi'r niferoedd hyn. Dulliau eraill a ddefnyddiwyd yw dirprwy a all nodi cofrestriad ond nad yw'n cadarnhau hyn. Roedd hyn yn cynnwys olrhain y niferoedd a ymwelodd â'r dudalen we gofrestru trwy ymgyrchoedd dadansoddeg gwe penodol i brosiect a chofnodi faint a ddywedodd y byddent yn mynd ati i gofrestru.

6.15 Roedd achosion lle'r oedd yn ymddangos nad oedd gan sefydliadau system ar waith i werthuso effeithiau o ran ymgysylltu â democratiaeth. Yn yr achosion hyn, trafododd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant y gwerthusiad o'r gweithgareddau a gynhaliwyd ganddynt, yn hytrach na gwerthusiad o effaith. Nododd y cyfranogwyr hyn eu bod wedi casglu adborth gan fuddiolwyr terfynol, neu'r rhai sy'n gweithio gyda buddiolwyr terfynol,

ar ôl digwyddiadau am y digwyddiad ei hun. Roedd hyn yn cynnwys y cynnwys, beth oedd gan bobl ddiddordeb ynddo, beth oedd yn gweithio a beth nad oedd yn gweithio, a sut roedd pobl yn teimlo amdano. Mewn rhai achosion, cafodd yr adborth hwn ei grisialu trwy ddulliau ffurfiol, gan gynnwys arolygon, ffurflenni a chyfweliadau. Defnyddiodd rhai o dderbynyddion y grant ddulliau anffurfiol i gasglu'r adborth hwn, gan gynnwys trafodaethau ar ôl gweithgaredd gyda buddiolwyr terfynol.

6.16 Mewn rhai achosion, boed yn defnyddio dulliau ffurfiol neu anffurfiol, nododd y cyfranogwyr eu bod wedyn yn defnyddio'r adborth hwn i lunio cynnwys neu elfennau gweithredol sesiynau yn y dyfodol.

*'...ar ôl pob sesiwn yr wyf yn ei chyflwyno, mae'r bobl ifanc yn llenwi ffurflen adborth, a hefyd y gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi ar y diwrnod[...]* [a] *phan wnaethon ni'r ymgyrchu, fe wnaethon ni'r cyfweliadau wedyn[...]Rwy'n gwerthuso hefyd ar ôl y sesiwn, beth sy'n gweithio'n dda neu beidio, sut y gellir newid pethau[...]Felly dim ond addasu...'*

*'... Fe wnaethon ni feddwl am wneud ffurflenni adborth, ond pan oedd niferoedd eithaf bach yn dod, roedden ni'n meddwl, "byddwn ni'n sgwrsio â nhw", wyddoch chi[...]Bob tro byddem yn cael rhyw sgwrs am "Beth ydych chi'n ei feddwl? A allem wneud rhywbeth gwahanol? Oedd hyn yn dda? Beth oeddech chi'n ei hoffi?...'*

6.17 Caiff y dadansoddiad o'r cyfweliadau ei gadarnhau gan yr ymchwil desg. Fel y nodwyd ym mhwynt 6.4, gofynnwyd i ymgeiswyr nodi canlyniadau a mesurau. Aeth y derbynyddion i'r afael â'r gofyniad hwn yn wahanol.

6.18 Nododd rhai derbynwyr eu canlyniadau arfaethedig yn eu cais, ond heb gynnwys sut y byddent yn mesur y rhain. Roedd y canlyniadau hyn naill ai'n llwyr yn ffrâm yr hyn y byddent yn ei gyflawni fel rhan o'r prosiect (megis cynnal nifer penodol o sesiynau) neu roedd y canlyniadau'n gymysgedd o'r hyn y byddent yn ei gyflawni fel rhan o'r prosiect a beth fyddai'r canlyniad i'r buddiolwyr/grwpiau targed o'r prosiect (er enghraifft, o ganlyniad i'r prosiect, mae nifer penodol o bobl yn cofrestru, neu mae gan nifer penodol o bobl well dealltwriaeth).

6.19 Roedd derbynyddion eraill yn cynnwys eu canlyniadau arfaethedig a sut y byddent yn mesur y rhain yn eu ceisiadau. Roedd y canlyniadau'n amrywio o ran fframio mewn gwahanol gyfuniadau ar draws derbynyddion, a oedd yn cynnwys y

canlyniadau ar gyfer buddiolwyr o'r prosiect, gwersi a ddysgwyd i'w sefydliad, neu am yr hyn a fyddai'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r prosiect. Roedd mesurau naill ai'n ymwneud yn unig â chanlyniadau am fuddiolwyr neu wersi a ddysgwyd i'r sefydliadau, neu'n cwmpasu'r rhain a hefyd yn cynnwys mesurau cysylltiedig â chyflawni. Weithiau roedd y mesurau a gynhwyswyd yn amwys, megis mesurau i ddefnyddio 'dangosyddion' neu 'werthusiadau', ond ni ddiffiniwyd beth oedd y rhain.

6.20 Roedd achosion lle nad oedd y canlyniadau arfaethedig yn ymwneud â'r mesurau a nodwyd, er enghraifft lle roedd canlyniadau'n cael eu fframio fel yr hyn a fyddai'n cael ei gyflawni fel rhan o'r prosiect, ond roedd y mesurau a nodwyd yn ymwneud â buddiolwyr.

6.21 Roedd y ffordd y cymhwyswyd cynnwys y ffurflen gais gan Lywodraeth Cymru i'r gofynion targed a thystiolaeth yn y llythyrau dyfarnu hefyd yn amrywio.

6.22 Mewn rhai achosion, roedd 'canlyniadau' a 'mesurau' o'r ffurflen gais yn adran 'targedau' y llythyr dyfarnu. Roedd adran 'tystiolaeth ofynnol' y llythyr dyfarnu yn ddatganiad cyffredinol am gynnwys yr adroddiad (megis canlyniadau arfaethedig, allbwn a chanfyddiadau gwirioneddol; neu adroddiad am rwystrau a llwyddiannau). Mewn achosion eraill, roedd 'canlyniadau' yn ffurfio'r adran 'targedau', a 'mesurau' yn ffurfio'r adran 'tystiolaeth ofynnol'.

6.23 Pan nad oedd 'mesurau' cais yn gysylltiedig â'r 'canlyniadau' arfaethedig, neu lle nad oedd prosiectau bach yn darparu 'mesurau' wrth wneud cais, mewn rhai achosion roedd Llywodraeth Cymru yn nodi 'mesurau' ac yn rhoi'r rhain yn yr adran 'tystiolaeth ofynnol' y llythyr dyfarnu. Roedd y mesurau hyn yn canolbwyntio ar gyflawni - megis cofnodion presenoldeb, cynnwys agendâu a thrafodaeth, adnoddau a grëwyd, ac adborth buddiolwyr am y gweithgareddau a gyflawnwyd. Fodd bynnag, ar gyfer prosiectau mawr lle nad oedd 'mesurau' yn cael eu darparu yn y cais, nid oedd y rhain wedi'u nodi, ac roedd yr adran 'tystiolaeth ofynnol' yn ddatganiad cyffredinol.

6.24 Ar y cyfan, mae'r amrywiad wrth ymgeisio yn dangos nad oes diffiniad clir o 'ganlyniad': weithiau mae canlyniadau'n ymwneud â'r hyn y mae prosiectau'n ei gyflawni ac weithiau ba newid y mae hyn yn arwain ato i'r rhai sy'n cymryd rhan, neu beth fydd y derbynnydd yn ei ddysgu. Mae amrywiad adeg ymgeisio hefyd yn arwydd o wahanol lefelau o ddealltwriaeth derbynyddion wrth osod mesurau priodol ar gyfer canlyniadau. Mae'n bosibl bod y ffactorau hyn wedi cyfrannu at yr amrywiad o ran mabwysiadu'r

canlyniadau a'r mesurau hyn wedyn gan Lywodraeth Cymru fel targedau a gofynion tystiolaeth yn llythyrau dyfarnu'r grant. Yn benllanw'r heriau hyn, nid oedd y gofynion targed a thystiolaeth a nodwyd yn y llythyr dyfarnu bob amser yn cynnwys y canlyniadau ymgysylltu â democratiaeth a ragwelwyd i fuddiolwyr terfynol.

6.25 Codwyd materion cysylltiedig mewn cyfweliadau â rhanddeiliaid allanol ehangach. Fel y nodwyd ym mhwynt 4.97, trafododd y cyfranogwyr broblemau o ran rhannu canlyniadau prosiectau. Nododd cyfranogwyr fod angen cefnogi sefydliadau i fesur a gwerthuso effaith am eu bod wedi adrodd bod y ffocws yn aml ar yr hyn a gyflawnwyd ac nid ar effaith hyn ar ymgysylltu â democratiaeth. Nododd cyfranogwyr y gall gwerthuso effaith fod yn her, yn enwedig ar gyfer cysyniadau fel gwybodaeth a dealltwriaeth, ac efallai nad oes gan sefydliadau'r trydydd sector brofiad o werthuso. Gall yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gwerthuso prosiectau ymgysylltu â democratiaeth greu anawsterau i dderbynyddion cyllid ddangos eu bod wedi bodloni gofynion, ac anawsterau i gyllidwyr ddangos effaith y cynllun.

*'…Mae'r trydydd sector yng Nghymru, yn enwedig yn y maes hwn[...]llawer o sgyrsiau am ba mor effeithiol oedd eich prosiect a byddent yn dweud, "wel, cawsom hyn a hyn o ymatebion Twitter y diwrnod hwnnw" a dyma fi'n dweud, "a yw hynny'n wir yn ceisio asesu pa mor effeithiol yw eich prosiect?" O feddwl sawl un o'r ymatebwyr hynny a aeth ati wedyn i gofrestru. A meddwl a allwn ni fesur y pethau hyn ychydig yn fwy?'*

*'…gallu dychmygu pobl yn gwneud llawer o siarad am yr hyn maen nhw'n ei wneud, ond nid yw hynny o reidrwydd yr un peth â siarad am yr effaith. Mae hynny bron fel dweud, fe wnaethon ni'r sesiwn hon, fe wnaethon ni'r sesiwn hon ...' [...] '...mae pawb yn canolbwyntio ar y cyflawni, ac rwy'n credu ein bod yn aml yn colli hynny [...]sut ydyn ni'n profi'r effaith hon felly. Ie, rwy'n credu bod hynny'n beth heriol, ond, byddai'n braf gweld ychydig mwy ohono dw i'n meddwl.'*

6.26 Nodwyd anawsterau hefyd gyda gwerthuso effaith tymor hwy. Yn ôl effaith y model rhesymeg 'I1: Mae pobl (yn enwedig yn y grwpiau targed) yn cael eu cynnwys, eu cymell, a'u grymuso i gymryd rhan mewn democratiaeth, gyda'r offer i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac effeithio'n gadarnhaol ar y Gymru o'u cwmpas', un rhagdybiaeth yw bod canlyniadau ar gyfer buddiolwyr terfynol yn cael eu cynnal ar ôl i'r buddiolwr roi'r gorau i gymryd rhan (pwynt 3.41). Myfyriodd cyfranogwyr cyfweliadau'r derbynyddion ar gasglu gwybodaeth am effeithiau ymgysylltu â democratiaeth y tu hwnt i

ddiwedd uniongyrchol y prosiect. Roedd cyfranogwyr yn cydnabod pwysigrwydd gwerthuso effeithiau tymor hir. E.e., dywedodd y cyfranogwyr y byddent ‘wrth eu bodd yn cael gwybod’ a oedd y buddiolwyr targed yn cymhwyso’r wybodaeth a gafwyd trwy’r prosiect ymhen ychydig flynyddoedd. Fodd bynnag, ymddengys mai’r farn gyffredinol ymhlith y cyfranogwyr oedd bod casglu gwybodaeth sy’n ymwneud ag effaith hirdymor eu prosiectau priodol yn heriol oherwydd cyfyngiadau adnoddau ac amser. Codwyd y pwynt hwn gan gyfranogwyr o brosiectau tymor byr, un flwyddyn ac aml-flwyddyn.

**Asesu adroddiadau diwedd grant**

6.27 Fel rhan o’r GYD nid oedd templed neu strwythur adroddiad gwerthuso penodol i dderbynyddion ei gwblhau neu ei ddilyn.

6.28 Wrth asesu a oedd derbynyddion wedi bodloni eu gofynion targed a thystiolaeth, mae’n bwysig cofio bod y gofynion yn anghyson ar gyfer mathau cyfatebol o grantiau (gweler pwyntiau 6.21 i 6.24). Un canlyniad oedd bod gofyn i rai grantiau bach ddarparu gwybodaeth fanylach o ran gwerthuso na rhai grantiau mawr. Yn anochel, lle mae gan dderbynnydd grant ofynion targed a thystiolaeth llai penodol, dylai fod yn haws i’r derbynnydd ddarparu’r wybodaeth ofynnol i ddangos sut maent wedi bodloni’r gofynion.

*Grantiau/prosiectau bach*

6.29 Roedd yr adroddiadau ar gyfer y chwe phrosiect bach (gwerth tua £1,000) yn amrywio o ran hyd o un dudalen i wyth tudalen. Roedd tri o’r adroddiadau yn cynnwys penawdau, a’r rheiny fel arfer yn amlinellu cefndir eu prosiect, yr hyn a wnaethant, a gwersi a ddysgwyd. O’r tri adroddiad arall, dim ond tuag at y diwedd yr oedd gan un ohonynt benawdau ac roedd dau heb benawdau. Roedd yr adroddiadau hyn yn dilyn yn fras gyflwyno’r prosiect ac yna’r hyn a wnaethpwyd, yn ogystal â heriau neu wersi a ddysgwyd. Fodd bynnag, roedd yr hyn a wnaed yn aml yn amwys, ac mewn un achos roedd yr heriau a wynebwyd hefyd yn anodd eu dehongli. Roedd achos hefyd lle roedd prosiect y GYD yn rhan o brosiect parhaus presennol, ac nid oedd yn glir pa elfennau a ariannwyd gan y GYD a pha rai oedd yn ymwneud â’r prosiect ehangach.

6.30 Y dulliau a'r metrigau a ddisgwyliwyd gan y chwe phrosiect bach (yn seiliedig ar eu llythyr dyfarnu grant) oedd:

- Trafodaethau neu gyfweliadau gyda buddiolwyr. Roedd hyn i gasglu adborth naill ai ynglŷn â'u bylchau mewn dealltwriaeth o ddemocratiaeth a'r rhwystrau sydd o'u blaenau, sut hwyl gawsant ar gymryd rhan (yn y prosiect/digwyddiad), neu ganlyniadau/newidiadau (megis newidiadau mewn gwybodaeth)
- Gwybodaeth rheoli, gan gynnwys dyddiadau'r sesiynau, cynnwys y sesiynau, niferoedd y mynychwyr, adnoddau a ddosbarthwyd, penderfyniadau a wnaed a chamau gweithredu pellach, a pha sefydliadau oedd yn cymryd rhan

6.31 Mewn tri o'r chwe adroddiad grant bach (yr un rhai a oedd yn cynnwys penawdau), roedd yn amlwg bod y dulliau a'r metrigau gofynnol wedi cael eu defnyddio a'u hadrodd (adborth gan fuddiolwyr a gwybodaeth reoli). Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y tri adroddiad prosiect bach hyn wedi bodloni'r targedau a'r gofynion tystiolaeth yn eu llythyr dyfarnu neu eu bodloni'n bennaf: nid oes unrhyw elfennau ar goll neu un elfen sydd ar goll ganddynt. Mae dau o'r rhain yn bennaf yn sgil y rhwystrau sy'n wynebu'r grŵp targed wrth gymryd rhan mewn democratiaeth a bylchau mewn dealltwriaeth, a rhwystrau wrth gyflawni'r prosiect. Mae un yn bennaf oherwydd adborth gan gyfranogwyr am eu profiad o gymryd rhan (yn y digwyddiad) a galluogwyr a rhwystrau rhag cyflawni. Lle mae canlyniadau ar gyfer buddiolwyr wedi'u crybwyll (dau o'r adroddiadau) mae'r rhain yn seiliedig ar naratif neu'n anecdotaidd – megis datgan gwelliannau mewn gwybodaeth neu ymgysylltu heb gefnogi hyn. Neu, mae tystiolaeth wedi'i chasglu ond rhaid tybio canlyniadau, megis ar gyfer y rhai oedd ag ychydig iawn o wybodaeth flaenorol, mae dysgu am bwnc trwy weithgareddau prosiect wedi gwella dealltwriaeth y cyfranogwyr.

6.32 Yn y tri adroddiad arall, ni adroddwyd ar rai o'r dulliau disgwyliedig, gan nodi felly na ddefnyddiwyd y dulliau hyn. Mewn un achos, mae'n debyg na chafwyd unrhyw ymgais i ymgorffori unrhyw un o'r dulliau neu fetrigau disgwyliedig yn yr adroddiad (adborth gan fuddiolwyr am gymryd rhan yn y prosiect a gwybodaeth reoli). Yn y ddau achos arall, darparwyd y dulliau neu'r metrigau yn anghyson - dim ond rhywfaint o wybodaeth reoli a ddarparwyd, ac nid oedd unrhyw adborth gan fuddiolwyr. Ni ellir dweud bod y tri adroddiad hyn wedi bodloni'r targedau a'r

gofynion tystiolaeth yn eu llythyr dyfarnu gan fod nifer o elfennau o wybodaeth ar goll. Mae dau o'r adroddiadau yn bennaf yn adroddiad o rwystrau a wynebwyd wrth gyflwyno'r prosiect a'r gwersi a ddysgwyd neu newidiadau i'w gwneud i'r cyflawni yn y dyfodol. Roedd un o'r adroddiadau hyn yn sôn yn fras am ganlyniadau i fuddiolwyr, ond roedd hyn yn anecdotaidd.

6.33 Roedd pedwar o'r chwe adroddiad yn seiliedig ar naratif i raddau helaeth, gan wneud datganiadau eang neu ysgubol heb eglurder tystiolaeth. Roedd hyn yn cynnwys un a oedd yn bodloni'r gofynion targed a thystiolaeth – a hynny'n debygol am fod y gofynion hyn yn fwy cyffredinol – a'r tri nad oeddent yn eu bodloni.

*Grantiau/prosiectau mawr*

6.34 Roedd yr adroddiadau ar gyfer y pum prosiect mawr yn amrywio o ddwy dudalen i 44 tudalen. Roedd tri o'r adroddiadau yn cynnwys penawdau ac roedd ganddynt strwythur clir, yn amlinellu cefndir eu prosiect a'r hyn yr oeddent yn ceisio ei gyflawni, disgrifiad manwl o'r hyn a wnaethant yn benodol, ac yn myfyrio ar wersi a ddysgwyd a'r camau nesaf arfaethedig.

6.35 O'r ddau adroddiad arall, roedd gan un benawdau hefyd ac roedd yn darparu disgrifiad manwl o'r hyn a wnaethant yn benodol. Fodd bynnag, yn achos yr adroddiad hwn, gan fod prosiect y GYD yn rhan o brosiect parhaus presennol, weithiau nid oedd yn glir a oedd gweithgaredd a ddisgrifiwyd wedi'i gyflawni gyda chyllid y GYD. Ar ben hynny, er bod yr adroddiad yn cau gyda myfyrdodau ar berfformiad yn erbyn nodau, gwersi a ddysgwyd ac argymhellion o gamau nesaf, roedd hyn ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd ac nid oedd yn gysylltiedig yn benodol â gweithgaredd y GYD. Roedd yr adroddiad arall yn fyr. Er bod myfyrdod ar heriau wedi'i gynnwys, nid oedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y cefndir a'r nodau, roedd y disgrifiad o'r hyn a wnaethant yn benodol yn amwys, a phrin oedd y myfyrio ar y camau nesaf.

6.36 Y dulliau a'r metrigau a ddisgwyliwyd gan y pum prosiect mawr (yn seiliedig ar eu llythyr dyfarnu grant) oedd:

- Arolygon, trafodaethau, cyfweliadau neu greu cyfryngau (fideos, podlediadau) gyda buddiolwyr. Roedd hyn er mwyn casglu adborth naill ai ynglŷn â'u bylchau mewn dealltwriaeth o ddemocratiaeth a'r rhwystrau o'u blaenau, sut hwyl gawsant ar gymryd rhan (yn y prosiect/digwyddiad), neu ganlyniadau/newidiadau (megis newidiadau mewn gwybodaeth)
- Gwybodaeth reoli, gan gynnwys niferoedd mynychwyr, dangosyddion cyflawni prosiect (heb eu diffinio), creu a darparu adnoddau/gwybodaeth (naill ai cyfrifon dosbarthiad, neu dystiolaeth o greu'r adnoddau)
- Metrigau eraill: Golygon unigryw ar adnoddau, data cofrestru pleidleiswyr

6.37 Roedd p'un a ddarparwyd y dulliau neu'r metrigau hyn mewn adroddiadau yn gymysg. Roedd dau adroddiad lle'r oedd yn amlwg bod y dulliau a'r metrigau a ddisgwyliwyd wedi cael eu defnyddio a'u hadrodd, ond i wahanol raddau. Mewn un achos, dim ond un elfen o wybodaeth reoli a ddisgwyliwyd, a bodlonwyd y gofyniad hwn. Yn yr achos arall, disgwyliwyd yr holl adborth gan fuddiolwyr, gwybodaeth reoli a metrigau eraill. Darparwyd yr wybodaeth reoli. Darparwyd yr adborth gan fuddiolwyr am rwystrau a chymryd rhan ond roedd fel petai'n defnyddio un o'r dulliau arfaethedig yn unig (adborth mewn sesiynau ond nid arolygon). Ni ddarparwyd metrigau eraill ond cydnabuwyd hyn, esboniwyd rhwystrau rhag casglu, a darparwyd dirprwy.

6.38 Mae'n ymddangos bod y ddau adroddiad grant mawr wedi bodloni'r targedau a'r gofynion tystiolaeth yn eu llythyr dyfarnu neu eu bodloni'n bennaf: nid oes unrhyw elfennau ar goll neu ddim ond mân elfennau. Mae un o'r rhain yn bennaf yn sgil y rhwystrau a wynebodd y grŵp targed wrth gymryd rhan mewn democratiaeth a bylchau mewn dealltwriaeth. Roedd hefyd yn sôn yn fras am y canlyniadau i fuddiolwyr ynghylch ymgysylltu â democratiaeth (megis yr hyn a newidiodd iddynt o ganlyniad i gymryd rhan neu gael gwybodaeth), ac roedd yn defnyddio dyfyniadau darluniadol gan gyfranogwyr. Fodd bynnag, cyflwynwyd yr adborth hwn yn achlysurol ac nid oedd yn cynrychioli'r holl fuddiolwyr a gymerodd ran yn systematig.

6.39 Roedd dau adroddiad gyda bylchau mawr mewn dulliau a metrigau. Mewn un achos nid oedd unrhyw arwydd o'u dulliau a'u metrigau. Yn lle hynny, darparwyd metrigau amgen, llai cadarn (barn cyfryngau cymdeithasol yn lle data cofrestru pleidleiswyr). Yn yr achos arall, darparwyd rhywfaint o ddata cofrestru pleidleiswyr, er nad oedd y dulliau i fesur hyn yn gadarn ac nid oeddent yn galluogi'r metrigau i gael eu darparu yn y fformat a nodwyd yn y llythyr dyfarnu. Roedd diffyg gwybodaeth yn ymwneud â gwybodaeth reoli (dosbarthu gwybodaeth) a dim gwybodaeth am adborth gan fuddiolwyr (ynghylch canlyniadau a newidiadau mewn gwybodaeth ddemocrataidd o gymryd rhan).

6.40 Yn olaf, mewn un adroddiad mae'n ymddangos bod y dulliau a'r metrigau a ddisgwyliwyd yn cael eu defnyddio a'u hadrodd yn eang ond nid yw hyn yn glir mewn mannau. O ran gwybodaeth reoli, gan nad oedd dangosyddion cyflawni prosiect wedi'u diffinio yn y llythyr dyfarnu, nid yw'n bosibl crybwyll a ddarparwyd y rhain. Darparwyd yr adborth gan fuddiolwyr (creu cyfryngau, trafodaethau ac arolygon), yn ymwneud â sut hwyl gawsant ar gymryd rhan, rhwystrau o'u blaenau wrth ymgysylltu â democratiaeth a chanlyniadau/newidiadau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth. Ond eto, roedd hyn yn achlysurol ar gyfer gwahanol sesiynau/digwyddiadau yn hytrach na'i goladu'n systematig i ddod i gasgliadau cyffredinol ar gyfer y prosiect.

6.41 Ni ellir dweud bod y tri adroddiad hyn wedi bodloni'r targedau a'r gofynion tystiolaeth yn eu llythyr dyfarnu gan fod nifer o elfennau o wybodaeth ar goll.

6.42 Er bod y pum adroddiad mawr yn gyffredinol (ond nid bob amser) yn fwy cynhwysfawr ac yn gliriach i'w dilyn na'r grantiau bach, maent yn dueddol o adrodd fesul gweithgaredd, yn hytrach na thynnu'r profiadau hyn ynghyd i fyfyrio ar ganlyniadau cyfunol y grant.

6.43 Roedd achosion lle soniodd y cyfranogwyr mewn cyfweliadau eu bod wedi cael adborth yn ymwneud â chanlyniadau ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth ar gyfer buddiolwyr a gymerodd ran. Dengys ymchwil desg nad oedd hwn wedi'i gynnwys yn eu hadroddiadau. Ni fyddai disgwyl cynnwys yr adborth hwn o reidrwydd gan nad oedd wedi'i nodi yn eu llythyr dyfarnu. Fodd bynnag, byddai'r wybodaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol i'w chynnwys i helpu i asesu canlyniadau ac effeithiau'r grant. Mewn rhai achosion, hyd yn oed pe bai wedi bod yn ofyniad yn y llythyr dyfarnu, ni

fyddai'r wybodaeth hon wedi cael ei chynnwys yn yr adroddiad oherwydd y diffyg aliniad rhwng cyfnod y grant ac amseriad eu prosiect.

*'...ar ein gwefannau, rydym eisoes yn casglu adborth gan bobl lle gwnaethom ofyn iddynt[...]"a wnaethoch ddod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano?" Ac yna gofyn cwestiwn penagored iddynt, fel, "allwch chi ddweud unrhyw beth mwy wrthym am hynny?" Ac roeddem yn gallu cymryd toriad o'r adborth hwnnw[...]* [i] *ddadansoddi a oedd yr [...]wybodaeth wedi helpu pobl rywsut i bleidleisio neu gydag unrhyw adborth ar hynny[...]dim ond ar ôl yr etholiad y bu modd torri'r adborth, ac roedd hynny ar ôl y cyfnod grant. Felly nid oedd yn olrhain wrth i ni fynd ati...'*

*'…y bobl ifanc i gael adborth ganddynt ar lafar neu yn ysgrifenedig[...]amcangyfrif, cyfrif bras o faint o bobl yr oeddent wedi siarad â nhw, a oedd wedi cymryd camau ...' […] '…hefyd adborth gan y bobl ifanc am sut hwyl gawson nhw ar y prosiect a'r hyn a gawson nhw ohono...' [...] '...fel, a oeddent yn teimlo eu bod wedi gwella eu gwybodaeth wleidyddol, a oeddent yn teimlo eu bod wedi magu sgiliau, ac a oeddent yn teimlo wedi'u cymell i fod yn ddinasyddion mwy gweithgar yn y dyfodol...'*

6.44 Yn gyffredinol, felly, roedd rhai problemau cyffredin gydag adroddiadau diwedd prosiect a effeithiodd yn negyddol ar eu defnyddioldeb fel offeryn monitro a gwerthuso. Ymhlith y problemau hyn oedd dibyniaeth ar dystiolaeth anecdotaidd, oddrychol a dirprwyol; gwybodaeth a metrigau anghyson ac annigonol sy'n ymwneud ag allbynnau a chanlyniadau; a ffocws ar rwystrau a galluogwyr prosiectau a llwyddiannau a methiannau yn lle data a dadansoddiad sy'n gwerthuso canlyniadau i'r rhai a gymerodd ran.

6.45 Efallai y bydd diffyg profiad rhai o dderbynyddion y grant gydag adroddiadau gwerthuso wedi cyfrannu at yr anghysondebau a'r bylchau a welwyd yn yr adroddiadau.

6.46 Efallai mai un ffactor arall a gyfrannodd oedd y gwahanol lefelau o arweiniad a gafodd derbynyddion y grant gan Lywodraeth Cymru. Soniodd rhai cyfranogwyr am gael arweiniad gan y tîm polisi ar sut i strwythuro eu hadroddiad:

*'...[maent] wedi rhoi syniad da[...] o beth i'w ddweud[...] [Maen nhw] wedi rhoi canllawiau eithaf da.'*

6.47 Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwyr eraill o blith derbynyddion y grant nad oeddent wedi cael fframwaith i'w lenwi nac unrhyw ganllawiau. Lle na chofiwyd canllawiau neu fframwaith, roedd rhai cyfranogwyr yn hapus i beidio â chael strwythur. Hefyd, gwnaeth rhai cyfranogwyr sylwadau cadarnhaol am ofynion yr adroddiad, gan nodi eu bod yn ddigon hyblyg fel y gellid cwblhau'r adroddiad waeth pa fath o weithgareddau yr oedd derbynnydd y grant wedi'u cynnal. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo y gellid bod wedi darparu mwy o arweiniad neu strwythur. Roedd achosion lle dywedodd cyfranogwyr eu bod yn teimlo "wedi'u llethu" gan mai hwn fyddai'r ymgais gyntaf i ysgrifennu adroddiad gwerthuso. Adleisiwyd y farn hon gan gyfranogwyr mwy profiadol, a oedd yn cwestiynu a fyddai derbynyddion grant heb brofiad o ysgrifennu adroddiadau diwedd grant yn deall beth oedd ei angen oherwydd diffyg strwythur neu arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

*'...ddim yn meddwl bod math o fframwaith y bu'n rhaid i ni ei lenwi. Rwy'n credu ein bod wedi mynd ati i lunio dogfen a oedd yn siarad amdano. Rwy'n credu y gallai fod wedi elwa ar ychydig bach mwy o strwythur, yn ôl pob tebyg...'*

6.48 Ar ben hynny, roedd achosion lle dywedodd y cyfranogwyr nad oeddent wedi cael adborth ar ôl cyflwyno'r adroddiad ac, o ganlyniad, roeddent braidd yn ansicr a oeddent wedi ei gwblhau'n gywir ai peidio.

6.49 Hefyd, nid oedd cyfranogwyr o brosiectau aml-flwyddyn wedi cyrraedd diwedd eu prosiectau ac, fel y cyfryw, nid oeddent wedi cwblhau'r adroddiad eto. Nododd y cyfranogwyr hyn nad oeddent yn siŵr o'r fformat disgwyliedig neu nad oeddent wedi cael templed. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr yn hyderus wrth adrodd mewn perthynas â'u cynllun cyflawni, ond yn teimlo y byddai mwy o arweiniad ynghylch y fformat a'r templed ar gyfer adroddiad diwedd y prosiect yn ddefnyddiol i'w cael ar ddechrau'r prosiect, er mwyn sicrhau eu bod yn cwmpasu unrhyw elfennau penodol y mae Llywodraeth Cymru am eu crisialu.

*'...Weithiau mae hwnnw* [y templed adroddiad] *yn ddefnyddiol i'w gael ar[...]gychwyn y prosiect, dim ond fel y gall fod yn fath o ddogfen fyw, ac[...]os oes cwestiynau penodol neu[...] setiau data penodol neu dystiolaeth y mae'r ariannwr yn ceisio eu crisialu[...]gall fod [...]yn ddefnyddiol eu cael o'r cychwyn cyntaf...'*

**Profiadau derbynyddion o brosesau gwerthuso**

6.50 Er gwaethaf yr heriau a drafodwyd gydag adroddiadau gwerthuso, roedd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant yn cydnabod pwysigrwydd cwblhau adroddiad diwedd grant, a hynny'n bennaf oherwydd eu bod yn derbyn bod angen hysbysu cyllidwyr am y gweithgareddau a'r canlyniadau cyfatebol a wireddwyd trwy brosiect a ariannwyd.

*'...mae'n bwysig iawn[...]gallu rhoi[...]gwybod i'r darparwr grant beth rydyn ni wedi'i wneud gyda'r arian...'*

6.51 Dywedodd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant hefyd eu bod yn croesawu'r gofyniad i gyflwyno adroddiad diwedd grant am ei fod yn gyfle i fyfyrio ar fethiannau, llwyddiannau a gwersi prosiect ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth.

*'...Yn amlwg mae'n bwysig i unrhyw ariannwr wybod effaith y gwaith, ond mae'n bwysig i ni fel sefydliad, i ni gael y ddealltwriaeth honno ac yn amlwg mae'n rhywbeth rydyn ni[...]yn ei wneud yn barhaus. Ond i weld beth sy'n gweithio, beth sydd angen ei newid. Er mwyn i ni gael y dysgu a'r myfyrio parhaus hynny. Felly ydw, rwy'n credu ei fod yn [...]bwysig iawn, iawn.'*

6.52 Adlewyrchwyd pwyslais cyfranogwyr ar wersi a ddysgwyd yng nghynnwys a ffocws yr adroddiadau diwedd prosiect. Roedd gwersi cyffredin a ddysgwyd a nodwyd gan dderbynyddion y grant yn eu hadroddiadau diwedd prosiect yn cynnwys gwell dealltwriaeth o anghenion a buddiannau'r buddiolwyr targed, yn ogystal â gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r galluogwyr i gyflawni digwyddiadau a gweithgareddau. Nododd rhai adroddiadau diwedd prosiect hefyd fod derbynnydd y grant wrthi yn cymhwyso'r gwersi hyn a ddysgwyd i weithgareddau yn y dyfodol, gan gynnwys cynllunio digwyddiadau a datblygu adnoddau digidol.

6.53 Yn ogystal â sôn yn gadarnhaol am y cyfle i fyfyrio ar lwyddiannau a methiannau prosiect, dywedodd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant hefyd fod darparu adroddiad gwerthuso ar ddiwedd y cyfnod cyllido yn 'gymesur' neu'n 'synhwyrol'. Pan ofynnwyd iddynt sut roedd gofynion monitro a gwerthuso'r GYD yn cymharu â ffynonellau eraill o gyllid grant y mae eu sefydliadau wedi'u cael, mynegodd cyfranogwyr hefyd y farn bod y gofynion monitro a gwerthuso ar gyfer y GYD yn cymharu'n ffafriol â chynlluniau cyllido eraill, a oedd o'u cymharu yn rhy strwythuredig, gan fynnu metrigau neu gwestiynau cyffredinol nad oeddent yn gysylltiedig â'r prosiect penodol.

6.54 Nododd cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant eu bod wedi dod ar draws rhwystrau penodol o ran casglu data ac adborth at ddibenion monitro a gwerthuso. Crybwyllodd rhai sefydliadau y gallai fod yn anodd cael adborth gan fuddiolwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda buddiolwyr. Roedd y rhwystrau a ddyfynnwyd yn cynnwys: capasiti rhanddeiliaid a buddiolwyr, amharodrwydd i roi adborth negyddol, a difaterwch hirsefydlog ynghylch adborth a gwerthuso oherwydd rhwystrau sy'n wynebu'r grŵp targed. Mewn rhai achosion, nododd y cyfranogwyr fod y rhwystrau o'u blaenau wedi creu baich gweinyddol gan fod angen iddynt fynd ar drywydd adborth.

*'…*[mae buddiolwyr] *dros y lle i gyd o ran lleoliad daearyddol, o ran ble maen nhw wedi'i gyrraedd ar linell amser y prosiect[...]mae'n mynnu llawer o olrhain, mae'n debyg. A dim ond cael gafael arnyn nhw, maen nhw'n gallu mynd am oesoedd heb ddod yn ôl atoch chi, ac yna'n sydyn maen nhw'n dod i'r amlwg eto ac yn dweud "roeddwn i'n sefyll arholiadau", neu "roeddwn i'n gwneud hyn a hyn"...'*

6.55 Her arall a godwyd wrth gasglu gwybodaeth ar gyfer y gwerthusiad oedd amser. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o amser i gasglu adborth, yn enwedig ar gyfer prosiectau tymor byr. Roedd cyfranogwyr eraill yn casglu adborth ynglŷn ag adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Dim ond ar ôl yr etholiad hwn yr oedd adborth ar gael, ac felly ar ôl y cyfnod grant.

6.56 Esboniodd rhai cyfranogwyr o blith derbynyddion y grant eu bod wedi mabwysiadu dulliau a gynlluniwyd i oresgyn y rhwystrau hyn. Er enghraifft, roedd dulliau o oresgyn amharodrwydd i roi adborth negyddol yn cynnwys diwygio cwestiynau adborth fel bod y cwestiynau'n canolbwyntio ar elfennau penodol o'r gweithgaredd, yn hytrach na chwestiynau cyffredinol:

*'…mae'n anodd iawn iddyn nhw* [rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda'r buddiolwyr targed] *ddweud, "O, doeddwn i ddim yn hoff iawn o siarad â'r bobl ifanc hyn", felly maen nhw'n aml yn mynd i fynd yn eithaf positif. Felly fe wnaethon ni geisio cael gwybodaeth [...]* [drwy ofyn] *"a ydy'r dull hwn o siarad â phobl ifanc - a oedd hyn yn llwyddiannus? Oeddech chi'n teimlo bod y bobl ifanc, o gymharu ag amseroedd eraill rydych chi wedi siarad â phobl ifanc, oeddech chi'n teimlo eu bod nhw efallai'n fwy parod?" ...'*

6.57 Roedd y dulliau a fabwysiadwyd mewn ymateb i faterion capasiti yn cynnwys gofyn i gyfryngwyr, a oedd mewn cysylltiad mwy rheolaidd â'r grwpiau targed, annog y buddiolwyr i ddychwelyd adborth i'r sefydliadau sy'n derbyn grant. Fodd bynnag, roedd yn rhaid ystyried baich ar y cyfryngwyr hefyd. Roedd dulliau a fabwysiadwyd i oresgyn amwysedd rhai buddiolwyr yn cynnwys defnyddio dulliau creadigol. Er enghraifft, annog buddiolwyr i gofnodi adborth trwy fideo. Fodd bynnag, er bod y dull hwn yn llwyddiannus mewn rhai achosion, roedd rhai buddiolwyr yn 'anghyfforddus' yn rhoi adborth fideo.

6.58 Mynegodd rhai o gyfranogwyr y grant y farn nad oeddent yn wynebu unrhyw rwystrau na heriau ynghylch monitro a gwerthuso. Mewn rhai achosion, fe wnaethant nodi galluogwyr i gasglu gwybodaeth at ddibenion gwerthuso. Roedd y galluogwyr hyn yn cynnwys gosod cymhelliant, casglu adborth yn syth ar ôl i'r sesiwn ddod i ben yn hytrach nag anfon ffurflen adborth yn ddiweddarach, cadw lefel yr adborth yn briodol i'r grŵp targed, a defnyddio dulliau hyblyg neu ddulliau sy'n canolbwyntio ar y person wedi'u teilwra i'r gweithgaredd a'r grŵp targed.

*'...mae'n syml, cadwch yr adborth yn syml iawn ac yn gyfeillgar i bobl ifanc.'*

6.59 Mewn rhai achosion lle mabwysiadwyd dulliau hyblyg, nododd y cyfranogwyr ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol ac roeddent yn teimlo, oherwydd nad oedd y grant yn canolbwyntio ar niferoedd yn pleidleisio a chofrestru yn unig, fod hyn yn cefnogi'r sefydliad sy'n derbyn y grant i gasglu gwybodaeth sy'n rhoi darlun mwy cynhwysfawr o effeithiau'r prosiect:

*'...o edrych ar ymgysylltu â democratiaeth yn ei gyfanrwydd, ni fu'n ymwneud yn unig â niferoedd y rhai sydd wedi cofrestru, ac ati, y rhai sydd wedi pleidleisio neu bethau felly. Rydych chi'n gwybod, rydyn ni wedi gallu edrych ar y darlun ehangach a meddwl i raddau am[...]bobl yn deall eu hawliau. Ydyn nhw'n teimlo bod ganddyn nhw fwy o lais a hyder? Ydyn nhw'n teimlo bod ganddynt fwy o[...]fynediad i'r offer[...]i gymryd rhan mewn democratiaeth ac i lywio pethau yn eu cymuned?...'*

6.60 Gofynnwyd i’r cyfranogwyr a fyddent yn gwneud unrhyw newidiadau i ofynion monitro a gwerthuso’r GYD. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr yn teimlo nad oedd unrhyw newidiadau i’w gwneud i broses monitro a gwerthuso’r grant. Lle trafododd cyfranogwyr newidiadau posibl, roedd awgrymiadau’n canolbwyntio ar thema cyfathrebu.

6.61 Y farn gyffredinol ymhlith y cyfranogwyr oedd bod angen mwy o adborth gan Lywodraeth Cymru ynghylch a oedd yr adroddiadau yn unol â’r disgwyliadau.

*‘...Felly fe wnaethon ni gyflwyno ein* [hadroddiad] *grant ychydig wythnosau yn ôl[...]ac nid wyf wedi clywed unrhyw beth yn ôl gan y tîm[...]dim ond gwneud yn siŵr bod yna ryw fath o... Broses gadarnhau, oherwydd mae’n teimlo[...]* [fel petai] *yn y fantol ar hyn o bryd...’*

6.62 Yn ogystal, fel y trafodwyd ym mhwynt 4.42, roedd achosion lle soniodd cyfranogwyr fod eu dyddiad cau adrodd wedi newid ar fyr rybudd.

6.63 Roedd yna hefyd achosion lle dywedodd y rhai sy’n gyfrifol am gyflawni prosiect aml-flwyddyn y byddent yn gweld cyfarfod blynyddol gyda thîm polisi Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol. Roedden nhw’n teimlo y byddai cyfarfod hirach yn eu galluogi i ddarparu diweddariad manylach nag sy’n bosibl gyda chyfarfodydd y PYD. Ar ben hynny, byddai cyfarfod diweddaru un ac un gyda Llywodraeth Cymru hefyd yn galluogi derbynyddion y grant i godi cwestiynau a materion sy’n benodol i brosiect nad ydynt efallai yn briodol i’w trafod yng nghyfarfodydd y PYD lle mae’r holl dderbynyddion grant yn bresennol.

*Monitro a gwerthuso yn y sector*

6.64 Trafododd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach (sefydliadau yng Nghymru) y metrigau a'r offer a ddefnyddiwyd i fesur ymgysylltu â democratiaeth. Cyfeiriodd cyfranogwyr at or-ddibyniaeth ar fetrigau fel cofrestru pleidleiswyr a niferoedd sy'n pleidleisio fel problem bosibl. Derbyniwyd manteision posibl metrigau o'r fath gan gyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol. Roedd hyn yn cynnwys bod metrigau felly yn hawdd eu mesur, eu bod yn haws eu deall na chysyniadau mwy aneglur eraill fel gwybodaeth, dealltwriaeth a hyder, a bod ychydig fetrigau meintiol amgen. Fodd bynnag, adroddodd y cyfranogwyr hefyd nad yw metrigau fel cofrestru pleidleiswyr a niferoedd sy'n pleidleisio yn gysyniadau diffwdan. Er enghraifft, mae yna lawer o ffactorau sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n pleidleisio felly gall fod yn anodd dod i gasgliadau o hyn. Amlygodd cyfranogwyr hefyd bryderon ynghylch y bylchau yn y data cofrestriadau cenedlaethol yng Nghymru, gan nodi, er bod data cofrestru ar gyfer pobl ifanc, nad oes data cyfatebol ar gyfer gwladolion tramor. Codwyd pryderon tebyg hefyd ynglŷn â bylchau mewn demograffeg a 'geirwiredd' data cofrestru cenedlaethol yn yr Alban. Yn olaf, nododd cyfranogwyr hefyd, os gwneir y newid i symud i gofrestru pleidleiswyr awtomatig, yna bydd cofrestriad fel metrig yn cael ei golli.

6.65 Er mwyn goresgyn anhawster gwerthuso cysyniad 'aneglur' fel ymgysylltu â democratiaeth, lle nad oes llawer o fetrigau addas, awgrymodd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol y dylid datblygu fframwaith canlyniadau sector-gyfan. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys metrigau canlyniadau ar gyfer gwahanol agweddau ar ymgysylltu â democratiaeth, a chanllawiau ar sut i fesur y rhain a dangos i ba raddau y maent wedi'u cyflawni. Byddai'r cysondeb hwn yn helpu sefydliadau sy'n cael cyllid i ddangos effaith. Mynegodd cyfranogwyr y farn y dylid cytuno ar y fframwaith hwn mewn cydweithrediad gan sefydliadau arweiniol yn y sector, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

6.66 Er bod hwn yn awgrym ar gyfer gwella monitro a gwerthuso ar draws y sector, gellid ystyried hyn hefyd fel rhywbeth i'w gymhwyso o fewn y GYD o ystyried yr heriau a drafodir yn yr adran hon.

# 7. Casgliadau

7.1 Lansiwyd y GYD ym mis Ionawr 2023, gyda chyfanswm cyllid o £900,000 hyd at fis Mawrth 2025. Mae’r grant ar gyfer sefydliadau nid-er-elw yn y trydydd sector, ac awdurdodau lleol i ariannu prosiectau arloesol i gynnwys grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, grwpiau sydd newydd gael eu hetholfreinio (gan gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor cymwys), a phobl anabl mewn democratiaeth. Wrth ariannu prosiectau o’r math hwn, nod y GYD yw:

- Galluogi sefydliadau i annog a chefnogi pobl yn eu cymunedau rhanddeiliaid i gymryd rhan mewn democratiaeth.
- Helpu sefydliadau a ariennir i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael eu cynnwys, eu cymell a’u grymuso i gymryd rhan mewn democratiaeth, gan roi’r offer iddynt sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac effeithio’n gadarnhaol ar y Gymru o’u cwmpas.
- Cefnogi sefydliadau i ymgysylltu â’r boblogaeth dros gyfnod parhaus.

7.2 Nodau’r gwerthusiad hwn yw:

- Adolygu dyluniad a chyflawniad y cynllun cyllid grant cyfredol, gan gynnwys elfen y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth.
- Deall effaith ganfyddedig y cynllun cyllid grant. Gan gynnwys elfen y Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth a’r cyd-destun ehangach.
- Deall sut y gellir gwella prosesau monitro a gwerthuso.

7.3 Ochr yn ochr â’r nodau hyn, roedd cylch gorchwyl y gwerthusiad hefyd yn cynnwys cynhyrchu model rhesymeg ar gyfer y GYD (Ffigur 1). Yn gyffredinol, cyrhaeddwyd y nodau hyn trwy ymchwil desg, gweithdy model rhesymeg, a chyfres o gyfweliadau â derbynyddion y grant, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach. Manylir ar y canfyddiadau ar gyfer pob nod ymchwil a’r cwestiynau ymchwil perthnasol yn eu hadran eu hunain o’r adroddiad hwn (Adrannau 4, 5 a 6). Mae’r casgliadau canlynol yn crynhoi’r canfyddiadau mwyaf perthnasol o bob rhan o’r nodau hyn.

**Adolygu dyluniad a chyflawniad y cynllun cyllid grant cyfredol**

*Cyrhaeddiad y grant a chyflawni prosiectau*

7.4 Ym mlynyddoedd ariannol 2022/23 (mis Ionawr i fis Mawrth 2023) a 2023/24 (mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024), cafodd cyfanswm o 16 o sefydliadau gyllid grant.

7.5 Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau ynglŷn â sector y prif ymgeisydd, sut y daeth sefydliadau yn ymwybodol o'r grant, a'r gymysgedd o brofiad blaenorol o brosiectau democratiaeth yng Nghymru yn awgrymu bod bwriad y GYD (fel y'i nodir yn y model rhesymeg) i gyrraedd sefydliadau newydd wedi'i gyflawni i raddau. Fodd bynnag, mae'r meysydd i'w hystyried yn y dyfodol yn cynnwys ehangu hyrwyddo'r grant ymhellach i barhau i gyrraedd ystod o sefydliadau, yn ogystal â mwy o eglurder o argaeledd dyfarniadau aml-flwyddyn i'r rhai sydd heb berthynas uniongyrchol neu bresennol â'r tîm polisi Etholiadau. Hefyd, gan fod y grant wedi'i anelu at awdurdodau lleol (pwynt 7.1), mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gellid gwella cyrhaeddiad a chyfranogiad ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

7.6 Roedd canllawiau'r grant hefyd yn nodi cyllid y bwriedir iddo gyrraedd ledled Cymru ac o fewn ceisiadau roedd cymysgedd ar draws yr 16 prosiect a ariannwyd o gyrhaeddiad lleol, rhanbarthol a chenedlaethol arfaethedig. Roedd 'rhanbarthol' yn amrywio o un neu nifer o ardaloedd awdurdod lleol. Yn nodedig, ni chynrychiolwyd Gogledd Cymru ar lefel ranbarthol mewn ceisiadau. Ar ben hynny, wrth ystyried tri phrosiect wedi'u cwblhau a oedd yn anelu at gyrhaeddiad cenedlaethol, roedd achos lle nad oedd Gogledd Cymru yn rhan o allbynnau'r prosiect. O ystyried eglurder yr adrodd, roedd naill ai'n glir pa ranbarthau a gyrhaeddwyd, neu ni ddarparwyd tystiolaeth o gyrhaeddiad ledled Cymru. Ar y cyfan, awgryma'r canfyddiadau fod gweithgarwch â ffocws ar y lefel ranbarthol yng Ngogledd Cymru efallai'n fwlch ac yn y dyfodol y dylid ystyried cyrhaeddiad y grant i'r rhanbarth hwn. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod angen darparu mwy o wybodaeth gan dderbynyddion am y cyrhaeddiad daearyddol a phresenoldeb ar gyfer eu prosiectau. Efallai y bydd hefyd o fudd diffinio beth yw ystyr 'Rhanbarthol' o'i gymharu â 'Lleol' i sicrhau defnydd cyson ar draws ceisiadau ac felly asesu ceisiadau.

7.7 Ar y cyfan, ar gyfer y 12 prosiect a gwblhawyd ar adeg ysgrifennu (rhai tymor byr neu un flwyddyn), mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y prosiectau wedi cyflawni'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud gyda'r cyllid grant. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio. Mae rhai prosiectau yn gyffredinol wedi cyflawni'r hyn yr oeddent yn bwriadu ei wneud ond gyda rhai bylchau mewn elfennau wedi'u cyflawni. Nid oedd prosiectau eraill o reidrwydd yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd gyda mwy o elfennau ar goll, megis cynhyrchu neu ledaenu adnoddau, neu beidio â chyrraedd y cam cyflawni ar gyfer digwyddiadau cyfranogol. I'r gwrthwyneb, cyflawnodd prosiectau eraill allbynnau ychwanegol fel fideos, etholiadau ffug neu ddarparu'r cymorth sydd ei angen i wneud newid yng nghymuned y buddiolwyr.

7.8 Mae'r GYD yn bennaf ar gyfer prosiectau i ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, grwpiau newydd eu hetholfreinio (pobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor cymwys) a phobl anabl. Yn gyffredinol, mae canfyddiadau ymchwil desg yn dangos bod yr holl grwpiau arfaethedig wedi'u cwmpasu o fewn grwpiau targed yr 16 derbynnydd wrth ymgeisio. Wedi dweud hynny, gellid rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ddefnyddioldeb y term 'heb gynrychiolaeth ddigonol' a beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun ymgysylltu â democratiaeth, i helpu sefydliadau i nodi sut y gallai'r cyllid fod yn berthnasol i grwpiau y maent yn gweithio gyda nhw. Yn ogystal, i ystyried sut i gefnogi nifer cynyddol o brosiectau sy'n canolbwyntio ar y grwpiau targed heblaw pobl ifanc.

7.9 Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'r ymchwil desg a'r cyfweliadau yn awgrymu bod y grwpiau targed a nodwyd yn y ceisiadau wedi'u cyrraedd (prosiectau blwyddyn neu lai) neu eu bod yn cael eu cyrraedd hyd yma (prosiectau aml-flwyddyn), er i raddau amrywiol. Mae enghreifftiau o'r amrywiad hwn yn cynnwys lle mae prosiectau wedi cyrraedd llai yn y grŵp targed nag a gynlluniwyd yn wreiddiol, lle nad oeddent yn tueddu i gyrraedd y rhai a oedd yn ymgysylltu llai â democratiaeth, neu lle nad oeddent yn cyrraedd trawstoriad eang o'r grŵp targed. Roedd achos lle nad oedd yn ymddangos bod y grwpiau targed wedi'u cyrraedd, gan nad oedd yr adnoddau a grëwyd wedi'u dosbarthu. Dengys yr ymchwil desg hefyd fod amrywiant yn y dystiolaeth a oedd ar gael ac, mewn rhai achosion, fod angen tybio cyrhaeddiad sy'n effeithio ar y gallu i ddod i gasgliadau. Trafodir amrywiant mewn gwybodaeth ar draws derbynyddion wrth fonitro a gwerthuso yn yr is-adran 'Gwella monitro a gwerthuso'.

7.10 Mae canfyddiadau ymchwil o gyfweliadau ac ymchwil desg yn dangos bod cyfuniad o ffactorau yn cyfrif am gynllunio a chyflawni eu prosiectau yn llwyddiannus (7.7) a'r gallu i gyrraedd y grwpiau targed (7.9) gan dderbynyddion y grant. Mae hyn yn cynnwys lle'r oedd derbynyddion y grant yn gallu manteisio ar wybodaeth bresennol am y grŵp targed neu brofiad o weithio gyda'r grŵp targed, ynghyd â manteisio ar rwydweithiau a pherthnasoedd presennol â sefydliadau eraill neu'r grŵp targed. Er bod derbynyddion y grant yn gyffredinol wedi cyflawni eu hallbynnau arfaethedig ac wedi cyrraedd eu grwpiau targed arfaethedig efallai, nodwyd nifer o rwystrau rhag cyflawni hefyd trwy'r ymchwil desg a chyfweliadau. Un rhwystr oedd diffyg presenoldeb gan fuddiolwyr mewn gweithgareddau prosiect oherwydd amrywiol ffactorau gan gynnwys lefel eu diddordeb mewn democratiaeth, eu gallu a'r flaenoriaeth gymharol o fynychu, a diffyg hyder i gymryd rhan. Dywedodd derbynyddion y grant hefyd fod peidio â chael cysylltiadau presennol â sefydliadau allweddol wedi effeithio ar gyflawni. Ar ben hynny, nid oedd cynrychiolwyr sefydliadau yr oedd yn bwysig eu cynnwys yn rhan o'r prosiect bob amser yn meddu ar y gallu, y cymhelliant neu'r wybodaeth am y grŵp targed i gefnogi'r cyflawni.

7.11 Mae manylion llawn y rhwystrau a'r galluogwyr o fewn canfyddiadau adran 4. Ar y cyfan, gall fod yn fuddiol gofyn i ymgeiswyr fyfyrio ar rwystrau posibl a sut maent yn bwriadu lliniaru'r rhain, er mwyn cyfrif amdanynt wrth ddylunio prosiectau. Ar gyfer gwybodaeth sefydliadol, gall hefyd fod yn fuddiol i'r tîm polisi Etholiadau barhau i gadw cofnod o rwystrau a galluogwyr prosiect i helpu gydag adolygu ceisiadau ac i gefnogi unrhyw sefydliadau yn y dyfodol i gyflawni.

7.12 Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos bod meysydd penodol o gyflawni prosiectau lle byddai mwy o gymorth neu arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn fuddiol. Mae hyn yn cynnwys argaeledd adnoddau democratiaeth safonedig i'w defnyddio mewn prosiectau a ariannwyd gan y GYD, yn enwedig ar gyfer sefydliadau sy'n newydd i weithio mewn democratiaeth neu lle nad yw hyn yn swyddogaeth graidd iddynt. Hefyd, mwy o arweiniad ar y gofynion Cymraeg penodol yn dibynnu ar y prosiect a mwy o gymorth ar sut i drefnu cyfieithu'n ymarferol, yn enwedig lle mae'r grant wedi cyflwyno sefydliadau heb fawr o brofiad blaenorol o weithio yng Nghymru, os o gwbl.

*Prosesau lefel cronfa*

7.13 Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau'r cyfweliadau ynglŷn â phrosesau ymgeisio a gweinyddu'r grant yn gadarnhaol ac yn dangos y gallai'r rhain mewn egwyddor aros yn debyg ar gyfer unrhyw raglen cyllid grant yn y dyfodol. Mae'r meysydd penodol a grybwyllwyd yn gadarnhaol yn cynnwys:

- Bod y broses ymgeisio ar gyfer derbynyddion y grant ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn 'syml'
- Bod digon o gyfathrebu â'r tîm polisi Etholiadau a gwahanol sianeli i gyfathrebu drwyddynt ar gyfer derbynyddion y grant
- Bod derbynyddion y grant yn teimlo 'wedi'u cefnogi' ac yn 'gyfforddus' yn cyfathrebu a rhyngweithio â'r tîm polisi Etholiadol; roedden nhw'n gallu gofyn cwestiynau a gofyn am arweiniad ynglŷn â chyflawni
- Bod y broses hawlio grant ar gyfer derbynyddion yn gyffredinol yn syml a bod lle gwag yn galluogi diweddariadau prosiect perthnasol a digyfyngiad
- Bod cwblhau hawliadau bob chwarter yn briodol i'r derbynyddion ar y cyfan

7.14 Fodd bynnag, mae canfyddiadau hefyd yn dangos bod rhai meysydd i'w hystyried. Mae ymchwil desg a chyfweliadau â derbynyddion y grant ac ymgeiswyr aflwyddiannus yn dangos bod rhywfaint o ddiffyg eglurder yn y broses ymgeisio ynghylch cwmpas: ffiniau ariannol y grant (maint a gwerth prosiectau), pa fath o weithgaredd nad yw'r grant yn ceisio ei ariannu ac felly pa allbynnau ac adnoddau oedd yn gymwys i gael cyllid, a beth sy'n perthyn i gylch gwaith ymgysylltu â democratiaeth. Roedd eglurder ar gyfer allbynnau ac adnoddau cymwys yn arbennig o amlwg gydag awdurdodau lleol, a nifer ohonynt wedi ymgeisio am gyllid ar gyfer ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu.

7.15 Er bod derbynyddion o'r farn bod y ffurflen gais a'r cwestiynau yn 'gymesur', mae canfyddiadau o gyfweliadau (ymgeiswyr aflwyddiannus) ac ymchwil desg yn awgrymu y gellid darparu mwy o arweiniad neu awgrymiadau i helpu ymgeiswyr i fanylu ar yr hyn sydd fwyaf perthnasol a nodi pa lefel o fanylder neu benodoldeb oedd yn ofynnol o ran grwpiau targed, allbynnau a chanlyniadau.

7.16 Amlygwyd bod cyfranogiad buddiolwyr wrth ddatblygu prosiectau yn alluogwr cyflawni. Yn ystod cyfweliadau, un awgrym a godwyd gan randdeiliaid allanol ehangach oedd i'r grant ddarparu mwy o eglurder neu arweiniad o ran gwahanol lefelau cyfranogiad buddiolwyr, a gofyn pa lefel o gyfranogiad y mae'r ymgeisydd yn ei gynnig. Mae hyn er mwyn helpu darpar ymgeiswyr yn y trydydd sector i nodi neu uniaethu â'r ffordd y gallai'r gwaith a wnânt gael ei ystyried yn ymgysylltu â democratiaeth, ac i ymgorffori cyfranogiad mewn prosiectau.

7.17 Roedd achosion lle gallai Llywodraeth Cymru fod wedi cyfathrebu'n gliriach neu gyhoeddi'n gynt. Ar gyfer derbynyddion y grant, roedd hyn yn cynnwys adroddiadau gwerthuso diwedd grant a hawliadau grant terfynol, megis newidiadau annisgwyl i'r dyddiad cau ar fyr rybudd, a disgwyliadau ar ôl y grant ynghylch mynychu'r PYD. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyflawni prosiectau, megis eglurder ar y dechrau bod y flwyddyn ariannol yn ddyddiad cau caled hyd yn oed os nad yw holl swm y grant wedi'i hawlio. Crybwyllodd derbynyddion y grant ac ymgeiswyr aflwyddiannus fod angen cyfathrebu ac amser prosesu cyflymach am y canlyniad ar gyfer ceisiadau aflwyddiannus. Yn olaf, dywedodd derbynyddion y grant fod angen mwy o wybodaeth am y camau nesaf a'r amserlenni am fod y GYD yn dod i ben ym mis Mawrth 2025.

*Gweithio mewn partneriaeth*

7.18 O blith y rheiny â chynigion partneriaeth, siaradodd rhai o dderbynyddion y grant yn gadarnhaol am eu partneriaethau, o ran sut roedd hyn yn cefnogi'r gallu i ddarparu gweithgareddau, gan gynnwys yn ychwanegol at yr hyn yr oeddent wedi'i gynllunio'n wreiddiol. Nodwyd rhai heriau gyda gweithio mewn partneriaeth, ond prin oedd yr ymatebion. Ar gyfer derbynyddion y grant, roedd yr heriau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfathrebu rhwng sefydliadau partner a effeithiodd ar agweddau ar y cyflawni. Yn fwy cyffredinol, un her bosibl gyda gwaith partneriaeth oedd gallu casglu tystiolaeth gadarn i'w gwerthuso.

**Cyflawni'r Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth (PYD) a'r canlyniadau canfyddedig ar gyfer derbynyddion y grant**

7.19 Yn gyffredinol, mae canfyddiadau'n dangos bod y PYD yn elfen ddefnyddiol o'r GYD, ac mewn egwyddor dylid ei chadw ar gyfer unrhyw grant yn y dyfodol. Roedd cyfranogwyr y cyfweliadau (derbynyddion y grant a rhanddeiliaid allanol ehangach) yn gadarnhaol ynglŷn â'r gofyniad i ymuno â'r PYD fel rhan o gael cyllid y GYD. Fodd bynnag, mae yna feysydd cyflawni i'w hystyried a allai helpu i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i fynychwyr.

7.20 Un o'r prif ganlyniadau canfyddedig ar gyfer sefydliadau derbyn a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweliadau oedd gallu dysgu am yr hyn y mae sefydliadau eraill yn ei wneud, a rhannu gwybodaeth ac adnoddau ddwy ffordd. Un arall oedd gwneud cysylltiadau a chydweithio â sefydliadau eraill. Roedd enghreifftiau o gydweithio'n cynnwys cydweithio a chymryd rhan mewn cyflawni, manteisio ar rwydweithiau, defnyddio adnoddau, a chael adborth.

7.21 Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd y derbynyddion yn priodoli cydweithio a gwneud cysylltiadau fel rhan o'u prosiect i'r PYD oherwydd byddent wedi chwilio am y perthnasoedd hyn beth bynnag. Hefyd, un rhwystr rhag cydweithio trwy'r PYD oedd bod cyfranogwyr wedi colli'r cyfle i gydweithio â derbynyddion eraill oherwydd dechreuadau prosiect treigl ac amseroedd cyfarfodydd y PYD.

7.22 Roedd derbynyddion y grant yn teimlo bod amlder a hyd y cyfarfodydd yn addas yn gyffredinol, ond roedd awgrymiadau hefyd mewn cyfweliadau ar gyfer gwelliannau i'r fformat (gan dderbynyddion a rhanddeiliaid allanol ehangach). Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd achlysurol yn bersonol i alluogi rhwydweithio anffurfiol, defnyddio mwy o iaith annhechnegol a chlir er budd sefydliadau sydd â llai o brofiad o waith ymgysylltu â democratiaeth, mwy o le i grantiau llai o faint rannu eu gwaith fel y gall pob derbynnydd gael ei glywed waeth beth fo maint ei grant neu brosiect, cynnig cyfleoedd hyfforddi, a chlywed yn uniongyrchol gan fuddiolwyr terfynol ('ymarfer cyfranogol').

7.23 Roedd yna hefyd feysydd penodol a godwyd gan dderbynyddion y grant i'w hystyried ar bwnc cydweithio. Roedd hyn yn cynnwys rôl y PYD a'r berthynas rhwng y PYD a rhwydweithiau cysylltiedig (yn enwedig yn y cyfnod yn nesáu at etholiadau

nesaf y Senedd a llywodraeth leol). Un maes arall i fyfyrio yn ei gylch oedd sut i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithio trwy ystyried is-grwpiau lle mae meysydd o ddiddordeb neu raddfa/maint y grantiau yn cydredeg. Hefyd, ni waeth pryd y caiff y derbynyddion eu cyllid, sicrhau eu bod yn cael eu cysylltu â phrosiectau eraill (yn hytrach nag aros am gyfarfod nesaf y PYD) fel y gellir archwilio cydweithio o ddechrau'r prosiect a chwtogi ar golli cyfleoedd. Yn gysylltiedig â'r pwynt ynglŷn â chysylltu derbynyddion, pan ofynnwyd am fyfyrio ar unrhyw ffyrdd eraill y gallai'r GYD gefnogi gwaith partneriaeth, amlygwyd cyfathrebu uniongyrchol rhwng cymheiriaid y tu allan i gyfarfodydd. Darparodd derbynyddion awgrymiadau amrywiol ar gyfer fformatau a chynnwys a fyddai'n ddefnyddiol iddynt.

**Effaith ganfyddedig y cynllun cyllid grant.**

*Buddiolwyr*

7.24 Adlewyrchwyd un o nodau'r GYD sy'n ymwneud â buddiolwyr fel effaith arfaethedig yn y model rhesymeg (Ffigur 1). Hynny yw, 'I1: Mae pobl (yn enwedig yn y grwpiau targed) yn cael eu cynnwys, eu cymell a'u grymuso i gymryd rhan mewn democratiaeth, gyda'r offer i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac effeithio'n gadarnhaol ar y Gymru o'u cwmpas'. Mae ffactorau penodol yn cyfyngu ar y gallu i asesu'r effaith hon. Yn gyntaf, nid oedd y cysyniadau o fewn yr effaith arfaethedig wedi'u diffinio na'u mesur mewn ffordd benodol. Yn ail, un rhagdybiaeth sy'n sail i'r effaith hon yw bod canlyniadau'r buddiolwyr terfynol yn cael eu cynnal yn y tymor hwy ar ôl i'r buddiolwyr roi'r gorau i gymryd rhan yn y prosiect. Mae hyn yn anhysbys, gan fod derbynyddion wedi dweud mewn cyfweliadau nad ydynt yn gallu asesu effeithiau tymor hwy y tu hwnt i ddiwedd uniongyrchol y prosiect. Yn drydydd, mae canfyddiadau'n dangos dulliau amrywiol o werthuso canlyniadau ar gyfer y rhai a gymerodd ran, ac nad oedd hyn o fewn y targedau a'r dystiolaeth a oedd yn ofynnol ar gyfer prosiectau pob derbynnydd (7.68).

7.25 Er gwaethaf hyn, yn ôl y canfyddiadau, er bod prosiectau'n unigryw, roedd canlyniadau lefel uchel cyffredin ar gyfer buddiolwyr wedi'u crybwyll. Roedd y rhain yn amrywio ar draws datblygu gwybodaeth, cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r prosiect a ariennir gan y GYD a'r tu hwnt i gwmpas cychwynnol y gweithgaredd a ariennir gan y GYD, teimlo bod llais rhywun

yn cael ei glywed, teimlo'n fwy hyderus, a datblygu sgiliau ehangach. Crynhoir y rhain yn y model rhesymeg. Pan nodwyd heriau i gyflawni canlyniadau, roedd hyn yn cynnwys dibyniaeth ar lefel yr wybodaeth flaenorol, a pharhad rhwystrau rhag cymryd rhan mewn democratiaeth yng Nghymru.

*Derbynyddion y grant*

7.26 Yn gyffredinol, awgryma canfyddiadau o gyfweliadau â derbynyddion ac ymchwil desg bod cyllid y GYD wedi dwyn canlyniadau canfyddedig cadarnhaol i dderbynyddion y grant. Y canlyniadau allweddol a amlygwyd oedd adeiladu rhwydweithiau a pherthynas â sefydliadau eraill a buddiolwyr, a magu profiad a gwybodaeth o weithio gyda buddiolwyr.

7.27 O ran magu profiad a gwybodaeth, crybwyllodd derbynyddion y grant hefyd naill ai'r potensial, neu'r bwriad gwirioneddol, i gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd ganddynt o'u prosiect a ariannwyd gan y GYD. Roedd hyn yn cynnwys elfennau gweithredu neu gyflawni eu prosiectau. Roedd hyn hefyd yn cynnwys materion allweddol, rhwystrau rhag ymgysylltu â democratiaeth neu fylchau mewn gwybodaeth a ddarganfuwyd trwy weithio gyda buddiolwyr. Fodd bynnag, roedd heriau hefyd i gymhwyso gwersi a ddysgwyd a oedd yn cynnwys adnoddau (amser, staff, cyllideb) fel cyfyngiad.

*Y sector ehangach*

7.28 Dylid ystyried y sampl ymchwil bach a chyfyngedig o awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allanol ehangach wrth ddehongli effeithiau ar y sector ehangach, gan na ellir ystyried bod eu canfyddiadau'n cynrychioli'r sector cyfan.

7.29 Un maes a godwyd gan holl grwpiau cyfranogwyr y cyfweliadau oedd bod y GYD yn ehangu capasiti'r sector yng Nghymru. Cyhwysai'r adroddiadau ddod â rhai sefydliadau newydd i'r maes ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru fel sefydliadau yng Nghymru nad ydynt yn canolbwyntio ar ddemocratiaeth ond sy'n gweithio gyda grwpiau penodol, neu sefydliadau a oedd wedi gwneud gwaith ymgysylltu â democratiaeth mewn gwlad arall yn y DU. Roedd adroddiadau hefyd yn cynnwys galluogi sefydliadau i ymgymryd â phrosiect a oedd yn ymhelaethu ar waith blaenorol, a hwyluso gwaith rhwng cylchoedd etholiadol. Awgryma'r canfyddiadau hefyd fod y GYD wedi chwarae rhan wrth greu'r lle i waith mwy arloesol, er bod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o newid sector cyffredinol.

7.30 Roedd effaith ehangach arall yn ymwneud â dylanwadu ar waith yn y sector yng Nghymru yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, helpodd prosiect y GYD i dderbynyddion y grantiau sefydlu presenoldeb yn y sector democratiaeth yng Nghymru, a hynny'n fodd i ymgymryd â phrosiect arall ymgysylltu â democratiaeth. Mewn achosion eraill, er bod hyn yn effaith anfwriadol, adroddwyd bod sefydliadau lleol eraill yng Nghymru yn bwriadu bwrw ymlaen â phrosiect tebyg i brosiect derbynyddion. Cafwyd adroddiadau hefyd o ddylanwadu ar waith yn y sector y tu allan i Gymru yn y dyfodol (anfwriadol). Ar lefel prosiect, lle mae sefydliadau derbyn yn gweithio ledled y DU, roedd hyn yn cynnwys adroddiadau am fwriadu bwrw ymlaen â phrosiectau'r derbynnydd yn y canghennau mewn gwledydd eraill, neu'r sefydliadau yn addasu eu dulliau i fod yn fwy pwrpasol wrth ymgysylltu ar draws gwledydd yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd yng Nghymru. Ar lefel grant, roedd hyn drwy ystyried cynllun grant tebyg yn yr Alban.

7.31 Un o effeithiau'r model rhesymeg (Ffigur 1) sy'n ymwneud â'r sector ehangach yw 'I3: Gwell cydweithredu ar draws y rhai sy'n gweithredu yn y sector: mae ymagwedd fwy cydgysylltiedig at ymgysylltu â democratiaeth'. Crybwyllodd derbynyddion y grant a rhanddeiliaid allanol ehangach y farn bod y GYD wedi hwyluso cydweithio a meithrin perthynas ar draws y sector yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid oedd hyn i'w briodoli'n llwyr i'r grant, megis lle nododd rhanddeiliaid allanol ehangach y byddent yn debygol o weithio gyda sefydliadau derbyn heb ystyried y GYD ac, yn enwedig ar gyfer prosiectau mwy o faint, fod perthynas eisoes yn bodoli. Er gwaethaf hyn, cydnabuwyd bod y GYD yn darparu'r gallu a'r cyllid i dderbynyddion wneud gwaith yn y sector y gall y rhanddeiliaid allanol ei gefnogi.

7.32 Un effaith arall ar y sector ehangach a grybwyllwyd yn benodol gan gyfranogwyr o blith derbynyddion y grant oedd bod y GYD wedi hwyluso gwell dealltwriaeth y sector ynghylch y grwpiau targed. Ond o'r holl grwpiau cyfweliad, daeth i'r amlwg mai un maes i'w wella yw rhannu'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau a ariannwyd gan y GYD. Mewn rhai achosion, dywedodd derbynyddion y grant y gallai Llywodraeth Cymru ystyried yn fwy sut i gasglu gwersi a ddysgwyd ar draws y prosiectau a ariannwyd gan y grant i greu darlun o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw wedi gweithio, a chododd rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol yr angen i ddeall beth yw'r gwersi a ddysgwyd i'w cyflwyno i'r sector. Felly, ymddengys bod angen mwy o ffocws ar gynnwys yr wybodaeth a rannwyd, yn ogystal â'r ffordd y mae'r wybodaeth hon yn cyrraedd y

sector ehangach. Cynhwysai'r awgrymiadau ddigwyddiad ehangach sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, neu rannu trwy rwydweithiau ehangach eraill ochr yn ochr â'r PYD. Nodwyd hefyd greu adnodd ysgrifenedig, gan gynnwys er enghraifft gweithgareddau posibl ymgysylltu â democratiaeth yn seiliedig ar yr hyn a fu'n llwyddiannus.

7.33 Un o effeithiau'r model rhesymeg (Ffigur 1) yw 'I4: O fewn y sector, mae gwersi a ddysgwyd am y grwpiau targed ac ymyriadau yn cael eu cymhwyso i lywio a gwella gwaith ymgysylltu â democratiaeth yn y dyfodol.' Er bod derbynyddion y grant yn dweud, fel y nodwyd yn 7.27, eu bod wedi gallu cymhwyso eu gwersi eu hunain a ddysgwyd o'u prosiect a ariannwyd gan y GYD, efallai mai prin y gwireddir yr effaith hon ar lefel sector gyfan yn sgil y problemau a grybwyllwyd o ran rhannu gwersi a ddysgwyd (7.32). Ar hyn o bryd, gall hyn fod yn fwy felly ar lefel 'sefydliad' unigol, neu o fewn rhwydwaith y PYD.

*Gwersi a ddysgwyd am faterion ymgysylltu â democratiaeth*

7.34 Cododd gwersi a ddysgwyd ar draws gwahanol agweddau ar nod ymchwil dau: diffinio ymgysylltu â democratiaeth (pob grŵp cyfranogwyr), canfyddiadau am y grwpiau targed o brosiectau (derbynyddion grantiau) a thrafod y materion allweddol o ran ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru (rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol). Yn gyffredinol, dengys y canfyddiadau hyn bwysigrwydd sylfaen o feithrin ymwybyddiaeth a gwybodaeth i gefnogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth. Roedd y canfyddiadau hefyd yn amlygu'r meysydd neu bynciau a grybwyllwyd lle ceir bylchau penodol yn yr wybodaeth am ddemocratiaeth, neu ddiffyg gwybodaeth amdani.

7.35 Dangosodd canfyddiadau prosiectau derbynyddion hefyd amrywiol rwystrau ar lefel unigol rhag gymryd rhan mewn democratiaeth fel sgiliau digidol, hyder, teimlo'n bryderus, a phrofiadau blaenorol negyddol. Adroddwyd hefyd am rwystrau lefel system fel hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio a gwybodaeth / adnoddau, a'r gofyniad prawf adnabod gan bleidleiswyr ar gyfer etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

7.36 Yn ôl rhanddeiliaid ehangach ac awdurdodau lleol, roedd y materion allweddol i'w datrys o ran ymgysylltu â democratiaeth yn cynnwys niferoedd pleidleisio a chofrestru isel (a hynny'n rhannol oherwydd diffyg ymwybyddiaeth/gwybodaeth). Ymhlith meysydd eraill roedd sylw yn y cyfryngau, a phobl yn teimlo na fydd eu llais yn gwneud gwahaniaeth.

7.37 Gan nodi pwysigrwydd tynnu gwersi a ddysgwyd ynghyd (7.32), er gwybodaeth sefydliadol, dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried canfyddiadau yn yr adroddiad hwn ochr yn ochr ag ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ynghylch rhwystrau rhag ymgysylltu (pwyntiau cyflwyno 1.5 i 1.7).

**Dyluniad a dull cyffredinol y cynllun cyllid grant**

*Cynaliadwyedd*

7.38 Un o nodau'r GYD oedd 'Cefnogi prosiectau i ymgysylltu â'r boblogaeth dros gyfnod parhaus' (pwynt 7.1), ac adlewyrchir hyn hefyd yn 'I2' o'r model rhesymeg (Ffigur 1) a rhagdybiaethau'r model rhesymeg. Mae canfyddiadau'r ymchwil ynghylch mabwysiadu dull parhaus yn gymysg, sy'n awgrymu nad yw'r dull o gyllido wedi annog cynaliadwyedd yn yr holl amgylchiadau, yn enwedig lle'r oedd y dyfarniad grant am flwyddyn neu lai.

7.39 Ar gyfer rhai derbynyddion ar draws prosiectau aml-flwyddyn, un flwyddyn a thymor byr, dywedodd cyfranogwyr fod y grant yn darparu'r cymorth ariannol a'r amser neu gapasiti staff sydd eu hangen ar gyfer ymgysylltu parhaus. Yn y ffrâm hon roedd 'ymgysylltu parhaus' yn galluogi derbynyddion i gynllunio a chynnal gweithgareddau prosiect dros gyfnod y grant.

7.40 Ar gyfer prosiectau aml-flwyddyn yn benodol, roedd cyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant yn gadarnhaol ynglŷn â hyd y cyllid a chael eu cefnogi i ymgysylltu dros gyfnod parhaus. Roedd manteision allweddol yn cynnwys sicrwydd a llai o bwysau a oedd yn cefnogi datblygu rhwydweithiau a pherthnasoedd dros amser, a'r rhein gyda sefydliadau a buddiolwyr. O ran buddiolwyr, mae hyn yn adlewyrchu un o'r 'Rhagdybiaethau cyffredinol', sef er mwyn effeithio ar y grwpiau targed neu newid eu hymddygiad, mae angen gwaith cynyddol a chyson yn hytrach na phrosiectau tymor byr neu untro.

7.41 Ar y llaw arall, i rai o dderbynyddion y grant a gafodd gyllid un flwyddyn neu dymor byr, roedd y cyfranogwyr yn nodi bod natur gyfyngedig amser y cyllid a phwysau cysylltiedig ar adnoddau yn effeithio ar gynaliadwyedd. Dywedwyd nad oedd blwyddyn yn ddigon i fagu perthnasoedd a chyflawni ac roedd rhai â phrosiectau blwyddyn yn sôn am golli momentwm, gan fod gweithgarwch yn y pen draw wedi'i gyfyngu i'r cyfnod grant. Mewn rhai achosion, soniodd y cyfranogwyr eu bod wedi cyflawni gweithgareddau heb eu

hariannu yn dilyn prosiect y GYD oherwydd galw parhaus. Ystyriwyd bod dull tymor hwy, gan gynnwys dyfarniad aml-flwyddyn, yn galluogi'r sefydliadau hyn i feddwl am gynaliadwyedd wrth gynllunio a chyflawni, yn ogystal ag adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod a ariannwyd gan y GYD.

7.42 O ran cynnal gweithgarwch ar ôl y grant, roedd myfyrdodau o brosiectau aml-flwyddyn yn gymysg ac yn dibynnu ar y gweithgaredd ymgysylltu. Gallai rhai o'r sefydliadau yr oedd y derbynyddion yn gweithio gyda nhw barhau i gyflawni heb y derbynnydd gan fod ganddynt yr offer i wneud hynny. Nododd eraill yn yr un modd (7.41) fod angen cyllid yn y pen draw i gyflawni, ac felly y byddai unrhyw weithgaredd yn debygol o ddod i ben gyda chyfnod y grant. Fodd bynnag, trwy'r dull aml-flwyddyn, dywedodd y cyfranogwyr eu bod wedi ceisio cynnwys cynaliadwyedd wedi'r grant yn y prosiect, megis datblygu grwpiau dan arweiniad cymheiriaid.

*Myfyrdodau ar y graddau y mae cyllid y GYD yn llenwi unrhyw fylchau*

7.43 Mewn cysylltiad â'r drafodaeth ar hyd cyllid a chynaliadwyedd, un o ragdybiaethau'r model rhesymeg yw: 'Bod awydd am y math hwn o gyllid gan y sector ac mae'n diwallu anghenion y sector'. Ar y cyfan, mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen cynllun cyllido ymgysylltu â democratiaeth yn y sector yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu hefyd fod y GYD wedi bodloni anghenion cyllido i raddau, ond bod rhai anghenion nad yw wedi'u bodloni sy'n elfennau i'w hystyried ar gyfer cyfeiriad unrhyw gynllun grant yn y dyfodol.

7.44 Yn ystod cyfweliadau, dywedodd yr holl grwpiau cyfranogwyr fod diffyg cyllid a chyllidwyr yn y maes ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru. Nodwyd heriau gyda chyllid hefyd (awdurdodau lleol, rhanddeiliaid allanol ehangach). Roedd hyn yn cynnwys pocedi tameidiog, nad ydynt bob amser yn benodol neu'n unswydd ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth, neu nad oes ganddynt ffocws penodol ar Gymru. Roedd hyn hefyd yn cynnwys bylchau wrth ystyried y darlun democratiaeth ehangach oherwydd canolbwyntio ar gyfnodau etholiad, cyllid parhaus a hirhoedledd cyllid, yn ogystal â gwerthoedd cyllido annigonol.

7.45 O ystyried yr heriau hyn, mewn cyfweliadau nododd rhanddeiliaid allanol ehangach a derbynyddion y grant fod angen cyllid ymgysylltu â democratiaeth ar gyfer sefydliadau yn y sector.

7.46 Roedd y rhesymau dros yr angen am gyllid (rhanddeiliaid allanol ehangach a derbynyddion y grant) hefyd yn cynnwys bod dibyniaeth anghynaliadwy ar sefydliadau i wneud gwaith ar sail ewyllys da heb gyllid (yn enwedig lle mae hyrwyddo hawliau yn rhan o werthoedd y sefydliad) neu na fydd sefydliadau'n gallu gwneud gwaith ymgysylltu gan fod cyllid yn greiddiol i'w gallu i weithredu. Yn gysylltiedig, wrth fyfyrio ar eu prosiect GYD, adroddodd derbynyddion y grant naill ai na fyddai'r syniad wedi bod i ddatblygu'r prosiect, yr adnoddau i gyflawni gweithgareddau o gwbl, neu y byddai'n rhaid i weithgareddau o'r fath fod wedi cael eu cyflawni ar raddfa lawer llai. Daeth hyn i'r amlwg hefyd lle mae gan sefydliadau derbyn ganghennau mewn gwledydd eraill yn y DU. Er bod y sampl ymchwil yn gyfyngedig, ar gyfer sefydliadau sector nad ydynt yn ymwneud â democratiaeth, awgryma'r adroddiadau ychydig iawn o waith ymgysylltu â democratiaeth yn y canghennau yng ngwledydd eraill y DU neu waith ar ffurf eiriolaeth. Ar gyfer sefydliadau'r sector democratiaeth, roedd cyllid craidd yn sail i'w gweithgarwch yng ngwledydd eraill y DU, ond nododd cyfranogwyr y byddai angen ceisio cyllid grant i wneud prosiectau mwy arloesol. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau hyn yn ymwneud â'r heriau cynaliadwyedd a drafodwyd ynghylch gweithgaredd yn dod i ben gyda'r cyllid (pwyntiau 7.41 a 7.42).

7.47 Trafododd rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol brinder capasiti ac adnoddau sefydliadau fel her ychwanegol yn y sector. Mae prosiectau ymgysylltu â democratiaeth yn creu baich gwaith ychwanegol y mae angen adnoddau arno ac felly efallai na fydd yn bosibl hyd yn oed gyda chyllid cyflawni. Oherwydd yr her hon, soniodd rhai awdurdodau lleol (ymgeiswyr aflwyddiannus) am ddefnyddioldeb y cynllun grant SCCE blaenorol. Daeth arwyddion o'r her ehangach hon i'r amlwg hefyd mewn ymchwil desg lle ceisiodd rhai ariannu SCCE, er nad oedd hyn yn y cwmpas. Yn gysylltiedig, mewn cyfweliadau â derbynyddion, er bod rhai cyfranogwyr yn amlygu mai'r GYD oedd yr unig ffynhonnell gyllid, nododd eraill nad oedd trwy ddefnyddio adnoddau a staff y sefydliad ei hun. Un o dybiaethau'r model rhesymeg yw bod y derbynyddion yn gallu talu cyllid craidd a chostau gorbenion am gyfnod eu prosiect, oni bai y gofynnwyd yn benodol am y rhain yn y cais, a'u costio.

7.48 Yn y sector cyhoeddus crybwyllwyd yn y cyfweliadau fod diffyg adnoddau a chapasiti (gan gynnwys cyllidebau a staff) yn arwain at ddibyniaeth ar arferion ymgysylltu safonol. Lle mae canfyddiadau'r broses ymgeisio yn dangos bod awdurdodau lleol yn cynnig ymgyrchoedd cyfathrebu neu gyfryngau cymdeithasol a ystyrir yn weithgareddau statudol yn hytrach na rhywbeth arloesol (7.14), efallai bod hyn yn arwydd o'r mater ehangach hwn, sef y gallai unrhyw arferion ymgysylltu fod yn anodd eu cyflawni ag adnoddau isel heb ffynhonnell ariannu.

7.49 Pan oedd cyfranogwyr y cyfweliadau (rhanddeiliaid allanol ehangach a derbynyddion y grant) yn gadarnhaol ynglŷn â'r GYD yn helpu i lenwi bwlch mewn cyllid sector, roedd hyn o ran creu mwy o gyllid canolog yn y sector, yn benodol ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru. Hefyd, cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru y dylai gwaith ymgysylltu â democratiaeth gael ei ariannu yn hytrach na rhoi'r cyfrifoldeb ar sefydliadau. Mewn rhai achosion, dywedodd y cyfranogwyr ei bod yn bwysig neu'n ddefnyddiol parhau â'r GYD, a pharhau i roi cyfle i sefydliadau wneud gwaith sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu ehangach â democratiaeth a rhwng etholiadau – nid cofrestru yn ystod cyfnodau etholiad yn unig. Ystyriwyd bod y GYD yn bwysig yn y modd hwn i gynyddu gweithgarwch yn y sector a bod cronfa ehangach o sefydliadau sy'n gweithio yn y maes ymgysylltu â democratiaeth (gan ddatblygu neu gynnal arbenigedd felly). Dywedodd rhai awdurdodau lleol hefyd fod y GYD yn gyfle i roi cynnig ar ddulliau newydd o ymgysylltu â democratiaeth yng nghyd-destun diffyg adnoddau.

7.50 Lle'r oedd cyfranogwyr y cyfweliadau (rhanddeiliaid allanol ehangach ac awdurdodau lleol) yn llai cadarnhaol am y GYD yn helpu i lenwi bwlch, roedd hyn yn cynnwys diffyg parhad neu hirhoedledd cyllid, a'r GYD yn tueddu i ariannu pocedi o weithgarwch ar raddfa fyr neu fechan. Crybwyllwyd bod hyn yn cyfyngu ar y gallu i fynd i'r afael â materion ymgysylltu â democratiaeth, lle mae momentwm yn cael ei golli pan ddaw cyllid i ben, gan gyfyngu ar effaith y tu hwnt i gyfnod penodol ar gyfer grŵp penodol. Mae hyn yn adlewyrchu'r heriau gyda chynaliadwyedd a nodwyd gan dderbynyddion y grant ynghylch gweithgarwch yn dod i ben gyda'r cyllid (pwyntiau 7.41 a 7.42).

7.51 O ran yr heriau a godwyd i sefydliadau adnoddu prosiectau (7.47), roedd rhai awdurdodau lleol yn teimlo bod bwlch yn yr ystyr nad yw'r GYD yn ariannu adnoddau staff. Fodd bynnag, yn unol ag allbynnau'r model rhesymeg, fe wnaeth rhai sefydliadau gyflogi staff prosiect fel rhan o'u cyllid GYD. Byddai'n fuddiol cael mwy o eglurder ar yr amgylchiadau lle gellir ariannu adnoddau staff a lle na ellir eu hariannu.

7.52 O ystyried y pwyntiau a godwyd ynglŷn â pharhad (7.50) a'r angen a grybwyllwyd am gyllid aml-flwyddyn a'i bwysigrwydd mewn gweithgarwch parhaus a momentwm gan dderbynyddion y grant (pwynt 7.40 i 7.41), un angen a ddaeth i'r amlwg (gan bob grŵp cyfranogwyr) ar gyfer unrhyw gyllid grant yn y dyfodol oedd ariannu prosiectau tymor hwy i raddau mwy (cyllid aml-flwyddyn a pharhaus).

7.53 Hefyd o ystyried cyfyngiadau cyllido pocedi o weithgarwch i fynd i'r afael â materion ymgysylltu â democratiaeth (7.50), daeth yr angen i'r amlwg (ar draws pob grŵp cyfranogwyr) am grant yn y dyfodol i gefnogi prosiectau ymgysylltu â democratiaeth ar raddfa fwy neu fwy cydgysylltiedig, gan gymryd dull mwy strategol o fynd i'r afael â materion ymgysylltu â democratiaeth. Trafodwyd hyn yn bennaf o fewn ffrâm Cymru (dull rhanbarthol neu ledled Cymru), ond mewn rhai achosion roedd yn cynnwys cydlynu ar draws gwledydd y DU. Rhoddodd cyfranogwyr awgrymiadau gan gynnwys cydlynu ynghylch pa faterion ymgysylltu â democratiaeth y mae angen gweithredu fwyaf, ffocws ar faterion penodol ymgysylltu â democratiaeth neu grwpiau targed, neu weithio y tu hwnt i roi grantiau ar lefel sefydliad unigol neu ardal.

7.54 O weithredu'n fwy cydgysylltiedig, gellid hefyd helpu i ddiwallu'r angen a godwyd gan dderbynyddion y grant, sef i'r cyllid gyrraedd ystod eang o sefydliadau sy'n gweithio gyda grŵp targed eang, i gyrraedd trawstoriadau gwahanol o fewn y grŵp eang.

7.55 Er gwaethaf y pwyntiau hyn am brosiectau mwy o faint a hirach (7.52 a 7.53), roedd pob grŵp cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn bwysig cadw'r gallu i wneud grantiau bach ochr yn ochr â hyn. Yn ogystal, roedd derbynyddion y grant a rhanddeiliaid allanol ehangach yn teimlo ei bod yn bwysig bod unrhyw grant yn y dyfodol yn parhau â'r hyblygrwydd sy'n galluogi sefydliadau i lywio sut maent yn cyflawni pethau'n benodol.

7.56 Roedd y canfyddiadau ynghylch gwerth y grant yn gymysg: tra bod rhai (rhanddeiliaid allanol ehangach) yn teimlo ei fod yn ddigonol, roedd eraill (awdurdodau lleol) yn teimlo ei fod yn rhy fach, neu wedi crybwyll cael gwerth uwch o gyllid ar gael yn y dyfodol fel rhan o'r GYD (derbynyddion y grant). Yn gysylltiedig, roedd derbynyddion y grant yn gyffredinol yn teimlo bod swm y cyllid a gawsant ar gyfer eu prosiect GYD wedi bod yn addas (prosiectau aml-flwyddyn, tymor byr ac un flwyddyn). Fodd bynnag, nid oedd yn addas rai, ac roedd problemau ariannu a grybwyllwyd yn cynnwys costau uwch na'r disgwyl a effeithiodd ar gyflwyno digwyddiadau, a darparu adnoddau a digwyddiadau ychwanegol heb eu cynllunio mewn ymateb i anghenion y grwpiau targed (prosiectau aml-flwyddyn).

7.57 Un rhagdybiaeth yn y model rhesymeg yw bod 'rhaid i sefydliadau sy'n cael y grant allu gwneud cais am y prosiect a'i gyflawni yn unol ag amseriadau blwyddyn ariannol Llywodraeth Cymru'. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'n awgrymu bod heriau gyda'r elfen hon o'r cyllid, yn enwedig ar gyfer prosiectau blwyddyn. Roedd canfyddiadau'n amlygu diffyg aliniad rhwng blynyddoedd ariannol a chyfnodau eraill, lle roedd enghreifftiau gan dderbynyddion yn cynnwys blynyddoedd ysgol ac etholiadau. Creodd hyn rai heriau gan gynnwys peidio â gallu addasu allbynnau'r prosiect i weddu i amserlenni buddiolwyr, nad oedd y broses ddiweddaru prosiect chwarterol yn ddefnyddiol nac yn berthnasol, neu nad oedd modd cyflawni'n llawn erbyn dyddiad cau anodd y flwyddyn ariannol. Byddai'r gallu i ddyfarnu'r grant yn unol â rhychwant amser cynllunio gweithgareddau prosiect a thros y cyfnod perthnasol yn faes i'w ystyried i'w wella. Yn enwedig yng nghyd-destun etholiadau sydd ar ddod yng Nghymru yn 2026 a 2027, dylai cyfnod grant gynnwys yn rhesymol y cyfnod cyn yr etholiad, dyddiad yr etholiad ac amser wedyn i asesu canlyniadau.

7.58 Er nad yw'n perthyn o reidrwydd i gylch gwaith y GYD, nododd cyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach a derbynyddion y grant feysydd o'r cyd-destun ehangach y mae'r GYD yn eistedd ynddynt lle roedd angen mwy o ymrwymiad neu gyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys addysg ddemocrataidd mewn ysgolion, a chynnwys y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau o lefelau lleol i lefelau Cymru gyfan (fel cynulliadau dinasyddion). Mae hyn yn ymwneud ag elfennau o'r cyd-destun ehangach a drafodwyd yn y cyflwyniad, gan gynnwys argymhelliad y

Cwricwlwm i Gymru a’r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru i gryfhau arloesi democrataidd, ymgysylltu â’r gymuned ac addysg ddinesig.

**Gwella monitro a gwerthuso**

7.59 Awgryma canfyddiadau’r gwerthusiad hwn fod y broses fonitro a gwerthuso yn agwedd benodol ar ddylunio a chyflawni’r GYD lle dylid ystyried gwelliannau ar gyfer cynlluniau cyllid grant yn y dyfodol.

7.60 Nodwyd y gofynion monitro a gwerthuso ar gyfer derbynyddion y GYD yn y canllawiau ymgeisio a llythyr dyfarnu’r grant. Ar gyfer adroddiadau diwedd grant, roedd canllawiau ymgeisio’r GYD yn nodi bod yn rhaid i grantiau bach (£1,000 a llai) roi ‘adborth sy’n cwmpasu’r cynllun peilot gan gynnwys sut mae llwyddiant wedi’i fesur’. Roedd yn rhaid i grantiau mawr (£1,000 a mwy) ddarparu ‘gwerthusiad o weithgareddau, llwyddiannau a rhwystrau a wynebwyd’. Yn ogystal â’r disgwyliadau hyn, roedd llythyr dyfarnu’r grant yn nodi manylion targedau a thystiolaeth unigryw y disgwylir i bob derbynnydd eu cyflawni ac adrodd amdanynt yn ei adroddiad diwedd grant.

*Monitro cynnydd*

7.61 Fel y nodwyd ym mhwynt 7.13, dywedodd cyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant fod y lle gwag yn adran diweddaru prosiect y ffurflen yn rhoi’r rhyddid iddynt ddarparu diweddariadau sy’n berthnasol i’w prosiect. Fodd bynnag, canfu’r ymchwil desg fod derbynyddion y grant wedi mabwysiadu dull amrywiol o lenwi’r ffurflen hon ar draws grantiau bach a mawr. Bu rhai yn darparu diweddariadau cynnydd a oedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am sefydliadau yr oeddent wedi gweithio gyda nhw, y buddiolwyr a oedd wedi cymryd rhan, a pha allbynnau yr oeddent wedi’u cynhyrchu neu eu cyflawni. Darparodd eraill ddiweddariadau byr heb fanylu rhyw lawer ar fuddiolwyr ac allbynnau prosiectau. Roedd rhai diweddariadau hefyd yn ailadroddus, gan olygu ei bod yn anodd canfod beth oedd derbynnydd y grant wedi’i gyflawni ers y diweddariad diwethaf.

7.62 Gellir priodoli’r gwahaniaethau mewn eglurder a lefel manylder i’r dulliau amrywiol o fonitro cynnydd a adroddwyd gan dderbynyddion y grant mewn cyfweliadau. Roedd gan rai brosesau ffurfiol, fel defnyddio meddalwedd rheoli prosiectau, tra bod eraill yn dibynnu ar brosesau anffurfiol (gan gynnwys defnyddio’r ffurflen hawlio grant). Ar ben hynny, i rai o gyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant, nid oedd yn glir pa

systemau monitro cynnydd oedd ganddynt ar waith, gan eu bod yn trafod prosesau gwerthuso yn lle hynny.

7.63 Ar y cyfan, mae'r amrywiad mewn systemau monitro cynnydd ac adrodd ar draws holl dderbynyddion y grant yn golygu nad oes llwybr archwilio clir bob amser y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i olrhain cynnydd prosiectau. Gallai arweiniad ar reoli prosiectau (megis sut i gadw golwg a chofnodi cynnydd) a'r disgwyliadau ar gyfer adrodd ar gynnydd yn y ffurflenni chwarterol fod yn fuddiol. Dylai unrhyw ganllawiau ynghylch adrodd ar gynnydd nodi disgwyliadau sy'n gymesur â swm y cyllid grant.

7.64 Gan fyfyrio ar syniadau ar gyfer newidiadau i broses fonitro'r GYD, roedd rhai derbynyddion yn teimlo y byddai cyfarfod blynyddol gyda'r tîm polisi Etholiadau i'r rhai sydd â dyfarniad aml-flwyddyn yn ddefnyddiol.

*Gwerthusiad diwedd grant*

7.65 Yn ogystal â'r materion gyda monitro prosiectau, canfu'r ymchwil hefyd fod cyfuniad o ffactorau wedi effeithio'n negyddol ar broses werthuso'r grant. Mae'r ffactorau hyn, sy'n cael eu trafod yn fanylach isod, yn cynnwys:

- Dim diffiniad clir o'r term 'canlyniad' yn y cam ymgeisio
- Dull anghyson o osod targedau a gofynion tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru mewn llythyrau dyfarnu grant
- Ffocws ar werthuso cyflawni prosiectau ar draul gwerthuso canlyniadau
- Ansawdd amrywiol adroddiadau gwerthuso prosiect diwedd grant ac i ba raddau y maent yn bodloni'r gofynion targed a thystiolaeth
- Angen mwy o arweiniad, adborth a chyfathrebu gan Lywodraeth Cymru ynghylch gofynion monitro a gwerthuso

7.66 Mae ffurflen gais y grant yn gofyn am ganlyniadau disgwyliedig a sut y byddai llwyddiant yn erbyn y rhain yn cael ei fesur. Dehonglwyd 'canlyniad' yn anghyson gan dderbynyddion y grant, gan gynnwys beth mae prosiectau'n ei gyflawni, newidiadau disgwyliedig i fuddiolwyr prosiectau, a gwersi a ddysgir i'r sefydliad sy'n cael y grant. Mewn rhai achosion, roedd yna hefyd broblemau gyda mesurau a gynigiwyd gan dderbynyddion y grant yn eu ceisiadau, megis mesurau amwys,

mesurau nad oeddent yn cyfateb i ganlyniad, neu beidio â darparu mesurau o gwbl. Mae'r canfyddiadau ymchwil desg hyn yn cael eu cyfnerthu gan ganfyddiadau cyfweliadau â chyfranogwyr o blith rhanddeiliaid allanol ehangach a awgrymodd nad oes profiad gan sefydliadau'r trydydd sector bob amser o wneud gwerthusiadau. Awgryma hyn fod angen mwy o arweiniad ar ymgeiswyr ynghylch beth sy'n gyfystyr â chanlyniad a pha fesurau y dylid eu defnyddio i werthuso mathau penodol o ganlyniadau. Dylai unrhyw ganllawiau ar ddefnyddio mesurau gynnwys y rhai sy'n gymesur ar gyfer grantiau llai a mwy.

7.67 Roedd anghysondebau ynghylch canlyniadau a mesurau hefyd i'w gweld yn y gofynion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn llythyrau dyfarnu'r grant. Bu Llywodraeth Cymru'n anghyson wrth drosglwyddo canlyniadau a mesurau a ddarparwyd gan dderbynyddion y grant yn y ffurflen gais i'r gofynion tystiolaeth a thargedau a nodwyd yn llythyrau dyfarnu'r grant. Roedd 'targedau' naill ai'n cynnwys canlyniadau yn unig, neu ganlyniadau a mesurau. Roedd 'gofynion tystiolaeth' naill ai'n cynnwys mesurau penodol, neu ddatganiad tystiolaeth gyffredinol. Roedd y dull hwn yn golygu bod gan rai grantiau 'mawr' ofynion targed a thystiolaeth llai manwl o'u cymharu â rhai grantiau 'bach'. I gloi, dylid cymryd dull mwy cyson a chymesur wrth bennu gofynion targed a thystiolaeth ar gyfer grantiau bach a mawr yn y dyfodol. Ochr yn ochr â'r pwynt blaenorol 7.66, gall mwy o ganllawiau wrth wneud cais ynghylch canlyniadau a mesurau priodol helpu i sicrhau mwy o gysondeb wrth nodi targedau a thystiolaeth mewn llythyrau dyfarnu grant.

7.68 Er bod rhai o gyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant wedi sôn am ddefnyddio dulliau cymharol gadarn i werthuso newidiadau mewn ymgysylltu â democratiaeth sy'n deillio o'u prosiect, nid oedd eraill fel petaent â system ar waith i werthuso newidiadau felly. Yn hytrach, mae ymchwil desg a dadansoddiad o'r cyfweliadau yn awgrymu bod derbynyddion y grant yn canolbwyntio ar gasglu adborth ynghylch y digwyddiadau neu'r sesiynau a gyflwynwyd ganddynt. Mae hyn yn nodi bod gwerthusiadau llawer o dderbynyddion y grant (ni waeth a ystyriwyd bod y grant yn 'fach' neu'n 'fawr') yn tueddu i ganolbwyntio ar gyflawni, yn hytrach na newidiadau i ymgysylltiad y buddiolwyr terfynol â democratiaeth. Efallai bod hyn i'w ddisgwyl o ystyried nad oedd y gofynion targed a thystiolaeth a nodwyd yn y llythyr dyfarnu bob amser yn cynnwys y

canlyniadau ymgysylltu â democratiaeth a ragwelwyd i fuddiolwyr terfynol, a hynny'n rhannol oherwydd yr heriau a drafodwyd yn 7.66 a 7.67.

7.69 Codwyd her gwerthuso ymgysylltu â democratiaeth gan gyfranogwyr cyfweliadau'r rhanddeiliaid allanol, a nododd hefyd fod adroddiadau yn y sector yn tueddu i ganolbwyntio ar gyflawni. Dywedodd cyfranogwyr y gall gwerthuso newid fod yn anodd ar gyfer cysyniadau fel gwybodaeth a dealltwriaeth a bod angen cymorth ar sefydliadau i wybod sut i fesur a gwerthuso effaith. Roedd rhai rhanddeiliaid allanol ehangach hefyd yn teimlo y byddai creu fframwaith y cytunwyd arno gan y sector, a ddylai gynnwys canlyniadau perthnasol a sut i fesur y rhain, hefyd yn cefnogi'r gwerthusiad o effaith prosiectau ar ymgysylltu â democratiaeth.

7.70 I gloi, mae angen mwy o gymorth gwerthuso ar dderbynyddion drwy gydol cyfnod eu grant, ac mae gan Lywodraeth Cymru rôl i sicrhau bod canlyniadau ynglŷn ag ymgysylltu â democratiaeth yn cael eu cynnwys yn y ffurflen gais a'r llythyr dyfarnu, gyda mesurau neu fetrigau priodol sy'n gymesur â swm dyfarniad y grant.

7.71 Roedd cyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant yn cydnabod pwysigrwydd darparu adroddiad gwerthuso diwedd grant a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr fel 'cymesur' a 'synhwyrol'. Fodd bynnag, aseswyd nad oedd tua hanner yr adroddiadau diwedd grant ar gael yn bodloni'r gofynion targed a thystiolaeth a nodwyd yn eu llythyrau dyfarnu grant priodol. Nododd ymchwil desg nifer o broblemau cyffredin gydag adroddiadau grant diwedd prosiect, gan gynnwys strwythur adroddiad aneglur a diffyg adrodd am y dulliau a'r metrigau disgwyliedig. Unwaith eto, gan adlewyrchu'r dull o werthuso mewn ffrâm gyflawni (7.68), roedd adroddiadau yn tueddu i fod â phwyslais arbennig ar rwystrau a llwyddiannau, yn hytrach na chanlyniadau ar gyfer buddiolwyr prosiectau. Lle nodwyd canlyniadau ar gyfer buddiolwyr, roedd y rhain yn tueddu i gael eu hadrodd yn unswydd neu fesul gweithgaredd unigol yn hytrach na'u coladu i ddwyn casgliadau cyffredinol ar gyfer y prosiect.

7.72 Mae'n bosibl fod ansawdd amrywiol adroddiadau diwedd grant yn benllanw'r ffactorau a drafodwyd hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi nad oedd templed na strwythur adroddiad gwerthuso penodol i dderbynyddion ei ddilyn, na chanllawiau cyson gan Lywodraeth Cymru. Mewn cyfweliadau â derbynyddion y grant, roedd rhai yn hapus i beidio â chael strwythur, tra bod eraill yn teimlo y gellid

bod wedi darparu mwy o arweiniad neu y byddent wedi hoffi cael gwybodaeth am y fformat a ddisgwyliwyd. Yn gysylltiedig, roedd achosion lle'r oedd cyfranogwyr yn teimlo nad oedd digon o adborth, os o gwbl, wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru, felly nid oeddent yn glir a oedd adroddiadau diwedd grant wedi bodloni'r disgwyliadau. Crybwyllodd cyfranogwyr hefyd lefelau gwahanol o brofiad mewn adroddiadau gwerthuso a allai fod wedi cyfrannu at ansawdd amrywiol yr adroddiadau.

7.73 I gloi, er bod pob prosiect yn unigryw gan olygu bod cymesuredd a hyblygrwydd mewn adroddiadau gwerthuso yn bwysig, byddai mwy o strwythur, arweiniad ac adborth gan Lywodraeth Cymru yn fuddiol. Dylai hyn helpu i sicrhau bod yr holl elfennau perthnasol a meysydd eang yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau. Mae cysondeb yn bwysig o ystyried yr angen a grybwyllwyd i ddod â chanlyniadau a gwersi a ddysgwyd ynghyd ar gyfer y sector (pwynt 7.32).

7.74 Hefyd o ystyried nad oedd amrywiadau yng ngofynion tystiolaeth llythyrau dyfarnu bob amser yn cyfateb i'r gwahaniaeth canllawiau rhwng grant 'bach' a 'mawr' (7.67), gellid diwygio'r canllawiau ymgeisio hefyd ar y disgwyliadau adrodd ar gyfer grantiau bach a mawr (7.60) gan ddibynnu ar unrhyw newidiadau yn y strwythur adrodd. Gellid rhoi mwy o fanylion am y disgwyliadau hyn, a gellid ailddiffinio'r gwahaniaeth rhwng grantiau bach a mawr, ac felly er bod y ddau beth efallai'n ofynnol i gwmpasu'r un elfennau eang mewn adroddiadau diwedd grant, dyfnder y dystiolaeth a'r dulliau a ddisgwylir fyddai'r ffactor amrywio.

7.75 Myfyriodd cyfranogwyr cyfweliadau derbynyddion y grant hefyd ar heriau a galluogwyr i gasglu gwybodaeth werthuso. Gallai fod yn fuddiol gofyn i ymgeiswyr fyfyrio ar rwystrau posibl a sut maent yn bwriadu lliniaru'r rhain, er mwyn cyfrif amdanynt wrth ddylunio prosiectau. Er gwybodaeth sefydliadol, gall hefyd fod yn fuddiol i'r tîm polisi Etholiadau barhau i gadw cofnod o'r rhain i helpu gydag adolygu ceisiadau ac i gefnogi unrhyw sefydliadau yn y dyfodol i gyflawni.

# 8. Argymhellion

## Cyflawni

*Ymgeisio ac arweiniad*

8.1 **Argymhelliad 1:** Mae'r ffurflen gais am grant a'r nodiadau cyfarwyddyd grant cysylltiedig yn cael eu hadolygu a'u hehangu. Mae'r meysydd penodol i'w hystyried fel a ganlyn a dylid eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau a gynigir yn yr argymhellion ar gyfer y broses fonitro a gwerthuso (Argymhellion 9, 10, 13 a 15).

8.1.1 Ar gyfer nodau'r grant, dylai'r tîm polisi Etholiadau egluro'r hyn a olygir wrth 'grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol' yng nghyd-destun ymgysylltu â democratiaeth, i helpu sefydliadau i nodi sut y gallai'r cyllid fod yn berthnasol i grwpiau y maent yn gweithio gyda nhw. Dylid ystyried hefyd a yw 'heb gynrychiolaeth ddigonol' yn derm defnyddiol i ddisgrifio ac adlewyrchu'r cyd-destun hwn neu a allai terminoleg arall fod yn fwy priodol.

8.1.2 Yn y nodiadau cyfarwyddyd, dylid rhoi mwy o eglurder ynglŷn â'r canlynol:

- Argaeledd dyfarniadau grant aml-flwyddyn.
- Ffiniau ariannol y grant. Dylid hefyd egluro y gellir cysylltu â'r tîm polisi i drafod cwestiynau am gostau cyn gwneud cais.
- Pa allbynnau nad ydynt yn gymwys am gyllid. Mae'r meysydd i'w cwmpasu yn cynnwys ymgyrchoedd cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol annibynnol (gan gynnwys lle mae hyn yn gyfystyr â dyletswyddau statudol i awdurdodau lleol), a gweithgareddau sy'n ymwneud â strwythurau democrataidd mewnol y sefydliad.
- Y meini prawf cymhwysedd ar gyfer defnyddio cyllid ar gyfer adnoddau staff.
- Pa allbynnau prosiect sy'n perthyn i gylch gwaith ymgysylltu â democratiaeth heb leihau potensial arloesedd a newydd-deb. Gall tystiolaeth yn yr adroddiad hwn fel y model rhesymeg a chanfyddiadau ynghylch sut y diffiniwyd ymgysylltu â democratiaeth gefnogi hyn.

8.1.3 Yn y cwestiynau cais:

- Dylid darparu diffiniad o ranbarthol o'i gymharu â lleol ar gyfer y cwestiwn 'A yw eich cyrhaeddiad daearyddol yn genedlaethol, rhanbarthol neu leol?', er mwyn egluro'r gwahaniaeth ac i sicrhau cysondeb yn y defnydd ac wrth asesu ceisiadau.
- Dylid ystyried ychwanegu arweiniad neu awgrymiadau at gwestiynau ynghylch y meysydd neu'r cynnwys disgwyliedig y mae angen i ymgeiswyr eu cwmpasu o fewn y cyfrif geiriau.
- Yn yn dyfodol, ystyried gofyn cwestiynau am rwystrau cyflawni posibl a rhwystrau rhag casglu gwybodaeth werthuso, a sut mae ymgeiswyr yn bwriadu lliniaru'r rhain, er mwyn ystyried y rhain wrth ddylunio prosiectau.
- Yn y dyfodol, ystyried gofyn pa lefel o gyfranogiad buddiolwyr yn natblygiad prosiect y mae'r ymgeisydd yn ei gynnig, ochr yn ochr â chanllawiau ar y gwahanol lefelau. Ar gyfer prosiectau â nifer o grwpiau buddiolwyr, dylai ymgeiswyr amlygu a ydy maint cyfranogiad pob grŵp yn amrywio.

*Prosesau Llywodraeth Cymru*

8.2 **Argymhelliad 2:** Er mwyn cefnogi'r rhai sydd â llai o brofiad yn y sector o ledaenu gwybodaeth yn ystod prosiectau, dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried at ba adnoddau democratiaeth safonedig y gellid cyfeirio derbynyddion atynt. Dylid gwneud hyn yn glir yn nodiadau cyfarwyddyd y grant i annog ceisiadau gan sefydliadau newydd a'i ailddatgan ar ddechrau'r prosiect.

8.3 **Argymhelliad 3:** Dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried darparu gwell cyfarwyddyd ar ddechrau prosiect a chymorth yn ystod prosiectau i gynorthwyo sefydliadau i fodloni gofynion y Gymraeg.

8.4 **Argymhelliad 4:** Mae gwersi a ddysgwyd yn yr adroddiad hwn ar gyfer gwybodaeth sefydliadol a sector y dylai'r tîm polisi Etholiadau eu hystyried a chadw cofnod ohonynt. Dylai hwn fod yn gofnod gwaith a dylid ychwanegu ato o'r holl brosiectau a ariennir gan y GYD heddiw ac yn y dyfodol. Y gwersi a ddysgwyd yw:

- Rhwystrau a galluogwyr prosiect a grybwyllwyd – gan gynnwys cyflawni, cyrraedd grwpiau targed, a chasglu gwybodaeth werthuso.
- Y rhwystrau a grybwyllwyd sy'n wynebu grwpiau targed wrth ymgysylltu â democratiaeth (lefel unigol ac yn y system), meysydd lle mae bylchau mewn gwybodaeth, a materion allweddol ymgysylltu â democratiaeth i'w datrys. Dylid ystyried y rhain ochr yn ochr ag ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru ynghylch rhwystrau (pwyntiau cyflwyno 1.5 i 1.7).

8.5 **Argymhelliad 5:** Byddai'r cyfathrebiadau canlynol yn elwa ar fwy o eglurder:

- Yn y cyfnod ymgeisio, cadarnhau'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus.
- Ar ddechrau'r prosiect ac yn ystod y prosiect, y gofynion a'r dyddiadau cau cysylltiedig sy'n ymwneud â sut mae'r cyllid yn gweithredu o gwmpas diwedd y flwyddyn ariannol, gan gynnwys gwneud ceisiadau grant terfynol a chyflawni gweithgareddau terfynol tua diwedd cyfnod y grant.
- Ar ddiwedd y prosiect, y disgwyliadau ynghylch mynychu'r PYD ar ôl y grant.
- Ar ddiwedd y prosiect, cadarnhad bod adroddiad diwedd y grant wedi'i dderbyn ac a yw'n unol â'r disgwyliadau.

*Cydweithio a rhannu gwybodaeth*

8.6 **Argymhelliad 6:** Dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried sut i weithredu'r awgrymiadau yn yr adroddiad hwn ynghylch fformat y PYD ac ar gyfer gwella'r cydweithio rhwng derbynyddion a rhwydweithiau eraill.

8.7 **Argymhelliad 7:** Dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried a gweithredu dulliau o gefnogi rhannu canlyniadau a gwersi a ddysgwyd rhwng derbynyddion, yn ogystal â'u rhannu gyda'r sector ehangach, gan gynnwys coladu gwersi a ddysgwyd ar draws y prosiectau a ariennir gan grant.

**Cyrhaeddiad**

8.8 **Argymhelliad 8:** Dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried sut i ehangu hyrwyddo ymhellach unrhyw gyllid grant yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sut i gynnwys mwy o awdurdodau lleol, cynyddu cyrhaeddiad Gogledd Cymru ar y lefel ranbarthol, a chefnogi mwy o brosiectau sy'n ceisio ymgysylltu â grwpiau targed heblaw pobl ifanc.

**Monitro a gwerthuso**

8.9 Wrth ystyried argymhellion 9 i 18, dylid ystyried y dylai unrhyw newidiadau i'r gofynion monitro a gwerthuso ar gyfer y GYD barhau i fod yn gymesur ac yn ymarferol mewn perthynas â swm y cyllid grant a chapasiti derbynydd y grant. Er bod hyn yn cynnwys addasu disgwyliadau ar gyfer grantiau 'bach', os mabwysiadir dull tymor hwy neu strategol, byddai angen i brosesau monitro a gwerthuso cadarnach fod ar waith.

8.10 **Argymhelliad 9:** Bod y cwestiwn ar y ffurflen gais 'Beth yw eich canlyniadau disgwyliedig a sut fyddech chi'n mesur llwyddiant yn erbyn y rhain? (100 o eiriau ar y mwyaf)' yn cael ei ddiwygio, bod cyfarwyddyd yn cael ei ychwanegu, a'r cyfrif geiriau yn cael ei ymestyn. Gellid defnyddio tystiolaeth o'r adroddiad hwn i gynorthwyo i ddatblygu canllawiau canlyniadau a mesurau. Mae'r awgrymiadau fel a ganlyn:

- Diffinio'r term 'canlyniad'.
- Gofyn i ymgeiswyr am ganlyniadau cyflawni a chanlyniadau ynghylch newidiadau mewn ymgysylltu â democratiaeth ar gyfer eu grwpiau targed. Os yw'n berthnasol, hefyd canlyniadau ynghylch newidiadau posibl a/neu wersi posibl a ddysgwyd i'w sefydliad.
- Gofyn i ymgeiswyr am fesur neu set o fesurau clir ar gyfer pob canlyniad unigol y maent yn ei gynnig.
- Rhoi arweiniad a/neu gymorth i ymgeiswyr a derbynyddion ynghylch arferion gorau ar gyfer nodi canlyniadau priodol a mesurau cysylltiedig, sy'n gymesur â gwerth a maint y prosiect.

8.11 **Argymhelliad 10:** Gofyn i ymgeiswyr amlinellu sut y byddai'r cyrhaeddiad daearyddol arfaethedig (yn enwedig lle bo'n rhanbarthol neu genedlaethol) a'r cyrhaeddiad i grwpiau targed yn cael eu mesur a'u hadrodd.

8.12 **Argymhelliad 11:** Yn gysylltiedig ag argymhelliad 9, dylai unrhyw newidiadau i'r broses werthuso ystyried sut y gallai nod canlynol y GYD gael ei fesur yn y dyfodol gan dderbynyddion: 'Mae pobl yn cael eu cynnwys, eu cymell a'u grymuso i gymryd rhan mewn democratiaeth, gyda'r offer i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac effeithio'n gadarnhaol ar y Gymru o'u cwmpas'. Byddai hyn yn golygu diffinio'r cysyniadau o fewn y nod hwn yn y cyd-destun democrataidd gyda mesurau cysylltiedig wedi'u mapio. Ni fyddai'n rhaid i fesurau fod yn uniongyrchol o reidrwydd ond yn rhai y gellir eu defnyddio i nodi newidiadau yn y cysyniadau hyn (er enghraifft, a yw mynd i gwblhau deiseb yn arwydd o gysyniad 'effeithio'n gadarnhaol ar Gymru').

8.13 **Argymhelliad 12:** Dylai darparu cymorth i nodi canlyniadau a mesurau priodol ar y dechrau (Argymhelliad 9) roi'r sail i Lywodraeth Cymru gymhwyso canlyniadau a mesurau yn gyson ac yn gymesur i'r targedau a'r gofynion tystiolaeth yn llythyrau dyfarnu'r grant, ochr yn ochr â sicrhau bod y llythyrau dyfarnu bob amser yn cynnwys canlyniadau buddiolwyr.

8.14 **Argymhelliad 13:** Darperir strwythur ar gyfer y diweddariad cynnydd yn y ffurflenni hawlio chwarterol i wella llwybrau archwilio prosiect a chysondeb adroddiadau. Gellid amlinellu'r disgwyliadau hyn yn y canllawiau grant a'u hailddatgan i dderbynyddion ar ddechrau prosiect. Mae'n bwysig bod unrhyw strwythur yn ddigon hyblyg i'w wneud yn berthnasol i bob prosiect. Gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio is-benawdau gyda disgrifiad byr neu enghreifftiau o gynnwys ar gyfer pob un, lle gall y disgrifiad/enghreifftiau amrywio yn ôl grant 'bach' neu 'fawr'. Gellid defnyddio lle gwag ychwanegol ar gyfer unrhyw beth arall y mae'r derbynnydd am ei ddarparu. Mae'r meysydd y gellid disgwyl eu cynnwys o fewn y cyfnod penodol yr hawlir ar ei gyfer yn cynnwys:

- Cynnydd tuag at ganlyniadau cyflawni datganedig – disgrifiadau o'r hyn sydd wedi'i gyflawni neu ei gynhyrchu ar gyfer y grwpiau targed.
- Cyrhaeddiad i'r grwpiau targed – gan gynnwys manylion cyflawn ar yr holl grwpiau targed a nodwyd yn y cais.
- Gweithio gydag eraill. Disgrifiadau o berthnasoedd neu gydweithio â sefydliadau/rhwydweithiau eraill fel rhan o'r cyflawni.
- A fu unrhyw heriau cyflawni yn ystod y chwarter.

8.15 **Argymhelliad 14:** Dylid rhoi mwy o arweiniad i dderbynyddion a strwythur ar gyfer yr adroddiadau gwerthuso diwedd grant. Mae'n bwysig bod unrhyw strwythur yn ddigon hyblyg i sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer pob prosiect, ond dylai hefyd alluogi mwy o gysondeb mewn adroddiadau diwedd prosiect i gefnogi eglurder, a choladu gwersi a ddysgwyd. Dylai darparu is-benawdau helpu i sicrhau bod yr holl elfennau perthnasol yn cael eu cwmpasu, gan gynnwys: cefndir a nodau, yr hyn a gyflawnwyd, y grŵp targed a'r cyrhaeddiad daearyddol, beth oedd yr heriau a'r llwyddiannau wrth gyflawni (ac felly y gwersi a ddysgwyd am y dull ymgysylltu), beth a ddysgwyd am y rhwystrau sy'n wynebu'r grŵp targed rhag cymryd rhan mewn democratiaeth, beth oedd y canlyniadau i'r buddiolwyr a ymgysylltodd â'r prosiect neu a gymerodd ran, beth yw'r argymhellion neu gamau nesaf. Dylid atgoffa derbynyddion o'u gofynion tystiolaeth (eu canlyniadau a'u mesurau penodol) tua diwedd y prosiect i sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau.

8.16 **Argymhelliad 15:** Dylai'r canllawiau grant gynnwys mwy o fanylion ar disgwyliadau adroddiadau diwedd grant. Gellid adolygu'r gofynion adrodd fel bod gofyn i grantiau 'bach' a 'mawr' ddarparu'r un meysydd gwybodaeth yn yr adroddiad gwerthuso diwedd grant (fel argymhelliad 14), ond gan nodi bod gofyn i grantiau 'mawr' ddarparu gwybodaeth fanylach sy'n ymwneud â dulliau gwerthuso a thystiolaeth (a fyddai hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y canlyniadau a'r mesurau a'r targedau a'r gofynion tystiolaeth – argymhellion 9, 10 a 12).

8.17 **Argymhelliad 16:** Dylid darparu canllawiau ychwanegol i dderbynyddion y grant, lle bo angen, ynghylch monitro cynnydd. Dylai hyn gynnwys sut i gofnodi mesurau sy'n ymwneud ag allbynnau yn ystod cyflawni'r prosiect. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gan dderbynyddion yr offer i gasglu'r wybodaeth y bydd ei hangen arnynt ar gyfer y diweddariadau cynnydd, yn ogystal â'r adroddiad gwerthuso diwedd grant.

8.18 **Argymhelliad 17:** Ar gyfer prosiectau nad ydynt yn weithgaredd tymor byr, gallai'r tîm polisi Etholiadau ystyried cyfarfod prosiect hanner ffordd (un flwyddyn) neu flynyddol (aml-flwyddyn). Gallai'r drafodaeth gynnwys cynnydd tuag at ganlyniadau a sut mae'r rhain wedi'u mesur i nodi a yw'r derbynnydd ar y trywydd iawn neu a oes angen mwy o gymorth gwerthuso.

8.19 **Argymhelliad 18:** Gallai'r tîm polisi Etholiadau, gyda chymorth dadansoddi, archwilio dulliau er mwyn crisialu effeithiau tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys ystyried y ffactorau y byddai angen iddynt fod ar waith ar y dechrau, megis cyllid ac argaeledd data a gofynion.

**Cylch gwaith y cynllun cyllid grant**

8.20 **Argymhelliad 19:** Wrth ddatblygu unrhyw gynllun cyllid grant yn y dyfodol, dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried cyfeiriad y cynllun hwn yn seiliedig ar anghenion y sector yn yr adroddiad hwn. Dylent ystyried sut y gellid datblygu dulliau i ddiwallu'r anghenion hyn trwy gynllun grant, sy'n cynnwys:

- Cefnogi prosiectau mwy hirdymor neu aml-flwyddyn.
- Annog sefydliadau i gymryd dull mwy cydgysylltiedig, strategol o fynd i'r afael â materion ymgysylltu â democratiaeth a chyrraedd trawstoriad eang o grwpiau targed. Yn gysylltiedig ag argymhelliad 4, gan gadw pwysigrwydd Llywodraeth Cymru yn peidio â chyfarwyddo mewn democratiaeth, gallai canfyddiadau'r adroddiad hwn ac ymchwil a gomisiynwyd yn flaenorol helpu i benderfynu pa feysydd sy'n flaenoriaeth strategol ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth.

8.21 **Argymhelliad 20:** Os yw prosiectau tymor hwy a strategol yn cael eu hariannu yn unol ag argymhelliad 19, dylid ystyried gwerth cyffredinol y cyllid sydd ar gael fel ei fod yn darparu ar gyfer cydbwysedd priodol rhwng y prosiectau mwy hyn a phrosiectau tymor byr neu 'fach'.

8.22 **Argymhelliad 21:** Dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried a yw'n ymarferol dyfarnu grantiau dros gyfnod sy'n cydredeg ag allbynnau arfaethedig derbynyddion y grant, yn hytrach nag amserlen sy'n llwyr gysylltiedig â'r flwyddyn ariannol.

### Cyd-destun ehangach ymgysylltu â democratiaeth

8.23 Nid yw'r argymhellion canlynol o reidrwydd o fewn cylch gorchwyl y GYD nac unrhyw iteriadau o'r grant yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r argymhellion hyn yn bwysig ar gyfer ystyriaeth sefydliadol ehangach.

8.24 **Argymhelliad 22:** Yn gysylltiedig ag argymhellion 9 ac 11, gallai'r tîm polisi Etholiadau ystyried yr awgrym o weithio gyda sefydliadau arweiniol eraill yn y sector i greu fframwaith canlyniadau ymgysylltu â democratiaeth y cytunwyd arno. Er ei fod yn ehangach na'r GYD ac yn debygol o fod yn uchelgais tymor hwy, byddai dull cyson yn helpu yn y dyfodol i nodi canlyniadau cyffredin i fuddiolwyr ar draws prosiectau unigryw, ac wrth ddarparu canllawiau a gofynion ymgeisio ynghylch canlyniadau a mesurau.

8.25 **Argymhelliad 23:** Dylai'r tîm polisi Etholiadau roi gwybod i dimau polisi perthnasol Llywodraeth Cymru am yr anghenion a godwyd gan gyfranogwyr y cyfweliadau i'r GYD eistedd ochr yn ochr â mentrau ar gyfer mwy o addysg ddemocrataidd mewn ysgolion a chynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel yng Nghymru.

8.26 **Argymhelliad 24:** Dylai'r tîm polisi Etholiadau ystyried yr heriau a grybwyllwyd i awdurdodau lleol o ran cyflawni dyletswyddau ymgysylltu a materion adnoddau cysylltiedig. Gall fod yn fuddiol i'r tîm ymgysylltu ag awdurdodau lleol i rannu arferion gorau ynghylch defnyddio cyllid y GYD yng nghyd-destun yr heriau hyn.

**Adran gyfeirio**


Adran Dadansoddi'r Llywodraeth (Dim Dyddiad) The Theory of Change Process – Guidance for Outcome Delivery Plans [ar-lein]. Ar gael yn: https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/the-analysis-function-theory-of-change-toolkit/ (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Joseph Rowntree Reform Trust (Dim Dyddiad) UK Democracy Fund [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.jrrt.org.uk/what-we-do/the-uk-democracy-fund/ (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Cyfraith Cymru (2023) Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 [ar-lein]. Ar gael yn: https://cyfraith.llyw.cymru/deddf-senedd-ac-etholiadau-cymru-2020 (Cyrchwyd: 17 Rhagfyr 2024).

Cyfraith Cymru (2024) Deddf Llywodraeth Leol a Chymru 2021 [ar-lein]. Ar gael yn: https://cyfraith.llyw.cymru/deddf-llywodraeth-leol-ac-etholiadau-cymru-2021-0 (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Senedd yr Alban (Dim Dyddiad) Scottish Elections (Representation and Reform) Bill [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.parliament.scot/bills-and-laws/bills/s6/scottish-elections-representation-and-reform-bill (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Senedd Cymru (Dim Dyddiad) Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc [ar-lein]. Ar gael yn: https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/addysg-ac-ymgysylltu-a-phobl-ifanc/ (Cyrchwyd: 17 Rhagfyr 2024).

Senedd Cymru (2023) Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 [ar-lein]. Ar gael yn: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=41986 (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Senedd Cymru (2023) Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - Crynodeb o'r Bil [ar-lein]. Ar gael yn: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/bil-etholiadau-a-chyrff-etholedig-cymru-crynodeb-o-r-bil/ (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Etholiadol (Dim Dyddiad) Adnoddau i Addysgwyr [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/adnoddau/adnoddau-i-addysgwyr (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Etholiadol (Dim Dyddiad) Adnoddau i bobl ifanc [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/adnoddau/adnoddau-i-bobl-ifanc (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Etholiadol (2021) Adroddiad ar etholiadau mis Mai 2021 yng Nghymru [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/ein-hadroddiadau-a-data-ar-etholiadau-a-refferenda-yn-y-gorffennol/adroddiad-ar-etholiadau-mis-mai-2021-yng-nghymru (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Etholiadol (2022) Adroddiad ar etholiadau mis Mai 2022 yng Nghymru [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/ein-hadroddiadau-a-data-ar-etholiadau-a-refferenda-yn-y-gorffennol/adroddiad-ar-etholiadau-mis-mai-2022-yng-nghymru (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Etholiadol (2023) Adroddiad 2023: Cofrestrau etholiadol yn y DU [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/electoral-registration-research/cywirdeb-a-chyflawnrwydd-cofrestrau-etholwyr/adroddiad-2023-cofrestrau-etholiadol-yn-y-du (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Etholiadol (2023) Cofrestrau etholiadol Rhagfyr 2022 yng Nghymru [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.electoralcommission.org.uk/media/10425 (Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2022) Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: Adroddiad Interim [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-interim (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2022) Grwpiau Cymunedol ledled Cymru yn cynnal prosiectau ymgysylltu arloesol [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/Grwpiau%20cymunedol%20ledled%20Cymru%20yn%20cynnal%20prosiectau%20ymgysylltu%20arloesol (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2022) Eich Canllaw i'r Gronfa Ymgysylltu â'r Gymuned gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gronfa-ymgysylltu-ar-gymuned-html (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2024) Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: Adroddiad terfynol [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-terfynol (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2023) Diffinio, Mesur a Monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru [ar-lein]. Ar gael yn: https://wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/7600/ (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (Dim Dyddiad) Cwricwlwm i Gymru [ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html (Cyrchwyd: 7 Mawrth 2025).

Llywodraeth Cymru (2019) Adnewyddu Democrataidd: Tystiolaeth Gyfunol o Blaid Diwygio Etholiadol ym Maes Llywodraeth Leol. Adroddiad GSR rhif 13/2019 [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adnewyddu-democrataidd-tystiolaeth-gyfunol-o-blaid-diwygio-etholiadol-ym-maes-llywodraeth-leol (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2020) Cwricwlwm i Gymru: y Dyniaethau [ar-lein]. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/ (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2020) Adnewyddu Ymgysylltiad Democrataidd: Ymchwil Archwiliadol. Adroddiad GSR rhif 13/2020 [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adnewyddu-ymgysylltiad-democrataidd-ymchwil-archwiliol (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2020) Ystadegau cryno fesul rhanbarth Cymru: 2020. Adroddiad ystadegau rhif SFR 43/2020 [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020 (Cyrchwyd: 16 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2021) Rhaglen Lywodraethu: Diweddariad [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-html (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2021) Datganiad Ysgrifenedig: Diwygio Etholiadol [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwygio-etholiadol (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2021) Datganiad Ysgrifenedig: Fframwaith ar gyfer Diwygio Etholiadol [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-fframwaith-ar-gyfer-diwygio-etholiadol (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2022) Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-y-papur-gwyn-ar-weinyddu-diwygio-etholiadol-html (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2023) Datganiad Ysgrifenedig: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-bil-etholiadau-chyrff-etholedig-cymru (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2023) Datganiad Ysgrifenedig: Papur Gwyn Diwygio Etholiadol [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwygio-etholiadol (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2024) Hygyrchedd Ymgysylltu Democrataidd yng Nghymru: Adolygiad Tystiolaeth. Adroddiad GSR rhif 28/2024 [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/hygyrchedd-ymgysylltiad-democrataidd-yng-nghymru-adolygiad-tystiolaeth (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2024) Cymru wrth-hiliol [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymru-wrth-hiliol#Cynllungweithredu (Cyrchwyd: 17 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2024) Grant Ymgysylltu â Democratiaeth: Ffurflenni Cais [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/grant-ymgysylltu-democrataidd-ffurflenni-cais (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2024) Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru [ar-lein]. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-i-adroddiad-terfynol-y-comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-html (Cyrchwyd: 11 Rhagfyr 2024).

**Atodiad A. Cwestiynau canllaw pwnc i dderbynyddion y grant.**

[Adran: Rôl a chyfranogiad]

1. Allwch chi ddweud wrthyf **yn fras** am eich rôl o fewn eich sefydliad?
2. A beth fu eich lefel o ymwneud â chyflawni'r gweithgaredd a ariannwyd gan y Grant Ymgysylltu â Democratiaeth?

**Yn yr adran nesaf byddwn yn canolbwyntio ar ddiffinio ymgysylltu â democratiaeth a hefyd prosesau dylunio a chyflawni'r GYD.**

[Adran: Ymwybyddiaeth]

3. Sut ddaeth eich sefydliad yn ymwybodol o'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth?
4. Hyd y deallwch chi, beth yw nodau ac amcanion y Grant Ymgysylltu â Democratiaeth?
5. Yn eich geiriau eich hun, sut fyddech chi'n diffinio'r term 'ymgysylltu â democratiaeth'?
    - [AWGRYM]:Yn eich barn chi, beth mae'n ei olygu i rywun fod 'wedi ymgysylltu â democratiaeth'?

[Adran: Ymgeisio]

6. Dywedwch wrthyf am eich barn am y broses ymgeisio am y grant?
    a. [AWGRYMIADAU os oes angen: gofynnwch dim ond yr hyn nad yw'n cael ei gwmpasu yn y prif gwestiwn (6)]. Beth yw eich barn am...
        - Eglurder gofynion a meini prawf y grant?
        - Llenwi'r ffurflen gais?
        - Y canllawiau sydd ar gael?
        - Yr amser sydd ar gael i wneud cais a'r cylch chwarterol?]

*[**Os oes unrhyw beth yn anodd neu os oes unrhyw broblemau**, ymchwiliwch am ba newidiadau y gellid eu gwneud].*

[Adran: Gweinyddu/rheoli'r grant]

**Hoffwn ofyn i chi nawr am brosesau gweinyddu a rheoli'r grant.**

7. Beth yw eich barn am...
    a. Faint y cyfathrebu â swyddogion Llywodraeth Cymru drwy gydol y grant?
    b. Ac a oedd digon o gymorth ar gael gan swyddogion Llywodraeth Cymru?
    c. A beth am broses hawlio'r grant a llenwi ffurflen hawlio'r grant, gan gynnwys darparu diweddariad prosiect o fewn hyn?

*[**Os oes unrhyw beth yn gweithio'n llai da**, holwch am unrhyw newidiadau a fyddai'n helpu]*

8. A beth yw eich barn chi am y gofyniad i dderbynyddion y grant ymuno â'r Bartneriaeth Ymgysylltu â Democratiaeth?
    a. A oes unrhyw beth am y broses bartneriaeth sy'n gweithio'n arbennig o dda?
    b. A oes unrhyw newidiadau neu welliannau i'r broses yr hoffech eu gweld a pham?
9. Os o gwbl, beth fyddech chi'n ei ddweud oedd y canlyniadau allweddol i'ch sefydliad o ganlyniad i fod yn y bartneriaeth?
10. A wnaeth eich sefydliad gydweithio â sefydliadau eraill o ganlyniad i'r bartneriaeth ai peidio? *[Os felly, holwch ar beth wnaethon nhw gydweithio]*
    a. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y bartneriaeth yn cefnogi cydweithio ar draws sefydliadau a pham?
11. A ddysgodd eich sefydliad unrhyw fewnwelediadau defnyddiol neu arferion gorau o ganlyniad i fod yn y bartneriaeth ai peidio? *[Os felly, holwch beth]*
    a. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y bartneriaeth wedi cefnogi rhannu gwybodaeth ac arferion gorau, a pham?
12. A oes ffyrdd eraill rydych chi'n meddwl y gallai'r grant gefnogi cydweithio a rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau?
13. Ydych chi'n bwriadu parhau i fynychu cyfarfodydd y PYD [*ar gyfer prosiectau sydd wedi gorffen:* nawr] / [ar gyfer prosiectau aml-flwyddyn/heb eu gorffen: *ar ôl*] diwedd cyfnod eich grant neu beidio? Pam felly?

[Adran: Cyflawni prosiectau]

**Hoffwn siarad yn awr am y gwaith penodol a gyflawnodd eich sefydliad gyda'r cyllid grant.**

14. Dywedwch wrthyf sut y cynlluniodd eich sefydliad y rhaglen waith yr oeddech chi'n bwriadu ei chyflawni gyda'r cyllid grant?
    - [AWGRYM]: Pa broses neu gamau wnaethoch chi eu cymryd i benderfynu beth i'w wneud a sut i wneud hyn?
15. Ar y cyfan, beth oedd y prosiect yn **anelu at ei wneud** neu **wedi ceisio** ei gyflawni?
    a. [ar gyfer prosiectau gorffenedig] A allwch chi roi trosolwg i mi o'r hyn a gyflawnwyd?
    b. [ar gyfer prosiectau aml-flwyddyn/heb eu gorffen] A allwch chi roi trosolwg i mi o'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn?
16. A oedd unrhyw rwystrau rhag cyflawni unrhyw agweddau ar y prosiect?

    *[Er enghraifft, yr amser a oedd ar gael i'w gyflawni].* [***Os oedd unrhyw rwystrau**, holwch sut cawsant eu goresgyn/am wersi a ddysgwyd*].
17. A oedd unrhyw beth yn galluogi'r cyflawni neu brosesau a weithiodd yn arbennig o dda?

*[Nodyn i'r cyfwelydd: dylid hepgor unrhyw gwestiynau am y buddiolwyr sydd eisoes wedi'u hateb – efallai y bydd hyn wedi'i godi wrth drafod nodau'r prosiect, rhwystrau a galluogwyr cyffredinol]*

18. Pwy neu ba grwpiau oedd i fod yn brif fuddiolwyr y gweithgaredd a ariannwyd?
    a. Sut mae hyn yn cydredeg â gweithgareddau eich sefydliad yn ehangach?
19. Ar y cyfan, yn eich barn chi, a yw'r prosiect wedi ymgysylltu â'r grwpiau a fwriadwyd?
20. Beth wnaethoch chi i gyrraedd y buddiolwyr hyn?
21. A oedd unrhyw heriau i gyrraedd y buddiolwyr hyn?
    a. A oedd hyn yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau?
    b. Sut wnaethoch chi oresgyn y rhain?
22. A beth am lwyddiannau – a oedd unrhyw beth a weithiodd yn arbennig o dda?

23. Ai cyllid y grant ymgysylltu â democratiaeth oedd yr unig ffynhonnell o gyllid ar gyfer y gwaith, neu a oedd ffynonellau eraill?

24. A yw'r swm o gyllid y gwnaethoch chi gais amdano wedi bod yn addas, gan ystyried nodau ac amcanion y grant a'r hyn yr oedd eich sefydliad am ei gyflawni?

25. [Ar gyfer cynigion partneriaeth yn unig] Dywedwch wrthyf sut y gwnaethoch chi weithio gyda'ch sefydliad(au) partner trwy gydol y broses gyflawni?

    a. A oedd unrhyw rwystrau neu heriau i gydweithio?

    b. A oedd unrhyw alluogwyr a arweiniodd at waith partneriaeth llwyddiannus?

[Adran: Monitro a gwerthuso]

26. A oedd/oes gennych unrhyw brosesau ar waith i gynnal goruchwyliaeth o'r prosiect a chofnodi cynnydd? Beth oedd y rhain?

27. Pa brosesau, os o gwbl, oedd/sydd gennych ar waith i werthuso'r **effaith** y mae eich prosiect wedi'i chael o ran ymgysylltu â democratiaeth?

28. A oedd/oes gennych unrhyw brosesau ar waith i ddeall effeithiau y tu hwnt i ddiwedd uniongyrchol y prosiect neu beidio? Beth yw'r rhain?

29. A oedd unrhyw rwystrau neu heriau i gasglu gwybodaeth ar gyfer y gwerthusiad? Sut wnaethoch chi oresgyn y rhain?

    a. A wnaeth unrhyw beth eich atal rhag cynnal goruchwyliaeth a chofnodi cynnydd, neu wneud hynny'n anoddach?

30. A oedd unrhyw beth a'ch helpodd i gasglu gwybodaeth ar gyfer y gwerthusiad?

    a. A wnaeth unrhyw beth eich helpu i gynnal goruchwyliaeth a chofnodi cynnydd?

31. Beth yw eich barn am ddarparu adroddiad gwerthuso ar ddiwedd cyfnod cyllido'r cynllun grant?

32. A oedd hi'n glir ai peidio sut y dylech strwythuro eich gwerthusiad diwedd grant a beth i'w gynnwys?

33. Sut mae gofynion monitro a gwerthuso'r GYD yn cymharu â ffynonellau eraill o gyllid grant y mae eich sefydliad wedi'i gael? Os yw'n berthnasol, yn enwedig cyllid arall ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth.
34. Ar y cyfan, a oes unrhyw newidiadau rydych chi'n teimlo y gellid eu gwneud i broses monitro a gwerthuso'r grant?

**Yn yr adran nesaf byddwn yn canolbwyntio ar effeithiau canfyddedig y cynllun grant. Gall y rhain fod yn gadarnhaol ac yn negyddol.**

[Adran: Buddiolwyr]

Fe wnaethoch chi sôn yn gynharach mai'r buddiolwyr targed ar gyfer eich prosiect oedd <>.

35. Beth yw'r canlyniadau allweddol, a'r effeithiau, ar y buddiolwyr *[prosiectau sydd wedi gorffen]* a gymerodd ran? / *[prosiectau aml-flwyddyn/heb orffen]* sydd wedi cymryd rhan hyd yn hyn?

[Awgrymiadau penodol pellach sy'n cydredeg â nodau'r GYD – *holwch dim ond yr hyn na ofynnwyd yn awgrym 35:*]

   a. I ba raddau y mae'r prosiect wedi cefnogi ac annog y grwpiau arfaethedig i gymryd rhan mewn democratiaeth? Ym mha ffyrdd?
   b. I ba raddau mae'r prosiect wedi cymell a grymuso pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth? Ym mha ffyrdd?
   c. I ba raddau mae'r prosiect wedi rhoi'r offer i bobl wneud i'w llais gael ei glywed a chael effaith? Ym mha ffyrdd?

36. A oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol i fuddiolwyr o ganlyniad i'r cynllun grant? Gallai'r rhain fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

[Adran: Sefydliad]

**Symudwn ymlaen yn awr i feddwl am eich sefydliad.**

37. I ba raddau mae'r cyllid wedi cefnogi'ch sefydliad i ymgysylltu â'r boblogaeth dros gyfnod parhaus?
   a. Sut mae hyn yn cymharu â phrosiectau blaenorol ar ymgysylltu â democratiaeth?
38. Ar y cyfan, beth fu'r canlyniadau a'r effeithiau allweddol i'ch sefydliad o ganlyniad i'r grant?
39. Oes gennych gynlluniau i gymhwyso gwersi a ddysgwyd i brosiectau'r dyfodol? Os oes, sut?

40. A oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol i fuddiolwyr o ganlyniad i'r cynllun grant? Gallai'r rhain fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

41. Cyn y GYD, a oedd eich sefydliad yn ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru? Ym mha ffordd?

42. A yw eich sefydliad yn ymwneud ag ymgysylltu â democratiaeth mewn gwledydd eraill ar wahân i Gymru?

    a. **[OS YDY]:** A yw gweithredu yng Nghymru wedi newid agwedd eich sefydliad at ymgysylltu â democratiaeth mewn rhannau eraill o'r DU?

[Adran: Ehangach]

**Gan feddwl yn ehangach nawr.**

43. Ar y cyfan, a fyddech chi'n dweud bod unrhyw ganlyniadau ac effeithiau y mae'r grant wedi'u cael ar y sector ehangach?

**A meddwl am gyllid yn unig.**

44. Pe na baech wedi cael y cyllid, a fyddai eich sefydliad yn dal wedi gallu ymgymryd â'r gweithgareddau? Os felly, i ba raddau? *[h.y. ni allai fod wedi'u gwneud o gwbl, gallai fod wedi gwneud ond ar lai o raddfa, gallai fod wedi cyflawni'r un peth].*

45. Sut fyddech chi'n disgrifio anghenion sefydliadau yn y sector am gyllid yn maes ymgysylltu â democratiaeth?

46. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod y GYD yn diwallu'r anghenion cyllido hyn?

    a. A oes unrhyw beth y gellid ei wneud yn wahanol i ddiwallu anghenion y sector?

    b. Pa gyllid sydd angen ei gael?

47. **[I'r rhai y mae eu sefydliad yn ymwneud ag ymgysylltu y tu allan i Gymru (42)]:** Sut mae eich sefydliad yn parhau â'ch gweithgaredd ymgysylltu â democratiaeth mewn rhannau eraill o'r DU heb rywbeth tebyg i'r grant ymgysylltu â democratiaeth?

**Atodiad B. Cwestiynau canllaw pwnc ar gyfer awdurdodau lleol (ALl) a rhanddeiliaid allanol ehangach.**

[Adran: Cyflwyniad]

1. Allwch chi ddweud wrthyf **yn fras** am eich rôl o fewn eich sefydliad?
2. [Rhanddeiliaid ehangach yn unig]
    a. Cyn cysylltu â chi ar gyfer y cyfweliad hwn, pa mor ymwybodol oeddech chi o'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth?
    b. Oeddech chi'n ymwybodol o'r gweithgareddau penodol sy'n cael eu cynnal gyda chyllid y GYD?
        i. [Os oeddent yn ymwybodol o'r grant neu'r gweithgareddau]: Sut ddaethoch chi/ eich sefydliad yn ymwybodol o'r GYD?
3. [Pob Awdurdod Lleol (ALl)] Sut wnaethoch chi / eich ALl ddod yn ymwybodol o'r GYD?
4. [Awdurdodau Lleol sydd wedi derbyn a rhanddeiliaid ehangach]
    a. Sut mae eich rôl wedi ymwneud â'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth, os o gwbl?
    b. A beth am lefel y cyfranogiad i'ch sefydliad / ALl?
5. [ALl aflwyddiannus] Beth oedd eich lefel o gyfranogiad yn y broses pan wnaeth eich sefydliad gais i'r Grant Ymgysylltu â Democratiaeth?

[Adran: Ymgysylltu â democratiaeth]: **Yn y cwestiynau nesaf byddaf yn gofyn am ymgysylltu â democratiaeth yn ehangach a beth sy'n digwydd yn y sector.**

6. Yn eich geiriau eich hun, sut fyddech chi'n diffinio'r term 'ymgysylltu â democratiaeth'?
    - [AWGRYM]: Yn eich barn chi, beth yw ystyr bod 'wedi ymgysylltu â democratiaeth'?
7. Yn eich barn chi, beth yw'r materion allweddol i fynd i'r afael â nhw ynglŷn ag ymgysylltu â democratiaeth yn y boblogaeth yng Nghymru?
    - [AWGRYMIADAU]: A oes unrhyw grwpiau sy'n ymgysylltu llai? Pa elfennau o ymgysylltu â democratiaeth a chyfranogi ynddi? *[e.e. niferoedd isel yn cofrestru, gostyngiad cyfranogiad mewn etholiadau, diffyg ymwybyddiaeth wleidyddol]*

8. [Rhanddeiliaid ehangach yn unig]
    a. A beth am wledydd eraill yn y DU, ydych chi'n meddwl eu bod yn wynebu materion tebyg?
    b. [Os yw materion wedi'u nodi yn 7 neu 8]: A geisiwyd mynd i'r afael â'r materion hyn o'r blaen, ac os felly a fu hyn yn llwyddiannus?
        i. [Os na]: Pam felly, yn eich barn chi?
9. Yn eich barn chi, a yw'r GYD yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion ymgysylltu allweddol nad oes gwaith neu gyllid arall yn mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd yng nghyd-destun ymgysylltu â democratiaeth?
10. Yn eich barn chi, a oes unrhyw faterion ymgysylltu allweddol y dylai'r GYD fod wedi ceisio mynd i'r afael â hwy'n benodol, ond na wnaeth?

[Adran: Cyllid arall]

11. Ar wahân i'r GYD, a ydych chi'n ymwybodol o gymorth ariannol arall ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth **yng Nghymru**, ar hyn o bryd ac yn y gorffennol?
    a. Cymorth y Llywodraeth
    b. Arall
12. [Rhanddeiliaid ehangach yn unig] Ydych chi'n ymwybodol o gymorth ariannol arall ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth mewn **gwledydd eraill yn y DU**?
    a. Cymorth y Llywodraeth
    b. Arall
13. Beth yw'r prif heriau gyda'r cyllid a'r cymorth ar gyfer ymgysylltu â democratiaeth yn y sector yng Nghymru, neu'r bylchau ynddynt?
14. [Rhanddeiliaid ehangach yn unig] Ydych chi'n cael adborth gan y sefydliadau rydych chi'n gweithio gyda nhw am y bylchau cyllid, a pha fath o bethau maen nhw'n eu dweud?

[Adran: Cyllid y GYD]: **Rydyn ni'n mynd i symud ein ffocws yn ôl i'r GYD ar gyfer y rhan nesaf, yng nghyd-destun yr hyn rydyn ni newydd ei drafod.**

15. Yn eich barn chi, i ba raddau y mae'r GYD wedi helpu i fynd i'r afael â'r heriau neu'r bylchau o fewn ymgysylltu â democratiaeth?
    - [AWGRYMIADAU, BARN AM]:
        - Y cylch lle mae ceisiadau am gyllid y GYD yn agor bob chwarter.
        - Y dull o redeg am ddwy flynedd ariannol lawn.
        - Swm y cyllid sydd ar gael.
        - Y gallai prosiectau ymgeisio am gyllid aml-flwyddyn.
        - Y gallai prosiectau llai o faint neu beilot ail-ymgeisio am ragor o gyllid os oes canlyniad llwyddiannus.
        - Bod yn agored i'r trydydd sector ac awdurdodau lleol yn unig.
16. Sut mae'r GYD yn cymharu â rhaglenni cyllido ymgysylltu â democratiaeth blaenorol **Llywodraeth Cymru**?
17. Sut mae'r GYD yn cymharu â rhaglenni cyllido ymgysylltu â democratiaeth **parhaus eraill** yng **Nghymru**?

**Ac felly, o ystyried i ba raddau y mae'r GYD wedi helpu i fynd i'r afael â heriau, a chymariaethau â chynlluniau eraill [ar gyfer 18 i 21]:**

18. A oes unrhyw newidiadau i ddyluniad y GYD a fyddai'n ddefnyddiol i'w gwneud neu eu cymhwyso i unrhyw raglenni cyllido grant yn y dyfodol?
    - [AWGRYMIADAU]:
        - A oes unrhyw beth y gellid ei wneud yn wahanol i ddiwallu anghenion y sector?
        - Pa ddull cyllido sydd angen ei gael?
19. Ac, yn eich barn chi, pa elfennau o'r GYD sy'n gweithio'n dda? *[h.y. beth ddylai aros yr un fath os caiff ei ailadrodd yn y dyfodol]*

20. [Allanol Ehangach yn unig]: Sut mae sefydliadau'n parhau â'ch gweithgaredd ymgysylltu â democratiaeth mewn rhannau eraill o'r DU heb rywbeth tebyg i'r grant ymgysylltu â democratiaeth?
21. Ar y cyfan, pe na bai Llywodraeth Cymru yn darparu'r GYD, sut olwg fyddai ar y maes cyllid a chymorth?
    - [AWGRYM]: Beth yw'r dewisiadau amgen?

[Adran: Sut mae'r GYD yn effeithio ar y sefydliad – Rhanddeiliaid ehangach ac ALl sy'n derbyn]

22. Beth fu effeithiau'r GYD, os o gwbl, ar eich sefydliad/ALl?
23. A yw'r cynllun grant wedi cefnogi eich sefydliad/ALl mewn unrhyw ffordd?
    - [AWGRYM OS OES ANGEN]: Gallai hyn gynnwys effeithiau ar eich sefydliad a'r gwaith rydych chi a'ch cydweithwyr yn ei wneud. Er enghraifft, perthnasoedd newydd, cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth, cefnogi gwaith presennol, neu ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith newydd.
24. A oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol i fuddiolwyr o ganlyniad i'r cynllun grant? Gallai'r rhain fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

[Adran: Effeithiau ehangach]

25. Ydych chi'n meddwl bod y GYD wedi cael unrhyw effeithiau ehangach ar y sector? Os felly, beth fyddech chi'n ei ddweud yw'r rhain?
26. Yn eich barn chi, beth, os o gwbl, yw canlyniadau anfwriadol y cynllun grant i'r sector? Gallai'r rhain fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.

[Adran: Ymgeisio – ALl aflwyddiannus]

27. Dywedwch wrthyf beth yw eich barn am y broses ymgeisio am y grant?
    - [AWGRYM OS OES ANGEN]: eglurder y gofynion a'r meini prawf, llenwi ffurflen gais, canllawiau sydd ar gael, amser sydd ar gael i wneud cais.
28. A oedd unrhyw beth roeddech chi'n teimlo ei fod wedi gweithio'n arbennig o dda neu'n llai da ynglŷn â'r broses ymgeisio?
29. Ydych chi'n ystyried ail-ymgeisio am y GYD ai peidio? Pam felly?

30. Beth, os rhywbeth, fyddai ei angen ar eich sefydliad i'w gefnogi i ymgeisio eto?

[Adran: Gweithio mewn partneriaeth]: **Yn olaf, hoffem drafod gweithio mewn partneriaeth yn y sector.**

31. Beth yw eich barn chi am weithio mewn partneriaeth ar draws sefydliadau sy'n gweithio mewn ymgysylltu â democratiaeth?
    a. Beth yw'r heriau allweddol?
32. A oes unrhyw brosesau neu strwythurau y gallai rhaglen cyllid grant eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r heriau hyn?
33. Ydych chi'n teimlo bod elfen partneriaeth ymgysylltu â democratiaeth y GYD yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau?
34. [Os oes amser: Rhanddeiliaid ehangach]:
    a. Ydych chi neu eich sefydliad wedi gweithio gydag unrhyw sefydliadau ar brosiectau sydd wedi'u hariannu gan y GYD?
        - [AWGRYM]: Ym mha ffyrdd *[h.y. cymorth cyflenwi, hyfforddiant, cyngor, sicrhau ansawdd, darparu adnoddau]*
    b. Allwch chi ddisgrifio eich proses chi neu eich sefydliad o weithio gyda'r sefydliad(au) sydd wedi cael y grant?
        - [AWGRYM]: A oedd unrhyw rannau o'r broses a weithiodd yn arbennig o dda neu yn llai da?